

Y Fenter Pobl mewn  
Cymunedau:  
Gwerthusiad Interim  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru



Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth:

**Sarah Ballard**

Cyfarwyddiaeth Dai

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ



Ffôn: 029 2082 3353

E-bost: [sarah.ballard@wales.gsi.gov.uk](mailto:sarah.ballard@wales.gsi.gov.uk)

Gwefan: <http://www.wales.gov.uk>

# **Cynulliad Cenedlaethol Cymru Y Fenter Pobl mewn Cymunedau**

**Hydref 2001**





|                                                                                    |            |
|------------------------------------------------------------------------------------|------------|
| <b>Crynodeb</b>                                                                    | <b>iii</b> |
| <b>1. Cyflwyniad</b>                                                               | <b>1</b>   |
| <b>2. Cynnydd mewn cymhariaeth â'r amcanion</b>                                    | <b>7</b>   |
| <b>3. Cryfderau a gwendidau dyluniad, gweithredu a darparu Pobl mewn Cymunedau</b> | <b>19</b>  |
| <b>4. Beth sydd wedi cael ei gyflawni o safbwynt cefnogi barn y gymuned?</b>       | <b>51</b>  |
| <b>5. Faint o adeiladu gallu sydd wedi cael ei gyflawni?</b>                       | <b>59</b>  |
| <b>6. Sut mae'r gwasanaethau wedi cael eu newid?</b>                               | <b>63</b>  |
| <b>7. Trefniadau dilyniant</b>                                                     | <b>69</b>  |
| <b>8. Cryfderau a gwendidau y fframwaith gwerthuso</b>                             | <b>71</b>  |
| <b>9. Dyfodol y rhaglen bolisi sy'n berthnasol i Pobl mewn Cymunedau</b>           | <b>77</b>  |
| <b>10 Gwersi i Cymunedau'n Gyntaf</b>                                              | <b>87</b>  |





## Yr astudiaeth

Comisiynwyd y Gwerthusiad Interim yma o Fenter Pobl mewn Cymunedau (PmC) yn Hydref 2000. Cafodd ein syniadau cychwynnol eu bwydo'n ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol yn Rhagfyr 2000 ar ôl i'r ymweliadau cyntaf ag ardaloedd a chydgyssylltwyr Pobl mewn Cymunedau gael eu cwblhau. Rhoddwyd adborth i'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r casgliadau interim ddechrau Chwefror ar ôl cwblhau'r ddwy brif elfen yn y gwaith maes, sef y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau gyda'r panel proffesiynol.

Gwnaethpwyd yr Astudiaeth gan Cambridge Policy Consultants mewn cydweithrediad â Danny Burns (Ysgol Astudiaethau Polisi, Prifysgol Bryste) ac Arwel Jones (Arwel Jones Associates).

## Manyleb yr Ymchwil

Yr oedd y fanyleb ymchwil ar gyfer gwerthusiad interim o'r rhaglen Pobl mewn Cymunedau yn dweud mai'r pwrpas oedd:

"casglu gwybodaeth ynglŷn â'r argraff gynnar y mae'r rhaglen yn ei chael ac ynglŷn â strwythur y rhaglen, gan ddefnyddio hyn er mwyn bwydo gwybodaeth ar gyfer gweithredu, monitro a gwerthuso ail rownd Pobl mewn Cymunedau (sydd newydd ddechrau) ac ar gyfer sefydlu agwedd wahanol tuag at adfywio ardaloedd (Cymunedau'n Gyntaf) sydd ar hyn o bryd yn cael ei datblygu gan y Cynulliad Cenedlaethol"

Yr oedd y briff yn manylu ynglŷn â'r angen fel a ganlyn:

"Mae rhaglen werthuso gymhleth wedi cael ei chynllunio ar gyfer Pobl mewn Cymunedau, gyda mewnbwn gan y client (Cynulliad Cenedlaethol Cymru), gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol, gan y sector gwirfoddol a chynrychiolwyr cymunedau yn ogystal â gan ymchwilwyr profiadol. Felly mae'r gwaith sy'n cael ei amlinellu yn y fanyleb hon yn rhan o broses sydd yn llawer mwy eang."

## Y fframwaith gwerthuso

Fel hyn y disgrifiwyd yr wyth cydran oedd yn fframwaith werthuso y Cynulliad Cenedlaethol, a'r mewnbwn yr oedd ei angen gan y contractwr:

- Σ Grwpiau ffocws (y contractwr i fod yn bresennol ac i ddadansoddi deilliannau);
- Σ Panel Cymunedol (y contractwr i ddylunio'r holiadur ac i'w ddadansoddi);
- Σ Panel Proffesiynol (y contractwr i gynnull panel o bum gweithiwr proffesiynol allweddol sy'n gweithio yn y gymuned ac i gynnal cyfweiliadau);
- Σ Stori'r Gymuned (y contractwr i werthuso Stori'r Gymuned);
- Σ Dangosyddion Eithrio Cymdeithasol (y contractwr i amlinellu natur a maint yr anfanteision sy'n cael eu dioddef gan unigolion ac aelwydydd ym mhob un o'r cymunedau);
- Σ Gwerthuso newid corfforaethol a newid polisi (y contractwr i adrodd ar sut mae'r ymagweddiad strategol yma (modelau newydd o ddarparu gwasanaeth, y

cyhoedd yn fwy cyfrannog mewn dylunio a darparu'r gwasanaeth, a chyfranogi go ddifrif rhwng yr awdurdodau lleol â'u cymunedau) yn cael ei rhoi ar waith ym mhob ardal leol ac yn y Cynulliad yn ganolog);

- Σ Adroddiadau Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol. Nid oedd y contractwyr yn ymwneud â hyn.
- Σ Adroddiadau'r Cydgysylltwyr. Nid oedd y contractwyr yn ymwneud â hyn.

## Y Fenter Pobl mewn Cymunedau

Roedd Pobl mewn Cymunedau yn fenter polisi a ddyfeisiwyd gyntaf gan y Swyddfa Gymreig ac a fabwysiadwyd a'i hyrwyddo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd yn rhan o'r strategaeth gyffredinol oedd gan y Swyddfa Gymreig i ddelio gydag eithrio cymdeithasol. Dyluniwyd y fenter er mwyn:

"dangos ffyrdd i gymunedau dan anfantais gyflawni newid cadarnhaol:

- Σ trwy weithredoedd cydgysylltiedig yn seiliedig ar gynllun strategol y bu'r gymuned yn gyfrannog yn ei ddatblygu a'i gytuno;
- Σ trwy ddefnyddio a gwneud y gorau o'r budd sy'n dod iddynt o gyllid llywodraeth leol a llywodraeth ganol ac o ffynonellau eraill;
- Σ A thrwy ddylanwadu ar y ddarpariaeth o wasanaethau presennol yn yr ardal."

### (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 24/98)

Cafodd y fenter Pobl mewn Cymunedau ei lansio gan Mr Win Griffiths AS ar 1af Mai 1998. Dilynwyd hynny gan Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 24/98, a anfonwyd ar 29ain Mehefin. Roedd y Cylchlythyr yn gosod nodau, sgôp a strwythur y fenter. Yr oedd hefyd yn gwahodd Prif Weithredwyr awdurdodau lleol i enwebu un gymuned ym mhob awdurdod lleol erbyn 31 Gorffennaf 1998 ond ychydig oedd yn cael ei ddweud am y ffordd y disgwyliad i'r fenter weithio. Mis yn unig oedd hyn yn ei roi i awdurdodau lleol ddynodi ardal, penderfynu sut i ymateb ac ymgynghori gyda chymunedau lleol. Dewiswyd wyth ardal yn dilyn ymweliadau ym mis Medi gan weinidogion ac aelodau o'r panel dewis. Cyhoeddwyd pa ardaloedd oedd wedi eu dewis ar 7 Hydref 1998.

Rhoddwyd cymeradwyaeth i symud ymlaen gydag wyth ardal yn Ebrill 1999. Yr wyth ardal yma oedd:

- Σ Deiniolen, Dinorwig a Chlwt y Bont (Gwynedd);
- Σ Peulwys (Conwy);
- Σ Southsea a Brynteg (Wrecsam);
- Σ Rhymni (Caerffili);
- Σ Rhiwgarn (Rhondda Cynon Taf);
- Σ Duffryn (Casnewydd);
- Σ Gurnos/Galon Uchaf (Merthyr Tudful);
- Σ Blaenymaes/Portmead (Abertawe).

Dylanwadodd amcanion Pobl mewn Cymunedau, ynghyd â'r canllawiau, ar

lawer o'r prosiectau PmC gan wneud iddynt feddwl am Gynllun Gweithredu cynhwysfawr i adfywio'r ardal. Y bwriad oedd cysylltu'r hyn oedd yn cael ei gyflawni gyda'r deilliannau amddifadedd o fewn 3 – 5 mlynedd. Nid yr ardaloedd a ddewiswyd gan yr awdurdodau lleol oedd y gwaethaf o'u holl ardaloedd, ond yr oeddynt yn aml yn ardaloedd oedd wedi cael eu gadael allan yn y gorffennol.

Ym mhob ardal rhoddwyd rolau allweddol o safbwynt gweithredu'r fenter i Gydgysylltydd Datblygu ac i Gefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol. Roedd y Cydgysylltydd i gael ei benodi gan banel (na fanylwyd ynglŷn â'i gyfansoddiad). Roedd y panel i gael ei gyflogi gan y Cyngor, gyda'r Cynulliad yn talu amdano am y flwyddyn gyntaf a'r awdurdod lleol yn talu ar ôl hynny. Byddai hynny yn sicrhau bod yr awdurdod yn ymrwymo'n llawn i'r cynllun. Y cydgysylltydd fyddai'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r PmC. Byddai Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol yn cael ei enwebu ym mhob awdurdod lleol, swyddog a fyddai ar lefel Cyfarwyddwr. Ei rôl fyddai agor drysau a hwyluso pethau ar yr ochr weithredol er mwyn cyflawni'r PmC yn effeithiol. Ganddynt hwy i bob pwrpas yr oedd y cyfrifoldeb o fod yn rheolwyr llinell i'r Cydgysylltwyr, er bod rhai ohonynt wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb hwnnw i swyddogion polisi.

### Casgliadau allweddol

Roedd menter Pobl mewn Cymunedau yn cynrychioli dimensiwn newydd yn y rhaglen bolisi ar gyfer adfywio cymdogaethau. Un o'i amcanion oedd newid y ffordd yr oedd gwasanaethau lleol yn cael eu darparu. Yn hyn o beth yr oedd cyfle i arbrofi gyda

ffyrdd o wneud y ddarpariaeth leol yn fwy effeithiol. Byddai'r gwersi a godai o hyn yn effeithio ar bob gwasanaeth lleol ac ar y gwasanaethau prif ffrwd, felly yn y tymor hir mae modd i'r fenter hon wneud argraff llawer mwy pellgyrhaeddol a llawer mwy cynaliadwy na mentrau adfywio eraill. Yn aml, yr unig beth y mae'r mentrau hynny yn ei wneud yw ategu gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn lleol, ar gost sylweddol, tra pery'r mentrau. Prin yw eu heffaith ar ddarpariaeth yn y tymor hir. Mae'r gwahaniaeth sydd yn lefelau amddifadedd mewn rhai ardaloedd yn gwneud adfywiad ardal yn hanfodol er mwyn rhoi'r gallu i unigolion ac aelwydydd gymryd rhan yn y ddarpariaeth prif ffrwd a chael rhyw fudd o'r gwasanaethau hynny. Felly mae adfywiad ardal yn elfen hanfodol yn y pecynnau polisi traddodiadol. Ond mae'r egwyddorion sydd wrth wraidd Pobl mewn Cymunedau yn gallu dod â buddiannau sylweddol i lawer o bobl mewn ardaloedd amddifadus am lawer llai o gost. Mae'r egwyddorion hynny yn cynnwys adeiladu ar Werth Gorau yn y meysydd gwasanaeth, a cheisio cytgordio'r ddarpariaeth er mwyn creu atebion holistig i broblemau thematig sy'n torri ar draws nifer o wahanol wasanaethau. Mae adeiladu gallu, adeiladu ymddiriedaeth, rhwydweithio a normau positif ym ymwneud yn fwy ag amser pobl nag â'r cyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf neu brosiectau refeniw mawr.

Dyma'r casgliadau allweddol sydd wedi deillio o'r gwerthusiad:

- **Roedd y syniad tu ôl i Bobl mewn Cymunedau, fel menter arbrolfol gyda'i hathroniaeth a'i hamcanion arbennig ei hun, yn un pellgyrhaeddol. Ym**

- maes adfywio ardaloedd yr oedd yn newid cyfeiriad amlwg a chadarnhaol. Ond yr oedd gwallau yn y ffordd y gweithredwyd y cynllun gan na osododd y Swyddfa Gymreig (na'r Cynulliad Cenedlaethol ar ei hôl) drefniadau yn eu lle i gefnogi'r fenter; trwy wneud yn siŵr bod gwersi yn cael eu dysgu a'u rhannu, trwy roi arweiniad ynglŷn ag egwyddorion y fenter a thrwy sicrhau bod fframwaith yn bodoli er mwyn derbyn yr adborth a datblygu'r polisi yn barhaus;
- Roedd amcanion Pobl mewn Cymunedau yn cyfuno dau beth – dylanwadu ar ddarparu gwasanaethau, ac adfywio ardaloedd. Ond oherwydd yr amser byr a roddwyd i bobl ymateb i'r gwahoddiad, a diffyg unrhyw arweiniad penodol ynglŷn ag egwyddorion y fenter, gadawyd pobl i gyflwyno bidiau am yr hyn yr oeddynt yn gwybod amdano orau – adfywiad ardal – heb iddynt gael yr amser na'r hyder i feddwl sut i newid prosesau a mabwysiadu ffyrdd arbrolfol o wneud pethau;
  - Mae'r ffaith nad oes fframwaith barhaol o fonitro, na rheolaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol ar y broses o werthuso'r cynllun, wedi cyfyngu cryn dipyn ar y sylfaen o dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer dysgu gwersi – er mai hynny oedd bwriad gwreiddiol y gwerthusiad. Felly ychydig oedd y Cynulliad wedi ei ddysgu am y Fenter nes i'r gwerthusiad yma gael ei roi ar waith;
  - Fe ddylai'r Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad Cenedlaethol fod wedi sefydlu fframwaith er mwyn dysgu gwersi parhaus o'r cychwyn cyntaf, o fewn y Cynulliad ei hun ac yn yr ardaloedd PmC. Dylid bod wedi cefnogi hyn gyda digon o adnoddau i fwrw ymlaen â'r arbrolfion, yn hytrach na dim ond i gadw rheolaeth ar wariant.
  - Mae pob un o ardaloedd Pobl mewn Cymunedau wedi bod yn llwyddiannus mewn nifer o ffyrdd sy'n cyfrannu at yr hyn a gyflawnwyd gan y fenter, sef:
    - annog swyddogion uwch y darparwyr gwasanaethau i fod yn gyfrannog yn y fenter o'r cychwyn cyntaf
    - mae pob un wedi sefydlu partneriaeth lleol;
    - mae bron pob un wedi datblygu Cynllun Gweithredu sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, ac wedi cael addewid am y 3 – 5 mlynedd nesaf gan y partneriaid cyllidol;
    - mae llawer o brosiectau wedi cael eu sefydlu yn y cyfnod, a bu rhai o'r Pobl mewn Cymunedau yn eithriadol o lwyddiannus mewn codi arian ychwanegol, yn arbennig arian o Ewrop;
    - maent wedi defnyddio prosiectau er mwyn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol ac wedi datblygu ffyrdd o gydweithio er mwyn darparu gwasanaethau.

- Mae gweithio ar y cyd mewn ardaloedd PmC wedi meithrin gwell dealltwriaeth o broblemau ac wedi dechrau datblygu syniadau ynglŷn â ffyrdd posib o ymateb. Ond hyd yma nid yw'r PmC wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn o beth ddylai gael ei newid.
- Roedd y syniad o Gefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol a Chydgyssylltydd yn ffactor pwysig yn y llwyddiant. Ond mae dau beth wedi bod ar goll yn strwythur Pobl mewn Cymunedau, sef rhwydwaith o reolwyr uwch yn ymestyn ar draws asiantaethau (tu draw i ffiniau awdurdodau lleol) a rhwydwaith o weithwyr proffesiynol rheng flaen (ar gyfer yr ardal PmC);
- Roedd proffil Pobl mewn Cymunedau yn uchel i ddechrau, diolch i'r Cynulliad Cenedlaethol, a bu'n gatalydd i ddod â phobl mewn swyddi uchel i gysylltiad a'i gilydd – ond mewn rhai ardaloedd, lle nad oedd fawr ymrwymiad yn lleol na chanfyddiad bod gan y Cynulliad lawer o ddiddordeb, yr oedd yn anodd cadw'r momentwm;
- Mae'r rhan fwyaf o'r cydgysylltwyr wedi dod i ddeall bod trigolion wedi hen flino ar y dulliau traddodiadol o ymgynghori a'u bod wedi colli pob hyder ynddynt. Maent wedi gweld bod ffyrdd newydd o gydgysylltu â thrigolion mewn gweithgareddau wedi bod yn fwy llwyddiannus;
- Mae PmC wedi gweld sut mae'n bosib adeiladu ar ben rhaglenni eraill, er enghraifft ar y rhaglen

anghydraddoldeb mewn iechyd sydd wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mae rhai adrannau ac asiantaethau, yn arbennig Gwaith Cymdeithasol ac weithiau tai, sydd heb fod mor amlwg ym mlaen y gad ac mae'n bosib na fyddant byth yn ymuno â'r rhaglen yn llawn. Rhaid i'r PmC benderfynu a ydynt am ddisgwyl amdanynt ynteu am symud ymlaen;

- Nid yw'r mentrau PmC wedi rhoi digon o sylw i'w delwedd ac i'w proffil. Rhaid iddynt sefydlu sianeli cyfathrebu er mwyn rhannu eu llwyddiannau, ac er mwyn gwneud y gwersi yn fwy amlwg i asiantaethau lleol ac i'r Cynulliad, sydd yn gyfrifol am ledaenu'r profiad trwy'r wlad i gyd. Mae'n bosib y bydd Storïau'r Cymunedau, sydd wrthi'n cael eu paratoi ar hyn o bryd, yn mynd rywfaint o'r ffordd at lenwi'r bwlch yma;
- Nid yw'r neges wedi mynd trwodd y gall gwario yn flaengar ar draws ffiniau gwasanaethau heddiw, arwain at wario llawer mwy effeithiol yn y dyfodol. Ar hyn o bryd nid yw'r sylfaen o dystiolaeth yn ddigonol.

### Cyraeddiadau mewn cymhariaeth ag amcanion

Roedd gan y Cydgysylltwyr syniadau ynglŷn â'r hyn y dylai eu prosiectau fod yn ei gyflawni yn ymarferol. Er nad oedd hynny yn ddigon, o bosib, i achosi newid yn y dull o ddarparu gwasanaethau, yn ôl y meini prawf hynny y bydd rhaid asesu'r cynlluniau. Y meini prawf hynny yw:

- Σ sefydlu partneriaeth leol gyda'r gymuned yn gyfrannog ynddi;
- Σ Cynllun Gweithredu wedi cael ei gymeradwyo gan Fwrdd y Bartneriaeth, i gael ei weithredu dros dair blynedd, a gyda'r partneriaid wedi ymrwymo ymlaen llaw i'w weithredu;
- Σ y dylid cytuno ar gyflawniad y prosiectau gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yn y contractau blyneddol.

Roedd pob PmC wedi sefydlu Bwrdd Partneriaeth ffurfiol erbyn dechrau 2001. Cafodd rhai eu datblygu allan o grwpiau aml-asiantaeth oedd yn bodoli'n barod a chafodd rhai eraill eu cychwyn o'r newydd. Daliodd rhai yn ôl rhag ffurfio'r bartneriaeth nes yr oeddynt yn fodlon mai dyna'r cyfansoddiad gorau at y dyfodol. Serch hynny, pwrpas sefydlu'r Byrddau oedd cefnogi adfywiad yn yr ardal, nid datblygu rheolaeth gynaliadwy yn y gymdogaeth ar sail newid y broses o ddarparu gwasanaethau lleol.

Mae chwech PmC wedi cymeradwyo cynllun gweithredu ac wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. Ond mae llawer o'r cynlluniau hyn sydd ddim gwahanol i'r cynlluniau adfywio traddodiadol oedd yn cael eu seilio ar brosiectau cyfalaf a refeniw. Yr unig wahaniaeth o bwys yw bod y rhain yn gwneud ymrwymadau at y dyfodol yn hytrach na'u bod yn brosiectau nodweddiadol.

Mae'r rhan fwyaf o'r mentrau PmC wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar sail archwiliad o anghenion neu ar sail blaenoriaethau cymunedol a sefydlwyd trwy

ymgyngoriad. Mae rhai prosiectau PmC wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn defnyddio arian PmC er mwyn cael arian ategol oddi wrth bartneriaid ac o ffynonellau eraill, gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol Ewrop. Er enghraifft:

**"Mae Pobl mewn Cymunedau wedi bod yn bwysig iawn yn y ffordd y mae wedi creu agoriad at gronfeydd eraill ac mae hynny wedi gwneud argraff ar reolwyr uwch (er gwaethaf eu hamheuron ar y dechrau) ac ar yr aelodau. Yr oedd yr aelodau yn benderfynol o wneud yr ardal yn ffocws i adfywiad o fewn yr Awdurdod Lleol ac yr oedd statws Pobl mewn Cymunedau yn help i gadarnhau hynny" (Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol)**

Nid yw'n bosib gwneud asesiad cadarn o pa mor effeithiol y bu'r prosiectau hyn, oherwydd er gwaethaf yr ymgynghori cychwynnol gyda chydgyssylltwyr ac awdurdodau lleol, ychydig iawn o fonitro a fu, ac eithrio monitro gwariant Felly ychydig o dystiolaeth sydd ar gael i ddangos beth oedd deilliannau'r prosiectau, heb sôn am eu heffaith ar ffyniant y trigolion.

Mae'n hasesiad ni o gynnydd Pobl mewn Cymunedau mewn cymhariaeth â'r amcanion yn dangos bod pob un ohonynt wedi gwneud rhywfaint o gynnydd a bod rhai wedi gwneud mwy o gynnydd na'i gilydd. Mae hyn yn rhannol oherwydd gwahaniaethau yng ngallu awdurdodau lleol a chymunedau lleol i adfywio ardaloedd. Ac mae'n rhannol oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y defnyddiwyd arian Pobl mewn Cymunedau, yn arbennig o safbwynt denu arian ategol. Ffactor arall oedd

effeithiolrwydd y cydgysylltydd a'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol.

Mae Pobl mewn Cymunedau wedi hyrwyddo newid yn y ffordd mae asiantaethau yn gweithio yn lleol. Yr oedd y cydgysylltwyr a'r Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol oedd ym meddu profiad blaenorol o adfywiad yn mynegi'r farn ganlynol:

"Yr oedd fel dod yn erbyn nenfwd gwydr. Dim ots pa waith gwyh yr oeddem ni'n ei wneud o'r gwaelod i fyny, os nad oedd y prif asiantaethau yn barod i newid y ffordd yr oeddem yn gweithio doedd dim modd i ni fynd ddim pellach" (Cydgysylltydd)

O safbwynt disgresiwn lleol i ddefnyddio arian yr asiantaethau, mae'r un sefyllfa yn dal i fodoli mewn llawer ardal. Ond bu rhai camau ymlaen. Mae'r sylw sy'n dilyn yn nodweddiadol o'r farn gyffredinol:

**"Mae Pobl mewn Cymunedau wedi hyrwyddo mwy o gydweithrediad rhwng asiantaethau mewn ardal lle mae gan bobl, os gallaf ddweud hyn yn ofalus, ymroddiad llwyr i'w sefydliadau eu hunain, gan gau'r drws weithiau ar sefydliadau eraill. Mae Pobl men Cymunedau wedi bod yn help i chwalu hynny" (Cydgysylltydd)**

Erbyn hyn mae llai o feddwl yn ynysig, a mwy mewn rhai ardaloedd yn dechrau rhannu yr un nodau a'r un amcanion. Ond hyd yma mae'r cyllidebau yn dal i fod wedi eu hynysu ac heb gael eu cysylltu â'i gilydd er mwyn mynd i'r afael â materion allweddol sy'n torri ar draws ffiniau gwahanol asiantaethau.

## Cryfderau a gwendidau'r fenter

### Gwahoddiadau

Roedd y ffordd y dewiswyd y cynlluniau peilot unigol yn ffactor bwysig o safbwynt penderfynu pa mor effeithiol y byddai'r cynllun. Mae'r broses o ddewis y bidiau yn cyfuno y broses o wahodd, y broses o wneud bidiau a'r broses o ddewis yr ardaloedd.

Anfonwyd gwahoddiadau i wneud bid at yr awdurdodau lleol. Yr oedd disgwyl iddynt hwy fod yn bartneriaid arweiniol. Prif fanteision awdurdodau lleol yw:

- Σ bod ganddynt, yn eu cynghorwyr, sail ddemocrataidd i weithredu'n lleol;
- Σ bod ganddynt drefn o sicrhau atebolrwydd cyllidol;
- Σ ac, yn bennaf, mai awdurdodau lleol yw'r cyrff sydd yn bennaf yn darparu llawer o'r gwasanaethau prif ffrwd yn y cymunedau y mae Pobl mewn Cymunedau yn ceisio dylanwadu arnynt.

Ond mae anfanteision hefyd i gael yr awdurdod lleol yn bartner arweiniol. Yr anfanteision pennaf yw'r canlynol:

- Σ y mae'n wireb bron bod y gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am eu darparu, yn methu â chynnal ansawdd bywyd;
- Σ yn aml iawn, does dim cartref naturiol i ddatblygiad cymunedol, os nad oes uned datblygu cymunedol yn rhyw ran o'r awdurdod lleol;

Σ un o amcanion allweddol y fenter hon yw dylanwadu ar ddiwylliant ac agweddau'r sefydliadau sy'n rhan o'r bartneriaeth, gan bwysu i gyfeiriad gweithredu ar sail pwnc. Yn hyn o beth mae awdurdodau lleol yn dargedau amlwg ar gyfer newid.

**Mae'r broses wedi cyfyngu ar y cyfle i gynnal datblygiadau arbrolfol, nid yn unig am bod pob sefydliad yn gweld unrhyw fenter yn ffynhonnell arall o arian ond oherwydd eu bod yn cael eu gyrru gan y rhaglenni sydd ganddynt yn barod. Felly maent yn troi at yr opsiynau diogel sydd wedi cael eu hen brofi o'r blaen am eu bod yn ei chael yn anodd cymryd y risg o fethu.**

**"os nad ydym yn gwybod pa feini prawf fydd yn cael eu defnyddio i ddewis prosiectau, byddwn yn tueddu i chwarae'n ofalus a mynd am yr hyn yr ydym ni'n ei wybod orau er mwyn cael yr arian" (swyddog llywodraeth leol"**

### **Gwneud Bidiau a'r Canllawiau**

Mae angen mwy o arloesi, a hynny wedi ei dymheru trwy weithio'n agos gyda darparwyr y gwasanaethau ac efallai trwy gyflwyno bidiau mwy priodol. Byddai corff sy'n bodoli eisoes, neu sy'n cael ei greu yn benodol, ac sydd â'i fryd ar reolaeth cymdogaeth yn hytrach nag ar adfywio ardal, ac sydd â gwreiddiau a chyfiawnhad democrataidd yn y cymunedau lleol, mewn lle da i wneud hyn. Mae angen tipyn o ddychymyg er mwyn dod o hyd i grwpiau fel hyn ac i'w symbylu. Roedd ail rownd Pobl mewn Cymunedau yn taflu'r rhwyd yn ehangach a bydd yn ddiddorol gweld pa wahaniaeth mae hynny wedi ei wneud.

Roedd y canllawiau a anfonwyd allan gyda'r gwahoddiadau (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 24/98) ar ryw ystyr yn gosod gormod o gyfyngiadau ynglŷn â strwythur y fenter, ond heb fod yn ddigon manwl ynglŷn â'r ffordd o weithredu yr oedd ei hangen. Gadawyd hyn yn annelwig yn fwriadol, er mwyn annog bidwyr i ddod at y mater o wahanol gyfeiriadau ond hefyd er mwyn gadael iddynt ysgrifennu ceisiadau saff, oedd wedi profi eu hunain yn llwyddiannus o'r blaen. Roedd y canllawiau yn amwys yn y ffaith eu bod yn gofyn am newidiadau yn y ffordd yr oedd gwasanaethau yn cael eu darparu'n lleol, gyda'r gymuned ei hun yn gyfrannog, ond ar yr un pryd yn mynnu bod y partneriaethau a'r Cynlluniau Gweithredu yn cymryd agwedd draddodiadol at adfywio, trwy seilio'r ddarpariaeth ar brosiectau.

Felly nid oedd llawer o arloesi i'w weld yn y bidiau a'r canlyniad oedd bod y contractau yn cynnwys prosiectau adfywio o ryw fath neu'i gilydd. Os mai'r bwriad yw sicrhau newidiadau yn y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu, ac yn arbennig os bwriedir symud tuag at dorri ar draws ffiniau gwasanaeth ac at arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o wneud hyn, yna mae'n rhaid i'r canllawiau bwysleisio bod methiant yn bosiblwydd y dylid ei gydnabod. A dylid pwysleisio bod gwerth mawr i'r gwersi ynglŷn â pham yr oedd yr arbrawf yn fethiant. Ar y llaw arall, rhaid i'r canllawiau fod yn fwy pendant ynglŷn â'r hyn y dylai'r bidiau ddweud ynghylch y ffordd y bydd y fenter yn cael ei gwireddu. **Yn ein barn ni byddai mwy o arloesi a mwy o arbrofi pe byddid yn gofyn i'r bidwyr amlinellu sut y byddent yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol rheng flaen,**

**gydag asiantaethau a gyda'r gymuned, i ddatblygu ffyrdd arbrofol o ddarparu gwasanaethau lleol yn y flwyddyn gyntaf. Byddai'r cynlluniau ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd dilynol yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd ac yn esblygu fel y bo'n briodol yn hytrach na'u bod yn gaeth a digyfnawid o'r cychwyn. Ond er mwyn dangos ei ymroddiad i'r cynllun dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn barod i dalu am y cydgyssylltwyr am o leiaf dair blynedd.**

### **Dewis**

Trwy wneud y broses o gyflwyno bidiau yn un fwy agored, mae'n bosib y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn llawer mwy o fidiau i'w hasesu. Mae'r gwerthusiad yn awgrymu mai trwy'r awdurdodau lleol y byddai bidiau yn cael eu cyflwyno, ond dim ond ar ôl cystadleuaeth leol rhwng grwpiau o wahanol gymunedau o fewn eu hardaloedd. Byddai'r awdurdodau yn 'noddi' un neu ddau o fidiau ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan banel annibynnol y byddai'r holl grwpiau wedi cytuno arno. Wedyn byddai'r bidiau yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Dylai ardaloedd gael eu dewis ar sail ansawdd y bidiau, arloesi yn y dulliau o weithio'n agos gyda phartneriaid yn yr ardaloedd lleol, a'r awydd a'r gallu yn lleol i ymgymryd â gweithgareddau arbrofol. Er y gellid rhoi peth sylw i Ddangosydd Amddifadedd Lluosol yr ardaloedd, byddai'n bosib peidio ag ystyried hynny ac eithrio pan fo'r bidiau yn agos iawn at ei gilydd o safbwynt ansawdd. Y syniad yw annog amrywiaeth yn y dulliau o fynd i'r afael â'r mater a gweld beth sy'n gweithio orau.

### **Byrddau Partneriaeth**

Yn gyffredinol mae'r Byrddau Partneriaeth wedi cael eu sefydlu gyda golwg ar gynnwys y prif bartneriaid y bydd eu harian yn cyfrannu at y fenter. Bydd y Byrddau yn asesu'r gweithgareddau a'r prosiectau a roddir gerbron mewn cymhariaeth â'u hamcanion yn hytrach nag mewn cymhariaeth â set o amcanion cyffredin a gytunwyd ymlaen llaw. Er bod angen cael corff strategol, dylai'r corff hwnnw ganolbwyntio ar themâu, beth bynnag fo cyfrifoldebau'r asiantaethau, ac ar weithgareddau priodol a dulliau o weithio'n agos gyda phartneriaid yn y fenter a gyda'r cymunedau eu hunain.

### **Rôl y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol**

Mae rhai Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol wedi cyfrannu yn ddyfal o'r cychwyn ac wedi rhoi cefnogaeth gyson i'w cydgyssylltydd. Yr oedd eraill yn weithgar iawn ar y cychwyn, er mwyn ceisio gwreiddio'r PmC o fewn yr awdurdod lleol, ond eu bod heb gymryd fawr ddim rhan ar ôl hynny. Mae rhai sydd heb fynd i'r afael â'r mater o gwbl neu sydd heb fod ar gael pan oedd eu heisiau. Mae'r rhai effeithiol wedi gwneud gwahaniaeth i'r PmC ond efallai heb wneud cymaint o argraff ar eu sefydliad eu hunain.

**"Mae fy ngwaith gyda Pobl mewn Cymunedau wedi fy ngwneud i yn fwy ymwybodol o anawsterau ymarferol darparu gwasanaethau lleol ac o'r rhwystrau sy'n cael eu hwynebu – mae'n rhaid i ni gymryd y rhain i ystyriaeth wrth ddatblygu ein strategaethau"**

Mae'r Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol wedi newid cryn dipyn, yn rhannol oherwydd ad-drefnu llywodraeth leol, yn rhannol oherwydd bod yr awdurdod wedi mabwysiadu rhaglen cynhwysedd cymdeithasol, ac yn rhannol oherwydd bod y cyfrifoldeb am ddatblygu cymunedol wedi symud o un lle i'r llall.

**Roedd y rôl a roddwyd i Gefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol yn un adweithiol, sef ymateb i faterion oedd yn cael eu codi gan y cydgysylltydd. Ond byddai rôl fwy rhagweithiol wedi bod yn fwy o help – rôl fyddai'n mynnu y dylent ddatblygu rhwydweithiau ar lefel cyfarwyddwyr ac ar lefel rheolwyr canol er mwyn cydweithio'n agos gyda phartneriaid yn yr asiantaethau, nid gydag adrannau o fewn yr awdurdodau lleol yn unig ond hefyd gyda chyrrff statudol ac anstatudol eraill.** Byddai'r math yna o gefnogaeth yn amhrisiadwy i'r cydgysylltydd. Mae rheolaeth linell, yr angen i gytuno ar dargedau tymor byr, a'r angen i roi cefnogaeth o ddydd i ddydd yn faterion gwahanol, y gellid yn hawdd eu dirprwyo i swyddogion polisi fel y mae nifer o'r Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol wedi ei wneud.

### **Rôl y Cydgysylltydd**

Yn gyffredinol gadawyd i'r cydgysylltwyr ddod o hyd i'w traed eu hunain yn y gymuned ac yn yr awdurdod lleol. Yr oeddynt yn dod o gefndiroedd amrywiol iawn a byddai wedi bod yn help iddynt gael mwy o arweiniad a chefnogaeth, fel y gallent wreiddio yn well yn y gymuned leol ac yn yr awdurdod lleol. Mae angen cydnabod bod y sgiliau sydd eu hangen yn

amgenach na'r sgiliau y byddech yn eu casglu mewn cefndir o ddatblygu cymunedol neu o brosiectau adfywio. Mae'r rheini yn tueddu i ymwneud â dylunio prosiectau, eu darparu a'u rheoli.

**Mae deall strwythurau sefydliadau a deall sut i ennill ymroddiad swyddogion a thrigolion yn llawer pwysicach na hynny mewn menter fel Pobl mewn Cymunedau. Un ffordd o wneud hyn yw datblygu rhwydweithiau gyda gweithwyr proffesiynol rheng flaen lleol. Byddai hynny'n gwneud yn siŵr bod modd canfod y materion sydd angen sylw a'u bwydo i mewn i rwydwaith y Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol gan bontio rhwng gweithredu lleol, rheolaeth uwch a rheolaeth ganol.**

### **Rôl y Cynulliad Cenedlaethol**

Mae cydgysylltwyr, y Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol, a'r cymunedau fel ei gilydd wedi gosod rhai o'r problemau – diffyg cefnogaeth i'r cydgysylltwyr ac i'r cymunedau lleol, ymateb araf neu anaddas i geisiadau am gyngor, diffyg diddordeb, a phroblemau eraill – wrth ddrws y Cynulliad Cenedlaethol.

**"ar ôl iddynt lwyddo i gael eu sefydliad i newid ei gêr, wnaethon nhw ddim newid y ffordd yr oeddynt yn gweithio, yn gosod cyllideb, yn llunio polisi. O safbwynt ymateb yn holistig, wnaeth y peth ddim digwydd" (Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol)**

Mae'r beirniadaethau hyn, o berspectif y rhai oedd yn beirniadu, yn gyffredinol ddilys. Mae'r problemau yn aml wedi tanseilio neu achosi colli momentwm yn y

PmC lleol neu yng ngwaith y cydgysylltydd neu'r Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol. Weithiau mae'r beirniadaethau hyn yn codi o ddiffyg ymddiriedaeth a sinigiaeth pobl pan maent wyneb yn wyneb â sefydliadau. Y gwirionedd oedd bod y Cynulliad yn brin o adnoddau, ond dylid dysgu gwersi o'r negeseuon sy'n dod yn ôl.

Doedd gan y Cynulliad ddim peirianwaith ar gyfer dysgu gwersi. Er bod y fframwaith gwerthuso wedi cael ei ddyfeisio yn gynnar yn y rhaglen a'i fod yn ganlyniad ymgynghori eang, ni chafodd ei weithredu tan hanner ffordd trwy'r fenter. Nid oedd chwaith unrhyw system fonitro wrth gefn, i roi adborth ynglŷn â chynnydd, i ganfod problemau a rhwystrau, ac i rannu'r gwersi oedd yn codi o hynny. Mae rheolaeth barhaus a gwybodaeth am y prosesau yr un mor bwysig o ystyried y cyfan y mae disgwyl i Pobl mewn Cymunedau ei gyflawni.

Cryfderau allweddol y Fenter oedd ei gweledigaeth ynglŷn ag achosi newid yn y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu yn lleol a'r ffaith bod cydgysylltwyr a chefnogwyr cynhwysedd cymdeithasol wedi cael eu penodi. Y gwendidau pennaf oedd amwysedd y canllawiau, y diffyg arweiniad manwl ynglŷn â sut yr oedd disgwyl i'r fenter weithio fel arbrawf, a'r diffyg cefnogaeth yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r asesiad yma o gryfderau a gwendidau'r fenter yn awgrymu mai mwy o arweiniad, yn hytrach na llai, sydd ei angen.

## **Golwg o'r Gymuned, adeiladu gallu a newidiadau mewn gwasanaethau.**

### **Ymgynghori**

Digwyddodd llawer o'r ymgynghori mewn cyfarfodydd cyhoeddus neu trwy wneud awdit o farn ac anghenion, yn bennaf ar ddechrau'r PmC ond gyda rhai cyfarfodydd yn ystod y fenter mewn rhai ardaloedd.

**"Bydd yr un bobl yn dweud eu barn bob tro ond mae Pobl mewn Cymunedau wedi tynnu mwy o bobl i mewn. Mae'r tŷ cymunedol wedi bod yn beth da, yn rywbeth mae pobl yn ei ystyried yn rywbeth sy'n perthyn iddyn nhw" ( un o'r trigolion)**

Mae yna lawer o amheuaeth ynglŷn â'r math yma o ymgynghori, yn bennaf oherwydd ei fod yn cynhyrchu rhestrau o obeithion na all y partneriaid yn hawdd ymateb iddynt. Mae hynny yn codi gobeithion na ellir mo'u cyflawni. Roedd yr ymateb a gafwyd oddi wrth bobl a ddaeth i'r grwpiau ffocws yn llawer mwy positif, oherwydd y cyd-destun anffurfiol a'r cyfle i gyfnewid barn a syniadau. Y teimlad oedd bod cymryd rhan yn well ffordd o ymgynghori, i'r naill ochr a'r llall. Mae clybiau pêl droed a grwpiau rhiant a phlentyn yn fath o weithgaredd sy'n gwneud i bobl ymateb. Mae pobl yn cwrdd yno gyda phobl o gymdogaethau eraill ac maent yn fodlon mynegi barn.

**"os cewch chi gastell gwynt, clowniau a pheintio wynebau, bydd y mamau ifanc yno efo'u plant bach. Yn fannu yn**

**eistedd ar y glaswellt trwy'r dydd a chan o lager yn eu llaw, mae ganddyn nhw amser i siarad gyda chi. Rydw i'n credu mai dyna'r ffordd ymlaen." (gweithiwr proffesiynol rheng flaen)**

**Mae'r dull yma yn cyflawni un arall o'r anghenion oedd ar goll yn Pobl mewn Cymunedau. Rhaid i ymgynghori fod yn broses barhaus ac mae modd gwneud hynny trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau.** Mae hynny hefyd yn helpu i greu ymwybyddiaeth o gymuned, a gall hynny yn ei dro arwain at weledigaeth ar gyfer y gymuned.

### **Adeiladu Gallu**

**Mae adeiladu gallu yn creu yr ymdeimlad o berthyn i gymuned trwy:**

- Σ **adeiladu ymddiriedaeth;**
- Σ **datblygu rhwydweithiau;**
- Σ **creu normau cadarnhaol.**

Mae ymddiriedaeth yn cael ei adeiladu gan berthynas reolaidd sy'n gynhaliol ac yn ffrwythlon. Yn aml, mae'r agweddau sydd yn bodoli ar hyn o bryd wedi tarddu o obeithion sydd heb gael eu gwireddu ac o agwedd sinigaidd tuag at ddarparu gwasanaethau. Canlyniad hynny yw diffyg ymddiriedaeth, ymddygiad ymosodol a/neu diffyg diddordeb. Mae Pobl mewn Cymunedau wedi gwneud gwahaniaeth bychan ond arwyddocaol. Mae rhwydweithiau wedi cael eu sefydlu rhwng grwpiau o bobl a rhwng grwpiau o sefydliadau, ond yr hyn sydd ei angen yw rhwydweithiau sy'n cynnwys y ddau. Nid yw'r pwyslais a roddwyd gan Pobl mewn

Cymunedau ar gyflawni prosiectau wedi helpu bob amser yn hyn o beth. Lle digwyddodd ymgynghori go iawn mae prosiectau graddfa fechan yn gallu dangos yr hyn y gellir ei gyflawni. Nid prosiectau ynddynt eu hunain yw'r broblem, ond yn hytrach y ffordd y mae'r rheini yn cael eu dyfeisio a'u gweithredu. Mae hefyd yn bwysig cydnabod y gwahaniaeth rhwng cael eich cynrychioli, a chymryd rhan. Yn achos Pobl mewn Cymunedau yr hyn y mae cymryd rhan wedi ei olygu mewn gwirionedd yw cael eich cynrychioli. Ond nid yw'r rhan fwyaf o bobl sydd eisiau teimlo eu bod yn gyfrannog yn eu cymuned a theimlo eu bod yn rhan ohoni, eisiau bod yn gynrychiolwyr. Dim ond eisiau cyfrannu at y broses o benderfynu a bod yn gyfrannog yn beth bynnag sy'n deillio o hynny.

Oes fer sydd i fentrau fel Pobl mewn Cymunedau ac mae angen blaen-gynllunio er mwyn gwneud i unrhyw effeithiau bara. Er mwyn bod yn llwyddiannus, bydd y fenter wedi llwyddo i dorri trwy rai o'r rhwystrau, i wella agweddau tuag at weithio ar y cyd ac i sefydlu gwell ymddiriedaeth a pharch rhwng y darparwyr â'r trigolion. Mae angen rhyw ffordd o gadw'r momentwm ac mae'n debyg nad y bartneriaeth adfywio draddodiadol yw'r ffordd honno, ond yn hytrach pwyllgor datblygu/rheoli cymuned. Un opsiwn fyddai Ymddiriedolaeth Datblygu Cymuned. Mae hyn yn cael ei datblygu mewn dwy ardal yn sgil llwyddiant y fenter yn lleol.

### **Newid yn y gwasanaethau**

Bu rhai mân newidiadau yn y rhan fwyaf o ardaloedd Pobl mewn Cymunedau. Er enghraifft, datblygu ysgol gymuned newydd

gyda thîm aml-broffesiwn yn sefydlog yn yr ysgol. Cafwyd gwell amseroedd ymateb gan yr heddlu cymunedol a gan yr adran rheoli tai. Ond mae rhai gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn ei gweld yn anodd bod â rôl o ddatblygu cymunedau ar yr un pryd â rôl orfodaeth. Mae mwy o weithio ar y cyd yn lleol er bod trafodaethau'r Panel Proffesiynol yn awgrymu nad oedd llawer o gysylltiad rhwng rhai gwasanaethau a'i gilydd nac o fewn ambell i ardal Pobl mewn Cymunedau. Ond mae'r enghreifftiau a gafwyd o asiantaethau yn meddwl yn gyfunedig yn cael eu gwrthbwyso lawer gwaith drosodd gan y rhwystrau y daethpwyd ar eu traws wrth geisio gweithio ar draws ffiniau gwahanol wasanaethau ac asiantaethau.

### **Cryfderau a gwendidau y fframwaith gwerthuso**

Cryfder y fframwaith oedd bod cymaint o gydrannau ynddo a allai fod yn sail i ddatblygu tystiolaeth, yn arbennig y Cyflwyniad, y Panel Proffesiynol ac mewn egwyddor Storiâu'r Gymuned. Y gwendid pennaf oedd peidio â rheoli'r fframwaith yn ganolog. chymryd bod y cyfrifoldebau wedi cael eu rhannu rhwng llawer o bobl, yr oedd yn hanfodol cydgysylltu datblygiad y gwahanol gydrannau. Cafodd yr asesiad o gyraeddiadau Pobl mewn Cymunedau ei danseilio, yn arbennig yng ngolwg y cymunedau, gan ddwy ffactor allweddol, sef methu â gwneud yn siŵr bod y gweithgareddau oedd ar y gweill yn cael eu monitro, a methu â sicrhau bod adroddiadau yn cael eu paratoi ynglŷn â'r deilliannau a gyflawnwyd yn ystod y fenter.

Cafodd y fframwaith ei danseilio hefyd gan y ffaith nad oedd yn glir sut yr oedd y

cydrannau yn ffitio gyda'i gilydd, na pha dystiolaeth y byddai pob cydran yn ei chynnig i ddangos y newidiadau a'r effeithiau y gellid eu priodoli i Pobl mewn Cymunedau. Roedd y ffaith na roddwyd y fframwaith ar waith tan yr hydref 2000 yn golygu nad oedd yn bosib dod â'r cydrannau i un ar y tro fel bod modd dylanwadu ar gynnwys y cydrannau ac ar y ffordd yr oeddynt i gael eu gweithredu. Yn anffodus, mae un o'r elfennau, Stori'r Gymuned, yn dal i fod heb gael ei gyflawni gan unrhyw PmC hyd y gwyddom. Fel arall byddai gennym nid yn unig dystiolaeth am yr hyn a gyflawnwyd mewn cymunedau ond hefyd oleuni ynglŷn â'r ffordd yr oedd partneriaeth leol yn gweithio, gan y byddai hynny'n cael ei amlygu gan Stori'r Gymuned

Y rheswm am y diffyg monitro oedd mai'r cysyniad tu ôl i'r fframwaith oedd tynnu ciplun o Pobl mewn Cymunedau. Yn anffodus nid yw'r math yma o fframwaith yn caniatáu monitro perfformiad yn barhaus a dysgu'r gwersi sy'n hanfodol i lwyddiant y fenter. I gyflawni amcan y fenter, o achosi newid, rhaid monitro gweithgareddau dros gyfnod, er mwyn canfod y rhwystrau a chofnodi'r ffordd y cawsant eu goresgyn.

### **Dyfodol y rhaglen bolisi sy'n gysylltiedig â Pobl mewn Cymunedau**

Y ffordd yr oedd Pobl mewn Cymunedau yn cael ei weld oedd fel dwy flynedd gyda chydgyssylltydd a 3-5 mlynedd arall o gyflawni'r Cynllun Gweithredu. Ar hyn o bryd yr ydym hanner ffordd trwy'r broses. Er bod rhai problemau wedi codi mewn rhai ardaloedd does dim rheswm pam na ddylid gweld gwelliannau ym mhob un o ardaloedd Pobl mewn Cymunedau yn sgil

prosesau'r fenter. Mae'r adran hon a'r adran nesaf yn cynnwys argymhellion ar gyfer y rhaglen bolisi at y dyfodol a rhai gwersi i Cymunedau'n Gyntaf, ar sail y cyfnod cyntaf yma ym mhroses Pobl mewn Cymunedau.

**Yr allwedd i ddatblygu rhaglen bolisi sy'n gysylltiedig â Pobl mewn Cymunedau yw newid agweddau a diwylliannau a chwalu'r ffactorau sy'n rhwystro newid ac yn rhwystro cymryd rhan:**

**"Hawlio awdurdod dros eu bywyd eu hunain. Mae cymaint o bobl yn meddwl na allant newid pethau. Mae'r diwylliant dibynadwydd yn dal yn fyw. Peth seicolegol yw'r amddifadedd. Amddifadedd economaidd yw'r un lleiaf pwysig. Dyna beth mae tlodi yn ei wneud i chi fel bod dynol" (gweithiwr proffesiynol lleol)**

Mae gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn yr ardaloedd lleol, megis athrawon, ymwelwyr iechyd, swyddogion heddlu'r gymuned a gweithwyr ieuencid, wrth drafod gydag unigolion wyneb yn wyneb mewn lle da i ganfod beth yw'r ystyriaethau ac i weld cymaint o wahanol agweddau sydd ar y problemau y mae unigolion yn eu wynebu ar yr aelwyd. Mae'r dull o 'wynebu'r client', a eglurwyd gan un gweithiwr proffesiynol lleol fel "siaradwch chi amdano eich hunan ac fe gawn ni weld beth allwn ni ei wneud", yn dod â phroblemau i'r wyneb wrth i ymddiriedaeth a pharch ddatblygu. Mae creu rhwydwaith o'r gweithwyr proffesiynol hyn yn gallu dod ag atebion holistig i'r amlwg.

Os oes unrhyw newid am ddigwydd er mwyn gweithredu'r math yna o atebion, rhaid i uwch reolwyr fabwysiadu'r

athroniaeth, gan mai nhw sy'n gosod y cywair a'r diwylliant o fewn y strwythurau sydd gan y sefydliad i ddatblygu polisi a'i weithredu. Nhw hefyd sy'n rheoli'r sianeli cyfathrebu sydd mor hanfodol mewn rhwydweithio, yn sefydlu'r gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn yn y sefydliad ac yn gosod y rheolau a'r rheoliadau y mae'n rhaid eu dilyn. Efallai bod rhai o'r rhain, yn arbennig y rheolau a'r rheoliadau, yn cael eu penderfynu yn genedlaethol ac y bydd yn fwy anodd dylanwadu arnynt yn lleol. O fewn y strwythurau a'r cyllidebau presennol fydd hi ddim bob amser yn bosib ymateb trwy gynnig atebion holistig. Ond fe ddylid canfod beth yw'r atebion a beth yw'r rhwystrau rhag eu gweithredu. Dyna pam mae'n rhaid i'r Cynulliad allu codi gwersi o'r fenter, ar sail tystiolaeth bendant.

Dyma'r argymhellion allweddol ar gyfer y rhaglen bolisi:

- Σ **cynyddu'r ymrwymiad i fentrau o fath Pobl mewn Cymunedau, ar draul cyllidebau adfywio ardaloedd os oes raid (dyma beth sydd wedi bod yn digwydd a beth fydd yn dal i ddigwydd gyda Cymunedau'n Gyntaf);**
- Σ **rhoi mwy o bwyslais ar adeiladu gallu (ymddiriedaeth, rhwydweithiau, normau cadarnhaol yn hytrach nag ar wneud ychwaneg o ddarpariaeth (er y gallai prosiectau fod yn gyfrwng i gyflawni hynny);**
- Σ **cydnabod yn glir yn yr amcanion, yr angen i newid agweddau, strwythurau darparu, a diwylliannau sefydliadol;**
- Σ **pwysleisio'r angen i brofi effeithiolrwydd trwy gynnal gweithgareddau arbrofol a**

gweithgareddau peilot, pwysleisio'r angen i gymryd risg a dysgu gwersi, a thynnu'r colyn allan o fethiant;

- Σ mesur yr effeithiau tymor byr yn ystod oes y Fenter, gan ganolbwyntio ar y gwersi gafodd eu dysgu (rhwystrau, gau-gymhellion a photensial) yn hytrach na deilliannau y dangosyddion amddifadedd.
- Σ gosod yr arbrofion yn nhrefn blaenoriaeth ar sail angen yn hytrach nag yn ôl pa mor debyg ydynt o lwyddo.
- Σ bod yn rhan o'r hyn sy'n digwydd - yn barhaol

### Gwersi i Cymunedau'n Gyntaf

- Σ Canllawiau ar gyfer gwneud bidiau: pwysleisio natur arbrofol y fenter a'r ffaith bod cymryd risg yn dderbyniol, canolbwyntio ar ystyriaethau thematig, adeiladu gallu yn hytrach na phrosiectau, gweithio'n agos gyda chymunedau lleol a darparwyr gwasanaethau lleol, herio diwylliannau sydd wedi mynd i rigol ym maes darparu gwasanaethau – dylai bidiau ymgorffori arian tymor canol i dalu am gydgyssylltydd a chefnogaeth iddo, ynghyd ag amlinelliad o gynlluniau i weithio'n agos gyda phartneriaid lleol a phartneriaid eraill yn y flwyddyn gyntaf er mwyn canfod a datblygu themâu allweddol.
- Σ Gwahoddiadau: dirprwyo cyfrifoldeb i awdurdodau lleol er mwyn sefydlu prosesau cynhwysol sy'n rhoi gwahoddiad i grwpiau aml-asiantaeth sy'n cael eu cydnabod yn ddilys gan y

gymuned leol y maent yn ei chynrychioli, neu sydd wedi cael eu creu yn benodol er mwyn gwneud bidiau;

- Σ Bidiau (eu dethol a'u nifer): dylai awdurdodau lleol ddod i gonsensws yn lleol trwy ddefnyddio panel o arbenigwyr annibynnol gyda golwg ar gyflwyno un neu ddau o fidiau o bob ardal. Y meini prawf fydd ansawdd y bidiau a'r potensial o ddysgu gwersi a gweithredu ar hynny, gyda lefelau amddifadedd yn ail flaenoriaeth. Wrth ystyried pa nifer i'w cefnogi dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried ei allu i gynnal y nifer fydd yn cael eu cymeradwyo, nifer y cydgysylltwyr fydd ar gael, a'r hyfforddiant y bydd ei angen ar gyfer y gwaith;
- Σ Gweithredu: ehangu rôl y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol gan ei wneud yn rhagweithiol mewn datblygu rhwydweithiau o uwch-reolwyr, gan gynnwys adrannau llywodraeth leol ac asiantaethau eraill, sy'n dod o hyd i gyfleoedd yn ogystal ag yn ymateb i geisiadau oddi wrth y cydgysylltydd. Bydd rheolaeth linell yn ôl disgresiwn y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol ond dylid cydnabod bod hynny yn dasg wahanol sy'n golygu gosod targedau ar gyfer bob blwyddyn a monitro cynnydd. Dylai cydgysylltwyr gael eu cyflogi gan y grŵp aml-asiantaeth (neu sefydliad annibynnol), er mwyn sefydlu rhwydweithiau lleol a all ddiffinio ystyriaethau a'r ymateb posib iddynt;
- Σ Trefniadau olyniaeth; edrych ymlaen at ddatblygu cymdogaeth leol gynaliadwy, gan ystyried ystod o

**wahanol opsiynau, o bwylgor  
datblygu lleol i Ymddiriedolaeth  
Gymunedol;**

- Σ Monitro a Gwerthuso: sefydlu  
fframwaith monitro parhaol, gyda  
chanllawiau ysgrifenedig yn gefn iddo,  
yn canolbwyntio ar newid proses ac ar**

**ddysgu gwersi ac wedi ei ddylunio i  
ymgorffori'r cynlluniau fydd yn cael eu  
dynodi. Y Cynulliad Cenedlaethol i  
arwain y broses o'u sefydlu ac i  
wneud yn siŵr eu bod yn sefydlu  
sianeli ar gyfer cyfathrebu rheolaidd er  
mwyn cadw golwg ar gynnydd a  
dysgu gwersi.**



# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1. Tarddiad ac Amcanion yr Astudiaeth

1.1.1. Roedd Pobl mewn Cymunedau yn fenter polisi a ddyfeisiwyd gyntaf gan y Swyddfa Gymreig ac a fabwysiadwyd a'i hyrwyddo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd yn rhan o'r strategaeth gyffredinol oedd gan y Swyddfa Gymreig i ddelio gydag eithrio cymdeithasol. Dyluniwyd y fenter er mwyn:

"dangos ffyrdd i gymunedau dan anfantais gyflawni newid cadarnhaol:

- Σ trwy weithredoedd cydgysylltiedig yn seiliedig ar gynllun strategol y bu'r gymuned yn gyfrannog yn ei ddatblygu a'i gytuno;
- Σ trwy ddefnyddio a gwneud y gorau o'r budd sy'n dod iddynt o gyllid llywodraeth leol a llywodraeth ganol ac o ffydymllau eraill

### (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 24/98)

1.1.2. Cafodd y fenter Pobl mewn Cymunedau ei lansio gan Mr Win Griffiths AS ar 1af Mai 1998. Dilynwyd hynny gan Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 24/98. Roedd y Cylchlythyr yn nodi amcanion, sgôp a strwythur y fenter. Yr oedd hefyd yn gwahodd Prif Weithredwyr awdurdodau lleol i enwebu un gymuned ym mhob awdurdod lleol erbyn 31 Gorffennaf 1998. Cyhoeddwyd enwau'r wyth ardal ar 7 Hydref 1998 ac yn Ebrill 1999 rhoddwyd cymeradwyaeth i'r ardaloedd hynny symud ymlaen. Yr wyth ardal oedd:

- Σ Deiniolen, Dinorwig a Chlwt y Bont (Gwynedd);

- Σ Peulwys (Conwy);
- Σ Southsea a Brynteg (Wrecsam);
- Σ Rhymni (Caerffili);
- Σ Rhiwgarn (Rhondda Cynon Taf);
- Σ Duffryn (Casnewydd);
- Σ Gurnos/Galon Uchaf (Merthyr Tudful);
- Σ Blaenymaes/Portmead (Abertawe).

Mae'r adroddiad yma yn asesu datblygiad Pobl mewn Cymunedau yn yr wyth ardal yma.

1.1.3. Yr oedd y fanyleb ymchwil ar gyfer gwerthusiad interim o'r rhaglen Pobl mewn Cymunedau yn dweud mai'r pwrpas oedd:

"casglu gwybodaeth ynglŷn â'r argraff gynnar y mae'r rhaglen yn ei chael ac ynglŷn â'r ffordd y mae wedi cael ei strwythuro, gan ddefnyddio hyn er mwyn cael gwybodaeth er mwyn gweithredu, monitro a gwerthuso ail rownd Pobl mewn Cymunedau (sydd newydd ddechrau) a ffordd wahanol o adfywio ardaloedd (Cymunedau'n Gyntaf) sydd ar hyn o bryd yn cael ei datblygu gan y Cynulliad Cenedlaethol".

1.1.4. Yr oedd y brîff yn manylu ynglŷn â'r angen fel â ganlyn:

"Mae rhaglen werthuso gymhleth wedi cael ei chynllunio ar gyfer Pobl mewn Cymunedau, gyda mewnbwn gan y client (Cynulliad Cenedlaethol Cymru), gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol, gan y sector gwirfoddol a chynrychiolwyr

cymunedau yn ogystal â gan ymchwilyr profiadol. Felly mae'r gwaith sy'n cael ei amlinellu yn y fanyleb hon yn rhan o broses sydd yn llawer mwy eang."

1.1.5. Fel hyn y disgrifiwyd yr wyth cydran oedd yn fframwaith werthuso y Cynulliad Cenedlaethol, a'r mewnbwn yr oedd ei angen gan y contractwr:

- Σ Grwpiau ffocws (y contractwr i fod yn bresennol ac i ddadansoddi deilliannau);
- Σ Panel Cymunedol (y contractwr i ddylunio'r holiadur ac i'w ddadansoddi);
- Σ Panel Proffesiynol (y contractwr i gynnull panel o bum gweithiwr proffesiynol allweddol sy'n gweithio yn y gymuned ac i gynnal cyfweiliadau);
- Σ Stori'r Gymuned (y contractwr i werthuso Stori'r Gymuned);
- Σ Dangosyddion Eithrio Cymdeithasol (y contractwr i amlinellu natur a maint yr anafanteision sy'n cael eu dioddef gan unigolion ac aelwydydd ym mhob un o'r cymunedau);
- Σ Gwerthuso newid corfforaethol a newid polisi (y contractwr i adrodd ar sut mae'r ymagweddiad strategol yma (modelau newydd o ddarparu gwasanaeth, y cyhoedd yn fwy cyfrannog mewn dylunio a darparu'r gwasanaeth, a chyfranogi go ddifrif rhwng yr awdurdodau lleol â'u cymunedau) yn cael ei rhoi ar waith ym mhob ardal leol ac yn y Cynulliad yn ganolog);

Σ Adroddiadau Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol. Nid oedd y contractwyr yn ymwneud â hyn.

Σ Adroddiadau'r Cydgysylltwyr. Nid oedd y contractwyr yn ymwneud â hyn.

1.1.6. Comisiynwyd yr astudiaeth yn Awst 2000 Cafodd y syniadau cychwynnol eu bwydo'n ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol yn Rhagfyr 2000 ar ôl i'r ymweliadau cyntaf ag ardaloedd a chydgyssylltwyr Pobl mewn Cymunedau gael eu cwblhau. Rhoddwyd adborth i'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r casgliadau interim ddechrau Chwefror ar ôl cwblhau'r ddwy brif elfen yn y gwaith maes, sef y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau gyda'r Panel Proffesiynol.

1.1.7. Gwnaethpwyd yr Astudiaeth gan Cambridge Policy Consultants mewn cydweithrediad â Danny Burns (Ysgol Astudiaethau Polisi, Prifysgol Bryste) ac Arwel Jones (Arwel Jones Associates).

## 1.2. Cyd-destun a strwythur yr adroddiad

### a) Y dull o werthuso

1.2.1. Adroddiad interim yw'r gwerthusiad yma o Pobl mewn Cymunedau. Felly mae'r rhan helaeth o'r astudiaeth wedi ymwneud â phrosesau, yr holl ffordd o gyfnod datblygu'r fenter trwy'r cyfnod bidio a'r cyfnod gweithredu ac hyd at heddiw. Y bwriad oedd seilio'r casgliadau ar dystiolaeth. Gwnaethpwyd hynny trwy ofyn i'r rhai ddaeth i gysylltiad â phrosesau Pobl mewn Cymunedau (neu y gellid disgwyl eu bod wedi dod i gysylltiad â'r prosesau) am eu hymateb a'u canfyddiadau dros ystod eang o feysydd.

1.2.2. Cafodd y fframwaith gwerthuso ar gyfer yr astudiaeth ei dylunio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chymorth Prifysgol Morgannwg. Ni fwriadwyd i'r strategaeth Monitro a Gwerthuso fod yn "ddyfais gweithredol i fanwl-diwnio rhaglenni o ddydd i ddydd ond yn hytrach i wneud arolwg blynyddol o gynnydd 'ar y llawr'" (un o benseiri'r fframwaith). Byddai'r fframwaith gwerthuso yn cynnwys yr wyth cydran a ddisgrifir yn 1.1.5 a byddai rôl y contractwr fyddai'n cynnal y gwerthusiad fel â ganlyn:

- Σ rôl weithredol mewn datblygu pedair o'r cydrannau (y Panel Cymunedol, y Panel Proffesiynol, y Dangosyddion a Gwerthuso'r newid sefydliadol a'r newid polisi);
- Σ rôl oddefol o werthuso dwy o'r cydrannau (y Grwpiau Ffocws a Stori'r Gymuned), a:
- Σ dim rôl o gwbl gyda'r ddwy gydran arall (adroddiadau y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol a'r Cydgysylltydd).

1.2.3. Bu rhaglen ddwys o ymgynghori gyda'r awdurdodau lleol a'r ardaloedd lleol yn gynnar yn y flwyddyn 2000 er mwyn gweithio'n agos gyda nhw yn y broses o werthuso ac er mwyn datblygu ymdeimlad o berchnogaeth. Yn y cyfnod hwn edrychwyd yn fanwl iawn ar ystod o wahanol ddangosyddion cynhwysedd cymdeithasol gan ystyried i ba raddau y gellid eu defnyddio.

1.2.4. Mae'r adroddiad yma wedi cael ei seilio ar y dystiolaeth a gasglwyd trwy'r fframwaith werthuso honno, ond yr ydym

hefyd wedi cael gweld unrhyw adroddiadau gan y Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol a'r cydgysylltwr oedd ar gael cyn i'r drafft cyntaf o'r adroddiad hwn gael ei roi at ei gilydd. Cynhaliwyd pump o grwpiau ffocws, un bob un ar gyfer bechgyn ifanc, merched ifanc, rhieni a'r henoed ac un grŵp cyffredinol. Roedd rhwng 5 a 10 o bobl ym mhob grŵp, rhai oedd wedi bod yn ymwneud â Pobl mewn Cymunedau a rhai oedd ddim. Mae pump neu ragor o weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n weithgar ym mhob un o ardaloedd PmC wedi cyfrannu at y gwerthusiad trwy drafodaethau un-i-un. Roedd y rhain yn cynnwys prifathrawon, gweithwyr ieuchyd, gweithwyr ieuencid, swyddogion tai, swyddogion heddlu cymunedol, rheolwyr Cartrefi Cymunedol, gweithwyr y sector gwirfoddol a swyddogion lles addysg. Cafodd arolwg Panel Cymunedol ei sefydlu ym mhob ardal Pobl mewn Cymunedau ac anfonwyd holiadur i tua 30 – 50 o aelwydydd. Yr un holiadur gafodd ei defnyddio ym mhob ardal, ac erbyn ysgrifennu hyn yr oedd rhwng 5 a 50 ymateb wedi cael eu derbyn ar draws yr ardaloedd PmC. Roedd gan bob PmC ryddid i lunio'r panel ym mha bynnag ffordd yr oeddynt eisiau. Dim ond un ardal aeth ar ôl samplu ar hap. Roedd y fframwaith gwerthuso yn mynnu bod pob ardal, a'u Byrddau yn benodol, yn datblygu Stori'r Gymuned yn y ffordd yr oeddynt hwy yn ei hystyried orau. Yr ydym yn ymwybodol bod pob ardal Pobl mewn Cymunedau yn datblygu eu Stori ond, hyd yma nid oes yr un wedi cael ei chwblhau.

1.2.5. Casglwyd amrywiaeth o ddangosyddion cynhwysedd cymdeithasol o ystod eang o wahanol ffynonellau gan

gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol, Adrannau'r Cyngorau Unedol, Asiantaethau a'r ardaloedd lleol eu hunain. Roedd y dangosyddion yn ymwneud â phoblogaeth, diweithdra, cefnogaeth incwm, iechyd, addysg, rheoli tai a diogelwch gymunedol. Mae'r rhain, ynghyd â'r Mynegeion Amddifadedd Lluosol 2000 a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu cynnwys yn Atodiad A yn y Llawlyfr Atodiadau. Mae atodiad B yn y Llawlyfr Atodiadau yn cynnwys penawdau'r canlyniadau ddaeth o Arolygon y Paneli Cymunedol.

1.2.6. Mae adroddiadau unigol byr ar gyfer pob ardal ar gael yn atodiad C yn y Llawlyfr Atodiadau. Mae'r rhan nesaf o'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r adroddiadau hyn ac yn disgrifio pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud ym mhob ardal PmC tuag at ddau o amcanion Pobl mewn Cymunedau, sef sefydlu partneriaeth leol a chytuno ar Gynllun Gweithredu i gael ei weithredu dros 3 – 5 mlynedd dilynol.

1.2.7. Nid oedd yr un o gydrannau'r fframwaith gwerthuso yn eu lle ar ddechrau'r astudiaeth yma ac nid ydym wedi dod ar draws unrhyw wybodaeth yn codi o fonitro cyson a chynhwysfawr, ynglŷn a deilliannau economaidd na chymdeithasol. Felly mae dimensiwn meintiol (quantitative) y gwerthusiad interim wedi cael ei gyfyngu i wariant ariannol ac i'r prosiectau a'r gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw. Mae asesiad o gryfderau a gwendidau y fframwaith gwerthuso yn ymddangos yn adran 2.

## **b) Strwythur yr adroddiad**

1.2.8. Oherwydd mai fel adroddiad interim y gwnaethpwyd y gwerthusiad yma, roedd y rhan fwyaf o'r gwaith dadansoddi yn ymwneud â phrosesau ac â'r effaith a gafodd Pobl mewn Cymunedau ar newid y prosesau hynny er mwyn cael gwell cydgysylltiad mewn gweithredu lleol i adfywio'r gymuned leol. Ond mae'r adran nesaf yn gosod allan hynny o dystiolaeth feintiol ynglŷn â Pobl mewn Cymunedau ag sydd ar gael. Mae'n cloriannu i ba raddau y mae Pobl mewn Cymunedau ym mhob ardal wedi cyflawni'r amcanion o ddatblygu partneriaeth leol a chynllun gweithredu, ac mae'n nodi pa brosiectau a gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw yn ystod y fenter. Ond un arall o amcanion Pobl mewn Cymunedau oedd ysgogi newid yn y ddarpariaeth leol trwy ddod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithio. Mae Adran 3 yn archwilio cryfderau a gwendidau prosesau Pobl mewn Cymunedau o safbwynt yr awdurdodau lleol, y cydgysylltwyr, y gweithwyr proffesiynol rheng flaen a'r bobl yn yr wyth gymuned leol lle mae Pobl mewn Cymunedau wedi cael ei sefydlu.

1.2.9. Mae Pobl mewn Cymunedau wedi ceisio datblygu barn gymunedol ynglŷn a'r hyn sydd ei angen ar drigolion a'u cymunedau a cheisio datblygu'r gallu lleol i gyflawni i'r anghenion hynny. Byddwn yn archwilio'r ddwy agwedd yma ar Pobl mewn Cymunedau yn y bedwaredd a'r bumed adran.

1.2.10. Ond ni fydd yr ardaloedd a'u cymunedau ehangach yn gweld effeithiau a manteision parhaol os na fydd Pobl mewn Cymunedau yn achosi newid er gwell yn y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu. Yn adran 6 byddwn yn trafod i ba raddau y mae'r gwasanaethau wedi newid a'r gwersi wedi eu dysgu, ac i ba raddau y mae'r ymdrech i'w newid wedi dod yn erbyn rhwystrau. Mae trefniadau olyniaeth Pobl mewn Cymunedau yn cael eu trafod yn adran 7.

1.2.11. Mae'n wir am unrhyw fframwaith gwerthuso bod y ffordd y mae'r fframwaith wedi cael ei ddylunio a'i weithredu yn effeithio ar ansawdd y dadansoddiad ac yr y gallu i ddod i gasgliadau ar sail yr astudiaeth. Roedd y ffordd yr aeth y Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r mater yn arloesol. Dyluniwyd fframwaith a oedd yn mynnu mewnbwn oddi wrth y contractwr, oddi wrth y Cydgysylltwyr a'u Bwrdd Partneriaeth, yn ogystal ag oddi wrth y Cynulliad. Mae ein gwaith ni gyda'r fframwaith a'n cysylltiad gyda chyfranwyr eraill wedi'n galluogi ni i lunio barn ynglŷn â chryfderau a gwendidau y fframwaith gloriannu. Mae'r rhain yn cael eu gosod allan yn adran 8 ac yn cael eu cynnwys yma yn yr adroddiad am bod y fframwaith ei hun wedi cael effaith ar ein gallu ninnau i ddod i gasgliadau ynglŷn â pholisi.

1.2.12. Yr ydym wedi tynnu sylw at yr argymhellion penodol sy'n codi allan o werthuso'r prosesau yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad, sef adrannau 3 – 5.

1.2.13. Mae'n hargymhellion ynglŷn â dyfodol rhaglen bolisi Pobl mewn

Cymunedau wedi cael eu cynnwys yn adran 9. Serch hynny, Cynulliad Cenedlaethol yw'r fenter bolisi fydd yn gyrru'r rhaglen bolisi benodol hon yn y dyfodol. Er ei bod yn anodd dweud pa rai o weithgareddau Pobl mewn Cymunedau sydd wedi gweithio neu beidio, mae nifer o wersi i Cymunedau'n Gyntaf yn codi o'r ffordd y cafodd Pobl mewn Cymunedau ei weithredu a'i reoli. Yr ydym wedi rhestru'r gwersi hynny yn adran 10.

1.2.14. Mae llawer o'r dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio yn yr adroddiad yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi cael ei ddweud wrthym. Ac mae tystiolaeth wedi codi yn ystod ein trafodaethau gydag awdurdodau lleol, gyda chefnogwyr cynhwysedd cymdeithasol, cydgysylltwyr, gweithwyr proffesiynol rheng flaen a'r bobl fu'n cymryd rhan yn y grwpiau ffocws. Gwarantwyd y byddid yn cadw enwau pawb a fu'n ein helpu gyda'r astudiaeth yn anhysbys, felly nid oes unrhyw un o'r dyfyniadau sy'n cael eu gwasgaru yma ac acw trwy'r adroddiad yma yn cael eu priodoli i unigolion nac i ardaloedd. Mae maint a nodweddion y gwahanol ardaloedd yn amrywio llawer o un i'r llall, ac mae'r unigolion sydd wedi bod yn gefnogwyr cynhwysedd cymdeithasol neu'n gydgysylltwyr wedi bod yn wahanol iawn i'w gilydd. Er mwyn rhoi rhyw gymaint o gefndir i ddadansoddiad y prosesau yr ydym wedi cynnwys crynodeb byr o'u prif nodweddion mewn adroddiad atodol (Atodiad C: Adroddiadau Ardal).

1.2.15. Hefyd yn yr atodiad fe gewch drosolwg o'r dangosyddion cynhwysedd cymdeithasol a ddewiswyd. Cafodd rhai o'r rhain eu dynodi yn rhan o'r fframwaith gwerthuso ac yr ydym ninnau wedi

ychwanegu rhai eraill am eu bod wedi profi eu gwerth mewn gwaith blaenorol. Gyda pob un o'r dangosyddion nodir gwerth ar gyfer yr ardal Pobl mewn Cymunedau berthnasol ar sail codau post (neu ddiffiniad cyfatebol arall) o fewn yr Awdurdod Lleol perthnasol ac ar gyfer Cymru gyfan er mwyn sefydlu persbectif ynglŷn â lefel a natur yr amddifadedd sy'n cael ei ddioddef mewn ardaloedd PmC. Dangosir y rhain yn yr adroddiad atodol (Atodiad C: Adroddiadau Ardal).

1.2.16. Ymgwymerwyd ag arolygon y Paneli Cymunedol yn lleol ym mhob ardal. Mae'r data oedd ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad yma wedi cael ei ddadansoddi ac mae penawdau'r canlyniadau ar gael yn yr adroddiad atodol (Atodiad B).

1.2.17. Yr ydym yn cyfeirio trwy gydol yr adroddiad at y Swyddfa Gymreig ac at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Y Swyddfa Gymreig wnaeth gyhoeddi'r Cylchlythyr 24/98 gwreiddiol a'r datganiadau â'i dilynodd. Y Cynulliad Cenedlaethol aeth â'r fenter yn ei blaen o ddechrau 1999 a chyhoeddwyd Cylchlythyr 13/99 oedd yn gwahodd ceisiadau am arian ar gyfer ail flwyddyn Pobl mewn Cymunedau ar gyfer yr wyth ardal wreiddiol ac yn gwahodd bidiau ar gyfer ail rownd o enwebu prosiectau Pobl mewn Cymunedau. Mae staff cefnogol Pobl mewn Cymunedau wedi aros yn rhyfeddol o sefydlog ac nid yw trosglwyddo o'r Swyddfa Gymreig i'r Cynulliad Cenedlaethol wedi achosi unrhyw newidiadau o bwys yn y fenter.

## 2. CYNNYDD MEWN CYMHARIAETH 'R AMCANION

### 2.1. Cyflwyniad

2.1.1. Mae'r adran yma yn rhoi gwerthusiad interim o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni gan fentrau Pobl mewn Cymunedau yn yr wyth ardal. Mae'r cyraeddiadau yn cael eu mesur yn erbyn amcanion clir ac yn ôl y deilliannau a ddynodwyd ar gyfer y Fenter. Mae'r asesiad yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd o'n gwaith maes, gan gynnwys y grwpiau ffocws, trafodaethau gyda gweithwyr proffesiynol rheng flaen, trafodaethau gyda Chefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol a chydgyssylltwyr, y canfyddiadau pennawd o'r arolygon Panel Cymunedol a'r proffil sy'n seiliedig ar ddangosyddion cynhwysedd cymdeithasol. Mae'r dystiolaeth fanwl i'w chael yn y Llawlyfr Atodiadau, sy'n cynnwys y dangosyddion cynhwysedd cymdeithasol, y canlyniadau pennawd o arolygon y Panel Cymunedol ac adroddiadau ar gyfer bob ardal, yn nodi'r mewnbwn a'r cyraeddiadau.

2.1.2. Ein dealltwriaeth ni o'r cynllun fel yr ymddangosodd yn y Canllawiau ar gyfer y rownd gyntaf (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 24/98, gweler 1.1.1 ac is-adran 3.3. am fwy o fanylion a thrafodaeth) yw bod tri prif amcan yn diffinio yr hyn yr oedd disgwyl i'r fenter eu cyflawni:

- Σ sefydlu partneriaeth ar gyfer yr ardal leol gyda'r gymuned leol yn cymryd rhan;
- Σ datblygu cynllun gweithredu strategol i'w weithredu yn ddiweddarach gan y bartneriaeth (ar ôl i Pobl mewn Cymunedau ddod i ben)
- Σ fel rhan o'r broses yma, newid y ffyrdd y mae awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'r cymunedau lleol.

2.1.3. Mae'r adran yma yn edrych ar gyflawniad y ddau gyntaf o'r amcanion hynny ac ar y gwariant a'r gweithgareddau oedd yn gysylltiedig â nhw. Hefyd yn gysylltiedig â'r ddau amcan yma yr oedd y contractau blynyddol rhwng y Cynulliad Cenedlaethol â'r Awdurdodau Unedol Roedd y contractau hynny yn ymwneud â gwariant ac â phrosiectau neu weithgareddau. Gan nad oedd gwybodaeth fonitro gynhwysfawr ar gael ynglŷn â deilliannau'r prosiectau a'r gweithgareddau mae'n amhosib asesu effeithiolrwydd mewn ffordd gadarn a safadwy. Mae hynny hefyd yn golygu na allwn olrhain y cysylltiadau rhwng y tri math o dystiolaeth meintiol, sef y mewnbwn cyllidol â'r prosiectau neu weithgareddau cysylltiedig, arolygon y Panel Cymunedol, a lefel y newid yn y dangosyddion cynhwysedd cymdeithasol.

2.1.4. Serch hynny, mae'r dystiolaeth sydd ar gael wedi cael ei chasglu at ei gilydd yn y Llawlyfr Atodiadau ac mae'n cael ei chrynhoi isod yn yr adran yma. Byddwn yn gyntaf yn rhoi trosolwg o gefndir Pobl mewn Cymunedau, wedyn yn trafod rôl y prif chwaraewyr (y cyd-gysylltydd, y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol a'r Byrddau Partneriaeth). Bydd hynny yn cael ei ddilyn gan drosolwg o'r gweithgareddau. Wedyn byddwn yn rhoi trosolwg o gryfderau a gwendidau prosiectau Pobl mewn Cymunedau o safbwynt y ddau gyntaf o amcanion y fenter fel a nodwyd yn 2.1.2. Mae gweddill yr adroddiad yn trafod yr hyn a gyflawnwyd mewn cymhariaeth â'r trydydd amcan, sef newid polisi a phroses.

### 2.2. Lleoliad, maint a dyluniad

2.2.1. Mae Pobl mewn Cymunedau (PmC) wedi cael ei redeg mewn wyth ardal ar hyd a lled Cymru

- Σ Deiniolen, Dinorwig a Chlwt y Bont (Gwynedd);
- Σ Peulwys (Conwy);
- Σ Southsea a Brynteg (Wrecsam);
- Σ Rhymni (Caerffili);
- Σ Rhiwgarn (Rhondda Cynon Taf);
- Σ Duffryn (Casnewydd);
- Σ Gurnos/Galon Uchaf (Merthyr Tudful);
- Σ Blaenymaes/Portmead (Abertawe).

Mae tair o'r ardaloedd yng Ngogledd Cymru a pump yn y De. Mae rhai mewn ardal wledig, yn aml ar ben bryn (megis Peulwys a Deiniolen, Dinorwig a Chlwt y Bont), ac eraill mewn amgylchedd drefol, yn bennaf ar ymylon tref neu ddinas (megis Duffryn, Blaenymaes/ Portmead a Gurnos).

2.2.2. Gan fwyaf mae ardaloedd Pobl mewn Cymunedau yn rhai diffiniedig sy'n sefyll ar eu pen eu hunain, naill ai oherwydd eu bod wedi cael eu hynysu yn ddaearyddol neu oherwydd bod eu trigolion yn cael eu hystyried yn rhan o un gymuned. Dewiswyd yr ardaloedd hyn oherwydd nad oedd partneriaeth leol yn bodoli yno ac oherwydd na fu unrhyw weithgareddau adfywio blaenorol. Cawsant eu cydnabod yn 'gymunedau' gan yr Awdurdodau Unedol fel y gellid mynd ar ôl y ddau gyntaf o'r amcanion sy'n cael eu nodi yn 2.1.2. Nid yw'r ymdeimlad o undod sy'n diffinio'r gymdogaeth yn cyfateb i ardaloedd gweinyddol (Dosbarthau Etholiadol) nac i ardaloedd darparu gwasanaethau (e.e. ardaloedd heddlu).

2.2.3. Mae maint yr ardaloedd a ddewiswyd ar gyfer Pobl mewn Cymunedau yn amrywio o stadau bychan gydag ychydig gannoedd o drigolion (Peulwys a Rhiwgarn) i gymunedau o dros 8,000 o bobl (Blaenymaes/Portmead). Mae maint yr ardal wedi dylanwadu ar y ffordd y mae'r cydgysylltydd wedi mynd o gwmpas pethau, ar y math o weithgareddau a phrosiectau, ac ar y ffordd y cafodd y rhaglen ei gweithredu.

2.2.4. Mae rhai ardaloedd Pobl mewn Cymunedau yn cynnwys dim ond tai cyngor, naill ai ar rent neu wedi cael eu prynu oddi wrth y cyngor o dan yr Hawl i Brynu (Peulwys). Mae eraill yn gymysgedd o dai cyngor a thai Cymdeithasau Adeiladu, yn aml ar ymylon eithaf y stad (Duffryn). Mewn rhai o'r ardaloedd mae tai preifat wedi cael eu lleoli o fewn eu ffin eu hunain ac wedi eu hynysu oddi wrth y tai eraill (Deiniolen). Mae'r gwahanol fathau o berchentyaeth (daliadaeth) yn gallu cael effaith go iawn neu ganfyddiadol ar natur y problemau yn ogystal ag ar ganlyniadau'r rhaglen.

2.2.5. Mae maint y boblogaeth a'r gwahanol fath o ddaliadaeth yn ffactorau sy'n effeithio ar 'undod' yr ardaloedd. Y ffactorau hyn yn eu tro sydd wedi creu amgyffrediad y trigolion o lefelau amddifadedd ac eithrio cymdeithasol sydd wedi effeithio ar eu cymuned neu ar ran o'u cymuned.

2.2.6. Cafodd y rhan fwyaf o stadau Pobl mewn Cymunedau eu hadeiladu yn chwarter olaf yr 20fed ganrif pan oedd diwydiannau lleol yn mynnu gweithlu mawr. Mae eraill (Rhymni) wedi tyfu yn fwy organaidd allan o bentrefi glofaol, gydag

adeiladau yn cael eu hychwanegu o bryd i'w gilydd hyd heddiw.

2.2.7. Mae rhai o'r stadau wedi ennill gwobrau am eu dyluniad arloesol a'u hynodrwydd pensaernïol (Duffryn). Ond mae'n amlwg bod bwlch rhwng y dyluniadau pensaernïol â'r ffordd y mae'r stadau yn gweithio yn ymarferol. Er enghraifft, yn y cyfnod dylunio roedd bod ar ben bryn yn cael ei ystyried yn fantais oherwydd y golygfeydd – yn ymarferol mae wedi ei gwneud yn anodd symud o'r unfan heb gar. Eto, mewn rhai stadau, yr oedd cyfyngu ar fynediad cerbydau yn cael ei ystyried yn fanteisiol i'r amgylchedd ac i ddiogelwch plant – ond mae hynny wedi ei gwneud yn anodd darparu gwasanaethau sy'n dibynnu ar drafnidiaeth fodur, megid gwasanaethau diogelwch a chasglu sbwriel.

2.2.8. Mae amgylchedd ardaloedd Pobl mewn Cymunedau yn amrywio, gyda rhai o'r tai o ansawdd uchel ond eu bod mewn lleoliad braidd yn llwm, a gyda rhai tai sâl mewn safleoedd digon dymunol (Rhiwgarn a Blaenymaes/Portmead).

## 2.3. Lefelau Amddifadedd

2.3.1. Mae'r cyfan bron o'r stadau Pobl mewn Cymunedau wedi dioddef yn sgil dirywiad y diwydiannau trwm ac o gau safleoedd gwaith lleol. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sydyn mewn diweithdra, ymhlith dynion yn bennaf, ac yn sgil hynny at dlodi a'r problemau cymdeithasol sy'n dod law yn llaw â hynny. Felly mae pethau wedi bod yn mynd at i lawr heb unrhyw beth hyd yma wedi gallu troi hynny o chwith.

2.3.2. Ond mae lefelau amddifadedd, boed nhw'n cael eu mesur yn ôl y Mynegai o Amddifadedd yng Nghymru ar gyfer y Rhanbarthau Etholiadol perthnasol ynteu yn ôl y dangosyddion sydd yn Atodiad A yn y Llawlyfr Atodiadau, yn amrywio o un ardal PmC i'r llall. Ar ben hynny, mae lefelau amddifadedd yn amrywio o fewn yr un ardaloedd hefyd, gyda rhai aelwydydd cymharol gefnog a rhai yn fwy amddifadus. O safbwynt y Rhanbarthau Etholiadol sy'n cynnwys y prif ran o bob ardal Pobl mewn Cymunedau, nid yr ardaloedd a ddewiswyd yw'r rhai mwyaf amddifadus yn yr awdurdod unedol, ac eithrio yn achos y Gurnos ym Merthyr Tudful. Mewn pedair ardal arall (Abertawe, Casnewydd, Caerffili a Wrecsam maent yn 2il, 3ydd neu 4ydd ond yng Ngwynedd, Rhondda Cynon Taf a Chonwy mae'r ardaloedd yn 10fed ar y rhestr neu'n is.

## 2.4. Mentrau adfywio blaenorol

2.4.1. Mae rhai ardaloedd Pobl mewn Cymunedau wedi bod yn rhan o fentrau adfywio yn barod. Roedd y rhain naill ai yn gynlluniau adfywio ffisegol (dymchwel adeiladau yn y Gurnos), yn fentrau datblygu economaidd (Menter Ardal y Llechi yng Ngwynedd) neu'n brosiectau datblygu cymunedau (Prosiect Cymdogaeth y Duffryn). Mewn rhai o ardaloedd Pobl mewn Cymunedau mae'r mentrau hynny wedi arwain at greu partneriaeth ar gyfer ardal ehangach neu ardaloedd cyfagos ac wedi cychwyn newid diwylliant fel bod gweithio ar y cyd yn dderbyniol mewn rhai o'r awdurdodau lleol a'r asiantaethau. Mewn ardaloedd eraill ni fu unrhyw strategaeth fawr, ond yn hytrach

gweithgareddau bychan yn anelu at ddatblygu'r gymuned (Blaenymaes/Portmead) neu wella tai (Peulwys).

2.4.2. Mewn rhai achosion mae gweithgareddau a phrosiectau blaenorol wedi bod yn help i gychwyn Pobl mewn Cymunedau, gan bod sylfeini yno'n barod ar gyfer gyd-dynnu a phobl wedi arfer gweithio trwy'i gilydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Yn rhai o'r achosion hynny, roedd hanes adfywiad blaenorol yn rhwystr y bu'n rhaid i'r cydgysylltydd ei oresgyn, gan y bu'r profiad blaenorol yn negyddol ac yn wrth-gynhyrchiol (Rhiwgarn).

2.4.3. Ym mhob achos bron, roedd hanes o godi gobeithion a pheidio â'u gwireddu. Ar ben hynny, bu rhyw fath neu'i gilydd o ymarferion ymgynghori ym mhob un bron o'r stadau Pobl mewn Cymunedau. Mae teimlad cryf ei bod yn awr yn amser 'i rywbeth gael ei wneud'.

## 2.5. Gweithredu Pobl mewn Cymunedau

2.5.1. Mae natur yr ardaloedd eu hunain wedi dylanwadu ar pa mor gyflym y gweithredwyd Pobl mewn Cymunedau yno. Pan oedd rhywfaint o ymgynghori wedi bod o'r blaen, neu raglenni adfywio, neu gysylltu gyda'r gymuned, yr oedd y cydgysylltydd yn gallu dechrau ar unwaith bron, trwy gysylltu gyda grwpiau cymunedol oedd yn bodoli'n barod, trwy adeiladu ar y grwpiau hynny neu trwy ychwanegu at brosiectau neu weithgareddau (Wrecsam, Duffryn a Gurnos). Yr oeddynt weithiau yn gallu gwneud defnydd o archwiliadau cymunedol blaenorol o ryw fath neu'i gilydd.

2.5.2. Lle nad oedd y sylfaen yma yn bodoli roedd rhaid i'r cydgysylltydd greu cysylltiadau a dod o hyd i ffyrdd o weithio'n agos gyda thrigolion a gweithwyr proffesiynol. Ar y naill law mae hynny wedi ymestyn y broses. Ond ar yr ochr bositif mae wedi gorfodi'r cydgysylltydd i ymestyn allan i'r gymuned, a gwneud yr ymdrech i weithio gyda'r gymuned a chodi proffil y rhaglen (e.e. yn Neiniolen). Mae pa mor gyflym y gweithredwyd y broses wedi dibynnu hefyd ar briodoleddau'r cydgysylltwyr, er enghraifft natur a maint eu profiad a'u sgiliau datblygu cymunedol, a'u sgiliau mewn datblygu prosiectau a mewn rheolaeth.

## 2.6. Cydgysylltwyr

2.6.1. Yn achos y cydgysylltwyr oedd â chefnidir mewn adfywiad, yn arbennig o fewn yr un ardal neu o fewn yr un Awdurdod Lleol, roedd eu cysylltiadau lleol, eu profiad a'u gwybodaeth am yr ardal yn help iddynt ddechrau rhoi'r rhaglen ar waith ar unwaith (Southsea a Brynteg, Gurnos).

2.6.2. Penodwyd cydgysylltwyr cyntaf pob ardal PmC cyn canol 1999, sef fwy neu lai yn unol â'r amserlen. Ond mae rhai ohonynt heb bara at ddiwedd y rhaglen. Y rheswm i ddechrau oedd bod pwysau'r swydd wedi eu gyrru i chwilio am waith yn rhywle arall, ac yn ddiweddarach y rheswm oedd bod swydd fwy addas neu o ansawdd gwell wedi codi. Yn yr achosion hynny lle roedd angen cydgysylltydd newydd, bu'r broses yn araf ac mewn rhai ardaloedd collwyd momentwm datblygu'r fenter. Mae hynny wedi gwneud y dasg yn fwy anodd i'r cydgysylltwyr newydd gan bod pobl wedi cymryd bod y prosiect wedi cael ei adael a bod eu gobeithion heb gael eu gwireddu.

2.6.3. Rhan o'r anhawster i benodi cydgysylltwyr oedd y proffil eithriadol yr oeddid yn ei fynnu. Mewn egwyddor, dylai bod gan gydgysylltwyr y galluoedd a'r priodoleddau sy'n dilyn:

- Σ dealltwriaeth dda o strwythurau Awdurdodau Lleol ac o drefniadau a phrosesau cyrff ariannu,
- Σ y gallu i weithio 'allan yn y maes' ac i gefnogi prosiectau unigol,
- Σ golwg strategol ar bethau a dealltwriaeth gyffredinol o adfywiad er mwyn datblygu strategaeth integredig ar gyfer eu hardal,
- Σ y gallu i ysgrifennu bidiau ac i wneud ceisiadau am gyllid,
- Σ y gallu a'r parodrwydd i wrando ar bobl yn eu cymuned ac i roi awdurdod, gwybodaeth a chynghor iddynt,
- Σ y gallu i weithio gyda'r ystod llawn o drigolion, o'r henoed sydd wedi eu hynysu at y bobl ifanc sydd wedi eu cau allan,
- Σ y gallu i gadw cytbwysedd trwy weithio'n agos gyda'r gymuned ond heb gael eu tynnu i mewn i unrhyw wrthdaro lleol,
- Σ y gallu i ryngweithio ac i weithio gyda swyddogion yr awdurdod lleol a chyrff statudol a gwirfoddol eraill,
- Σ yn hanfodol, y gallu i gael ei weld gan y trigolion fel cyfaill i'w barchu ac i ymddiried ynddo, person sy'n annibynnol ar y Cyngor ond eto ddim yn wrthwynebus i'r Cyngor.

Anaml mae dod o hyd i'r ystod yma o alluoedd a phriodoleddau mewn un unigolyn.

2.6.4. Mae'r cydgysylltwyr wedi bod yn wahanol iawn i'w gilydd o safbwynt cefndir, profiad a phersonoliaeth. Nid yw'n syndod felly eu bod yn aml wedi pwysleisio agweddau gwahanol iawn ar eu gwaith ac wedi dehongli eu rôl mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai wedi bod yn ddygn iawn yn ysgrifennu bidiau er mwyn denu arian ategol ac eraill wedi canolbwyntio ar y gwaith caib a rhaw o sefydlu prosiectau unigol. Yn yr un modd, nid yw cydgysylltwyr wedi bod yn gyson yn y ffyrdd yr oeddynt yn dehongli cysyniadau allweddol fel 'ymwneud â'r gymuned' a 'rhoi awdurdod yn nwylo'r cymunedau'. Mae rhai cydgysylltwyr wedi gwneud pwynt o beidio â gwario ar isadeiledd gan ddefnyddio'r adnoddau i drefnu gweithgareddau, gan annog pobl i gymryd rhan mewn prosiectau. Mae rhai wedi canolbwyntio ar brosiectau penodol, er enghraifft y cyfleusterau i'r gymuned, a fyddai'n ddeilliant gweladwy ac a fyddai hefyd yn rhoi sgôp i ddatblygu rhagor o weithgareddau cymunedol.

2.6.5. Mae trafodaeth fwy manwl ynglŷn â rôl ac effeithiolrwydd cydgysylltwyr yn 3.12.

## 2.7. Cefnogwyr

2.7.1. Y bwriad oedd i'r Cefnogwyr fod yn swyddogion uwch gyda'r Awdurdodau Lleol a'u rôl fyddai helpu'r cydgysylltydd i ddod yn gyfarwydd â'r ardal a'i 'phethe', rhoi cefnogaeth ar lefel reolaethol a rhoi i'r cydgysylltwyr yr 'allwedd' i strwythur y cyngor a'r cyrff cyllido. Byddai hyn yn hanfodol o safbwynt galluogi'r

gydgysylltydd i gael ei draed dano o safbwynt gweinyddiaeth ac o safbwynt gwneud y cysylltiadau fyddai'n hanfodol er mwyn gweithredu Pobl mewn Cymunedau.

2.7.2. Cafodd y Cefnogwyr eu lleoli mewn nifer o wahanol adrannau yn yr Awdurdodau Lleol. Roedd nifer ohonynt mewn adrannau Datblygu Cymunedol, rhai yn yr Adrannau Tai ac eraill yn y Gwasanaethau Amgylcheddol. Roedd y rhai oedd â gwybodaeth weithredol am yr ardaloedd Pobl mewn Cymunedau neu oedd â dealltwriaeth fanwl o ystyriaethau adfywio mewn sefyllfa dda i gyflawni eu rôl.

2.7.3. Mae'r berthynas rhwng Cefnogwyr a chydgyssylltwyr wedi amrywio yn ôl pa mor agos oedd y Cefnogwr at y mater ac yn ôl anghenion y cydgysylltwyr. Mewn rhai achosion mae'r Cefnogwr wedi cadw yn y cefndir ac heb ymyrryd yn y rhaglen. Ynn yr achosion hynny roedd rhai o'r cydgysylltwyr yn hapus gyda'r gefnogaeth gyfyngedig a gafwyd ond yr oedd eraill oedd eisiau, neu fyddai wedi hoffi, mwy o gefnogaeth. Mae hynny yn arbennig o wir am y cydgysylltwyr oedd yn ei chael hi'n anodd agor sianeli i mewn i'r gymuned neu at ddarparwyr gwasanaethau. Mewn rhai ardaloedd Pobl mewn Cymunedau llwyddodd y cydgysylltwyr a'r cefnogwyr i weithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus iawn, gyda'r naill yn ategu sgiliau a galluoedd y llall.

2.7.4. Mae trafodaeth fwy manwl ynglŷn â rôl ac effeithlonrwydd y cydgysylltwyr yn 3.11.

## 2.8. Ffurio Byrddau Partneriaeth

2.8.1. Erbyn Medi 1999 yr oedd Bwrdd Partneriaeth wedi cael ei sefydlu, yn ffurfiol neu'n anffurfiol, ym mhob ardal. Ond mewn tair ardal yr oedd rhyw fath o grŵp aml-asiantaeth yn bodoli cyn i Pobl mewn Cymunedau gael ei gyflwyno. Ni chafodd y bartneriaeth ei gosod ar seiliau ffurfiol yn Rhiwgarn a Southsea/Brynteg tan yr ail flwyddyn - yn achos Southsea/Brynteg dim tan Chwefror 2001 – gweler Tabl 3.2.

2.8.2. Mae'r byrddau yn cynnwys cynrychiolwyr amrywiaeth o gyrff anstatudol, gan gynnwys cymdeithasau tenantiaid a sefydliadau o'r sector gwirfoddol. Yn gyffredinol roedd gan yr Awdurdodau Unedol nifer o gynrychiolwyr ar y Bwrdd ond yn rhai achosion dim ond un sedd oedd yn cael ei neilltuo i'r Awdurdodau Unedol. Mae gan y rhan fwyaf o'r byrddau ryw faint o weithwyr proffesiynol rheng flaen lleol yn perthyn iddynt (er enghraifft, ymwelwyr iechyd neu swyddogion heddlu cymunedol). Mae cadeiryddiaeth y byrddau yn amrywio hefyd. Mae rhai cadeiryddion yn barchedigion o'r tu allan (e.e. o'r byd academiaidd), mae rhai wedi dewis eu cynghorydd lleol ac mae eraill wedi dewis aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfarfod bob chwarter ond rhai yn cyfarfod bob dau fis ac eraill yn cyfarfod yn llai aml.

2.8.3. Mae trafodaeth fwy manwl ynglŷn â Byrddau Partneriaeth yn 3.10.

## 2.9. Gweithgareddau

### Ymgynghori

2.9.1. Dechreuodd rhai cydgysylltwyr weithredu eu rhaglen Pobl mewn Cymunedau trwy wneud astudiaeth o'r ardal – naill ai proffil o'r gymuned neu asesiad o anghenion. Mae hynny wedi hwyluso'r gwaith o gydweithio gyda'r gymuned ac wedi rhoi gwybodaeth ynglŷn â materion o bwys lleol ac ynglŷn â gobeithion y bobl. Mae'r dulliau o ymgynghori wedi cynnwys holiaduron, grwpiau ffocws a thrafodaeth. Mae nifer fechan o gydgysylltwyr wedi defnyddio'r broses o fonitro a gwerthuso er mwyn ymestyn eu gwaith ymgynghori. (ym Mheulwys mae grŵp ffocws ar addysg wedi cael ei sefydlu yn dilyn y gwaith gwerthuso yn y maes). Mewn rhai achosion mae'r ymgynghoriad wedi bod yn sail i ddylunio'r cynllun gweithredu.

2.9.2. Ond yr oedd canfyddiad cyffredinol bod gormod o ymgynghori wedi digwydd yn y cymunedau erbyn hyn. Mae arolygon y Panel Cymunedol (gweler Atodiad B yn y Llawlyfr Atodiadau) yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r trigolion yn meddwl mai'r ffordd orau o ddatblygu ymdeimlad o gymuned yw cymryd rhan mewn gweithgareddau, fel diwrnod o hwyl, cyfarfodydd cymdeithasol, chwaraeon a grwpiau rhieni a'u plant. Roedd y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn dweud bod yn well ganddynt awyrgylch llai ffurfiol a bod hynny yn gwneud iddynt ymateb yn well am nad oeddynt yn teimlo dan fygythiad a'u bod yn fwy parod i siarad yn weddol agored.

2.9.3. Byddwn yn canolbwyntio ar ymgynghori ac ar yr hyn sydd wedi cael ei wneud i gefnogi barn y gymuned ym mhennod 4.

### Cynlluniau Gweithredu

2.9.4. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd Pobl mewn Cymunedau wedi llunio Cynlluniau Gweithredu. Weithiau y cydgysylltydd ei hun sydd wedi eu llunio, dro arall y cydgysylltydd ar y cyd gyda swyddogion a/neu gyda chyfraniad ystod o wahanol bobl yn cynrychioli buddiannau mwy eang. Yr oedd y rhan fwyaf o'r rhain yn debyg i bob cynllun adfywio arall, gyda phrosiectau ac, mewn rhai achosion, targedau. Y prif wahaniaeth oedd bod nifer go helaeth o'r prosiectau wedi cytuno pa gyllid fyddai ei angen at y dyfodol yn hytrach na dim ond rhoi awgrym o'r hyn y byddai'n bosib ei wneud.

2.9.5. Mewn un ardal Pobl mewn Cymunedau does dim cynllun gweithredu wedi cael ei lunio hyd yma. Mewn ardal arall does dim ond amlinelliad o'i gynnwys, ac mewn un ardal mae'n dal i gael ei ddrafftio. Yn y 5 ardal arall mae gan Pobl mewn Cymunedau Gynllun Gweithredu sydd wedi cael ei gymeradwyo gan eu Bwrdd ac sydd wedi cael cadarnhad gan yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill bod cyllid ar gael am dair blynedd.

### Gweithgareddau sail prosiect

2.9.6. Mae'r rhan fwyaf o raglenni Pobl mewn Cymunedau yn ymwneud â chefnogi, hyrwyddo neu greu tŷ cymunedol. Roedd

ymdeimlad bod tai o'r fath yn bwysig. Byddent yn gweithredu fel canolbwynt i weithgareddau adfywio, yn cael eu huniaethu gyda Pobl mewn Cymunedau, ac yn fan cyswllt niwtral a difygythiad i drigolion.

2.9.7. Gweithgaredd arall oedd yn cael ei gefnogi'n helaeth oedd grwpiau rhieni a'u plant, oedd yn anelu at weithio'n agos gyda rhieni trwy gyfrwng eu plant, ac yn helpu rhieni i ennill hyder yn eu gallu i chwarae gyda'u plant ac i ddysgu gyda nhw. Bu nifer o gyrsiau hyfforddi, sgiliau cyfrifiadurol er enghraifft, ond hefyd rhai sgiliau mwy arloesol, fel gwneud dodrefn. Yn aml, mae'r cyrsiau hyn wedi eu hanelu gymaint at weithgarwch cymdeithasol a datblygiad personol ag at wella cyfle am waith. Bu cefnogaeth hefyd i ddiwrnodau chwaraeon ac i ffeiriau hwyl undydd, a bu digwyddiadau eraill megis diwrnod 'cysylltu â chyflogwyr'.

## 2.10. Y costau

2.10.1. Y costau sy'n cael eu nodi yn Tabl 3.1 yw'r arian a ddyrannwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i brosiectau unigol Pobl mewn Cymunedau. Roedd costau Cyfnod 1 yn cynnwys cyflog a chostau cefnogol y cydgysylltydd. Yng nghyfnod 2, yr Awdurdodau Lleol oedd yn talu'r costau hynny. Roedd y cyfan o'r cyllid ar gyfer Cyfnod 2 yn Rhymni yn gyllid Her Cyfalaf (Capital Challenge). Mae'r cyfan o arian Cyfnod 1 wedi cael ei hawlio ond mae symiau sylweddol o arian oedd heb gael ei hawlio erbyn amser ysgrifennu'r adroddiad hwn. Serch hynny, yn y rhan fwyaf o achosion mae'r prosiectau yma eisoes ar y gweill ac felly er bod y symiau hyn yn uwch na'r gwir wariant hyd yma, y maent yn well adlewyrchiad o'r gwariant llawn sy'n gysylltiedig â Pobl mewn Cymunedau yn yr wyth ardal.

**Tabl 2.1: Cyllid Pobl mewn Cymunedau a ddyrannwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod 1/Blwyddyn 1 a Chyfnod 2/Blwyddyn 2**

### Cyllid Pobl Mewn Cymunedau a ddyrannwyd

| POBL MEWN CYMUNEDAU                | Cyfnod 1 £ | Cyfnod 2 £ | Cyfanswm £ |
|------------------------------------|------------|------------|------------|
| Deiniolen, Dinorwig a Chlwt-y-Bont | 96,000     | 124,114    | 220,114    |
| Duffryn                            | 65,500     | 28,000     | 93,500     |
| Gurnos/Galon Uchaf                 | 80,000     | 135,000    | 215,000    |
| Peulwys                            | 87,500     | 108,386    | 195,886    |
| Rhiwgarn                           | 92,718     | 60,000     | 152,718    |
| Rhymni                             | 94,000     | -          | 94,000     |
| Southsea and Brynteg               | 118,000    | 172,277    | 290,277    |
| Blaenymaes/ Portmead               | 105,000    | 99,863     | 204,863    |
| Holl ardaleddd Pobl mewn Cymunedau | 738,718    | 727,640    | 1,466,358  |

Ffynhonnell: Atodlenni Pobl mewn Cymunedau

## 2.11. Gwneud Argraff

2.11.1. Mae rhaglen fel Pobl mewn Cymunedau yn gallu gwneud dau fath o argraff – un yn y canlyniadau i'r trigolion (sy'n cyflawni amcan 1 a 2 yn 2.1.2) a'r llall yn y newid proses (sy'n cyflawni'r trydydd amcan yn 2.1.2.). Y cyntaf yw'r effaith y mae'r gweithgareddau, ac yn arbennig y prosiectau, wedi ei gael ar ffrwyth a chanlyniadau'r adfywiad – sef yr hyn y maent wedi ei wneud i wella bywydau trigolion ardaloedd Pobl mewn Cymunedau. Ni fu monitro systemataidd ar y deilliannau (niferoedd yn bresennol, natur eu cyfraniad ac yn y blaen) na'r canlyniadau (gwell iechyd, mwy o hyder ac yn y blaen) sy'n golygu ei bod yn anodd iawn, onid yn amhosib, eu sefydlu yn wrthrychol. Ar ben hynny, mae canfod, archwilio ac asesu effaith yn dasg mwy addas i Adroddiad Terfynol. Mae'n well i adroddiad interim fel hwn ganolbwyntio ar faterion o broses, sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ffordd y mae'r rhaglen yma (a'i holynydd) yn cael ei rhedeg. Ond mae'n wir dweud y cydnabyddir bod prosiectau Pobl mewn Cymunedau ar y cyfan wedi dechrau gwneud argraff gadarnhaol – ond eu bod wedi cymryd mwy o amser, ac wedi bod yn llai niferus nag y gobeithiwyd yn y dechrau.

2.11.2. Yn ail, bu rhai effeithiau ar broses – hynny yw, newidiadau sy'n cael effaith ar y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu, eu trefnu a'u deall. Bu'r rhain yn gryfach yn yr ardaloedd oedd heb brofiad blaenorol o fentrau adfywio. Mae'r ardaloedd hynny wedi dysgu nifer o wersi caled, a phoenus weithiau, ynglŷn â'r hyn sy'n ddichonadwy a'r hyn sydd ddim, a pha faglau i'w hosgoi. Ar draws yr holl ardaloedd cafwyd argraff bositif (i wahanol raddau) o'r rhwydweithio rhwng adrannau

awdurdodau lleol, asiantaethau a sefydliadau eraill. Mewn rhai ardaloedd, yn arbennig y rhai lle roedd y Cefnogwr wedi cymryd mwy o ddiddordeb, mae lefelau uchaf llywodraeth leol wedi cael mewnwelediad i realaeth y problemau y mae ganddynt gyfrifoldeb amdanynt. Mae rhai enghreifftiau i'w cael ym mhennod 6.

2.11.3. Y mae'n sicr yn wir bod peth gwaith o baratoi'r tir wedi cael ei wneud yn rhai o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Ond yn yr ardaloedd hynny fe allai'r ymrwymiad i gyflawni'r Cynllun Gweithredu wasgu allan y broses o finiocáu a rhannu unrhyw wersi sydd yno i gael eu dysgu.

2.11.4. Mae rhai effeithiau negyddol wedi codi o Pobl mewn Cymunedau. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â siomi gobeithion. Mae hynny wedi digwydd nid yn unig ymhlith aelodau'r gymuned yn ardaloedd PmC ond hefyd ymhlith swyddogion rheng flaen yr asiantaethau a'r adrannau sy'n darparu gwasanaethau iddynt. Mae hyn wedi cael ei achosi yn bennaf gan gymysgedd o 'or-werthu', diffyg dealltwriaeth o'r rhwystrau tebygol, diffyg dealltwriaeth ar ran y buddiannwyr o'r hyn y dyluniwyd Rhaglen fel hon i'w gyflawni a'r hyn yr oedd yn bosib i'r rhaglen ei gyflawni, a diffyg cefnogaeth gan y rheng flaen i wthio pethau trwodd.

## 2.12. Trosolwg o'r hyn a gyflawnwyd mewn cymhariaeth â'r amcanion allweddol

2.12.1. Mae Tabl 2.2 yn rhoi trosolwg o ddatblygiad yr wyth PmC ac yn canolbwyntio yn benodol ar y ddwy brif dasg, sef sefydlu bwrdd partneriaeth a datblygu Cynllun Gweithredu.

Tabl 2.2: Datblygiad Pobl mewn Cymunedau

| Awdurdod Unedol | Adran y Cefnogwr CC                                                                                  | Penodiad y Cydgysylltydd                                                           | Lleoliad y Cydgysylltydd                                                  | Sefydlu Bwrdd Partneriaeth yn ffurfiol (yn anffurfiol)     | Dyddiad y Cynllun Gweithredu (a'i awdur)                                                                                            |
|-----------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Caerffili       | Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai                                                                     | Penodwyd gyntaf yn Ebrill 1999, ymadael Mai 2000; Ail benodwyd Rhagfyr 2000        | 2 ddiwrnod yn y gymuned 3 gyda r cyngor                                   | Mehefin 2000 (2998)                                        | Dim                                                                                                                                 |
| Conwy           | Yr Adran Dai, yn awr yr Adran Addysg                                                                 | Penodwyd gyntaf yn Chwefror 1999 ymadael Mai 2000; Ail benodwyd Hydref 2000        | Yr Adran Dai ac o leiaf 2 fore yr wythnos yn y tŷ Cymunedol               | Ebrill 1999 (Prosiect Cymunedol Peulwys yn gynnar ym 1998) | Drafftwyd gan y cydgysylltydd ar sail ymgynghor (Menter Cymunedol Cymru, TARA) cadarnhawyd gan fwrdd y bartneriaeth yn Rhagfyr 2000 |
| Gwynedd         | Datblygu Economaidd                                                                                  | Ionawr 1999                                                                        | Rhanu ei amser rhwng y Cyngor r tŷ Cymunedol                              | Gorffennaf 1999                                            | Cymeradwywyd yng nghyfarfod diwethaf y bwrdd interim ym Mawrth 2000                                                                 |
| Merthyr Tydfil  | Polisi a Strategaeth yn gyntaf symud yn Hydref 2000 i Hamdden ac Adfywio Cymunedol                   | Chwefror 1999 (bu'n gweithio yn y Gurnos er 1996)                                  | Llawr amser yng Ngweithdai Cymunedol y Gurnos                             | Medi 1999 (cyn hynny grŵp aml-asiantaeth er 1995)          | Cymeradwywyd drafft y Cydgysylltydd gan y Bwrdd Partneriaeth ym Mawrth 2000                                                         |
| Casnewydd       | Yr Adran Hamdden                                                                                     | Mawrth 1999                                                                        | Adran Hamdden y Cyngor                                                    | Gorffennaf 1999                                            | Cael ei ddrafftio pan ymadawodd y cydgysylltydd ym Mawrth 2001                                                                      |
| RhCT            | Adran y Prif Weithredwr, er Chwefror 2001 Datblygu Economaidd a Chymunedol (adran y prif weithredwr) | Penodwyd gyntaf yng Ngorffennaf 1999, ymadael Rhag. 2000; Ail benodwyd Ebrill 2001 | Canolfan Adnoddau r Gymuned, wedyn swyddfa Pobl mewn Cymunedau ar y stad. | Medi 2000                                                  | Y drafft wedi cael ei gwblhau ymgynghori gyda'r gymuned ar y gweill. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad yn yr haf.              |
| Abertawe        | Tai                                                                                                  | Mai 1999                                                                           | Y Swyddfa Dai Ranbarthol ar y stad                                        | Ionawr 1999 (1995)                                         | Haf 2000 drafftwyd gan y cydgysylltydd gyda mewnbwn gan y gymuned a'r partneriad cadarnhawyd gan y bwrdd                            |
| Wrecsam         | Gwasanaethau Amgylcheddol wedyn Gwasanaethau Datblygu                                                | Mawrth                                                                             | Y Ganolfan Gymunedol                                                      | Chwefror 2001 (lon. 1999)                                  | Mawrth 2000 (cydgysylltydd gweithgorau a bwrdd partneriaeth dros dro, ar sail Awdit o Anghenion)                                    |

## 2.13 Cryfderau a gwendidau Pobl mewn Cymunedau

### Adfywiad blaenorol

2.13.1 Mae gweithgareddau adfywio cyn Pobl mewn Cymunedau wedi bod yn gryfder mewn rhai ardaloedd ac yn wendid mewn ardaloedd eraill. Lle bu prosiectau adfywio cynt (e.e. Gurnos, Duffryn) yr oedd cydgysylltwyr yn gallu adeiladu ar y seiliau a osodwyd ac, yn arbennig, yn gallu defnyddio'r rhwydweithiau a'r partneriaethau oedd yn eu lle yn barod neu oedd wrthi'n cael eu datblygu. Ond rhaid cydnabod bod yr hyn sydd wedi bod o'r blaen yn gallu cyflyru pobl wrth feddwl beth i'w ddisgwyl gan Pobl mewn Cymunedau. Os bu'r adfywiad blaenorol yn aflwyddiannus neu'n wrthgynhyrchol (o safbwynt codi gobeithion a'u chwalu wedyn), roedd gan y cydgysylltydd dasg enfawr o ddadwneud drwgdeimlad a dadrithiad (e.e. Peulwys). Mewn rhai ardaloedd does dim traddodiad o fentrau adfywio ac mae'r ardaloedd hynny wedi ei chael hi'n anodd gweithio'n agos gydag asiantaethau a thrigolion ac i ddatblygu momentwm ar sail cyd-ddealltwriaeth.

### Cefndir y cydgysylltwyr

2.13.2 Y cydgysylltwyr a oedd yn y lle gorau i weithredu Pobl mewn Cymunedau oedd y rhai gyda chefnidir (llwyddiannus) o weithio yn yr ardal a'r rhai oedd â gwybodaeth ymarferol am lywodraeth leol (ac yn arbennig am yr awdurdod oedd yn gyfrifol am yr ardal PmC). Mae'r cydgysylltwyr gafodd eu 'parasiwtio' i mewn i'r ardal ac a oedd heb gefndir mewn llywodraeth leol wedi ei chael hi'n anodd. Mae rhai wedi canfod nad yw cefndir mewn datblygu cymunedol neu mewn adfywiad wedi bod, ynddo'i hun, yn ddigon i roi

iddynt yr amrywiaeth eang o sgiliau oedd yn angenrheidiol yn eu swydd fel cydgysylltydd.

### Dilyniant y cydgysylltydd

2.13.3 Mae'r ardaloedd sydd wedi cael dim ond un cydgysylltydd wedi cael y fantais o ddilyniant trwy gydol y rhaglen Pobl mewn Cymunedau. Cafwyd gwell sicrwydd, a mwy o le ac amser i ddatblygu ymddiriedaeth ac i weithio'n agos. Yn yr achosion lle bu'n rhaid newid cydgysylltwyr mae'n amlwg bod rhai o'r prosiectau Pobl mewn Cymunedau wedi dioddef, gyda'r rhaglen yn colli stêm ac yn colli momentwm. Mae wedi bod yn anodd i'r cydgysylltydd newydd adfer y momentwm ar ôl cael ei benodi, weithiau ychydig fisoedd ar ôl i'r cydgysylltydd blaenorol ymadael. Ond fel y dangosodd un prosiect PmC yr oedd sefydlu cyd-destun o adfywiad, a chael presenoldeb rheolwr llinell oedd â chysylltiadau wedi eu hen sefydlu, yn help i gynnal y rhaglen hyd yn oed dros y cyfnod rhwng colli un cydgysylltydd a phenodi ei olynydd.

### Byrddau Partneriaeth

2.13.4 Mae llwyddiant y Byrddau Partneriaeth wedi dibynnu llawer ar yr aelodau unigol, ac yn arbennig ar gyfraniad y cadeirydd. Mae cyfraniad pobl fusnes lleol wedi cael ei werthfawrogi yn arbennig ac yn y rhan fwyaf o achosion bu eu cyfraniad nhw yn un gwerthfawr. Yn y Duffryn, mae'r cadeirydd, aelod o'r gymuned fusnes leol, wedi cymryd rôl ragweithiol. Yn Rhymni mae'r cadeirydd yn bennaeth ysgol ac mae'r is-gadeirydd yn ddyn busnes lleol. Mae eu harweiniad gadarn wedi sicrhau cydlynid i'r bartneriaeth, sydd wedi ei chario uwchlaw pob gwrthdaro mewn buddiannau.

2.13.5 Mae rhai wedi mentro penodi Aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol yn gadeiryddion ac eraill, megis Deiniolen, wedi mynd am academydd uchel ei barch o'r Brifysgol leol. Mae'r Byrddau hefyd wedi cael gwahanol gytbwysedd rhwng y cyngor, y gymuned a gweithwyr proffesiynol rheng flaen.

2.13.6 Ond un gwendid sydd wedi bod ar draws nifer o ardaloedd Pobl mewn Cymunedau, er mai dim ond o bryd i'w gilydd, yw tueddiad rhai aelodau i gymryd drosodd. Mewn rhai achosion, megis Southsea a Brynteg, daethpwyd dros hynny trwy ymestyn yr aelodaeth.

### Prosiectau

2.13.7 Mae rhai o'r prosiectau wedi bod yn llwyddiannus. Mewn llawer o ardaloedd mae'r Tai Cymunedol wedi dod yn ganolbwynt i adnewyddiad ac yn bwynt ffocws i'r gymuned ei hun. Mae Pobl mewn Cymunedau wedi llwyddo hefyd i roi arian i brosiectau bychan a gweithgareddau cymunedol sydd wedi codi proffil y rhaglen ac wedi rhoi ar waith y broses o ddod â phobl at ei gilydd. Mewn nifer o ardaloedd (e.e. Duffryn a'r Gurnos) mae cyfleusterau'r ysgol yn dechrau cael eu defnyddio gan y gymuned ehangach, gyda chyllid a chefnogaeth gan Pobl mewn Cymunedau. Bu llwyddiant hefyd gyda phrosiectau yn ymwneud â phobl ifanc a bu llwyddiant gyda chysiau hyfforddi hefyd. Mewn rhai achosion bu nifer sylweddol o wirfoddolwyr o'r stadau yn cymryd rhan, ac mae'n wir dweud y bu'r prosiectau yn fwy deinamig po fwyaf y nifer oedd yn cymryd rhan a'r mwyaf eang yr oedd eu profiad. Bu'r grwpiau oedd wedi eu seilio ar weithred benodol, megis clybiau pêl droed a grwpiau rhieni a phlant, yn arbennig o llwyddiannus.

2.13.8. Ond un problem oedd yn gyffredin i bob Pobl mewn Cymunedau (ond dim trwy'r amser o bell ffordd) oedd mai'r 'hen

wynebau' oedd yn cymryd rhan ac yn cyfrannu yn anad neb arall. Mae hynny yn anfwriadol ac fel arfer yn digwydd oherwydd nad oes neb arall yn fodlon ymgymryd â'r rôl. Ond mae bodolaeth yr hen wynebau yn gallu cysylltu'r prosiect neu'r gweithgaredd gydag ymdrechion adfywio sydd wedi methu yn y gorffennol. Mae hyder a gallu'r bobl hynny yn gallu torri calon y rhai sy'n newydd i'r dull yma o gyfranogi.

2.13.9 Yn aml mae wedi bod yn frwydr i gydgysylltwyr oresgyn amheuon y trigolion, (er enghraifft meddwl bod y cydgysylltwyr yn perthyn i'r cyngor), osgoi gwrthdaro rhwng gwahanol garfanau o fewn y gymuned (megis teuluoedd a thenantiaid a chymdeithasau preswylwyr) ac atal fandaleiddio'r prosiect newydd. Ni chafodd hyn mo'i helpu gan y drefn gyllido, oedd ymhell o fod yn eglur, na gan yr oedi yn y Cynulliad Cenedlaethol cyn cytuno i rai prosiectau. Mewn un achos cymeradwywyd cyllid ac wedyn ei dynnu'n ôl, gan danseilio (dros dro) hygredded y cydgysylltydd.

2.13.10 Yn gyffredinol, nid oedd y cymryd rhan a'r cydweithio yn y gwahanol gymunedau yn digwydd mor eang ag y gellid bod wedi gobeithio. Yn y rhan helaeth o achosion mae Cynlluniau Gweithredu wedi cael eu llunio a Byrddau Partneriaeth wedi cael eu sefydlu, ond nid yw hynny hyd yma wedi cael ei drosi yn ganlyniadau cadarnhaol i ddim mwy na dyrnaid o'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiectau – lleiafrif bychan iawn o'r trigolion.

2.13.11 Er bod y Fenter wedi achosi mwy o gydweithio yn lleol o safbwynt cyflawni'r prosiectau, mwy cyfyng oedd ei effaith ar ganfod themâu i gysylltu gwasanaethau gyda'i gilydd, ac ar y ffyrdd y mae asiantaethau yn gweithio mewn ardaloedd lleol.



## DERAU A GWENDIDAU DYLUNIAD, GWEITHREDU A DARPARU POBL MEWN CYMUNEDAU

### 3.1. Cyflwyniad

3.1.1. Mae'r adran yma yn ystyried gwahanol agweddau ar brosesau Pobl mewn Cymunedau o'r gwahoddiad cyntaf hyd at y prosesau o ddysgu gwersi. Byddwn yn ceisio disgrifio pa wir effaith a gafodd bob agwedd, gan gyfeirio at ddogfennau oedd ar gael i'r wahanol bobl oedd yn cymryd rhan. Wedyn byddwn yn ystyried pa wersi sy'n codi o bob agwedd ar broses Pobl mewn Cymunedau.


3.1.2. Mae Ffigur 2.1 yn dangos y modd y mae proses Pobl mewn Cymunedau wedi cael ei strwythuro. Mae'r broses yn cael ei thrafod o dan y penawdau sy'n dilyn:

- Σ Y broses o wahodd bidiau;
- Σ Y canllawiau;
- Σ Swydd-ddisgrifiad y cydgysylltwyr;
- Σ Y bidiau;
- Σ Dewis yr ardaloedd;
- Σ Cytundebau contract;
- Σ Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2;

- Σ Awdurdodau lleol fel partneriaid arweiniol;
- Σ Byrddau Partneriaeths;
- Σ Rôl ac effeithlonrwydd Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol a rheolaeth linell;
- Σ Rôl ac effeithlonrwydd Cydgysylltwyr;
- Σ Rôl ac effeithlonrwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Σ Y broses o ddysgu gwersi.

3.1.3. Y cysyniad gwreiddiol tu ôl i Pobl mewn Cymunedau oedd cael menter peilot i hyrwyddo cyfranogiad cymunedau mewn datblygu a darparu gwasanaethau lleol i'r gymuned. Y ddau brif amcan oedd sefydlu bwrdd partneriaeth ac i'r bwrdd hwnnw ddatblygu cynllun gweithredu 3 – 5 mlynedd a fyddai'n adfywio'r gymuned. Mae Pobl mewn Cymunedau wedi cael ei weithredu o amgylch y math o brosiectau a fydd yn rhoi prawf ar allu'r bwrdd partneriaeth lleol i achosi adfywiad cymunedol ac a fydd hefyd yn adeiladu eu gallu i wneud hynny.

**Ffigur 3.1 Strwythur Menter Pobl mewn Cymunedau**



## 3.2. Y broses o wahodd bidiau

3.2.1. Cychwynnodd y broses o wahodd bidiau gyda Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 24/98 'Pobl mewn Cymunedau: Rhaglen i ddelio gydag eithrio cymdeithasol yng Nghymru'. Anfonwyd y cylchlythyr at Brif Weithredwyr pob awdurdod lleol yng Nghymru ar 29 Mehefin 1998. Yr oedd y cylchlythyr yn eu gwahodd i enwebu un gymuned ym mhob awdurdod lleol i gael ei hystyried ar gyfer cymryd rhan yn y Rhaglen Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru erbyn 31 Gorffennaf. Yr oedd y copïau a anfonwyd at y rhai gafodd wahoddiad i wneud bid yn cael eu galw yn gopïau 'gweithredol'. Anfonwyd copïau 'er gwybodaeth' at Brif Weithredwyr awdurdodau iechyd a sefydliadau oedd ar y panel o arbenigwyr y buwyd yn ymgynghori â nhw wrth ddatblygu'r fenter (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), Cyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol (WCVA), Y Fforwm Datblygu Cymunedol (CDF), Menter Gymunedol Cymru (CEW) Fforwm Cefn Gwlad Cymru(WRF) a Phrifysgol Morgannwg).

3.2.2. Yn fras, yr un nodweddion oedd gan y broses o enwebu ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Roedd y Prif Weithredwr yn rhoi'r dasg i un o'r penaethiaid adran – weithiau yn yr Adran Datblygu Economaidd, weithiau yn yr Adran Dai ac weithiau yn y Gwasanaethau Amgylcheddol - o ddewis nifer fach o ardaloedd ac o ymgynghori o fewn yr awdurdod ynglŷn â manteision ac anfanteision bob un ohonynt. Ychydig iawn o amser oedd ar gael i ymgynghori tu allan i'r awdurdod lleol, dim ond tair wythnos i fis, ond llwyddodd pob awdurdod i gysylltu gyda'r gymuned. Rhoddwyd un neu fwy o ardaloedd gerbron y Prif Weithredwr ac anfonwyd y ceisiadau at y Cynulliad Cenedlaethol gan ddadlau'r achos o'u plaid.

3.2.3. Mae'r ffordd yma o ddewis ardaloedd yn wahanol iawn i'r ddwy ffordd

y bydd y Llywodraeth Ganol yn eu defnyddio, sef y broses o dendr agored, sy'n caniatáu i unrhyw gorff sydd â diddordeb wneud cais, a'r dull o lunio rhestr ymlaen llaw ar sail meini prawf gwrthrychol penodol sy'n cael eu dynodi yn ganolog. Roedd gweithio trwy'r awdurdodau lleol yn cyfyngu ar nifer yr enwebiadau ond yr oedd yn haws i'r uned fechan oedd yn gyfrifol am y rhaglen ei drin, gan ddefnyddio'r panel o arbenigwyr. Serch hynny, roedd prosesu'r gwahoddiad trwy'r Prif Weithredwr yn achosi oedi weithiau. Dywedodd un Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol:

**"wnaeth neb weithredu ar y mater am bythefnos, oedd yn gadael pythefnos yn unig i mi ymgynghori ynglŷn â'r enwebiadau"**

Mae hefyd yn gosod stamp yr awdurdod lleol ar y dewis, ac yn codi amheuan yn y cymunedau lleol, gan bod llawer ohonynt sy'n ymddiried fawr ddim yn eu hawdurdodau lleol.

3.2.4. Y broblem gyda'r broses hon yw ei bod yn cyfyngu ar y gallu i gysylltu'n uniongyrchol gyda syniadau newydd yn yr ardal a'i bod yn rhoi'r cyfrifoldeb ar yr awdurdodau lleol i wahodd partneriaid eraill i gymryd rhan yn y bid. Mae awdurdodau lleol yn sefydliadau mawr, gyda nifer o'r adrannau yn enwog am beidio â chyfathrebu gyda'i gilydd. Pan mae'r bid yn dod allan o swyddfa'r Prif Weithredwr mae adran yn cael ei henwebu i ddelio gyda'r mater ond mae'r cyfrifoldeb yn aros gyda'r Prif Weithredwr. Mae'r mater wedyn yn cael ei weld fel 'eiddo' un o'r adrannau – Datblygu Economaidd dyweder, neu Wasanaethau Amgylcheddol. Mae'n ddigon naturiol bod Pobl mewn Cymunedau yn dod yn gyfrwng i hybu agenda personol yr adran, er enghraifft fel arian glân a all ddenu arian ychwanegol o Ewrop ar gyfer prosiectau economaidd. Gyda'r math hwnnw o gynllun byddai'r awdurdod lleol

yn gweithio gyda'i bartneriaid traddodiadol os gyda neb o gwbl. Mae hyn wedi effeithio ar y cyfeiriad a gymerwyd gan bob prosiect Pobl mewn Cymunedau, ac yn arbennig ar y Cynllun Gweithredu a fwriadwyd fel strategaeth ar gyfer dyfodol y cymunedau lleol.

3.2.5. Mae Pobl mewn Cymunedau yn cael ei weld fel menter datblygu cymunedol ac mae disgwyl i'r cydgysylltwyr a benodwyd ym mhob ardal gyflawni gwaith datblygu cymunedol. Mae hynny'n codi problem ynglŷn â dewis ym mha adran i leoli'r fenter. Yn hanesyddol, mae'n ymddangos ei bod wedi cael ei lleoli ym mha bynnag adran sydd â Chefnogwr Cynhwysedd Cymunedol brwdfrydig, er ei bod yn bosib nad yr adran honno sy'n rheoli'r gwasanaethau prif ffrwd y mae angen eu harneisio er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r cymunedau. Mae pobl mewn Cymunedau yn ymgartrefu yn hapusach gyda'r tîm polisi corfforaethol lle mae hwnnw'n bodoli neu lle mae tîm o'r fath wedi datblygu yn sgil ailstrwythuro llywodraeth leol.

3.2.6. Yr oedd y broses o wahodd enwebiadau ar gyfer ail rownd Pobl mewn Cymunedau, y gofynnwyd amdanynt yng Nghylchlythyr Cymru 13/99 a anfonwyd allan ar 29 Hydref 1999, yn dal i gael ei yrru o'r canol yn yr ystyr bod y cylchlythyr yn dal i fod wedi cael ei gyfyngu, ond i gylch mwy eang. Anfonwyd copïau 'gweithredol' nid yn unig at sefydliadau gwirfoddol, ond hefyd at ymddiriedolaethau datblygu ac i gymdeithasau tai. Hefyd anfonwyd copïau 'er gwybodaeth' at grŵp mwy eang o sefydliadau gan gynnwys prif gwnstabiail, INCLUDE, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Cafodd pob un o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi 'gweithredol' eu gwahodd i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol, yn hytrach nag adeiladu eu partneriaeth eu hunain.

3.2.7. Y newid arall o bwys mewn cymhariaeth â'r rownd gyntaf oedd caniatáu mwy o amser ar gyfer enwebiadau rhwng y Cylchlythyr â'r dyddiad cau. Rhoddwyd tri mis yn hytrach nag un. Yn yr astudiaeth yma, nid ydym wedi gallu asesu yr ardaloedd newydd sydd wedi cael eu dewis er mwyn gweld pa wahaniaeth y mae hyn wedi ei wneud.

3.2.8. Yr hyn y mae'n rhaid ei wneud yn gliriach yn y broses yw mai symiau bychan o arian mae Pobl mewn Cymunedau yn eu cynnig mewn cymhariaeth â mentrau adfywio eraill ac yn arbennig mewn cymhariaeth â rhaglenni prif ffrwd yr awdurdodau lleol. Nid o'r pwrs yma y dylid talu am wasanaethau lleol ategol. Yn hytrach, fe ddylai fod yn sylfaen i broses a fyddai'n caniatáu i'r cyllid prif ffrwd lleol ddod o dan ryw fath o gorff 'ymbarél a fyddai'n galluogi'r gymuned leol i gael mwy o lais mewn rheolaeth gymdogol ac i helpu i wneud darparu'r gwasanaethau hynny yn fwy effeithiol. Hynny yw, pwrs o arian a fyddai'n caniatáu ymyrraeth er mwyn arbrofi gyda newid rheoliadau, rheolau ac arferion darparu gwasanaethau yn yr ardal leol.

3.2.9. Os yw'r ddealltwriaeth yma ynglŷn â'r hyn y dylai Pobl mewn Cymunedau fod yn ceisio ei gyflawni yn gywir, yna efallai nad y ffordd orau yw gwneud yr awdurdodau lleol yn bwynt cyswllt cyntaf. Mae'n bosib mai dyna'r dewis mwyaf amlwg gan bod gan awdurdod lleol atebolrwydd fel deiliad cyllideb. Ond nid yw hynny'n golygu mai'r awdurdod lleol ddylai gael barnu beth ddylai Pobl mewn Cymunedau gael ei wneud. Y dewis arall yw ffurfio partneriaeth strategol leol fydd yn cwmparu'r ardal. Gallai'r rhain fod yn Fyrddau Partneriaeth a sefydlwyd o dan fentrau adfywio blaenorol, yn bartneriaethau strategol lleol sydd newydd gael eu ffurfio, yn ymddiriedolaethau datblygu cymunedol lleol neu'n

gymdeithasau tai sy'n gyfrannog mewn rhaglen weithredu fwy eang. Neu gallai fod yn unrhyw sefydliad cymunedol arall sydd wedi cael ei gyfansoddi yn ffurfiol ac sydd â'i amcanion yn anelu at reolaeth a datblygiad gymdogaethol.

3.2.10. Lle bo partneriaeth leol eisoes yn bodoli, gallai fod yn help anfon y gwahoddiad at gadeirydd y Bwrdd neu'r pwyllgor rheoli. Byddai hynny yn ei gwneud yn bosib i'r cais adeiladu ar y rhwydweithiau a'r gallu cymunedol sy'n bodoli'n barod, gan ganolbwyntio ar faterion sydd wedi codi allan o ymgynghoriad blaenorol ac o'r gymuned ei hunan. Ac os yw'r bartneriaeth yn un ffurfiol bydd sefydliad yn bodoli'n barod i gyflogi cydgyssylltydd, a bydd sianeli cyfathrebu wedi cael eu sefydlu'n barod. Gall problemau godi pan mae partneriaeth wedi cael ei sefydlu ar gyfer un fenter adfywio benodol sydd ag amcanion pendant iawn ac sydd yn gaeth i gynllun gweithredu anhyblyg. Yn yr achos hwnnw, y perygl yw i Pobl mewn Cymunedau gael ei draflyncu gan agenda arall. Problem arall yw y gallai ardal y bartneriaeth fod yn ymestyn tu draw i ffiniau Pobl mewn Cymunedau. Bryd hynny fe allai PmC gael ei amddifadu o rai o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer adfywiad gan bod yr arian yn mynd i ardal y bartneriaeth gyfan.

3.2.11. Un cartref priodol a chymwys i Pobl mewn Cymunedau fyddai ardal sydd â phartneriaeth strategol leol yn blaguro, ac sydd eisoes yn datblygu rhyw lun ar reolaeth gymdogaethol neu gymdeithas tai ac sydd wedi, neu sy'n dymuno, bod yn rhan o agenda ehangach.

3.2.12. Mae cynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd, y cynghorwyr lleol ac aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, yn cynrychioli etholaethau a allai gartrefu mentrau Pobl mewn Cymunedau. Ond o roi gwahoddiad uniongyrchol iddynt hwy, yr

ydym yn dod ar draws yr un math o broblemau ag sy'n bod gyda'r awdurdodau lleol.

3.2.13. Mae'r cynrychiolwyr democrataidd yn bwysig i broses Pobl mewn Cymunedau am eu bod yn gallu asio'r fenter gyda rhaglenni mwy eang. Ond mae ganddynt ddiddordeb personol mewn sicrhau manteision i'w cymunedau lleol eu hunain a diddordeb yn y ffordd y bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu defnyddio. Felly gallai fod peth amheuaeth ynglŷn â'u cymhellion. Os bydd adnoddau yn cael eu dosbarthu trwy'r awdurdodau lleol, bydd y potensial yn wastad yno i greu gwrthdaro rhwng buddiannau. Gallai hynny olygu mai rôl ymgynghorol yn unig ddylai fod gan gynghorwyr yn y fenter PmC. Byddai'n anodd cyfiawnhau anfon y gwahoddiadau am enwebiadau atynt hwy yn uniongyrchol.

### Rhai gwersi

3.2.14. Dywedodd un Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol:

**"Mae'n rhyfedd fel yr oedd cyfyngiad llwyr ar gylchrediad y gwahoddiad, ond bod y cynnwys yn gymharol ddilyffethair"**

3.2.15. Mae'r sylw yma yn awgrymu bod angen cael sail resymegol ynglŷn â phwy i'w gwahodd. Mae'n ymddangos bod tri mater i'w ystyried wrth benderfynu pwy i'w gwahodd i enwebu ardaloedd cymwys:

- Σ Pa mor agos y mae ffiniau daearyddol y sefydliad a wahoddwyd yn cyfateb i'r ardal a enwebwyd ar gyfer Pobl mewn Cymunedau – a yw'n debygol y bydd gwrthdaro rhwng buddiannau'r ardal PmC â buddiannau ardaloedd eraill y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddynt?;
- Σ Gwrthdaro rhwng amcanion PmC ag amcanion y sefydliad;
- Σ Gallu'r sefydliad i rwydweithio.

3.2.16. Byddai'r rhain yn ystyriaethau pwysig gydag unrhyw fenter, nid Pobl mewn Cymunedau yn unig, am eu bod yn gosod seiliau'r agenda fydd yn cario'r fenter ac yn penderfynu i ba raddau y byddir yn sefydlu cysylltiadau gyda phartneriaid priodol.

3.2.17. Y ffordd optimaidd yw anelu at y 'sefydliad' sydd â'i drwyn agosaf at y ddaear ond sydd eto yn ddigon mawr i ymateb. Dyma egwyddor datganoliaeth (subsidiarity), dod o hyd i'r lefel sydd â'r gallu i ymateb orau. Mae'n awgrymu y bydd y cysylltiad ar lefel wahanol mewn gwahanol ardaloedd. Yr anhawster yw cael golwg wrthrychol ynglŷn a pha lefel fyddai yn briodol. Oherwydd bod rhaid i awdurdodau lleol a/neu'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol a/neu asiantaethau statudol fod yn bartneriaid mewn unrhyw gais sy'n dymuno defnyddio cyllid prif ffrwd, dylid gofyn iddynt ymchwilio eu hunain neu ar y cyd i'r gallu lleol yn y maes penodol dan sylw ac iddynt wneud eu hachos dros enwebu darpar ymgeiswyr. Byddai rhoi gwybod am y cynllun yn eang trwy holl ardal yr awdurdod lleol yn caniatáu i bob math o sefydliad ddod at yr awdurdod lleol i ofyn am gael eu cydnabod.

### 3.3. Canllawiau

3.3.1. Paratowyd canllawiau a'u hanfon allan gyda Chylchlythyr 24/98, oedd yn gwahodd y bidiau cyntaf. Anfonwyd yr un canllawiau allan, heb ddim ond mân-addasiadau, gyda Chylchlythyr 13/99 oedd yn gwahodd bidiau am yr ail rownd.

3.3.2. Roedd y canllawiau yn dweud bod y fenter yn rhan o strategaeth gyffredinol y Swyddfa Gymreig i ddelio gydag eithrio cymdeithasol ac mai ei hamcan gyffredinol oedd dangos sut y gallai cydgysylltu ar sail cymunedol fod yn ffordd effeithiol o ddelio gydag eithrio cymdeithasol trwy weithredoedd wedi eu targedu. Cyfeiriwyd

yn benodol at brosiectau unigol Pobl mewn Cymunedau fel 'prosiectau arddangos' (demonstration projects).

3.3.3. Roedd rhannau o'r Canllawiau yn rhestru: y meini prawf ar gyfer dethol ardaloedd PmC, sgôp gweithgareddau PmC, strwythur PmC, y cyllid a'r gefnogaeth oedd ar gael, yr angen i benodi cydgysylltydd datblygu, amserlen (rhwng 31 Gorffennaf 1998 a 1 Chwefror 2000), yr angen am ymrwymiad gan yr awdurdod lleol, datganiad o ymrwymiad y Swyddfa Gymreig, y broses o enwebu ardaloedd, a'r angen am dystiolaeth o ymrwymiad partneriaid. Roedd Atodiad A yn cynnig rhestr o feysydd gweithredu posib o dan PmC yn y cymunedau. Yn Atodiad B roedd sgerbwd o swydd ddisgrifiad ar gyfer y cydgysylltydd datblygu.

3.3.4. Wrth fanylu ar sgôp Pobl mewn Cymunedau roedd y canllawiau'n dweud bod y rhaglenni a saerniwyd ar gyfer y cymunedau a ddewiswyd, yn debygol o gwmpasu ystod o wahanol weithgareddau, gan gynnwys meysydd fel addysg, cefnogaeth i deuluoedd, datblygu cymunedol, gwelliannau amgylcheddol, tai, trafndiaeth, cyflogaeth a hyfforddiant neu gymunedau iach.

3.3.5. O safbwynt strwythur Pobl mewn Cymunedau, yr asgwrn cefn fyddai'r cydgysylltydd datblygu oedd i gael ei benodi a'i gyflogi gan yr awdurdod lleol. Mae'r swydd ddisgrifiad a awgrymwyd yn y canllawiau yn cael ei restru yn 3.4.1 sy'n dilyn. Roedd y tasgau yn rhoi'r argraff gyffredinol y gallai Pobl mewn Cymunedau fod yn ymwneud ag adfywiad cynhwysfawr a bod y cydgysylltydd yn gyfrifol am y dasg o baratoi cynllun gweithredu ac am ddod o hyd i gyllid ar gyfer cynllun 3 – 5 mlynedd. Mae'n teimlo fel cynllun adfywio traddodiadol (hynny yw prosiectau yn hytrach na newid proses) gyda'r cydgysylltydd yn datblygu'r cynllun adfywio.



3.3.6. Mae'r paragraff ar gyllido yn awgrymu y byddai Pobl mewn Cymunedau yn cael cyfran o'r £750,000 a ddynodwyd (am y cyfnod hyd at Fawrth 2000). Dylid ei ddefnyddio "i dalu cyflog a chostau y Cydgysylltydd Datblygu ac i gyfrannu at y don gyntaf o brosiectau datblygu cymunedau blaenoriaeth sy'n ymateb i anghenion presennol y gymuned sy'n cymryd rhan." Roedd cyllid arall gan y llywodraeth "ar gael" a byddai'r Swyddfa Gymreig "yn rhoi blaenoriaeth uchel.... pryd bynnag y bo modd".

### Rhai Gwersi

3.3.7. Doedd y Canllawiau ddim yn nodi unrhyw amcanion penodol. Er mai'r bwriad oedd i ardaloedd gael y rhyddid i weithredu eu prosiect Pobl mewn Cymunedau eu hunain, roedd hynny yn gam yn rhy bell ac yr oedd yn rhoi neges amwys i awdurdodau lleol, ac yn arbennig i gyd gysylltwyr a doedd hynny ddim yn helpu. Siawns y dylid bod wedi ei gwneud yn hollol glir nad oedd y syniad o sefydlu prosiectau PmC fel prosiectau arddangos, a fyddai'n dangos sut i achosi newid trwy cydgysylltu gweithredoedd, yr un peth â chynlluniau adfywio cynhwysfawr. Fe ddylai'r prosiectau fod yn mynd i'r afael â materion megis trais yn y cartref neu hen bobl wedi eu hynysu, sef gweithredoedd wedi eu targedu'n fanwl a'u cydgysylltu'n dda. Dyna ffordd o ddatblygu dull newydd o daclo materion yn lleol yn y gymuned. Roedd y syniad i sefydlu Cynlluniau Gweithredu a fyddai'n sefyll ar ôl i gefnogaeth i'r cynllun PmC penodol hwnnw ddod i ben yn syniad da. Ond fe ddylid bod wedi edrych ar hynny fel ffordd o weithredu ac o archwilio ymhellach y dulliau newydd o weithio gafodd eu datblygu. Ond ni all y Cynlluniau Gweithredu fel y maent yn cael eu disgrifio yn y canllawiau fod yn ddim gwahanol i gynlluniau adfywio cynhwysfawr o'r hen deip.

3.3.8. Ein dehongliad ni o'r Canllawiau, ar sail darllen y Canllawiau a thrafod gyda chydgyssylltwyr a Chefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol yw bod tair thema:

- Σ partneriaeth, gyda'r gymuned yn cymryd rhan;
- Σ cynllun gweithredu strategol;
- Σ rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o gydweithio yn lleol.

3.3.9. Mae'n bosib nad dyna oedd y bwriad, ond yn sicr dyna sut yr oedd y rhai a dderbyniodd y canllawiau yn gweld pethau. Ar sail y Canllawiau, disgwyliad y cydgysylltwyr a'r cymunedau lleol, ac yn wir rhai awdurdodau lleol, oedd bod hyn yn gyfle i newid pethau trwy roi prawf ar ffyrdd newydd o weithio. Y thema craidd oedd gweithredu cydgysylltiedig gyda'r gymuned ei hun yn gyfrannog. Ond roedd y canllawiau ynglŷn â phartneriaeth a chynlluniau gweithredu yn eu harwain i feddwl mewn termau traddodiadol.

3.3.10. Mae sylwadau dau cydgysylltydd yn tanlinellu'r methiant i gario'r neges drosodd:

**"Dylai Pobl mewn Cymunedau fod yn fath gwahanol o brosiect. Dylai fod yn gweithio tuag at reolaeth integredig i gymdogaethau. Dylai'r PmC yma fod yn un cam ymlaen at hynny."**

**"System gyllido anhyblyg sy'n canolbwyntio gormod ar yr un rhaglen. Mae ystwythder o fewn y prosiect ond yn aml dydych chi ddim yn gwybod beth ydych chi ei eisiau pan fyddwch chi'n bidio. Rwy'n credu bod unrhyw un sy'n gwneud cais 'gwyddonol' yn twyllo ei hunan. Unwaith y byddwch yn ceisio gwneud rhywbeth 'ar y llawr' mae pethau'n edrych yn bur wahanol".**

3.3.11. Roedd yr amwysedd ynglŷn ag amcanion y fenter yn elfen hanfodol yn y

ffaith bod y prosiectau PmC wedi methu â rhoi prawf ar amcanion y fenter mewn perthynas â chydgyssylltu. Yr oedd i bob pwrpas yn eu gorfodi yn ôl at y gweithgareddau adfywio traddodiadol, sef prosiectau ac ymgynghoriad unwaith ac am byth. O safbwynt gwersi am newid proses, ychydig braidd sydd wedi cael ei gyflawni dros y ddwy flynedd (fwy neu lai) y buont ym gweithredu. Yr hyn sydd gennym yw ychydig o brosiectau, un bartneriaeth ac un cynllun gweithredu traddodiadol.

3.3.12. Rhaid gwahaniaethu rhwng cydgysylltiad sy'n dod â gwasanaethau at ei gilydd i weithio ar thema benodol mewn ardal leol â chydgyssylltiad sy'n datblygu strategaeth ar gyfer adfywiad cynhwysfawr y cyfan o'r ardal leol. Mae'r cyntaf yn trafod gyda'r gymuned a gyda gweithwyr proffesiynol rheng flaen er mwyn ceisio dod o hyd i fater o flaenoriaeth ac wedyn yn dod ag asiantaethau eraill at ei gilydd er mwyn archwilio'r mater a thrafod sut i weithredu a sut i ddatrys y mater. Nid yw'r arian sydd ei angen yn sylweddol. Mae'r ail yn olwg cynhwysfawr dros y darlun cyflawn ac mae'n mynnu gweledigaeth, amcanion, targedau a chynllun darparu fyddai'n gofyn adnoddau sylweddol. Yn ôl pob rheswm dylid cymryd y cam cyntaf cyn yr ail, gan y byddai hynny yn datblygu ymddiriedaeth, parch a dealltwriaeth ac yn dangos llwyddiant mewn cymhariaeth â gwaelodlin mewn cymunedau amddifadus sydd ag ymdeimlad bod gwasanaethau'r Cyngor wedi methu. Gellir symud ymlaen o'r gwaelodlin yma. Mae modd dehongli'r Canllawiau fel hyn, er nad yw hynny wedi cael ei ddatgan yn glir. Ond roedd yr amserlen oedd yn rhan o'r Canllawiau, ac a oedd yn dangos cynllun gweithredu am y flwyddyn, ymhell o fod yn gyraeddadwy os mai'r broses ddwy ran yma oedd y bwriad.

3.3.13. Y dystiolaeth o fenter Working for Communities yn yr Alban a Pobl mewn

Cymunedau yng Nghymru yw bod ymdeimlad o berthyn yn codi o fod yn rhan o rywbeth sy'n cael ei gyflawni 'ar y llawr', naill ai trwy fod yn weithgar i achosi newid neu trwy wybod eich bod yn cael rhyw fudd o'r newid.

3.3.14. Felly, dylai'r canllawiau ar gyfer menter o'r math yma fod yn pwysleisio mor bwysig yw newid proses er mwyn creu ychwanegiad gwerth trwy adeiladu gallu mewn ffordd integredig sydd â deilliannau proses amlwg, er enghraifft rhwydweithiau newydd a normau cadarnhaol sydd wedi cael eu cytuno. Hynny yn hytrach na newidiadau straenus yn yr ardal fel lle i fyw, ac yn hytrach na deilliannau sy'n cael eu mesur gyda dangosyddion amddifadedd.

3.3.15. Am ei bod yn newydd, roedd yn rhaid 'gwerthu' y fenter i awdurdodau lleol a chymunedau er mwyn osgoi sylwadau fel yr un dilynol a wnaed gan Gefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol.

**"roedd yr holl beth yn farw-anedig. Mae'n well yn ein hardal ni nag mewn llefydd eraill am bod y cyngor tu ôl i ni. Nid yw'r Cynulliad wedi gwneud y gwaith o gael yr awdurdodau i gredu ynddi [yn y fenter]. Mae'r Cynulliad yn siarad am bethau mawr ond doedd dim arian tymor hir. Does dim cyllideb weithredol hyd yn oed Felly nid yw ein cydgysylltydd wedi gallu gwreiddio yn llwyr."**

3.3.16. Y broblem i'r cydgysylltwyr oedd bod y bidiau wedi cael eu seilio ar ddehongliad o'r Canllawiau a oedd yn creu disgwyliadau am weithredoedd i ddod a oedd yn llawer iawn mwy nag y gallai'r Cynulliad ei ddarparu yn y tymor byr. O'r cychwyn roedd yn rhwym o fethu cyflawni newid mawr yn y deilliannau.

### 3.4. Swydd ddisgrifiad y cydgysylltwyr

3.4.1. Y swydd ddisgrifiad a amlinellwyd yn y Canllawiau oedd "helpu'r bobl sy'n byw yn y cymunedau i:

- Σ Ymgymryd ag awdit cymdeithasol a chreu proffil o adnoddau neilltuol y gymuned ac o'i hanghenion (gan ystyried y rhestr a awgrymir yn Atodiad A);
- Σ Asesu unrhyw wendidau neu fylchau yn yr ymateb a geir gan asiantaethau prif ffrwd ar hyn o bryd;
- Σ Nodi anghenion datblygu presennol y gymuned, dyfeisio ymateb priodol i'r anghenion hynny a chwilio am y cyllid neu'r gweithredoedd sydd eu hangen i gyflawni'r ymateb hwnnw.
- Σ Helpu'r gymuned i lunio cynllun strategol;
- Σ Canfod ac ennill cyllid a chymorth arall a allai fod ar gael oddi wrth y llywodraeth ganol a llywodraeth leol, o Ewrop ac o'r sector cyhoeddus er mwyn gweithredu'r cynllun hwnnw;
- Σ Hwyluso adeiladu gallu yn y gymuned, er enghraifft trwy adeiladu sgiliau, gwybodaeth, profiad a hyder y bobl;
- Σ Hwyluso'r gwaith o sefydlu neu o wella partneriaethau traws-asiantau."

3.4.2. Mae'n swydd ddisgrifiad caeth iawn sy'n mynnu ystod eang o sgiliau a gwybodaeth ac o brofiad o strwythurau sefydliadol. Roedd y canllawiau yn dweud y byddid yn cynnal cyfres o ddiwrnodau briffio ynglŷn â chyllid, er nad ydym yn ymwybodol bod hynny wedi digwydd na bod unrhyw hyfforddiant arall wedi cael ei ddarparu ar ôl penodi. Ond yr oeddid yn rhagweld y byddai cydgysylltwyr yn cael eu gwahodd i gyfarfod â'i gilydd bob dau neu

dri mis, ac mae hynny'n rywbeth a wnaeth ddigwydd.

3.4.3. Y bwriad oedd y byddai pob cydgysylltydd yn cael cefnogaeth leol gan Fwrdd Partneriaeth. Byddent yn cael eu cyflogi yn aelodau o staff yr awdurdod lleol, a fyddai hefyd yn dynodi swyddog uwch i fod yn rheolwr llinell. Gan y gallai datblygu cymunedol fod wedi ei leoli o dan bolisi corfforaethol nid oedd yn dilyn bod gan y staff oedd ar gael i fod yn rheolwyr llinell y profiad yn y gwaith a'r sgiliau i reoli'r cydgysylltwyr a darparu hyfforddiant a chefnogaeth iddynt. O ganlyniad mae'r cydgysylltwyr yn gallu teimlo eu bod wedi cael eu hynysu. Yn wir, felly yr oedd rhai yn teimlo i ddechrau. Dylai'r sawl sy'n cael ei ddynodi yn rheolwr llinell fod yn berson sydd â phrofiad gweithredol o ddatblygu cymunedol.

#### Rhai gwersi

3.4.4. Yr hyn nad yw'r swydd ddisgrifiad yn ei wneud yw disgrifio sut yr oedd disgwyl i'r cydgysylltwyr weithio'n agos gyda'r partneriaid a'r gymuned. Nid oedd y syniad y byddent yn derbyn cefnogaeth y Bwrdd Partneriaeth yn briodol. Byddai'r aelodau yn bersonau mewn swyddi cymharol uchel, tra dylai cysylltiadau lleol fod yn canolbwyntio mwy ar weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n weithredol yn yr ardal. Er nad oedd hynny yn y swydd ddisgrifiad, y cyd-gysylltydd oedd yn cynnull y bwrdd partneriaeth.

### 3.5. Y bidiau

3.5.1. Mae proses Pobl mewn Cymunedau yn wahanol i'r rhan fwyaf o gynlluniau adfywio' lle mae partneriaethau neu bartneriaid arweiniol yn cyflwyno bid am gynllun - gan nodi eu gweledigaeth, eu hamcanion a'u targedau, ynghyd ag amlinelliad o'u prosiectau - ac wedyn yn cael eu hasesu. Mae'r cynlluniau hynny yn

tueddu i fod o blaid y rhai sy'n fwy cyfarwydd â'r broses o wneud bid. Mae'r ffordd fwy ystwyth a fabwysiadwyd gan y Swyddfa Gymreig yn well os yw annog chwaraewyr newydd a syniadau newydd yn rhan o'r bwriad.

3.5.2. Yr ydym wedi sôn yn barod am y broses o wahodd bidiau ac wedi argymhell y dylai'r broses gwmpasu mwy na dim ond awdurdodau lleol yn unig. Gyda Pobl mewn Cymunedau yr oedd dwy gam i'r broses, oedd wedi ei seilio ar Brif Weithredwyr yn enwebu ardaloedd. Mewn 4 tudalen ac atodiadau roedd disgwyl iddynt gynnwys:

- Σ Lleoliad y gymuned a enwebwyd a disgrifiad ohoni;
- Σ Amddifadedd;
- Σ Datblygiad gymunedol hyd yma;
- Σ Mentrau eraill;
- Σ Anghenion presennol y gymuned;
- Σ Monitro a gwerthuso;
- Σ Ymrwymiad yr awdurdod lleol;
- Σ Ymrwymiad y darpar bartneriaid.

3.5.3. Os oedd prosiectau yn bodoli'n barod ac yn gallu ymateb i anghenion presennol, roeddynt hwythau yn gymwys i gael eu cynnwys, er bod disgwyl y byddai rhyw ymgynghori wedi digwydd gyda'r gymuned ac y byddai'r gymuned wedi bod yn gyfrannog mewn dewis y prosiectau hynny.

3.5.4. Gan nad oedd canllawiau i ddweud beth y dylid ei wneud, ond yn hytrach wahoddiad i ddod â syniadau gerbron, yr oedd y broses yn rhoi mantais i ardaloedd oedd â rhyw gefndir mewn datblygiad gymunedol neu adfywiad gymunedol. . Yr oedd yr ardaloedd yr oedd y broses yn newydd iddynt yn cael eu gadael mewn tipyn o wagle.

3.5.5. Unwaith bod y bidiau i mewn, a chyn gwneud y dewis terfynol, cafwyd rhaglen o ymweliadau gan weinidogion a chyfarfodydd dwyochrol (bilateral) gan ddilyn rhestr fer (gweler 3.6),

3.5.6. Roedd y Cynllun Gweithredu oedd i fod i gael ei ddatblygu gan y cydgysylltydd a'r bwrdd partneriaeth yn debyg iawn i gynllun ar gyfer y math confensiynol o fidiau. Roedd disgwyl y byddai'r Cynllun Gweithredu yn un o ddeilliannau proses Pobl mewn Cymunedau ac y byddai'n cael ei adeiladu allan o'r cydgysylltiad a grëwyd yn ystod y cyfnod PmC. Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd eu Cynllun Gweithredu erbyn hyn, er nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cymeradwyo pob un ohonynt. Roedd y Cynlluniau Gweithredu i fod i edrych at y dyfodol ac i fod yn gynllun i adfywio'r ardal dros y 3 – 5 mlynedd nesaf. Byddai'n rhaid i'r partneriaid priodol fod wedi ymrwymo i'r cynllun.

3.5.7. Er bod hyn yn amcan rhagorol i Pobl mewn Cymunedau, ac yn un a ddylai wneud ei farc yn y dyfodol, yr hyn oedd ar goll oedd dealltwriaeth o sut y gallai partneriaid weithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni adfywiad cynhwysfawr. Y rheswm y mae llawer wedi methu yn y gorffennol yw bod y rhwystrau i weithio ar y cyd heb gael eu canfod a'u dileu. Felly, y cam sydd ar goll ym mhroses Pobl mewn Cymunedau yw'r cam yma o weld beth yw'r rhwystrau a cheisio mynd i'r afael â nhw cyn symud ymlaen at gynllun o adfywiad cynhwysfawr.

3.5.8. Ond mae yna brofiad o'r gorffennol ac mae hynny'n golygu bod rhai pobl yn deall bod math arall o fid y gellid bod wedi ei gyflwyno. Fel hyn y dywedodd un Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol

**"Yr oeddwn yn dod yn fwy a mwy pryderus ynglŷn ag adfywiad cymunedol. Roeddwn i wedi bod yn gweithio i'r cyfeiriad yma ers tua 5 mlynedd. Roedd yna raglen URBAN oedd yn cael ei**

chyllido gan yr ERDF (1995). Roedd y pecyn oedd yn cael ei gyllido dan flaenoriaeth 2 yn werth pedair miliwn a'r bwriad oedd gostwng diweithdra a chreu swyddi. Fe grewyd cysylltiadau o bob math.

Fw wnathon ni bob math o gamgymeriad. Dydych chi ddim yn dysgu economeg y cartref trwy ennill y loteri. Nid cael symiau mawr o arian oedd y ffordd orau o weithio'n agos gyda'r cymunedau. Fe wnaethon ni sefydlu pwyllgorau stryd a phwyllgorau ardal er mwyn ceisio torri trwy'r difaterwch. Doedd hyn ddim yn ffordd dda o wneud hynny. Roedden nhw'n cael eu cymryd drosodd. Mewn datblygu cymunedol mae fy nghefnidir i. Rydw'i wedi bod yn yfed wrth yr allor honno ers tro. Roedd yna negyddiaeth yn cael ei greu. Mewn gwirionedd fe wnaethon ni gynnal 300 o gyfarfodydd mewn deunaw mis barod - y magwyr colomennod, y rhieni-lywodraethwyr, y cymunedau ffydd. Ar ôl dwy flynedd roedden ni'n rhedeg yn ein hunfan. Roedd ein noddwr punt am bunt yn cadw ei ben i lawr oherwydd y fflac yr oedd yn ei dderbyn. Felly dyma ni'n dweud, iawn, wnaethon ni o'n anghywir. A dyma ni'n mynd yn ôl at y gymuned a dweud ein bod ni wedi gwneud pethau yn anghywir. A dyma ni'n penodi pobl oedd â sgiliau mewn adfywiad cymunedol. Yn araf, gam wrth gam, dyma adeiladu'r cyfan eto. Dyma ryddhau 4 miliwn o arian punt am bunt ac erbyn hyn mae yna ymddiriedolaeth datblygu cymunedol yno. Yn yr ymddiriedolaeth mae cymaint o gynrychiolwyr cymunedol ag o bobl eraill.

Roedd nifer o wersi:

- Does dim pwrpas i chi siarad nes yr ydych chi wedi gwrandao
- Rhaid adeiladu gallu yn gyntaf

- Rhaid i chi gydnabod yr asiantaethau sy'n bodoli'n barod."

3.5.9. Efallai bod pobl yn ymwybodol bod problemau ond nad ydynt yn fodlon rhannu eu barn ynglŷn â'r hyn sydd o'i le. Mae'r cydgysylltydd eisiau amser i ddysgu sut mae'r broses yn gweithio yn lleol, er mwyn adeiladu ymddiriedolaeth rhwng y gymuned â'r asiantaethau ac ar mwyn annog trafodaeth agored a fyddai'n edrych i mewn i'r gwahanol ystyriaethau ac yn cytuno trwy gonsensws pa broblemau sy'n gorfod cael eu datrys ac ym mha ffordd..

### Rhai gwersi

3.5.10. Mae'r syniad o broses dwy gam i enwebu cymunedau ac wedyn ymweld â'r ardaloedd a chynnal cyfarfodydd yn edrych i ni fel ffordd briodol o gytuno ar fentrau newydd. Mae'r rhoi cyfle i'r gymuned neu sefydliad lleol sy'n cynrychioli'r gymuned:

- Σ ddweud pam y byddai'r ardal yn gweddu i'r fenter neu pam y byddai'r fenter yn fuddiol i'r ardal;
- Σ wedyn trafod sut y gellid gweithredu neu ddarparu'r fenter yn lleol

Dylai hynny fod yn ffordd o osgoi'r diffyg ychwanegoliaeth (additionality) sy'n rhan o fidiau 'hen gesyg' sydd wrth gefn gan lawer o sefydliadau, neu fidiau sy'n cael eu creu o amgylch eu hen ffefrynnau sydd heb lwyddo i gael unrhyw gyllid hyd yma.

3.5.11. Yr ydym wedi dweud yn barod y credwn bod angen gwell cytbwysedd rhwng nifer y bidiau â'r gallu i gynnig syniadau newydd ac agor y drws i sefydliadau sy'n nes at eu cymunedau. Yn sicr gwell cytbwysedd nag oedd ar gael yn rownd gyntaf Pobl mewn Cymunedau.

3.5.12. Mae'r enwebiad, fel y dywedir yn 3.5.2., yn gorfod cynnwys disgrifiad o'r ardal ac o'i gallu i weithredu'r fenter. Gall

hynny fod yn sail i asesu pa enwebiadau sy'n ffitio orau. Ond nid yw'n rhoi unrhyw syniad am yr hyn y gallai'r cynllun ei gyflawni o safbwynt datblygu cymunedol nac o safbwynt datblygu economaidd. Byddai mwy o werth i'r ddogfen enwebu, a gwell sail i drafodaeth, pe byddai'r ddogfen yn cynnwys y materion sy'n dilyn:

- Σ Y bwriadau o safbwynt gweithio gyda phartneriaid;
- Σ Y mecanwaith sy'n cael eu hargymell er mwyn galluogi partneriaid i weithio gyda'i gilydd a galluogi'r gymuned i fod yn gyfrannog;
- Σ Dangos sut y maent yn asio gyda'r strwythurau sy'n bodoli'n barod e.e. pwyllgorau preswylwyr ac yn y blaen;
- Σ Syniadau ynglŷn â sut y bydd gwahanol ystyriaethau yn cael eu canfod a'u gosod yn nhrefn blaenoriaeth a syniadau ynglŷn â sut y gellid datblygu ffyrdd arloesol o wneud pethau a rhoi prawf ar y dulliau hynny gyda phartneriaid;
- Σ Gwybodaeth leol a chynlluniau ar gyfer ymgynghori;
- Σ Yr amser y bydd ei angen er mwyn dysgu'r sgiliau angenrheidiol ac i adeiladu ymddiriedaeth rhwng partneriaid, gan gynnwys y gymuned.

Byddai hyn yn rhoi mwy o hyder y gellid datblygu gweithio mewn partneriaeth cyn datblygu Cynllun Gweithredu.

3.5.13. Mae fframwaith bid fel hyn yn hollol wahanol i'r drefn draddodiadol o gyflwyno bid strwythuredig gyda blaenoriaethau, awgrym o'r prosiectau, a thargedau. Mae'n herio'r cyllidwyr i roi heibio eu dibyniaeth ar y sicrwydd ymddangosiadol y mae'r ffordd draddodiadol yn ei chynnig iddynt o safbwynt atebolrwydd. Byddai'n golygu cymryd risg ynglŷn â deilliannau'r arbrawf

ac ymrwymiad i gyllido tymor hir (3 blynedd dyweder) er mwyn talu cyflogau'r cydgyssylltydd a thîm cefnogol. Ond dim ond am un flwyddyn ar y tro y byddid yn gofyn am gynllun darparu. Byddai'n rhoi manylion ynglŷn â sut y byddai'r fenter yn dechrau gweithio'n agos gyda phobl a sefydliadau yn yr ardal, gan wybod y byddai'r fframwaith fonitro barhaus yn codi gwersi a fyddai'n ateb yr angen am atebolrwydd.

3.5.14. O ddilyn y trywydd yma byddai'n rhaid cydnabod yr angen am fwy yn hytrach na llai o ganllawiau. Nid yw'n wir bod cadw'r canllawiau yn niwlog yn annog mwy o arloesi. Yr hyn fyddai'n annog arloesi yw canllawiau da yn dweud pa bethau fydd rhaid eu hystyried wrth ddatblygu dull o weithredu. Gan mai cynlluniau peilot yw'r rhain, sy'n ceisio gweld beth wnaiff weithio a beth wnaiff ddim, un o'r allweddau i annog arloesi yw cysuro'r sawl sy'n gwneud bid nad y peth pwysicaf yw bod eu hymdrech yn gweithio neu beidio, ond ei bod yn amlygu gwersi fydd yn dangos lle mae'r rhwystrau a sut y llwyddwyd i'w goresgyn, neu pam na llwyddwyd i wneud hynny.

3.5.15. Dylai'r canllawiau ar gyfer bidiau gydnabod yr ystyriaethau sy'n dilyn:

- Σ Mae'r fenter yn un arbrofol felly rhaid mentro syniadau heb boeni am y risg o fethu, cyn belled â bod gwersi i'w dysgu ynglŷn â sut a pham na chafwyd llwyddiant gyda'r ffordd honno o weithredu;
- Σ Dylai fod cyllid tymor hir ar gyfer y cydgyssylltydd er mwyn cydnabod yr amser y mae'n ei gymryd i adeiladu ymddiriedaeth, rhwydweithiau a normau cadarnhaol (fel na fydd cydgyssylltwyr yn ymadael hanner ffordd trwy'r fenter);
- Σ Mewn rhai ardaloedd mae rhai pethau eisoes yn cael eu gwneud – felly rhaid

pwysleisio'r angen i egluro sut y byddai'r fenter yn ffitio gyda hynny;

- Σ Mae yna ardaloedd sydd heb unrhyw gefndir na phrofiad o adfywiad - rhaid dod o hyd i ffyrdd o adeiladu eu hyder er mwyn iddynt hwy ymateb;
- Σ Dylai bidiau nodi a gweithio ar un neu fwy o themâu er mwyn asesu beth allai darparwyr presennol gwasanaethau ei wneud trwy gydweithio gyda'i gilydd, os mai dyna'r ffordd briodol o fynd i'r afael â'r problemau sydd wrth wraidd pethau;
- Σ Canolbwyntio ar herio diwylliannau sydd wedi mynd i rigol yn y cymunedau a'r sefydliadau;
- Σ Cydnabod yn benodol bod drwgdybiaeth o fewn cymunedau yn broblem y bydd rhaid ei datrys;
- Σ Argymhellion ar gyfer monitro parhaus a fydd yn gwneud yn siŵr y bydd y partneriaid yn gallu dysgu'r gwersi.

3.5.16. Mae hefyd yn bwysig caniatáu mwy o amser i ddatblygu consensws ynglŷn â'r ardaloedd priodol a'r ffordd y maent yn ffitio i mewn i'r fenter – roedd yr ail rownd yn gadael 3 mis a bydd yn ddiddorol gweld a yw hynny wedi arwain at wneud y broses enwebu yn fwy cynhwysol.

### 3.6. Dewis yr ardaloedd

3.6.1. Roedd y canllawiau yn awgrymu y dylai'r cymunedau fod yn fychan, oddeutu maint ward, ac y meddu ar eu hunaniaeth eu hunain. Byddai'r gyllideb am y flwyddyn gyntaf hyd at £120,000. Y meini prawf ar gyfer dewis bidiau fyddai:

- Σ Bod modd gwneud gwahaniaeth go iawn a fyddai hefyd yn para;
- Σ Bod modd dysgu gwersi o'r broses o gynllunio, datblygu, denu arian a

defnyddio adnoddau – gwersi y gellid eu defnyddio mewn llefydd eraill;

- Σ Bod modd dangos y bydd cymryd rhan mewn Pobl mewn Cymunedau yn ychwanegu gwerth at ddatblygiad sydd eisoes yn cael ei gynllunio neu sydd eisoes ar y gweill.

3.6.2. Roedd yr enwebiadau i gael eu hystyried wedyn gan y Swyddfa Gymreig, gan ddefnyddio panel o arbenigwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WCVA), y Fforwm Datblygu Cymunedol (CDF), Menter Cymunedol Cymru (CEW), Fforwm Cefn Gwlad Cymru (WRF) a Phrifysgol Morgannwg. Roedd pob un o'r cyrff yma wedi bod yn gyfrannog yn natblygiad y fenter ac ystyrid mai nhw oedd yn y sefyllfa orau i roi cyngor ynglŷn â'r dewis.

3.6.3. Tynnwyd rhestr fer o un ar ddeg a chynhaliwyd ymweliadau â'r safleoedd a chyfarfodydd dwyochrol er mwyn gweithio allan yn fanwl sut yr oedd y cymunedau lleol yn ffitio gydag amcanion y fenter. Dim ond yn ystod yr ymweliadau â'r safle y daeth pobl y tu allan i'r awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd. Cyhoeddodd Gweinidog "Allgau Cymdeithasol" y Cynulliad, Peter Hain, pa ardaloedd oedd wedi cael eu dewis ar 7 Hydref 1998 yn y Spark Centre, Blaenymaes, Abertawe.

3.6.4. Mae'r adroddiadau ardal yn yr atodiad i'r adroddiad hwn yn dangos mor amrywiol yw'r ardaloedd gafodd eu dewis. Maent yn amrywio o 280 aelwyd ym Mheulwys (Hen Golwyn) i 7,000 ar stad Blaenymaes yn Abertawe. Roedd gan rai ohonynt hanes hir o adfywiad (e.e. y Gurnos ym Merthyr Tudful) tra roedd eraill (e.e. Rhiwgarn yn Rhondda Cynon Taf a Deiniolen yng Ngwynedd) oedd wedi profi nemor ddim.

3.6.5. Proses o'r brig i'r bôn oedd y broses o enwebu cymunedau. I bob pwrpas, gwybodaeth swyddogion awdurdodau lleol am eu cymunedau lleol oedd yn penderfynu pa ardaloedd oedd yn cael eu henwebu. Nid oedd y cymunedau a enwebwyd yn cael eu hystyried y rhai 'gwaethaf' mewn unrhyw un o'r ardaloedd. Achosodd hynny ryw gymaint o anghydfod yn rhai o'r ardaloedd. Mae'n amlwg bod yr enwebiadau lleol wedi cymryd eu harwain gan y priodoleddau a restrwyd yn y cylchlythyr. Er enghraifft, yr oeddynt eisoes ar y rhestr o ardaloedd oedd i gael eu helpu gan yr awdurdod lleol am eu bod yn aeddfed i dderbyn rhyw fath o ddatblygiad gymunedol. Mae'r amrywiaeth sydd yn y dewis terfynol, ar ôl i'r panel arbenigwyr ystyried yr enwebiadau, yn adlewyrchiad arall o'r bwriad i ddefnyddio'r fenter fel arbrawf, i roi prawf ar y dull o weithredu mewn amrywiaeth o wahanol ardaloedd.

### Rhai gwersi

3.6.6. Roedd y broses o ddewis yr ardaloedd yn cymryd amcanion y cynllun i ystyriaeth. Dewiswyd amrywiaeth eang o ardaloedd a phe byddai PmC wedi cael anogaeth i weithredu yn fwy arbrofol ac i fonitro yr hyn oedd yn digwydd byddai gwersi mwy defnyddiol wedi bod ar gael.

3.6.7. Trwy fod yn fwy pendant ynglŷn â'r hyn y dylai bidiau ei gynnwys, fel a awgrymwyd yn 3.5.12, byddai'n bosib wedyn i'r bidiau gael eu barnu yn ôl ansawdd eu syniadau, pa mor dda yr oeddynt yn adlewyrchu amcanion y cynllun a'r tebygolrwydd o ddysgu gwersi er mwyn ceisio newid a dylanwadu ar brosesau. Wedyn wrth wahodd enwebiadau byddai modd cadarnhau hynny trwy ddweud nad yw'r cynllun yn anelu at yr ardaloedd gwaethaf yn ôl y dangosyddion amddifadedd nac yn anelu at roi 'twrn i bawb' wneud cais am arian adfywio gan nad arian ychwanegol i ddarparu

gwasanaethau sydd ar gael. Arbrofi yw'r pwrpas, a gellir defnyddio'r canlyniadau er budd pob ardal trwy wella effeithiolrwydd y ffordd y mae eu gwasanaethau lleol yn cael eu darparu.

### 3.7. Cytundebau contract

3.7.1. Cafodd y cynllun ei weithredu trwy gytuno contractau. Cafodd y contract cyntaf ei anfon allan ar 7 Hydref 1998 ac roedd yn cytuno ar y math o gostau y gellid eu hawlio ar gyfer y cydgysylltwyr a'r prosiectau a ddewiswyd. Roedd y contractau yn ddigon tebyg ar gyfer pob PmC. Nid oedd y cytundeb yn manylu ynglŷn â chyfnod. Nid oedd yr un o'r ardaloedd wedi hysbysebu am gydgysylltydd cyn cael y contract felly daeth y cydgysylltwyr i'w swyddi yn y cyfnod hyd at Fawrth 1999.

3.7.2. Roedd y grantiau yn amrywio rhwng £65,500 ar gyfer Duffryn (Casnewydd) â £118,000 ar gyfer Southsea a Brynteg (Wrecsam). Roedd costau'r cydgysylltwyr rhwng 30% a 45% o'r cyfanswm hwnnw. Roedd y costau eraill yn mynd rhwng gweithwyr cefnogol a phrosiectau. Roedd pump o ardaloedd yn cynnwys gweithwyr datblygu ychwanegol (rhan amser a llawn amser) ond roedd tair ardal lle nad oedd hynny'n bod (Gwynedd, Conwy a Chaerffili).

3.7.3. Er ei bod yn amlwg mai am flwyddyn yn unig y talwyd am amser ac adnoddau'r cydgysylltwr, yr oedd costau'r prosiect yn benagored. Ond yr oedd y rhai oedd wedi dewis cyflogi gweithwyr cefnogol wedi llunio eu cyllideb ar gyfer y gweithwyr hynny ar sail blwyddyn neu lai ar gontract tymor penodol yn ystod y cyfnod pan oedd cyllid ar gael.

3.7.4. Daeth y gweithgareddau oedd yn dod o dan y contract yn dasgau i'r PmC, ac yn bennaf yn dasgau i'r cydgysylltwyr pan

oeddynt yn ymgymryd â'u swyddi. Nid oedd y contractau yn cyfeirio o gwbl at brif amcan Pobl mewn Cymunedau, sef newid proses. Felly roedd y contract yn llyncu peth o amser y cydgysylltwyr, oedd yn awr yn gorfod cyflawni prosiectau ac yn cael eu tynnu oddi wrth y gweithgareddau mwy 'meddal' o weithio'n agos gyda'r partneriaid a'r cymunedau.

3.7.5. Roedd y cydgysylltwyr yn cael cynnig contract blwyddyn gydag arian Pobl mewn Cymunedau yn talu. Byddai'r awdurdod lleol yn talu am ymestyn y contract am un flwyddyn ychwanegol. Roedd yr ardaloedd yn cael derbyn cyllid Pobl mewn Cymunedau ar gyfer prosiectau yn ystod y naill flwyddyn a'r llall. Roedd yn ymddangos bod hyn yn gosod gorwel o ddwy flynedd. Roedd y gorwel amser yma yn adlewyrchu yn rhannol yr amgyffrediad mai dyna faint o amser y byddai'n ei gymryd i ddatblygu cynllun gweithredu strategol a'i gael i wreiddio yn yr ardal leol a gyda'r sefydliadau yn y bartneriaeth.

### Rhai gwersi

3.7.6. Roedd y contract yn canolbwyntio sylw ar ddarparu gwasanaethau ac ar brosiectau, ac yn tynnu sylw oddi wrth weithgareddau datblygu strategaeth a gweithredu cydgysylltiedig a fyddai'n mynd i'r afael â themâu penodol. Llai fyth yr oedd yn sôn am geisio mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau oedd yn atal gweithio ar y cyd. Mae contractau blwyddyn, fel a roddwyd i staff, yn siŵr o gael eu gweld fel cynlluniau darparu. Bydd hynny yn tanseilio eu blaenoriaeth tymor hir o ddatblygu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n gyrru pethau, ac o adeiladu ymateb lleol cytûn i'r materion hynny.

3.7.7. Byddwn yn awr yn ymhelaethu ar yr awgrym sydd yn 3.5.13 y dylai fod cyllid tymor hir ar gyfer y cydgysylltydd a'i dîm cefnogwyr er nad yw'r cynllun darparu

ddim ond am un flwyddyn. Gellid cael dau gontract, contract tair blynedd ar gyfer y cydgysylltydd a'i dîm a chontract blwyddyn ar gyfer darparu gweithgareddau. Byddai'n rhaid cael cyllidebau blwyddyn ar gyfer cynlluniau darparu wedi hynny. Ar gyfer y ddwy gyllideb byddai'n rhaid cael cerrig milltir blyneddol. Byddai cyflawni'r cynllun darparu blyneddol yn foddhaol yn ddigon i brofi gwerth y cydgysylltydd. Gyda'r cynllun darparu byddai deilliannau mewn perthynas ag adeiladu gallu, megis rhwydweithiau newydd, partneriaid newydd ac yn y blaen, sef amcanion y gweithgareddau fyddai wedi cael eu gosod allan yn y cynllun darparu.

3.7.8. Sylw un o'r gweithwyr proffesiynol lleol oedd:

**"Rhaid i ni gael pobl i gredu y byddwn ni'n dal i fod yma ymhen 10 mlynedd. Mae'n cymryd tair blynedd dim ond i ddod i adnabod pobl ac i adeiladu ymddiriedaeth. Mae peidio â pharhau gyda phrosiectau yn torri calonnau pobl sydd yn dysgu ymddiried"**

### 3.8. Blwyddyn 1 and Blwyddyn 2

3.8.1. Roedd sail contractol Pobl mewn Cymunedau yn anarferol. Fel y dywedwyd uchod roedd contract y flwyddyn gyntaf yn clirio costau'r cydgysylltydd (a chefnogaeth os oedd ei angen) a chostau prosiect, a allai gynnwys rhai gweithwyr datblygu. Ar gyfer yr ail flwyddyn roedd disgwyl y byddai'r awdurdod lleol yn talu costau'r cydgysylltydd ac y byddai'r arian ar gael ar gyfer bidiau prosiect (o'r Gronfa Capital Challenge). Y rheswm dros newid pwy oedd yn talu am y cydgysylltwyr oedd er mwyn annog awdurdodau lleol i ymrwymo i'r fenter.

3.8.2. Ond ar ôl i'r contractau a'r cyllid gael eu penderfynu ar gyfer blwyddyn un, a chyn i'r flwyddyn honno ddod i ben, daeth yn hysbys y byddai arian ychwanegol ar

gael ar gyfer prosiectau. Gan mai ychydig o ardaloedd Pobl mewn Cymunedau oedd wedi cwblhau cynllun gweithredu roedd y prosiectau a ddaeth i law yn tueddu i achub ar eu cyfle ac yn tueddu i fod yn rhai ad hoc. Erbyn yr ail flwyddyn yr oedd y cydgysylltydd (a'r Bwrdd Partneriaid) wedi dysgu llawer mwy am yr anghenion a'r cyfleoedd ddylai gael sylw. Ond erbyn hynny yr oedd llawer o'r arian wedi cael ei ddihysbyddu ar y prosiectau ad hoc y rhoddwyd cyllid iddynt tua diwedd blwyddyn un.

3.8.3. Cafodd hyn effaith ar rai cymunedau:

**"Mae'r cydgysylltydd o'r farn bod y prosiect wedi cael enw da iawn yn ystod y flwyddyn gyntaf am bod llawer o gyhoeddusrwydd a llawer o bethau yn cael eu gweld yn digwydd. Roedd hi'n anodd iawn cynnal pethau ym mlwyddyn dau pan ddaeth yr arian i ben"**

**"Roedd hygredd yn y ddelwedd oedd gennym, ond daeth y sosban oddi ar y tân yr ôl mis Ebrill. Effeithiodd hynny yn ddrwg arnom. Mae gan y cynulliad llawer i ateb drosto. Mae pobl eraill yn y tîm datblygu sydd wedi bod yn gweithio gyda'r cynulliad yn feirniadol iawn ohono"**

3.8.4. Daeth y broblem fawr yn hydref 2000. Roedd contractau y rhan fwyaf o'r cydgysylltwyr yn rhedeg o Ebrill i Fawrth 1999/2000 ac wedyn o Ebrill i Fawrth 2000/2001, er bod contract un cydgysylltydd yn dod i ben yn Rhagfyr 2000. Roedd cryn dipyn o ansicrwydd ynglŷn â dyfodol Pobl mewn Cymunedau, a oedd wedi cael ei roi yn y cysgodion pan gyflwynwyd Cymunedau'n Gyntaf. A oedd rhagor o arian am fod ar gael i Pobl mewn Cymunedau? Ynteu a ddylai awdurdodau lleol fod yn ailstrwythuro y cynlluniau yr oeddynt yn eu cefnogi yn ardaloedd PmC?

O safbwynt y cydgysylltwyr, a oedd eu rôl am barhau os nad oedd arian newydd? Oherwydd yr ansicrwydd, aeth ychydig o'r cydgysylltwyr ar ôl swyddi eraill. Daeth y cyhoeddiad fod yna ddyfodol i Pobl mewn Cymunedau o fewn fframwaith Cymunedau'n Gyntaf yn rhy hwyr.

### Rhai gwersi

3.8.5. Mae'n ymddangos mai canfyddiad y Swyddfa Gymreig yn wreiddiol, er na wnaethpwyd hynny yn hollol glir, oedd y byddai oddeutu 15 mis yn ddigon o amser i ddatblygu'r isadeiledd ar gyfer Cynllun Gweithredu ac y byddai bryd hynny yn briodol i'r Swyddfa Gymreig drosglwyddo'r cyfrifoldeb am dalu am y cydgysylltydd i'r awdurdod lleol tra'n parhau i roi cefnogaeth ariannol i rai o'r gweithgareddau yn y Cynllun Gweithredu.

3.8.6. bod yn deg, roedd llawer llai o amser ar gael yn arferol i ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer cynlluniau adfywio megis Cyllideb Adfywio Sengl y Gronfa Her (Single Regeneration Budget Challenge Fund). Ond nid oedd y cynlluniau hynny yn anelu at weithio'n agos gyda'r gymuned. O safbwynt cymharu amser yr oedd Pobl mewn Cymunedau yn nes at y Fargen Newydd i Gymunedau oedd wedi cael ei chyflwyno yn ddiweddar.

3.8.7. Mae'r berthynas sydd rhwng y cydgysylltydd a'r cyflogwr (boed yn cael ei gyllido gan y Swyddfa Gymreig/y Cynulliad neu gan awdurdod lleol) yn ffactor allweddol o safbwynt rhoi'r hyder i'r cydgysylltwyr yn y gwaith sydd ganddo gyda sefydliadau a chymunedau lleol i ddatblygu ymddiriedaeth a pharch. Rhaid sefydlu gobaith am ddilyniant os yw'r berthynas i gael ei datblygu trwy gael pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y dyfodol. Ond mae eu talu fel gweithwyr i'r cyngor yn creu rhwystr ychwanegol i'r cydgysylltwyr mewn ardaloedd lle mae

diffyg ymddiriedaeth helaeth o'r awdurdodau lleol.

3.8.8. Yn ymarferol, mae'r contract sydd ganddynt wedi effeithio ar y gweithgareddau y mae'r cydgysylltwyr wedi ymgymryd â nhw. Maent wedi cael eu gorfodi i ganolbwyntio ar ddeilliannau tymor byr mewn prosiectau sydd wedi cael eu cyllido'n llawn, ac i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu. Cafodd rhai Cynlluniau Gweithredu eu dal yn ôl oherwydd bod cydgysylltwyr wedi sefydlu Byrddau Partneriaeth dros dro am nad oeddynt yn teimlo y dylid ceisio cytuno ar Gynllun Gweithredu hyd nes bod bwrdd ffurfiol yn ei le.

3.8.9. Ni chafodd y gweithdrefnau y soniwyd amdanynt yn y Canllawiau, a'r adroddiadau blynyddol yn benodol, erioed mo'u gweithredu. Felly nid oedd gwybodaeth ar gael am yr hyn oedd wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn. Ar ben hynny, bu datblygiad ym mhowsigrwydd y swydd ac yn sail resymegol y rheolaeth linell a chafodd hynny ei ail asesu pan ddaeth yr awdurdod lleol yn gyfrifol am dalu am y swydd.

### 3.9. Awdurdodau Lleol fel partneriaid arweiniol

3.9.1. Gyda Pobl mewn Cymunedau yr oedd wedi ei sefydlu ymlaen llaw mai'r awdurdod lleol fyddai'r partner arweiniol. Yr oedd y Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol a'r rheolwyr llinell i gael eu dewis o fewn strwythur yr awdurdod lleol. Felly roedd cadarnhad clir mai statws 'awdurdod lleol' oedd gan y cydgysylltwyr. Roedd hynny ar unwaith yn arwain y rhan fwyaf o'r cymunedau yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd i fod yr un mor amheus o'r cydgysylltydd ag o unrhyw swyddog arall o'r awdurdod lleol.

3.9.2. Roedd yn rhaid i bob taliad a phob cais am brosiect gael eu cymeradwyo gan yr

awdurdod lleol fel bod y gweithgareddau, i bob pwrpas, yn cael eu pwysu a'u mesur gan yr awdurdod lleol. Mewn un PmC, gwrthododd Trysorydd y Sir awdurdodi taliad ar gyfer gweithgaredd am nad oedd yn cytuno â'r cynllun.

3.9.3. Mater arall i'w ystyried oedd yr ymateb a gafodd y fenter PmC newydd. Yn genedlaethol fe'i cyflwynwyd gyda phroffil uchel ac yr oedd yn ymddangos yn fenter o statws, y dylid bod yn rhan ohoni. Ac yr oedd yn 'arian glân' y gellid ei ddefnyddio fel ail hanner cynlluniau punt am bunt, yn arbennig gyda statws Amcan 1 y Gymuned Ewropeaidd ar y gorwel. Roedd yr awdurdodau lleol eisiau bod yn rhan o'r fenter hon, ond efallai nad oedd eu cymhellion y rhai cywir bob amser.

3.9.4. Mae arian Pobl mewn Cymunedau yn gallu cael effaith cadarnhaol ar agwedd yr awdurdod lleol tuag at yr ardal PmC, ac yn ehangach na hynny:

**"Bu Pobl mewn Cymunedau yn bwysig iawn o safbwynt agor cistiau ariannol eraill ac mae hynny wedi gwneud argraff ffafriol ar reolwyr uwch (er gwaethaf eu hamheuron ar y dechrau) ac ar aelodau. Roedd yr aelodau wedi ymrwymo i wneud yr ardal yn ffocws i adfywiad o fewn yr Awdurdod Lleol ac mae statws Pobl mewn Cymunedau wedi bod yn help i gadarnhau hynny"**

3.9.5. Roedd y fenter yn cael ei gweld fel menter datblygu cymunedol (a iawn hynny) ac roedd rhaid i'r fenter gael cartref yn rhywle. Roedd ei chartref yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall, y prif rai oedd yr adran tai, amgylchedd, datblygu economaidd neu wasanaethau corfforaethol. Pan mae menter yn cael ei lleoli mewn un adran o awdurdod lleol, mae'n cael ei effeithio gan flaenoriaethau'r adran honno. Nid yn gymaint bod yr adran yn mynnu ei ffordd ei hun ynglŷn â'r gweithgareddau, ond ei bod yn fwy parod i fwrw ymlaen

gyda rhai gweithgareddau na gyda rhai eraill. Mae hefyd yn ei gwneud yn fwy anodd i PmC gael ei le yng ngwahanol strategaethau a chynlluniau strwythurol yr awdurdodau lleol.

3.9.6. Mae sefydlu awdurdodau unedol ym 1996 a'r symudiad wedyn at lywodraeth trwy gabinet wedi creu cyfle i fentrau fel Pobl mewn Cymunedau, lle mae gofyn meddwl yn eang, gael eu lleoli yn y tîm cefnogaeth gorfforaethol sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Yn yr awdurdodau lle roedd y fenter eisoes yn bodoli, cafodd PmC ei leoli gyda Chefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol a oedd, fel Cyfarwyddwr Adran, yn rhan o'r tîm rheoli corfforaethol. Mewn ardaloedd eraill cafodd PmC ei lyncu yn rhan o'r strwythur wrth i'r rhaglen cynhwysedd cymdeithasol gael ei mabwysiadu gan y tîm polisi corfforaethol. Yn yr achosion lle daeth ardal yn Awdurdod ynddi ei hun, dim ond un, ond un pwysig, o'r mentrau oedd yn chwilio am gartref oedd Pobl mewn Cymunedau.

### Rhai gwersi

3.9.7. Roedd y manteision oedd yn cael eu gweld mewn defnyddio awdurdod lleol yn bartner arweiniol yn cynnwys ffactorau megis:

- Σ yr awdurdod lleol yw'r corff sy'n darparu llawer o'r gwasanaethau prif ffrwd i'r gymuned y mae Pobl mewn Cymunedau yn ceisio dylanwadu arni;
- Σ mae'n adnabyddus i'r gymuned leol ac, mewn egwyddor, yn gweithio gyda hi;
- Σ mae yno gynghorwyr sy'n gynrychiolwyr democrataidd y gymuned leol;
- Σ mae'n bosib ei fod yn gweithio gyda rhai o'r sefydliadau partneriaeth yn barod;

Σ gall fod yn sianel ar gyfer atebolrwydd cyllidol;

Σ y mae mewn egwyddor yn gallu asesu pa mor briodol yw'r gweithgareddau;

Σ mae'n cynnig cartref i'r cydgysylltydd.

3.9.8. Mae'r rhain i gyd yn rhesymau pam y dylai'r awdurdod fod yn rhan o'r fenter ond nid oes yr un ohonynt yn rheswm amlwg pam y dylent fod yn bartneriaid arweiniol. Y cyfiawnhad arferol yw nad oes neb arall y gellir ei ddewis, neu o leiaf neb sydd mewn sefyllaf mor fanteisiol.

3.9.9. Roedd yr anfanteision oedd yn cael eu gweld mewn defnyddio awdurdod lleol yn bartner arweiniol yn cynnwys ffactorau megis:

- Σ ei bod yn wireb bron bod y gwasanaethau lleol y mae'r awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt yn methu â chynnal ansawdd bywyd;
- Σ mae cymunedau lleol yn tueddu i edrych i mewn arnyn nhw'i hunain ac nid yw'n dilyn bod gan yr awdurdod lleol gysylltiad gyda'r ardal leol;
- Σ mae'r cydgysylltydd yn cael y label o fod yn gweithio i'r cyngor ac mae'n gorfod dod dros unrhyw warthnod sy'n gysylltiedig â hynny;
- Σ mae'r awdurdod lleol, os yw'n dymuno, yn gallu dylanwadu ar gynnwys y cynllun a'r ffordd y mae'n cael ei ddarparu;
- Σ yn aml iawn does dim cartref naturiol i ddatblygu cymunedol yng nghyd-destun yr agwedd benodol sy'n cael ei hadfywio, felly does dim cartref naturiol yn yr awdurdodau lleol os nad oes uned datblygu cymunedol yn rhywle yn eu strwythur.

Σ un o amcanion allweddol y fenter yw dylanwadu ar ddiwylliant ac agweddau y sefydliadau partner gan symud tuag at weithredu ar sail pwnc (issue) Yn y cyddestun hwnnw mae awdurdodau lleol yn sefyll allan fel targedau i gael eu newid.

3.9.10. Mynegodd un ardal farn arbennig o gryf ynglŷn â gweithio gyda'r awdurdod lleol:

**"Roedd y prosiect yma yn uffern o'r cychwyn. Mae pob dim wedi digwydd er gwaethaf yr awdurdod lleol. Mae wedi bod yn frwydr yn erbyn yr awdurdod lleol. Os meiddiwch chi'n awgrymu y dylent wneud pethau mewn ffordd wahanol mae'r drysau'n cau. I ddechrau yr oeddem yn cael ein hystyried yn amaturiaid yn ymdrybaeddu ym mhriod feysydd y gwahanol weithwyr proffesiynol. Wedyn roedd yr holl ystyriaethau politicaidd pan oeddem ni'n gweithio mwy gydag un ardal na gyda'r llall. Yn gyffredinol mae'r diwylliant 'gweld bai' yn gryf ac mae pobl sy'n gwneud pethau yn cael eu beirniadu. Rwy'n credu eu bod nhw wedi gadael i'r prosiectau hyn gael ar eu traed am bod Pobl mewn Cymunedau yn cael ei weld fel gweithgarwch ymylol. Roeddem ni'n annibynnol yn ariannol felly doedd dim rhaid iddyn nhw roi dim arian i mewn eu hunain"**

3.9.11. O gael ei sefydlu yn briodol, byddai dylunio sefydliad yn arbennig i'r pwrpas yn gallu dod dros yr holl anfanteision sydd gan awdurdodau lleol tra'n cadw llawer o'r manteision. Y broblem fyddai na fyddai gan gorff o'r fath unrhyw hygyrdded heblaw bod gymuned yn hawlio perchnogaeth arno. Hefyd byddai disgwyl i gynghorwyr a swyddogion awdurdodau lleol gymryd rhan heb i'w rôl gael ei ddiffinio yn glir. Mewn egwyddor, y ffordd ymlaen yw partneriaethau strategol lleol yn datblygu cytundebau lefel gwasanaeth, yn rhannu

amcanion ac yn meddu ar swyddogaethau a chyfrifoldebau a gytunwyd ymlaen llaw. A dyna wedyn fyddai hanfod mentrau eraill. Ond o wneud hynny rhaid cofio byddent yn rhedeg ochr yn ochr â rhaglen arall o gynllunio cymunedol sy'n cael ei gyrru, yn bennaf, gan yr awdurdodau lleol.

3.9.12. Dewis arall o bosib fyddai ymddiriedolaethau cymunedol, fel sy'n cael eu sefydlu i olynu Pobl mewn Cymunedau mewn dwy ardal (gweler adran 6 am drafodaeth bellach).

### 3.10. Byrddau Partneriaeth

3.10.1. O dan y pennawd "Cefnogaeth a chyfarwyddyd i'r Cydgysylltwyr Datblygu" roedd y canllawiau gwreiddiol yn dweud y dylai pob cydgysylltydd datblygu gael ei gefnogi yn lleol gan Fwrdd Partneriaeth a fyddai'n tynnu y prif chwaraewyr yn yr ardal at eu gilydd (gan gynnwys pobl yn byw yn yr ardal, yr awdurdod lleol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat). Yr oedd y canllawiau yn dweud bod disgwyl y byddai dim llai na 33% o'r seddau ar y Bwrdd Partneriaeth (a mwy na hynny yn ddelfrydol) yn cael eu llenwi gan bobl leol o drawstoriad o'r gymuned. Yr oedd y Byrddau Partneriaeth i gael eu cadeirio gan unigolyn annibynnol a fyddai'n ennyn parch y grwpiau hynny ond heb fod yn perthyn iddynt. Swyddogaeth y Bwrdd Partneriaeth fyddai cynghori ynglŷn â sut y gellid cyflawni anghenion y gymuned a gweithredu'r cynllun gweithredu unwaith bod y cynllun hwnnw wedi cael ei gytuno."

3.10.2. Mae hyn yn arweiniad go benodol ond amrywiol iawn fu'r canlyniadau o safbwynt cyfansoddiad y Byrddau Partneriaeth a'r swyddogaeth a ymgwymerwyd ganddynt. Mae rhai yn cael eu hystyried yn enghreifftiau llwyddiannus iawn o gynnig cyfeiriad a phwrpas ac maent wedi bod yn gefnogol iawn i waith y cydgysylltydd. Ond mae un neu ddau wedi

cael eu hystyried yn ymylol iawn o safbwynt cyflawni'r cynllun Pobl mewn Cymunedau.

3.10.3. Dyma ddwy farn sy'n dangos y gwahaniaeth:

**"Mae aelodau lleol a'r Aelod o'r Cynulliad yn arbennig wedi bod yn bwysig i yrru'r fenter yn ei blaen – roedd y ddau yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Partneriaeth a gyda datblygu strategaeth adfywio ar gyfer yr ardal. Yn fwy diweddar maent wedi bod yn ceisio camu'n ôl er mwyn cael hyrwyddo'r gymuned"**

**"Roedd mater y dafarn yn amser digon anodd. Roedd tafarn ar ymylon yr ardal yma. Roedd hi'n amser caled, roedd yr archfarchnad drws nesaf wedi cael ei dymchwel. Roedd ganddi enw drwg am ddelio mewn sylweddau amheus. Roedd y bobl oedd biau'r dafarn wedi penderfynu na allent wneud i'r lle weithio. Roedd y bragdy eisiau terfynu'r brydles. Yr adran stadau yn dweud 'iawn'. Ond roedd y cymunedau eisiau'r lle. Doedd y Bwrdd PmC ddim yn deall pam nad oedd y cydgysylltydd yn deall beth oedd yn mynd ymlaen. Roeddau nhw'n edrych arno fo fel cynrychiolydd y cyngor. Yn y diwedd rhoddodd y cyngor y penderfyniad i PmC. Dyma, mewn bychanfyd, yn union beth rydwi'n ei feddwl. Cyn belled ag y mae'r Bwrdd yn y cwestiwn y cydgysylltydd yw y Cyngor. Felly pam nad oedd o'n gwybod. Felly roedd yn rhaid i mi gael y pennaeth Stadau i mewn i'r un ystafell i ddatrys y mater."**

3.10.4. Mae cyfansoddiad y byrddau hefyd yn amrywio. Mewn un ardal PmC dim ond un sedd sydd ar gyfer yr awdurdod lleol ac mae'r gweddill yn mynd i bartneriaid eraill, i bobl leol ac i weithwyr proffesiynol rheng flaen. Mae darparwyr hyfforddiant lleol, penaethiaid ysgolion lleol (cynradd yn bennaf) ac yn fwy diweddar ymwelwyr

iechyd, swyddogion heddlu'r gymuned a rheolwyr y Tŷ Cymunedol (os oes un) wedi dod yn aelodau o'r bwrdd. Bydd y cydgysylltydd a'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol a/neu'r rheolwr llinell yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ond mewn rhai achosion ni fyddant yn pleidleisio.

3.10.5. Ni chafodd unrhyw fyrddau eu sefydlu yn benodol mewn ardaloedd PmC cyn i'r fenter gael ei chyhoeddi. Yn wir roedd llawer o'r ardaloedd PmC oedd heb gael eu cynnwys mewn ardaloedd partneriaeth lleol o dan unrhyw gynlluniau eraill. Felly fel byrddau dros dro y dechreuodd bron pob un o'r byrddau, ac ni chafodd eu bodolaeth ei ffurfioli gyda chyfansoddiad tan yn ddiweddarach yng nghyfnod Pobl mewn Cymunedau, os cawsant eu ffurfioli o gwbl. Mae'n ymddangos bod rhai gwahaniaethau yn y cytbwysedd rhwng pobl sy'n ymwneud â'r ardal leol ac sy'n deall yr ystyriaethau, â'r rhai y gellid eu hystyried yn fwyaf dylanwadol. Gan amlaf roedd aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r cynghorwyr lleol yn cael gwahoddiad ond does dim ond un neu ddau yn cymryd rhan yn y rhan fwyaf o'r byrddau..

3.10.6. Mae cadeirydd y Byrddau hefyd yn amrywio ond yn gyffredinol mae Pobl mewn Cymunedau wedi cadw at y canllawiau trwy geisio cael person uchel ei barch, er nad oedd bob amser heb unrhyw gysylltiad â'r ardal. Roedd rhai ardaloedd yn ffafrio'r syniad y dylai Aelod o'r Cynulliad gymryd y gadair ond roedd hynny'n codi gwrychyn yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd. Felly mae rhai o'r cadeiryddion yn gynghorwyr, rhai yn Aelodau o'r Cynulliad a rhai yn weithwyr proffesiynol oddi fewn i'r sir.

### **Rhai gwersi**

3.10.7. Mae'n ymddangos bod y cydgysylltwr wedi cymryd agwedd bragmataidd tuag at eu Byrddau

Partneriaeth. Mae mwy o bwyslais wedi cael ei roi ar ennill cefnogaeth gweithwyr proffesiynol lleol nag ar ddefnyddio aelodau'r bwrdd i ddylanwadu ar ddeilliannau Pobl mewn Cymunedau. I ryw raddau, mae'n bosib mai'r canllawiau sy'n gyfrifol am hynny, ond mae'n debyg hefyd bod dymuniad i weithwyr proffesiynol lleol fod yn gyfrannog yn natblygiad y cynllun gweithredu. Mae'n bosib mai'r farn oedd nad oedd angen neb ond y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol i helpu i agor drysau.

3.10.8. Mewn trafodaeth yn 3.2., ynglŷn â phwy ddylai gael gwahoddiad awgrymwyd y dylai gwahoddiadau fynd at sefydliadau cynrychioliadol a oedd yn perthyn yn nes at y gymuned leol. Pan fyddai bidiau'r sefydliadau hynny yn llwyddiannus byddai'r cwestiwn o bartneriaeth wedi cael ei ateb ymlaen llaw.

3.10.9. Mewn un ardal PmC sefydlwyd grŵp o swyddogion i gyflawni rhan o waith y bwrdd, sef cefnogi'r cydgysylltydd a helpu i feddwl yn fwy eang. Ymestynnwyd bywyd y grŵp yma oherwydd diffyg gynnydd y cydgysylltydd. Roedd y grŵp yn gallu gweithredu fel darpariaeth wrth gefn. Mae gan rai ardaloedd PmC eraill bwyllgorau gwaith neu bwyllgorau ymgynghorol sefydlog i fynd i'r afael ag agweddau penodol, megis agweddau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol neu dai. Mae'r pwyllgorau hynny hefyd yn cyflawni rhan o swyddogaeth y bwrdd. Ond er bod y grwpiau hynny wedi bod yn werthfawr, mae amcanion Pobl mewn Cymunedau a'r gefnogaeth y mae'n ei roi i feddwl yn fwy eang yn awgrymu y dylai'r grwpiau hyn fod yn canolbwyntio mwy ar y pynciau a'r ystyriaethau a ddaeth i'r amlwg yn hytrach nag ar agweddau traddodiadol adfywiad. Felly dylent fod yn grwpiau tymor byr gydag amcanion penodol.

3.10.10. Gyda Chefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol yn dylanwadu ar yr awdurdod

lleol ac is-grwpiau yn datblygu'r pynciau, mae perygl y bydd rôl y Bwrdd Partneriaeth yn anodd ei ddiffinio.

3.10.11. Does dim llawer o dystiolaeth bod gan y Byrddau Partneriaeth broffil uchel yn y cymunedau fel y cyfryw – mae Pobl mewn Cymunedau yn fwy tebygol o gael ei adnabod wrth 'deitl prosiect' neu enw'r fan lle mae wedi cael ei leoli.

3.10.12. Swyddogaeth draddodiadol partneriaeth yw bod yn gorff strategol ar gyfer yr ardal. A yw Bwrdd Partneriaeth yn briodol felly ar gyfer PmC sy'n ceisio datblygu gweithgareddau sydd wedi eu cydgysylltu yn fwy eang, ac sydd wedi ei seilio yn benodol ar bynciau yn hytrach nag ar weledigaeth o adfywiad? Dim ond efallai yng nghyd-destun partneriaeth strategol leol ac nid, efallai, hyd nes bod y rhwystrau wedi dechrau cael eu goresgyn.

### **3.11. Rôl ac effeithiolrwydd Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol a rheolaeth linell**

3.11.1. Mae effeithiolrwydd Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol wedi bod yn anwastad iawn nid yn unig o un ardal PmC i'r llall ond hefyd o gyfnod i gyfnod. Un o'r rhesymau yw'r ffyrdd gwahanol y dehonglwyd eu rôl o fewn yr awdurdod lleol ac un arall yw natur y rheolaeth linell.

3.11.2. Roedd y Canllawiau yng Nghylchlythyr 24/98, o dan yr adran ar 'ymrwymiad llywodraeth leol' yn dweud y byddai'r Swyddfa Gymreig yn disgwyl i'r awdurdodau lleol yn y bartneriaeth wneud ymrwymiad i gefnogi'r Rhaglen ar lefel y Prif Weithredwr a phrofi'r ymrwymiad hwnnw trwy ddynodi swyddog ar lefel Cyfarwyddwr i fod yn 'Gefnogwr Allgau Cymdeithasol' a fyddai'n cymryd diddordeb uniongyrchol yn y prosiect ac yn cymryd y blaen i ledaenu gwersi'r prosiect ar hyd a lled yr awdurdod lleol. Mae'r teitl wedi newid gydag amser – gan bod y rhaglen

wedi symud at hyrwyddo cynhwysedd cymdeithasol yn hytrach na mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol. Gan na fu newid ffurfiol yn ei swyddogaeth fe wnawn ni gyfeirio ym mhobman at Gefnogwr neu Gefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol.

3.11.3. Oherwydd y proffil uchel a roddwyd i'r fenter pan gafodd ei lansio roedd yr awdurdodau lleol yn frwdfrydig iawn i symud ymlaen. Ni ddynodwyd Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol yn ffurfiol nes i'r ardal gael gwybod bod eu henwebiad wedi cael ei dderbyn, ond mae'r person a gafodd y swyddogaeth honno wedi cymryd rhan yn yr ymweliadau a'r cyfarfodydd dwyochrol a gynhaliwyd. Roedd y ffordd y dynodwyd y Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol yn gwahaniaethu o un awdurdod i'r llall. Mewn rhai awdurdodau mae'n ymddangos bod y Prif Weithredwr wedi ei enwebu, mewn eraill y person ei hun wnaeth wirfoddoli. Mae hynny, ynghyd â'r gwahaniaeth rhwng un awdurdod â'r llall yn ddigon i egluro'r amrywiaeth yng nghefnidir y Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol. Dim ond un neu ddau o'r Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol gwreiddiol oedd yn rhan o dîm rheoli corfforaethol ffurfiol.

3.11.4. I ddechrau, fe wnaeth y Cefnogwyr bob ymdrech i gael Pobl mewn Cymunedau ar ei draed ac yn weithredol. Roedd hynny yn amrywio o ddod â rhai o'r partneriaid perthnasol at ei gilydd a sefydlu strwythur (er enghraifft sefydlu amcanion a gweithgorau yn Wrecsam) i gychwyn y broses o benodi cydgysylltydd. Oherwydd yr oedi cyn penodi cydgysylltydd – doedd y rhan fwyaf ohonynt ddim yn eu swydd tan Ebrill 1999, chwe mis ar ôl y cyhoeddiad – fe gollwyd momentwm yn y rhan fwyaf o ardaloedd, yn arbennig lle nad oedd unrhyw gynlluniau adfywio blaenorol yn bodoli na strwythurau priodol eraill y gellid adeiladu arnynt..

3.11.5. Mae'r colli momentwm ynghyd ag effaith ad-drefnu llywodraeth leol wedi

achosi nifer o newidiadau yn y Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol, nid yn unig bod yr unigolion wedi newid ond bod eu swyddi gyda'r awdurdod lleol wedi newid hefyd. Mae hyn wedi amharu ar unrhyw ddilyniant yn y rhwydweithiau a ddatblygwyd o fewn yr awdurdodau lleol, yn y rheolaeth linell ac yn y cydgysylltwyr. Mewn rhai awdurdodau lleol mae ad-drefnu, a'r ffaith bod y rhaglen cynhwysedd cymdeithasol wedi cael ei llyncu yn rhan o bolisi corfforaethol wedi cryfhau'r potensial i Gefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol ymateb.

3.11.6. Roedd dau Gefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol yn gadarnhaol iawn ynglŷn â phwysigrwydd Pobl mewn Cymunedau:

**"Rydau ni'n symud tuag at reolaeth gymdogaethol. Mae cysylltiad gyda chynllunio cymunedol. Mae Pobl mewn Cymunedau yn cysylltu gyda'r strategaeth ehangach. Gallai'r ardal yma fod yn ardal cynllunio cymunedol. Ond dydyn ni ddim eisiau pwytho clytwaith o bob math o ddata a phob math o wahanol dybiaethau at ei gilydd, a galw hynny yn gynllun cymunedol. Rhaid inni ddadelfennu pethau a dod yn ôl eilwaith"**

**"Mae Pobl mewn Cymunedau wedi prysuro'r drafodaeth ynglŷn â'r rhaglen foderneiddio."**

3.11.7. O'r adeg y penodwyd y cydgysylltydd cafodd rhyw gymaint o reolaeth linell ei gosod yn ei lle yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd, ond nid ym mhob ardal chwaith. Yn arferol roedd y rhain yn swyddogion polisi yn yr un adrannau â'r cefnogwyr cynhwysedd cymdeithasol. Roedd eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o bynciau datblygu cymunedol yn amrywio o ddim llawer i gryn dipyn – dim ond ychydig hyd y gwyddom oedd wedi bod yn weithwyr datblygu cymunedol eu hunain.

3.11.8. Yr hyn na chafodd erioed mo'i ddiffinio yn fanwl oedd y gwahaniaeth rhwng swyddogaethau'r Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol â'r rheolwyr llinell. Roedd dwy sianel o gyfathrebu yma i'r cydgysylltydd ond mae'n ymddangos mai'n cysylltiad rhyngddo â'r rheolwr llinell oedd yr un oedd yn cael ei defnyddio yn bennaf.

3.11.9. Ychydig o dystiolaeth y daethom o hyd iddo bod sianeli cyfathrebu o fewn yr awdurdodau lleol eu hunain yn cysylltu gweithgareddau'r gwahanol adrannau gyda'i gilydd. Yr eithriad i hynny oedd y grŵp swyddogion mewn un PmC. Felly gweithredu yn anffurfiol yr oedd y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol, gan amlaf rhwng y penaethiaid adrannau. Nid ar y lefel honno y mae'r rhan fwyaf o rwystrau'n codi. Byddai gwneud rhywbeth gwahanol mewn ardal wasanaeth benodol fel arfer yn golygu cael cymeradwyaeth gan reolwyr canol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth yn yr ardal leol.

3.11.10. Os yw'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol am fod yn effeithiol, dylai fod rhyw beirianwaith i gynnwys y rheolwyr llinell perthnasol yn y gefnogaeth i Pobl mewn Cymunedau. Gellid o leiaf roi gwybod iddynt am y fenter a gofyn iddynt godi gyda'u pennaeth adran, neu gyda'r Cefnogwr, unrhyw faterion lleol a gododd allan o weithgareddau arbrofol neu weithgareddau peilot, fel y gellid o leiaf drafod unrhyw rwystrau.

3.11.11. Mae'r cydgysylltwr wedi penodi rhai gweithwyr datblygu gan ddefnyddio arian o'r gyllideb Pobl mewn Cymunedau. Mae cwestiwn yn codi ynglŷn â pherthynas y rhain gyda'r awdurdod lleol – ac a ddylent hwythau hefyd fod ar gontract gyda'r awdurdod lleol, ar secondiad i Pobl mewn Cymunedau ynteu yn annibynnol o'r awdurdod lleol. Ond mae'n bwysig cydnabod bod angen rheolwyr llinell ar y

rhain hefyd (hyd yn oed os mai'r cydgysylltwyr fydd y rheini) a dylent fod mewn cysylltiad â'r staff sy'n gweithio i'r awdurdod lleol neu i asiantaethau eraill.

### Rhai gwersi

3.11.12. Doedd pob ardal ddim yn defnyddio'r term 'Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol' – roedd rhai yn defnyddio'r termau 'Cefnogwr Pobl mewn Cymunedau' neu 'Cefnogwr Cymunedol'. Y ddadl oedd y byddai defnyddio'r teitl Cefnogwr Pobl mewn Cymunedau yn codi proffil PmC gan y byddai'r person yn y swydd mewn cysylltiad helaeth gyda'r lefel reolaethol uwch. Ond mae'r teitl 'Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol' yn ffitio'n well gyda'r rhaglen tymor hir a fydd yn parhau ar ôl i oes Pobl mewn Cymunedau ddod i ben. Nid oes yr un o'r termau yn crisialu y gwir gymhelliad tu ôl i'r swydd – y sawl sy'n gyrru ac yn arwain newid – ond does neb yn yr ardaloedd Pobl mewn Cymunedau wedi dod o hyd i well teitl na'r un presennol. Mae'r teitl 'cefnogwr cymunedol' yn nes at gyfleu'r rôl ond mae'n swnio, fel y mae 'cynrychiolydd cymunedol', fel rhywun sydd tu allan i brif ffrwd yr awdurdod lleol. Beth bynnag fydd y teitl, byddai'n help i'r broses pe byddai'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol yn cyfeirio at integreiddio gwasanaethau yn hytrach nag at adfywio, fel bod amcanion Pobl mewn Cymunedau yn cael eu hatgyfnerthu.

3.11.13. Mae'r cysyniad o gefnogwr cynhwysedd cymdeithasol yn un da iawn mewn egwyddor. Mae angen arweiniad a chefnogaeth i'r hyn y mae Pobl mewn Cymunedau yn ei wneud ac mae angen i wersi'r fenter gael eu gweld o fewn yr awdurdod lleol. Ond mae tair problem yn codi:

Σ un yw bod y rôl yn gorgyffwrdd ag un o rolau confensiynol partneriaeth, sef

darparu sianel i ddylanwadu ar bartneriaid trwy gyfrwng eu gwahanol gynrychiolwyr ar y bwrdd;

Σ un arall yw bod effeithiolrwydd y rôl heb gael ei brofi i'r eithaf hyd yn hyn (gweler adran 5);

Σ y trydydd yw bod gan y Cefnogwyr swydd yn barod ac nad ydynt yn gallu rhoi digon o sylw i'r dasg, yn arbennig ar adegau allweddol.

3.11.14. Un ateb i'r broblem gyntaf fyddai cyfyngu'r bartneriaeth i rôl sy'n ymwneud â datblygu strategaeth ac ennill ymroddiad ac ymwybyddiaeth o berchnogaeth ar ran sefydliadau'r partneriaid. Wedyn gellid ymestyn rôl y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol fel ei bod yn cynnwys datblygu rhwydwaith o gysylltiadau, nid yn unig o fewn yr awdurdod lleol ond hefyd gyda phartneriaid eraill.

3.11.15. Rhan allweddol o'r rôl yma yw agor drysau er mwyn dod â gweithwyr proffesiynol rheng flaen at ei gilydd, pob un gyda rhywfaint o ddisgresiwn lleol i archwilio ffyrdd newydd o weithio. Hefyd mae angen i'r rôl gynnwys brwydro ar ran y cydgysylltydd pan mae yntau'n dod yn erbyn rhwystr – boed hynny yn fater o agweddau neu o weithredu yn rhy fanwl i lythyren y rheolau. Mae hyn yn golygu bod rhaid cael rhyw ffordd o ddod â rheolwyr canol i'r pictiwr, fel eu bod yn gallu codi cwestiynau heb danseilio'r cyfrifoldebau sydd ganddynt yn barod.

3.11.16. Mae'r ail broblem yn codi oherwydd bod Pobl mewn Cymunedau wedi cael ei daflu oddi wrth amcanion arbrofol y fenter a thuag at gyflawni prosiectau. Mae cwestiynau o weithio ar y cyd wedi cael eu codi ond heb gael eu cofnodi, am y rheswm nad oedd system fonitro yn bodoli er mwyn ei gwneud yn bosib dysgu gwersi. Pan mae'r cwestiynau

hyn yn cael eu codi does dim peirianwaith i'w datrys heblaw trwy'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol.

3.11.17. Rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng rôl y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol a rôl y rheolwr llinell. Rôl y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol yw agor drysau a goresgyn rhwystrau, yn lle bynnag a phryd bynnag mae'r cydgysylltydd yn dod ar eu traws. Felly dylid sefydlu sianel gyfathrebu sy'n wastad ar agor rhwng y cydgysylltydd a'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol. Rôl y rheolwr llinell yw rheoli gwaith y cydgysylltydd o ddydd i ddydd, gan osod targedau, helpu i ddynodi blaenoriaethau, adnabod anghenion hyfforddi a chyfleoedd a monitro gwaith y cydgysylltydd. Mae'r rhain yn rolau gwahanol iawn i'w gilydd a dylid gwahaniaethu rhyngddynt.

3.11.18. Gweithredodd dwy ardal gyda dim ond Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol a oedd hefyd yn ymgymryd â rôl y rheolwr llinell. Maent yn dweud bod hynny wedi gweithio'n dda. Y rheswm ei fod yn gweithio'n dda yw bod amwysedd cynhenid rhwng y ddwy rôl, ac roedd gwneud pethau yn y ffordd yma yn sefydlu un sianel uniongyrchol o gyfathrebu. Y rhan allweddol o'r gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i'r cydgysylltwr yw'r sianel gyfathrebu sy'n cael ei hagor rhyngddo â'r Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol. Os oes angen rheolwr llinell ai peidio, er enghraifft er mwyn rhannu'r baich neu er mwyn atal unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau wrth weithredu yn y ddwy rôl ar yr un pryd, mae'n rhaid bod yn ymwybodol bod y naill rôl a'r llall yn hanfodol os yw'r model Pobl mewn Cymunedau am fod yn effeithiol.

3.11.19. Serch hynny, rhaid i'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol fod yn ymwybodol bod y dasg yn gofyn gwaith paratoi er mwyn sefydlu sianeli cyfathrebu. Mae'r ffordd ad hoc y mae'r holl

Gefnogwyr wedi gweithredu hyd yma yn adweithiol yn hytrach na rhagweithiol ac nid yw'n ddigon i achosi newid gan nad oes unrhyw afael ar y rheolwyr canol. Mae'n bosib y byddai grŵp swyddogion ar lefel rheolwyr canol yn beirianwaith defnyddiol i gefnogi'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol yn ei waith o archwilio'r rhwystrau mewn darparu gwasanaethau.

### 3.12. Rôl ac effeithlonrwydd Cydgysylltwyr

3.12.1. Roedd y negeseuon cymysg a roddwyd gan y Canllawiau yn gadael y rhan fwyaf o'r cydgysylltwyr yn ymbalfalu rhwng un ac arall o'r gweithgareddau amrywiol yr oedd angen eu cyflawni yn ôl eu swydd ddisgrifiad. Roedd hynny yn cynnwys siarad gyda'r gymuned leol, canfod anghenion, siarad gyda phartneriaid, creu diddordeb pobl a'u cael i gyfrannu, ceisio cael pobl at ei gilydd ac i siarad gyda'i gilydd, dylunio prosiectau, chwilio am gyllid, datblygu cynllun gweithredu a sefydlu bwrdd partneriaeth. Maent hefyd wedi gorfod poeni am sicrwydd eu swyddi eu hunain at y dyfodol yn yr achosion lle nad oedd hynny wedi ei warantu. Yn ymarferol, maent wedi gorfod gosod eu blaenoriaethau eu hunain ynglŷn â beth i'w wneud. Ac mae'r rhan fwyaf ohonynt, er nad pob un, wedi tueddu i ganolbwyntio ar gael cynllun gweithredu at ei gilydd, sy'n haws pan mae rhyw gymaint o allu yn y gymuned, fel eu bod yn gallu symud ymlaen at gyflawni'r rhaglen weithredu.

3.12.2. Roedd ymateb un cydgysylltydd yn tynnu sylw at y mater:

**"A oes gennych chi amser i'w wneud e? Roedd cyllid Amcan 1 yn fy nghlymu o dan fynyddoedd o waith papur. Roedd angen swyddog cyllid arnaf i helpu pobl gyda grantiau."**

3.12.3. Mae swyddi'r cydgysylltwyr wedi cael eu llenwi yn ddieithriad gan bobl

adfywio cymunedol, er eu bod o ystod o wahanol gefndiroedd gan gynnwys timau cefnogi mentrau adfywio, addysg a hyfforddiant, a'r sector gwirfoddol. Nid oeddynt bob amser yn gyfarwydd â'r ardal leol ond roedd y rhan fwyaf wedi bod yn gweithio yn yr un sir o'r blaen.

3.12.4. Mae'r rhan fwyaf o'r cydgysylltwyr, a fu ac eto sydd, wedi bod yn gymwys i'r swydd ac wedi parhau'n frwdfrydig ynglŷn â'r fenter er gwaethaf y rhwystredigaeth aml y maent wedi eu teimlo yn lleol ac yn ganolog. Roedd peth o'r rhwystredigaeth oherwydd diffyg adnoddau yn y Cynulliad Cenedlaethol i gefnogi'r fenter (gweler 3.13.). Ond roedd peth ohono yn codi allan o anghenion y swydd hefyd. Roedd gan y rhan fwyaf ohonynt amrywiaeth o sgiliau, yn bennaf sgiliau entrepreneur a/neu gwybod eu ffordd o amgylch y cyngor a/neu adnabod yr ardal a'r gymuned. Ond mewn un ardal PmC, lle penodwyd y person gorau yn y cyfweiliadau i fod yn gydgysylltydd, buan y dechreuodd pethau fynd o le a methodd y system reoli ag ymateb.

3.12.5. Cyfrifoldeb y cydgysylltydd oedd y cyfan bron o faich sefydlu Pobl mewn Cymunedau yn yr ardal leol. Roedd hynny yn golygu datblygu perthynas gyda'r gymuned, yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill. Roedd y cydgysylltydd oedd â chefnidir mewn llywodraeth leol yn deall y strwythur a'r ffyrdd o weithio ac yr oedd yn fwy tebygol o deimlo'n gyfforddus ac yn alluog i asio i mewn i strwythur pethau, nid yn unig o safbwynt y Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol a'r rheolwr llinell ond hefyd o safbwynt codi materion eraill gyda gweithwyr proffesiynol rheng flaen. Ond nid oedd yr un profiad ganddynt o weithio mewn cymunedau ac yr oeddynt yn ei chael yn fwy anodd delio gyda'r amheuaon a'r sinigiaeth oedd gan rai stadau tuag at yr awdurdod lleol. Yn achos y cydgysylltwyr oedd o gefndir adfywio, nid

oedd eu gwybodaeth ymarferol am strwythur a ffordd o weithio yr awdurdod lleol lawn mor fanwl, ond yr oedd eu gwybodaeth am bartneriaid eraill yn fwy eang, er enghraifft y Cyngorau Hyfforddi a Menter, yr awdurdodau iechyd, addysg ac ysgolion. Roedd eu gallu i ddwyn y gymdeithas leol i fewn i'r fenter yn well os oedd eu gwaith adfywio blaenorol wedi codi o'r bôn i'r brig yn hytrach na chael ei osod o'r brig i'r bôn. Roedd y rhai a fu yn rheng flaen y sector gwirfoddol yn fwy ymwybodol o'r ystyriaethau oedd yn codi o safbwynt sefydlu perthynas gyda'r gymuned, yn arbennig y problemau o bersonoliaethau, teuluoedd problemus a chanfyddiadau tiriogaethol yn y gymdogaeth.

3.12.6. Mae'r swydd ddisgrifiad (gweler 3.4.1) yn mynnu y dylai'r cydgysylltydd fod â sgiliau niferus. Mwy felly nag a fyddai'n arferol gyda gweithiwr datblygu cymunedol. Roedd y gwahanol gefndir oedd ganddynt yn golygu bod gan bob un o'r cydgysylltwyr waith dysgu sylweddol mewn o leiaf un agwedd o'u gwaith. Ac ychydig o gefnogaeth a roddwyd iddynt. Roedd Cylchlythyr 24/98 yn dweud y byddai'r Swyddfa Gymreig yn cynnig nifer o Ddiwrnodau Briffio ynglŷn â ffynonellau ariannol yn fuan wedi i'r cydgysylltwyr gael eu penodi, er mwyn cynnig contractau a gwybodaeth am gynlluniau grant cyfredol ac arfaethedig ac am fentrau eraill. Nid yw'n glir a ddigwyddodd hynny ai peidio ond yr argraff o siarad gyda chydgyssylltwyr yw mai prin oedd y gefnogaeth dros gyfnod Pobl mewn Cymunedau yn ei gyfanrwydd, er y bu cryn dipyn ar y dechrau..

3.12.7. Roedd y rhan fwyaf o'r cydgysylltwyr yn gweld y swydd yn dipyn o her ac yn ymateb yn gadarnhaol i hynny. Dyma un enghraifft:

**"Fy rôl fel cydgysylltydd/ hwylusydd yw apelio at synnwyr cyffredin pobl. Mae pob asiantaeth yn atebol i'w strwythur ei**

**hun. Mae'r pŵer gen i am bod y bobl yn fodlon ac am nad yw'r asiantaethau yn gwybod sut i'w wneud. Mae'n gweithio os yw'r bersonoliaeth gennym ni i wneud iddo lwyddo"**

3.12.8. Mae cyfarfodydd o gydgysylltwyr wedi cael eu trefnu gan y Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad bob dau fis ac wedi cael eu cynnal yn Llandrindod fel y gallai cydgysylltwyr o'r Gogledd ac o'r De fod yn bresennol. Rhoddwyd cyfle yno i gydgysylltwyr gyfarfod gyda'i gilydd (am awr fel arfer) cyn i gynrychiolwyr y Cynulliad Cenedlaethol ymuno â nhw. Mae dau brif eitem ar y rhaglen. Mae'r prif eitem yn cynnwys adroddiadau oddi wrth bob un o'r cydgysylltwyr, yn rhannol er mwyn rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol am gynnydd ac yn rhannol er mwyn cyfnewid gwybodaeth trwy'i gilydd. Mae'r ail eitem yn cynnwys materion gweinyddol, megis materion contract, anfonebu a thaliadau. Roedd eitemau eraill yn cael eu hychwanegu fel yr oedd yn briodol, megis y fframwaith werthuso unwaith y cafodd hynny ei gomisiynu. Roedd rhan anffurfiol y diwrnod, y cyn-gyfarfod yn cael ei ystyried yn gyfle i'r cydgysylltwyr gael rhannu profiadau. Doedd dim canfyddiad bod rhannu profiadau a phroblemau gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhan o gwbl o raglen ffurfiol y cyfarfod, heb sôn am chwilio am atebion i'r problemau hynny neu drafod agweddau penodol megis sut i gael y gymuned i gymryd rhan neu'r berthynas gyda'r awdurdod lleol. Doedd dim disgwyliadau y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn defnyddio'r cyfarfodydd er mwyn dysgu o brofiad Pobl mewn Cymunedau, doedden nhw ddim ond yno i wrando.

3.12.9. Roedd y cydgysylltwyr yn gweld y cyfarfodydd hyn yn werthfawr, yn bennaf oherwydd y cyfle i gyfarfod â chydgyssylltwyr eraill. Ond roedd rhai yn amheus ynglŷn â'r lleoliad;

**"Pam bod rhaid i ni i gyd ddioddef y boen o deithio – pam na chawn ni rai cyfarfodydd yn y de a rhai yn y gogledd. Wedyn dim ond rhai ohonom ni fyddai'r gorfod dioddef!"**

3.12.10. Roedd pwyslais penodol yn y Cylchlythyr, ac ym mhenodiad y cydgysylltwyr, mai rheoli, cynllunio a gweithredu prosiect, oedd hanfod y swydd. Mae hynny yn berspectif lawer rhy gul – ond mae'n ymddangos mai dyna fu'r ystyriaeth bennaf wrth wneud llawer o'r penodiadau.

3.12.11. Bu trosiant uchel yn swyddi'r cydgysylltwyr ers y penodiadau gwreiddiol yng Ngwanwyn 1999. Mae pump allan o'r wyth wedi newid. Ymadawodd dau yn hydref 2000 oherwydd ansicrwydd ynglŷn â pharhad eu contractau ond aeth y gweddill oherwydd pwysau'r swydd – naill ai oherwydd gwrthdaro rhwng personoliaethau yn y gymuned neu oherwydd ymdeimlad o rwystredigaeth a diffyg cefnogaeth.

3.12.12. Mae effeithiolrwydd y cydgysylltwyr yn anodd ei asesu. Maent wedi dangos ymroddiad ac wedi llwyddo i wneud i bethau ddigwydd ym mhob un o'r ardaloedd, yn arbennig y prosiectau y maent wedi eu datblygu, dwyn partneriaid newydd i mewn (megis ysgolion, gweithwyr ieuchyd, swyddogion heddlu cymunedol) yn ogystal ag ymestyn allan at rai o'r grwpiau client. Bu pob un ohonynt yn gymharol llwyddiannus o'u mesur yn erbyn y ddau amcan o sefydlu bwrdd partneriaeth ac o lunio cynllun datblygu. O safbwynt y cwestiwn a oes unrhyw beth wedi newid yn y ffordd y mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu, neu yn y potensial o sefydlu cymuned gynaliadwy, dim ond tystiolaeth gymharol fychan sydd hyd yma yn awgrymu gwelliant.

## Rhai gwersi

3.12.13. Un wers allweddol y dylid rhoi sylw pendant iddi yw bod swydd y cydgysylltydd yn wahanol iawn i'r swydd adfywio draddodiadol o gynllunio, gweithredu a rheoli prosiectau. Mae angen llawer mwy o sgiliau, yn ogystal â brid newydd o berson ar gyfer mentrau tebyg i hyn sy'n ceisio gweithio yn agos gyda phartneriaid a gyda'r gymuned leol. Ar hyn o bryd mae'r math yma o berson yn brin fel pupur.

3.12.14. Ym mhob un o'r cymunedau mae llawer o weithwyr cymunedol ar wasgar dros nifer fawr o sefydliadau ac yn gweithio mewn sawl maes mewn datblygiad cymunedol. Ychydig iawn ohonynt fydd â'r cymwysterau llawn i ymgymryd â swydd y cydgysylltydd heb hyfforddiant a chefnogaeth. Yn ymarferol dyna'r sefyllfa yr oedd cydgysylltwyr Pobl mewn Cymunedau yn ei ganfod. Dysgu yn y swydd wnaeth y rhan fwyaf o'r cydgysylltwyr am na chawsant wybod am unrhyw gyfleoedd i hyfforddi a datblygu.

3.12.15. Hefyd mae'r cwestiwn o gydgysylltwyr yn cael eu huniaethu yn agos gyda'r awdurdod lleol. Bydd yr Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n cael eu sefydlu yn rhoi hunaniaeth benodol i'r cydgysylltwyr ac yn rhoi rhyw statws iddynt yng ngolwg yr awdurdod lleol a'r gymuned.

3.12.16. Ond a yw'n syniad da i'r holl wybodaeth a'r arbenigedd a'r rhwydweithio fod wedi cael ei ddatblygu mewn un person? Does dim rhannu gwybodaeth na thynnu o brofiad pobl eraill fel sydd i'w gael mewn tîm. Mae rhai cydgysylltwyr wedi defnyddio rhan o gyllideb Pobl mewn Cymunedau i dalu gweithwyr datblygu arbenigol am ddarparu hyfforddiant, technoleg gwybodaeth, gwaith ieuenctid, gwaith gyda'r henoed a gweithgareddau eraill.

3.12.17. Mae timau cefnogaeth yn ffactor bwysig yn natblygiad organaidd y mathau hyn o fenter. Maent yn gallu bod yn fagwrfa syniadau newydd a meddwl creadigol yn ogystal ag yn gronfa o brofiad a ffyrdd o feddwl o wahanol bersbectif. Ond mae'n bosib cael 'rhith-dimau' yn hytrach na thimau cefnogaeth ffurfiol sy'n cael eu talu allan o gyllid y fenter. Un o'r pethau ddylai fod yn amcan i gydgysylltwyr yw datblygu llwybrau trwy'r sefydliadau lleol sydd ag arbenigedd priodol mewn datblygu cymunedol a defnyddio'r cysylltiad fel sail i ddatblygu ymchwil a gweithredu ar y cyd lle bo hynny o ddiddordeb ac o fudd i'r ddwy ochr.

3.12.18. Gellid gwneud cyfarfodydd y cydgysylltwyr yn fwy effeithiol a rhoi mwy o gefnogaeth i'r cydgysylltwyr eu hunain trwy wneud y cyfarfodydd yn fwy rhyngweithiol, a'u saernïo fel bod gwersi'n cael eu rhannu a bod pobl yn dod i ddeall cynlluniau y naill a'r llall. Un opsiwn fyddai 'setiau dysgu gweithredol' sy'n anelu at hyrwyddo dysgu rhwng cymheiriaid. Byddai hynny'n golygu 8 i 10 cydgysylltydd yn gweithio gydag un hwylusydd. Mae'r trafodaethau hyn yn fwy gwerthfawr os ydynt yn agored ac yn cynnwys siarad plaen am bersonoliaethau a sefydliadau. I gael cymryd rhan ynddynt byddai'n rhaid cytuno i gadw cyfrinachedd. Gallai hynny olygu na allai'r Cynulliad gymryd rhan. Efallai na fyddai hynny yn broblem gan y dylai setiau dysgu gweithredol fod, beth bynnag, yn cael eu cadw ar wahân i strwythurau gweinyddol a strwythurau adrodd yn ôl.

### 3.13. Rôl ac effeithlonrwydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3.13.1. Does yna ddim llawer o wahaniaeth wedi bod rhwng rôl y Swyddfa Gymreig a rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru. I raddau helaeth, yr un staff sydd wedi bod yn rhoi cefnogaeth i'r cynllun trwy gydol ei oes er

bod y cysylltiad gyda'r gwneuthurwyr polisi wedi newid yn ddiweddar.

3.13.2. Y syniad gwreiddiol gyda Pobl mewn Cymunedau oedd ei sefydlu fel menter peilot a fyddai'n annog y gymuned i fod yn gyfrannog mewn darparu gwasanaethau lleol i'r gymuned. Y ddau brif amcan oedd yn gyntaf sefydlu bwrdd partneriaeth a fyddai'n datblygu Cynllun Gweithredu 3 – 5 mlynedd, ac yn ail gweithredu'r cynllun er mwyn adfywio'r gymuned. Mae Pobl mewn Cymunedau wedi cael ei weithredu o amgylch prosiectau oedd yn profi gallu y Bwrdd Partneriaeth lleol i sicrhau adfywiad ac ar yr un pryd yn adeiladu eu gallu i wneud hynny.

3.13.3. Yr oedd llawer o'r gefnogaeth weladwy a roddwyd i Pobl mewn Cymunedau yn bodoli ar ffurf Cylchlythyrau a nodiadau briffio, neu ddiwrnodau briffio yn ymdrin â gwahanol agweddau ar y fenter. Roedd y rhain yn gymysgedd o ganllawiau yn gorchymyn hyn a'r llall ac agwedd o 'beidio ag ymyrryd' er mwyn annog syniadau newydd ac arloesedd.

Σ Y prif ganllawiau oedd swydd ddisgrifiad y cydgysylltydd. Er y dylid canmol y bwriad, yn y diwedd roedd hwn yn gymysgwch dryslyd o gyfyngiadau ac o anogaeth niwlog i wneud rhywbeth arall;

Σ Yr un mor gymysglyd oedd y meini prawf ynglŷn â dethol ac ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys yn y bidiau. Er enghraifft yr oedd y canllawiau yn fanwl iawn ynghylch 'egwyddorion sylfaenol datblygiad gymunedol a chynhwysedd cymdeithasol' ac ynghylch y meini prawf ar gyfer dethol bidwyr (gweler Cylchlythyrau 24/98 paragraff 2.3. a 2.4 am y naill fater a'r llall).

Mae'r egwyddorion yn edrych fel pe baent yn amcanion i'r rhaglen ac yn ddeilliannau dymunol yn hytrach nag yn broses y dylai

Pobl mewn Cymunedau fod yn ei rhoi ar waith. Ar y llaw arall byddai'n anodd iawn barnu a oedd bidiau yn cydymffurfio â'r 'meini prawf' ar gyfer dethol, a dim ond yn fras iawn y gellid gweld y berthynas rhyngddynt â'r amcanion.

Dywedodd un swyddog awdurdod lleol:

**"os nad ydym ni'n gwybod beth yw'r trigger sy'n achosi i chi gael eich dewis, byddwn yn chwarae'n saff ac yn gwneud y pethau yr ydym ni'n eu gwybod orau er mwyn cael yr arian"**

3.13.4. Efallai bod beirniadu'r Canllawiau yn ymddangos yn beth pitw, ond mae'r Canllawiau wedi chwarae rhan bwysig yn y ffordd y mae'r cynllun wedi cael ei weithredu a'i ddarparu. Mae awdurdodau lleol wedi eu dehongli fel y byddent yn dehongli dogfennaeth unrhyw fenter arall, ac wedi gweithredu ar sail yr hyn oedd i lawr ar bapur. Mae hynny wedi bod yn bwysig o safbwynt diffinio beth sy'n cael ei wneud yn enw'r cynllun ac o safbwynt y ffordd y mae'r awdurdod lleol wedi bod yn ei gefnogi. Bydd y problemau sydd gan y cydgysylltwyr gyda strwythur y fenter a gyda'i weithredu yn lleol yn codi allan o'r drefn y mae'r awdurdod lleol wedi ei gosod yn ei lle.

3.13.5. Gan mai'r Swyddfa Gymreig, a'r Cynulliad Cenedlaethol ar ei hôl, oedd yn gyfrifol am y cynllun, y nhw hefyd sy'n gyfrifol am yr holl broses. Tynnodd y Swyddfa Gymreig adnoddau ychwanegol i mewn ar ffurf panel o ymgynghorwyr arbenigol i helpu i ffurfio'r fenter ac i ddewis y cymunedau fyddai'n cymryd rhan. Er bod rhai o aelodau'r panel wedi dal i helpu gyda rhai agweddau ar reoli'r fenter, megis y fframwaith werthuso, mae rheoli Pobl mewn Cymunedau o ddydd i ddydd wedi bod yn gyfrifoldeb i ddim bychan.

3.13.6. Cododd sawl beirniadaeth allan o gamddealltwriaeth am y fenter. Dyma ddwy enghraifft:

**"Gosodwyd disgwyliadau mawreddog heb roi cyllid i ni am y tymor hir"**

**"Mae'r gymuned yn dal i fod gyda ni ond yn teimlo nad yw'r cyllid y gobeithiwyd amdano wedi cael ei ddarparu. Maent yn meddwl bod y cynulliad wedi bradychu ei addewidion. Rydan ni wedi ceisio peidio â gwneud mor a mynydd o hynny"**

Ond mae peth beirniadaeth mwy uniongyrchol o'r Cynulliad Cenedlaethol:

**"ar ôl llwyddo i gael y sefydliad i ailgerio, wnaethon nhw ddim newid eu ffordd eu hunain o weithio, o gyllidebu ac o lunio polisi. O safbwynt creu ymateb holistig wnaeth y peth ddim digwydd"**

**"Roedd y bobl oedd yn uniongyrchol gyfrifol am lunio'r rhaglen yn gwybod y problemau. Roedd parodrwydd ar lefel uchel i archwilio natur radicalaidd yr atebion posib. Ond mae'r rheini yn llais bychan yn yr anialwch. Mae'r fersiwn, ar raddfa fwy, ohonof fi yn ceisio adeiladu prosiect trwy ddefnyddio gwasanaeth partneriaeth. Mae'r cynulliad mewn sefyllfa gwaeth nag awdurdodau lleol i wneud i newydd ddigwydd. Mae'n dal i fod yn llawn o'r 'hen do'"**

3.13.7. Doedd dim digon o adnoddau ar gael ti ôl i'r gefnogaeth a roddwyd gan y Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad. Doedd dim digon o staff llawn amser na rheolwyr uwch yn ymwneud â rheolaeth linell uniongyrchol. Mewn menter gyffelyb yn yr Alban, y fenter Working for Communities, roedd rheolwr uwch, dirprwy reolwr, a pherson ar secondiad oedd yn cario'r gwersi i'r Adran Weithredol yn yr Alban. Roedd y rhain i gyd yn swyddogion llawn amser ac yn ymweld yn weddol rheolaidd â'r 13 ardal beilot er mwyn deall y gweithgareddau â'r ystyriaethau oedd yn codi.

3.13.8. Mae anfon gwahoddiadau yn hwyr oherwydd ymgynghori mewnol, a gwneud

gwerthusiad llafur-ddwys o fidiau oedd wedi cael eu paratoi yn frysiog ac/neu wedi cael eu cyflwyno'n wael, yn achosi oedi ac yn cael sgil-effeithiau. Yn fewnol, mae'n rhaid rhedeg ar ôl sylwadau ac mae'r broses o gael argymhellion yn un hirfaith, ac yn cynnwys gweinidogion. Nid dyma'r unig fenter sydd ar y gweill ac mae'r un problemau yn codi gyda mentrau eraill.

3.13.9. Mae'n cymryd cymaint o amser i ymateb yn ffurfiol i ymholiadau a phroblemau fel bod y gallu i ymateb o gwbl yn cael ei lesteirio. Mae'r tîm wedi ceisio helpu trwy roi ymateb anffurfiol buan ond mae hynny wedi achosi rhai camgymeriadau a chamddealltwriaeth ac wedi creu problem i rai cydgysylltwyr. Un camgymeriad hynod anffodus oedd dweud wrth un PmC eu bod wedi ennill eu cyllid pan nad oedd hynny'n wir. Roedd y cydgysylltydd wedi dweud wrth y gymuned cyn iddo ddarganfod nad oedd hynny'n wir felly colodd ei hygyrdd am gyfnod.

3.13.10. Asgwrn cynnen arall gan gydgysylltwyr oedd yr amser yr oedd yn ei gymryd i ennill cymeradwyaeth i brosiect. Wedi iddynt godi gobeithion yn eu hardaloedd lleol roedd yn cymryd amser maith i'r Cynulliad ymateb. Ond nid oes gan y tîm ddim o'r cefndir na'r sgiliau i ddeall sut mae cloriannu sut mae'r bidiau yn ffitio gyda'r fenter nac i ddeall yr angen am werthusiad ariannol. Felly rhaid iddynt fynd i chwilio mewn rhan arall o'r Cynulliad, neu tu allan i'r Cynulliad ei hun, er mwyn cael rhywun i brosesu'r bidiau.

3.13.11. Peth arall sy'n achosi oedi yw trefniadau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r awdurdodau lleol ar gyfer anfon a thalu anfonebau. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau i awdurdodi taliad a rhaid disgwyl twrn mewn system gyllidol sydd eisoes dan straen.

3.13.12. I gydgysylltwyr a phartneriaethau lleol, mae'r holl oedi a chamddealltwriaeth yn edrych fel diffyg cefnogaeth i'r fenter, neu ddiffyg diddordeb hyd yn oed.

### **Rhai gwersi**

3.13.13. Mae'r tîm yn y Cynulliad Cenedlaethol wedi gweld y problemau sy'n gallu cael eu hachosi gan ddiffyg cefnogaeth ar eu rhan ac maent wedi bod yn ceisio cael mwy o adnoddau. Yn arbennig cyn i Cymunedau'n Gyntaf gael ei gyflwyno. Oherwydd y profiad anfoddhaol a gafwyd gyda rownd 1 a 2 Pobl mewn Cymunedau, dylid torri'r wadn fel y bo'r droed wrth gyflwyno Cymunedau'n Gyntaf, gan gadw nifer y prosiectau yn gymesur â'r adnoddau sydd ar gael. Byddai'n werth meddwl am wneud mwy o'r gwaith yn allanol – nid yn unig asesu'r bidiau ond unrhyw waith o werthuso'r bidiau sy'n codi o'r prosiect.

3.13.14. Dylai canllawiau'r fenter fod wedi canolbwyntio mwy ar sut y gallai'r bartneriaeth ddatblygu gallu'r gymuned leol i lunio Cynllun Gweithredu a fyddai'n wahanol i'r cynllun traddodiadol. Sut oedd y gymuned am fod yn gyfrannog a sut oedd y gymuned am fod yn wahanol i unrhyw gynllun adfywio arall? Beth oedd pwrpas cael dwy flynedd – roedd rhaglenni adfywio blaenorol wedi cael eu rhoi ar y gweill gyda bidiau a gafodd eu rhoi at eu gilydd mewn mis? Ar y gwaethaf gall y canllawiau obeithio am Gynllun Gweithredu sydd ddim gwahanol i unrhyw gynllun arall. Ar y gorau, gallai obeithio am brosiectau oedd yn mynd i'r afael â'r anghenion yn well.

3.13.15. Fel menter beilot neu arbrofol, dylai pwyslais y canllawiau fod wedi bod yn fwy ar osod strwythur yn ei le a sefydlu'r ffyrdd a'r agweddau a fyddai'n galluogi gwersi i gael eu dysgu. Dylai fod llai o bwyslais wedi bod ar bartneriaethau,

cynlluniau gweithredu a phrosiectau. Byddai'r gwersi fyddai wedi codi yn rhoi gwybodaeth am y ffordd orau i ymateb i'r rhwystrau sy'n dod i'r amlwg wrth geisio datblygu gweithgareddau ar y cyd. Byddai hyn wedyn yn helpu i sicrhau bod y Cynlluniau Gweithredu yn briodol ac yn ddichonadwy.

3.13.16. Mae Working with Communities yn yr Alban yn fenter sydd wedi cael ei datblygu gan Adran Weithredol yr Alban er mwyn archwilio llawer o'r problemau sy'n cael eu hamlygu wrth geisio datblygu gweithio ar y cyd yn lleol. Mae'r Canllawiau yn rhoi sylw penodol i hynny fel prif amcan y cynllun. Mae Adran Weithredol yr Alban wedi pwysleisio trwy gydol cyfnod gweithredu'r cynllun mai am y gwersi yr oeddynt hwy yn chwilio ac nad oedd wahaniaeth bod y gweithgareddau ddim yn llwyddiannus gan ei bod yn well ymgeisio a methu na pheidio ag ymgeisio o gwbl. Y wers sy'n cael ei dysgu yw'r canlyniad pwysicaf. Er enghraifft, gallai gweithgaredd llwyddiannus ddod o hyd i rwystr a chynnig ateb. Gallai gweithgaredd aflwyddiannus amlygu anghysondeb rhwng rheolau a rheoliadau dau bartner a oedd yn atal y gweithgaredd rhag symud ymlaen. Yn yr achos hwnnw y wers fyddai bod rhaid i reolwyr uwch yn y sefydliadau partneriaeth roi sylw i'r rhwystrau.

3.13.17. Dyma'r mathau o wersi y gallai Pobl mewn Cymunedau fod wedi ceisio dod â nhw i'r wyneb dros y ddwy flynedd. Byddai hynny wedi amlygu gweithgareddau ar gyfer y Cynllun Gweithredu y gellid bod wedi mynd â nhw yn eu blaen ar raddfa fwy, a gweithgareddau y byddai eu hangen er mwyn chwalu'r rhwystrau eraill oedd ar ôl ac a allai danseilio llwyddiant y Cynllun Gweithredu.

### 3.14. Y broses o ddysgu gwersi

3.14.1. Yng Nghylchlythyr 24/98, roedd angen cynnwys disgrifiad o'r egwyddorion a'r peirianwaith y bydd yr awdurdod lleol yn disgwyl eu rhoi ar waith er mwyn monitro a gwerthuso deilliannau'r prosiect a'u dosbarthu o fewn yr awdurdod. Hyd y gwyddom ni, yr unig beth yr oedd hyn yn ei sefydlu oedd bod y contractau wedi cael eu cyflawni. Hefyd yr oedd angen i bob bwrdd partneriaeth adolygu cynnydd ei brosiect yn rheolaidd a chymharu'r deilliannau gydag amcanion clir. Yr oedd y targedau cychwynnol i gael eu cytuno gyda'r Swyddfa Gymreig pan oedd yr ardaloedd yn cael eu dewis a byddai targedau mwy tymor hir yn cael eu gosod yn y Cynllun Gweithredu. Does dim byd yma sy'n gosod unrhyw beirianwaith a fyddai'n galluogi unrhyw fwrdd partneriaeth, awdurdod lleol, na'r Cynulliad ei hun, i ddysgu gwersi

3.14.2. Mae'r fframwaith gwerthuso a sefydlwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ganol 2000 yn cynnwys elfennau a allai gynnig gwersi i'r Cynulliad Cenedlaethol (gweler adran 7 am drafodaeth ar y fframwaith gwerthuso). Y rhain oedd 'adroddiadau diwedd tymor' y cydgysylltydd a'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol.

3.14.3. Roedd gofyn bod y cydgysylltwyr yn gwneud adroddiad blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol ond ni chafodd hyn erioed mo'i fynnu. Y neges yr oedd hynny'n ei roi i'r cydgysylltwyr oedd nad oedd unrhyw ymrwymiad i'r gwerthusiad oedd wedi ei gynllunio, felly ni wnaethant hwythau unrhyw baratoadau. Doedd dim fframwaith ar gyfer monitro parhaus yn unrhyw un o'r ardaloedd Pobl mewn Cymunedau a fyddai'n bwydo gwersi yn ôl i'r Cynulliad

Cenedlaethol. Nid oedd y Cynulliad Cenedlaethol chwaith yn ceisio dysgu gwersi o gyfarfodydd y cydgysylltwr nac o ymweliadau safle gan aelodau o dim cefnogaeth y Cynulliad Cenedlaethol.

3.14.4. Felly roedd y prosesau ar gyfer dysgu gwersi yn ystod y fenter yn amlwg oherwydd eu habsenoldeb.

### Rhai gwersi

3.14.5. Mae rhai gwersi i'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â datblygu eu gallu i ddysgu o'r fenter hon ac o fentrau eraill:

- Σ Dylid hyrwyddo diwylliant sy'n rhoi gwerth ar ddysgu gwersi;
- Σ Dylid creu diwylliant lle nad oes bai yn cael ei roi am geisio a methu;
- Σ Dylid trin methiant a llwyddiant yn gyfartal os oes gwersi yn codi;
- Σ Dylid sefydlu egwyddor o wneud y pethau hyn yn barhaus:
  - monitro gweithgareddau yn fanwl;
  - sefydlu patrwm o fonitro amserol;
  - rhannu'r gwersi yn rheolaidd i gynulleidfaoedd perthnasol (e.e. y

gymuned, gweithwyr datblygu cymunedol, staff datblygu cymunedol, staff gweithredol a staff darparu gwasanaethau, llunwyr polisi canolog ac yn y blaen).

3.14.6. Yr hyn a wnaeth Adran Weithredol yr Alban oedd datblygu fframwaith monitro a ddyluniwyd er mwyn bwydo'r gwersi yn ôl iddynt. (Mae'r fframwaith ar eu gwefan: [scotland.gov.uk/socialjustice/wfc/index](http://scotland.gov.uk/socialjustice/wfc/index)). Roedd yn allweddol bod y fframwaith wedi cael ei ddatblygu ar y cyd gyda'r 13 cymuned a phartneriaeth lleol a oedd yn cymryd rhan yn y fenter. Cafodd rhannau o'r fframwaith eu harbrofi gan y cymunedau lleol a'u hadolygu er mwyn creu cyfaddawd rhwng y llwyth gwaith â'r wybodaeth yr oedd ei hangen er mwyn tynnu'r gwersi. I gyd-fynd â hyn yr oedd ymweliadau rheolaidd gan staff polisi uwch o Adran Weithredol yr Alban.

3.14.7. Mae ar y Cynulliad Cenedlaethol angen ffordd o ddysgu gwersi yn ystod cyfnod y fenter. Pe byddai hynny wedi cael ei wneud yn ystod menter Pobl mewn Cymunedau byddai wedi bod yn bosib cael mwy o wybodaeth tu ôl i'r broses o ymgynghori ar faterion o wneud bidiau ac o ddarparu gwasanaeth yn ystod cyfnod ymgynghorol Cymunedau'n Gyntaf.

## 4. BETH SYDD WEDI CAEL EI GYFLAWNI O SAFBWyNT CEFNOGI BARN Y GYMUNED?

### 4.1. Faint o ymgynghori sydd wedi bod?

4.1.1. Mae pob menter PmC wedi ymgynghori yn y ffyrdd arferol ar sail unwaith ac am byth. Wrth wneud eu bidiau roedd pob un ohonynt yn cydnabod y cyfyngiadau oedd ar yr ymgynghoriadau cyntaf gan eu bod yn sylweddoli nad oeddynt wedi gwneud digon o waith cysylltu:

**"doedd yr ymgynghori cychwynnol ddim ond yn cynnwys grwpiau gwirfoddol allweddol a'r cynrychiolwyr cymunedol yr oeddem yn gwybod amdanynt"**

Ond wnaethon nhw ddim cynllunio'r ymgynghori diweddarach fel rhaglen o ymgynghori parhaus, dim ond fel ymarferiad cychwynnol i sefydlu gwaelodlin.

4.1.2. Mae'r rhan fwyaf wedi cynnal archwiliadau (awdit) cymdeithasol a/neu gymunedol ac mae rhai wedi cynnal arolwg. Roedd y Canllawiau yn mynnu archwiliad cymdeithasol ond dibynnodd rhai ardaloedd ar archwiliadau cymdeithasol oedd wedi cael eu cynnal yn y gorffennol agos. Mae rhai cydgysylltwr yn ystyried mai'r archwiliadau cymdeithasol sy'n gwneud y cyfraniad pwysicaf at ganfod anghenion. Mae archwiliadau cymunedol wedi edrych ar gyfleusterau lleol, er nad oedd unrhyw ganfyddiad ymlaen llaw o pa gyfleusterau ddylai fod yn yr ardal. Felly gwybodaeth gefndir oedd hyn a dim byd arall. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, yr oedd yr archwiliadau cymunedol yn cynnwys mynediad i wasanaethau lleol, yn arbennig gwasanaethau yn gysylltiedig â iechyd.

4.1.3. Cynhaliwyd rhai cyfarfodydd cyhoeddus, yn bennaf yn ymwneud â phrosiectau penodol, fel y tŷ cymunedol a datblygu'r Cynllun Gweithredu. Mae'r

cydgysylltwyr wedi ceisio cysylltu gyda'r gwahanol gymdeithasau preswylwyr a grwpiau o drigolion. Maent hefyd wedi ceisio tynnu'r partneriaid i mewn i'r drafodaeth ynglŷn â gwahanol bynciau. Ond gan nad yw rhaglen y rhan fwyaf o ardaloedd PmC wedi bod yn seiliedig ar bynciau nid oedd strwythur ffurfiol i'r rhaglen yma o ymgynghori.

4.1.4. Mae llawer barn ynglŷn ag ymgynghori yn yr ardal leol. Dyma rai enghreifftiau:

**"Yr un bobl bob tro fydd yn rhoi eu barn ond mae Pobl mewn Cymunedau wedi tynnu mwy o bobl i mewn. Mae'r tŷ cymunedol wedi bod yn beth da. Mae'n rhywbeth y mae pobl yn ei weld fel rhywbeth sy'n perthyn iddyn nhw"**

**"Dylai (y tŷ cymunedol) fod yn fwy agored – yr un bobl bob tro sy'n penderfynu ar ran y gymuned gyfan"**

**"Nid diffyg gwasanaethau yw'r broblem – mae pobl wedi cael eu hamddifadu o bŵer, does dim ymgynghori, maen nhw'n siarad am ddifaterwch"**

**"Rydan ni wedi gor-ymgynghori. Yn awr mae pobl eisiau gweld pethau yn cael eu gwneud"**

**"Ein rhieni a'n disgyblion yw'r bobl sydd wedi cael eu harolygu fwyaf trwy'r holl fydysawd"**

Mae gwrthgyferbyniad diddorol yn y ddau sylw cyntaf, yn y profiad a gafwyd mewn dwy ardal wahanol. Mae'r ddau yn gweld ymgynghori yn ffordd ymlaen ond dim ond un sydd wedi gwneud unrhyw gynnydd.

Mae'r dyfyniadau eraill yn dangos bod pobl yn blino ar yr un hen ddulliau o ymgynghori.

4.1.5. Anaml y bydd cyfarfodydd ffurfiol yn gadarnhaol iawn o safbwynt eu canlyniadau tymor hir. Maent yn creu rhestrau gobeithion sydd heb lawer o sail rhesymegol tu ôl iddynt nac unrhyw drafodaeth agored ynglŷn â'u rhinweddau cymharol. Mae gwrthdaro yn agored neu ymhlwg ynddynt – hollt 'ni a nhw' rhwng y gymuned â'r trefnwyr. Y canlyniad yn y tymor canol yw bod gobeithion yn cael eu codi ac, yn amlach na pheidio, yn cael eu siomi.

4.1.6. Mae taflenni wedi cael eu defnyddio er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwahodd cyfraniadau. Mae dwy broblem yn codi yn hyn o beth. Mae'r taflenni yn ddiwerth i garfanau, mawr weithiau, o'r gymuned sydd ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu. Mae hynny yn eithaf cyffredin yn y diwydiannau traddodiadol a gyda rhai lleiafrifoedd ethnig. Y broblem arall yw mai'n anaml mae tir niwtral ar gael, lle gall pobl ddod i siarad am wahanol faterion, yn arbennig materion sy'n berthnasol iddyn nhw.

4.1.7. Un o amcanion y tai cymunedol yw darparu lle niwtral lle gall pobl ddod i gynnal sesiynau wyneb yn wyneb gyda rheolwr y tŷ cymunedol neu gyda gwahanol weithwyr proffesiynol sydd yn cynnal cymorthfeydd i roi cyngor ac arweiniad. Yr anhawster sy'n codi mewn rhai ardaloedd yw bod y tŷ cymunedol wedi cael ei leoli mewn 'cymdogaeth' benodol a'i fod yn 'perthyn' i'r gymdogaeth arbennig honno. Ond mae rhai tai cymunedol yn ceisio cynnal gweithgareddau fydd yn denu trigolion o'r tu allan i'r gymdogaeth ei hun er mwyn torri'r ffiniau tiriogaethol. Ond gall hynny greu problemau hefyd – mae un PmC wedi cael problem gyda grwpiau mawr o bobl ifanc, llawer ohonynt o'r tu allan i'r ardal, yn casglu at ei gilydd ar y stad.

4.1.8. Bu nifer o lwyddiannau eraill mewn cael trigolion lleol i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi eu seilio yn y gymuned. Dwy enghraifft, sydd fel llawer

o'r math yma o weithgareddau yn benodol ar gyfer un grŵp targed, yw clybiau pêl droed a grwpiau rhiant a phlentyn. Mae'r clybiau pêl droed yn Neiniolen a'r Gurnos wedi bod yn arbennig o llwyddiannus mewn dod â genethod a merched at ei gilydd o bob rhan o'r ardal. Mae grwpiau rhiant a phlentyn hefyd yn tueddu i ddod â phreswylwyr o bob rhan o'r ardal at ei gilydd. Yn y tymor canol mae'r rhain yn mynd yn bell tuag at dorri rhai o'r rhwystrau tiriogaethol sy'n bodoli, yn arbennig rhwng pobl ifanc. Ond mae'n bwysig creu'r amgylchedd iawn, er enghraifft, **"peidiwch â chynnal bingo lle mae pobl yn rhegi ac yn rhwygo nesaf at grŵp babanod"**

4.1.9. Enghraifft arall o gael trigolion i gymryd rhan yw allymestyn (outreach) trwy gynnal gweithgareddau lleol. Mae hyn yn ymgais anffurfiol i gyrraedd pobl ar eu tir eu hunain gan weithio gyda grwpiau penodol er mwyn adeiladu eu hymddiredaeth ac ennill eu parch cyn dod â nhw, o bosib, i amgylchfyd mwy niwtral. Un enghraifft yw'r gwaith stryd yn Wrecsam, lle mae gweithwyr ieuenctid yn mynd allan ac yn cysylltu'n agos gyda grwpiau sy'n casglu ar gornel stryd neu mewn safleoedd cyhoeddus agored. Maent yn siarad gyda nhw ac yn ceisio datblygu perthynas fel y gallant gael pobl ifanc i weld y problemau sydd yno ac yn y diwedd eu cael i ymuno â grwpiau sydd wedi cael eu sefydlu yn barod. Enghraifft arall yw datblygu rhwydwaith o gynrychiolwyr strydoedd sy'n gallu helpu i gynorthwyo preswylwyr lleol i ganfod materion sy'n bwysig a gweld sut y mae'r rheini yn effeithio ar bobl eraill mewn gwahanol ffyrdd.

### Rhai gwersi

4.1.10. Dylai ymgynghori fod yn weithgaredd parhaus ac ymledol. Mae angen agwedd 'strategol' ond dim strategaeth. Nid yw'n bosib i ymgynghori

fod yn ddigynfnewid am byth, rhaid iddo esblygu yn organaidd. Mae'r llwyddiant mwyaf, yn ardaloedd PmC o leiaf, wedi dod trwy gael trigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Y gamp yw defnyddio'r amser pan maent yn cymryd rhan er mwyn 'ymgynggori' gyda nhw, gan geisio darganfod beth yw eu canfyddiadau nhw, ac er mwyn cael rhyw syniad am eu problemau nhw. Mae hyn yn ffordd fwy cynnil na'r drefn 'yn dy wyneb' sydd mewn cyfarfodydd neu hyd yn oed mewn rhai sesiynau un i un, fel a allai ddigwydd gyda'r Gwasanaeth Cyflogaeth, yr Asiantaeth Budd-dal neu Waith Cymdeithasol. Ond y mae'n dibynnu ar allu rheolwyr y gweithgareddau a'u staff i adeiladu'r math o berthynas gyda'r cyfranogwyr a fyddai'n eu cael i ddod o'u cragen. Mae hefyd yn dibynnu ar i'r cydgysylltydd ddatblygu rhwydwaith fel bod y pynciau trafod yn cael eu bwydo yn ôl ac yn cael eu cronni fel bod modd manteisio ar y rhyngweithio ac ar yr ymateb mwy cynhwysfawr ac eang.

4.1.11. Un enghraifft o dwf llwyddiannus o amgylch pwnc, nid yn Pobl mewn Cymunedau ond mewn rhan o Fryste, oedd y protestiadau treth y pen. I ddechrau, daeth 20 – 30 o bobl at ei gilydd mewn cyfarfod cyhoeddus. Arweiniodd hynny at arolwg o 100% o aelwydydd. Gwnaethpwyd yr arolwg gan bobl oedd ddim yn ymgyrchwyr selog fel y cyfryw, a chynyddodd aelodaeth y grŵp i gyfanswm o 500. Mae hyn yn awgrymu er gwaethaf y sylw a wnaethpwyd yn erbyn cyfarfodydd ffurfiol (gweler 4.1.5) bod cyfarfod cyhoeddus ynglŷn â phwnc penodol yn gallu bod yn fan cychwyn da.

4.1.12. Un peth sy'n rhwystr i ymgyngoriad, er mai ychydig fyddai'n cyfaddef hynny yn gyhoeddus, yw'r ffaith mai bychan yw gwybodaeth a phrofiad pobl leol yn eu cymunedau am y pynciau sy'n effeithio arnynt. Weithiau does ganddyn nhw ddim ond eu profiad eu hunain i dynnu ohono. Eu canfyddiadau personol yw

hanfod eu barn ynglŷn â beth sydd ei angen ond mae llawer sydd heb amgyffrediad realistig o fywyd tu allan i'w cymunedau lleol eu hunain.

4.1.13. Yr hyn ddylai fod yn amcan pennaf menter fel Pobl mewn Cymunedau yw i'r gymuned leol ddod yn rhagweithiol (procative) a gosod normau ymddygiad a deilliannau ar gyfer eu hardal leol, er enghraifft o safbwynt darparu gwasanaethau lleol, cael mynediad i wasanaethau eraill sydd ar gael, yr ymdeimlad o falchder yn eu cymuned a lefel a natur cyfranogiad y gymuned. Er mwyn i hynny gael ei gyflawni mae yna lawer sy'n rhaid ei ddysgu er mwyn ehangu'r opsiynau a phwyso a mesur canlyniadau gwahanol opsiynau.

Ar sail tystiolaeth yr wyth ardal Pobl mewn Cymunedau, y ffordd ymlaen i roi gallu i'r cymunedau a'u cael i gymryd rhan yw eu haddysgu trwy'r gweithgareddau. Byddai hynny yn dod â'r trigolion i gysylltiad â phreswylwyr eraill o safbwyntiau eraill yn eu cymuned a gyda gweithwyr proffesiynol rheng flaen sydd â phrofiad o faterion ac o broblemau tebyg mewn cymunedau eraill. Mae cryn dipyn o sinigiaeth ymhlith cymunedau ynglŷn â gwerth mentrau adfywio a'r unig ffordd o dorri trwy'r rhwystr hwnnw yw gweithio'n agos gyda phobl ar weithgareddau sy'n cyflawni pethau sydd o werth iddynt.

4.1.15. Felly mae ymgyngori yn weithgaredd parhaus sy'n digwydd wrth i bobl weithio trwy'i gilydd yn gymdeithasol, wrth wrando ar drigolion, ac wrth hyrwyddo trafodaeth wybodus am broblemau unigolion a'u cymunedau. Mae hyn hefyd yn creu cyfle i ddod â phynciau i'r wyneb a deall beth yw y rhwystrau i'w datrys. Dim ond wedyn y gellir datblygu Cynllun Gweithredu realistig y gall y gymuned deimlo bod ganddi berchnogaeth arno a'i bod wedi cyfrannu ato.

## 4.2. A oes gweledigaeth wedi cael ei chytuno ar gyfer y cymunedau?

4.2.1. Yng ngolwg yr awdurdodau lleol a phartneriaid eraill mae gan ardaloedd PmC hunaniaeth – dyna pam y cawsant eu henwebu. Ond y gwir am ardaloedd lleol yw y byddai'r trigolion yn adnabod nifer o gymdogaethau gwahanol o fewn pob ardal PmC, yn ogystal â rhai strydoedd a theuluoedd y dylid cadw draw oddi wrthynt. Hyd yn oed yn Peulwys, cymuned o tua 280 aelwyd, mae trigolion a gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn cyfeirio at bedair ardal wahanol.

4.2.2. Er gwaethaf y cymdogaethau lluosog, mae yna ymdeimlad o gymdeithas yn rhai o'r cymunedau PmC hyn, llawer ohono yn gysylltiedig â balchder bro. Ond byddai'r cymunedau hynny, hyd yn oed, yn ei chael hi'n anodd rhoi mewn geiriau unrhyw weledigaeth fel y cyfryw. Mae hynny yn rhannol oherwydd bod pobl sy'n sownd ym mhroblemau eu bywyd pob-dydd yn ei chael hi'n anodd amgyffred unrhyw ddewis arall – dyna'r neges cryf sy'n dod o'r grwpiau ffocws. Ar ben hynny, heb fod yna ymdeimlad o gymuned yn barod, mae'n anodd iawn creu gweledigaeth y gall pobl gymryd perchnogaeth arni. Mae rhyw gymaint o garfanu ym mhob un o'r ardaloedd.

4.2.3. Ond mae sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r cymunedau wedi dod allan o'r grwpiau ffocws:

**"Rydych chi'n 'nabod pawb. Mae hynny'n ddigon da i mi. Rydych chi wedi cael eich dwyn i fyny gyda'r rhan fwyaf o bobl yn yr ysgol"**

**"Os ydych chi'n 'nabod llawer o bobol ar y stad rydych chi'n iawn"**

**"Y peth pwysicaf i ni ydi'n cymdeithas, ein diwylliant a'n hiaith"**

**"Rydan ni wrth ein boddau yma – mae'n gymuned wych. Yr unig broblem yw plant a chyffuriau. Rydyn ni'n falch o fod yn byw yma. Fydden ni'n falch o wneud mwy gyda gweithgareddau cymunedol – dim ond nad ydyn ni wedi clywed am yr un o'r cyfarfodydd. Wnaeth y gymdeithas tenantiaid a thrigolion ddechrau yn llawn addewidion a rhoi llawer o bethau ar waith, ond mae cwmpo mas wedi bod a does dim wedi cael ei wneud ers sbel go dda**

### Rhai gwersi

4.2.4. Mae gweledigaeth yn rywbeth fydd ddim yn hawdd ei rhoi mewn geiriau hyd nes bo ymwybyddiaeth o gymuned wedi cael ei sefydlu. Rhaid i weledigaeth fod wedi cael ei seilio ar ddealltwriaeth drylwyr o beth yw'r prif broblemau ag i ba raddau y mae'n realistig meddwl bod modd lleihau neu ddiddymu'r rhwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'r datganiadau o genhadaeth sydd yn y Cynlluniau Gweithredu sydd wedi cael eu cwblhau wedi cael eu rhoi at ei gilydd gan y Bwrdd Partneriaeth (oedd weithiau yn fwrdd dros dro) neu gan yr awdurdod lleol. Mae'n amheus a ellid dweud bod gan y gymuned berchnogaeth ar yr un ohonynt.

## 4.3. A oedd gan y cymunedau ran mewn datblygu'r cynlluniau gweithredol?

4.3.1. Roedd y canllawiau gwreiddiol (Cylchlythyr 24/98) yn gosod amserlen ar gyfer cwblhau'r Cynllun Gweithredu ac yn gosod amod bod cynllun oedd wedi cael ei gytuno gan yr Awdurdod Lleol yn cael ei gyflwyno i'r Swyddfa Gymreig er gwybodaeth erbyn 1 Chwefror 2000. Ychydig iawn o ardaloedd Pobl mewn Cymunedau wnaeth gadw o fewn y dyddiad cau yma.

4.3.2. Y broses gyffredinol sydd wedi cael ei dilyn yw i'r cydgysylltydd gynhyrchu'r drafft cyntaf, sydd yn cael ei ddiwygio ac wedyn yn cael ei gymeradwyo gan y bwrdd partneriaeth. Mae wedyn yn mynd at yr awdurdod lleol i gael ei gymeradwyo. Mae'r awdurdod lleol yn cael dau gyfle, un trwy'r bwrdd ac un arall trwy ei swyddogion polisi a strategaeth. Mae'r meini prawf ar gyfer cymeradwyaeth yn wahanol y ddwy waith, y tro cyntaf y meini prawf yw cydymffurfio â'r problemau sy'n cael eu hamgyffred yn yr ardal, yr ail waith y berthynas rhwng y cynllun â strategaeth ehangach yr awdurdod lleol sy'n bwysig.

4.3.3. Yr unig ffordd y mae'r gymuned wedi bod yn gyfrannog yn y rhan fwyaf o ardaloedd yw trwy gynrychiolwyr y gymuned ar y bwrdd partneriaeth. Ond mae o leiaf un PmC wedi sicrhau bod drafft ar gael i'r trigolion os oeddynt eisiau ei weld a gwneud sylwadau amdano.

4.3.4. Cynlluniau adfywio yw'r Cynlluniau Gweithredu yr ydym ni wedi eu gweld, gyda gweithgareddau sy'n ymateb i bynciau ar draws ystod eang o waith adfywio. Mae rhai yn mynd i'r afael â'r pynciau yn well na'i gilydd, gyda gweithgareddau ar y cyd, â mwy nag un darparwr gwasanaethau yn cymryd rhan.

### Rhai gwersi

4.3.5. Yn wreiddiol, roedd y Cynllun Gweithredu yn cael ei weld fel cynllun tymor hir i adfywio'r ardal leol. Bwriad y canllawiau oedd y byddai'r cynllun yn cael ei lunio ar gyfer y gymuned ac y byddai'r gymuned yn ei gymeradwyo neu yn ei addasu. Dyna pam yr oedd yn bosib i rai Pobl mewn Cymunedau gynhyrchu cynllun yn fuan iawn ar ôl cael eu sefydlu. Ond mewn rhai ardaloedd eraill, lle roedd gweithgareddau adfywio wedi bod o'r blaen, gellid dadlau bod sylfaen y cynllun yn bodoli'r barod ac y gellid defnyddio Pobl

mewn Cymunedau i'w ffurfioli a'i weithredu. Roedd yn cymryd mwy o amser yn yr ardaloedd oedd a dim neu dim ond ychydig o brofiad adfywio ond yr oeddynt yn dal i ddod â chynllun tebyg gerbron yn y man, fel arfer gyda mwy o help gan yr awdurdod lleol.

4.3.6. Yr ydym yn credu bod gwahaniaeth cynnil rhwng Cynllun Gweithredu **Ardal** a Chynllun Gweithredu **Cymunedol**. Y cyntaf yw'r hyn y mae cymuned eisiau cael ei weld yn digwydd i'r gymuned trwy ddefnyddio arian pobl eraill. Yr ail yw'r hyn y mae'r gymuned eisiau ei wneud gyda'r arian y mae'r partneriaid wedi rhoi awdurdod iddynt ei wario. Mae atebolrwydd yn bwysig yn y ddau achos, ond yn y cynllun ardal y nod yw cyflawni deilliannau targed, yn bennaf yn ymwneud â'r dangosyddion amddifadedd, tra bod y cynllun cymunedol yn ymwneud â chyrraedd cerrig milltir o safbwynt newidiadau fydd yn gwella effeithiolrwydd arian cyhoeddus er budd y gymuned.

## 4.4. A yw'r cymunedau wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau?

4.4.1. Yr hyn sy'n rhoi sylwedd i'r Cynlluniau Gweithredu yw'r gweithgareddau. Mae'r rhain yn bodoli ar ffurf prosiectau, sy'n enghreifftiau o'r math o beth sy'n bosib ar draws bob math o weithgaredd adfywio. Maent yn tueddu i fod yn gymysgedd o brosiectau cyfalaf a refeniw, sydd ar y naill law yn darparu cyfleusterau a gwelliannau i'r amgylchedd ac ar y llaw arall yn gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'r mynediad iddynt.

4.4.2. Bydd rhai o'r prosiectau yn cynyddu cyfranogiad y trigolion mewn gweithgareddau lleol. Bydd llawer o hynny yn digwydd yn y tŷ cymunedol neu yn y ganolfan brosiect ac yn cynnwys hyfforddiant fydd ar gael yn lleol a sesiynau un i un i roi cyngor ac arweiniad. Mewn

rhai ardaloedd Pobl mewn Cymunedau mae'r gweithwyr allymestyn (outreach) wedi cael eu lleoli yno, fel bod ganddynt gyfle i rwydweithio. Gyda'r amrywiaeth iawn o weithgareddau mae hyn yn rhoi cyfle i wahanol grwpiau, megis yr henoed, mamau, a phobl ifanc i gymysgu gyda'i gilydd: un enghraifft sydd ar gael yw prosiect celf a chreffft sydd â grŵp cymysg o glientiaid. Mae ardaloedd chwarae diogel hefyd yn rhoi cyfleoedd i wneud cysylltiadau cymdeithasol, er bod rhai o'r PmC wedi sefydlu rhai felly yn barod. Mae yna brosiectau newydd, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc a'r henoed, sy'n anelu at ymestyn allan i'r grwpiau hyn sydd yn aml wedi eu halltudio ac sy'n teimlo yn ynysig ac yn ddi-gefnogaeth.

4.4.3. Mae'r goreuon o blith y cynlluniau yn gosod eu seiliau rhesymegol ar gyfer gweithredu, o dan bob blaenoriaeth a/neu bob prosiect. Dyma ddywedodd un cydgysylltydd pan ddywedwyd ei fod wedi cyllido rhyw brosiect yn eu swydd flaenorol ym maes adfywiad:

**"Rwy'n gweld yn awr y rheswm dros gael seiliau rhesymegol yn ein cynllun gweithredu fel bod modd pwyntio atynt a dweud – dyna beth ydych chi wedi cytuno iddo a phaham."**

#### Rhai gwersi

4.4.4. Er y gall sail rhesymegol gyfiawnhau prosiect, bydd wedi cael ei ddiffinio yn nhermau'r pecyn adfywio ardal y mae'n rhan ohono. Yn gyffredinol nid yw'r sail rhesymegol yn cyfeirio at yr hyn y mae'r prosiect yn ei gyflawni i'r gymuned na'r hyn y disgwylir iddo ei gyflawni o safbwynt adeiladu gallu y gymuned leol.

4.4.5. Un man lle mae cynllun gweithredu ardal yn methu yw mai prin y mae'r trefniadau ar gyfer parhad y bartneriaeth yn cael eu trafod (gweler adran 6) heb sôn am barhad y prosiectau fydd yn cael eu cyllido.

Mae'r consyrn mwyaf yn codi gyda'r prosiectau refeniw gan nad oes unrhyw ddarpariaeth i lenwi'r bwlch pan fydd cyllid y fenter yn dod i ben. Ond mae hefyd yn wir nad yw oblygiadau refeniw y dyfodol yn cael sylw mewn prosiectau cyfalaf. Os yw'r cymunedau i arddel perchnogaeth o'r cynlluniau hyn rhaid bod rhyw ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol. Mae Tai Cymunedol yn enghraifft o hyn. Mae rhai ohonynt 'ar fenthg' oddi wrth adrannau tai ac yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Mae rhai eraill yn ganolfannau cymuned sydd wedi cael eu hadeiladu gyda'r arian oedd dros ben oedd gan awdurdodau lleol cyn yr ad-drefnu, arian nad oeddynt eisiau ei golli o'r ardal. A yw'r sefyllfa yma yn gynaliadwy ynteu ai'r farn yw mai prosiectau oes fer yw'r Tai Cymunedol?

4.4.6. Mae'r fenter Pobl mewn Cymunedau yma wedi glanio ar ei draed yn yr ystyr bod cyhoeddiad wedi ei wneud yn ddiweddar y bydd PmC yn parhau o dan Cymunedau'n Gyntaf. Yn sicr ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf bydd rhaid annog ymgeiswyr i fynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn. Gallai hynny olygu y bydd rhaid derbyn bod mentrau oes fer yn ddim mwy na hynny, ac nad yw'n realistig disgwyl iddynt bara.

### 4.5. Pa newidiadau mae hynny wedi eu hachosi yn agweddau awdurdodau lleol, asiantaethau a'r cymunedau?

4.5.1. Mae dynodi Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol wedi dod â'r penaethiaid gwasanaeth a gymerodd ran, i gysylltiad â rhai o'r pynciau llawr daear a'r problemau anodd sy'n agweddau pob dydd ar swyddi'r gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n atebol i'r penaethiaid hynny. Hefyd, yn gyffredinol, bydd eu gwaith gyda'r bwrdd yn dod â nhw yn gorfforol i'r ardal fel eu bod yn gallu gweld drostynt eu hunain o dan ba amgylchiadau mae pobl yn byw yn yr ardaloedd yma. Er nad yw

hynny, yn gyffredinol, yn achosi rhyw newid mawr mewn agweddau, mae'r ymwybyddiaeth ehangach yn gwneud gwahaniaeth annelwig ond sylweddol i'r ffordd y mae'r penaethiaid gwasanaeth hyn yn edrych ar strategaeth. Roedd un neu ddau o benaethiaid nad oedd gwaith argyhoeddi arnynt, ond mae Pobl mewn Cymunedau wedi helpu i yrru diddordeb yn ei flaen. Dyma a ddywedodd un Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol:

**"Mae fy ngwaith gyda Pobl mewn Cymunedau wedi fy ngwneud yn fwy ymwybodol o'r anawsterau ymarferol sydd mewn darparu gwasanaethau ac o'r rhwystrau y mae'n rhaid eu hwynebu – mae angen cymryd y rhain i ystyriaeth wrth ddatblygu ein strategaethau"**

4.5.2. Bu rhyw gymaint o welliant mewn cyfathrebu o fewn awdurdodau lleol. Ond mae'r gwelliannau yn tueddu i fod 'ar draws' rhwng adrannau, ac ar lefel cymharol uchel trwy rwydweithio anffurfiol yn hytrach nag yn fertigol trwy sianeli mwy ffurfiol rhwng rheolwyr uwch a swyddogion yn y maes. Mae'r gymuned leol a'r rheolwyr uwch wedi bod ryw gymaint ar eu hennill. Cytunodd y swyddog tai lleol a rheolwr y Tŷ Cymunedol ar lyfr i gofnodi problemau a chwynion er mwyn canoli'r dull o adrodd. Cytunodd y swyddog tai i ymateb cyn gynted â phosib i geisiadau brys (y rhoddir gwybod amdanynt gan reolwr y Tŷ Cymunedol) ac i ymateb yn wythnosol i geisiadau eraill. Cafodd tenantiaid ar y stad wybod am hyn a chael eu hannog i ddefnyddio'r drefn yma yn hytrach na dal i ffonio'r adran dai. Y canlyniad oedd gostyngiad o fwy na 50% yng ngalwadau'r gymuned at yr adran dai o fewn y ddau fis cyntaf.

4.5.3. Bu rhai newidiadau mewn agweddau hefyd. Mewn un PmC roedd prosiect ailgylchu bychan ond llwyddiannus.

Roedd y ffaith bod y gwasanaeth profiant yn gyfrannog yn y mater yn golygu y gallai'r prosiect dderbyn pobl ifanc dan hyfforddiant i drwsio hen ddodrefn a gwneud dodrefn o ansawdd uchel. Mae'r prosiect ar ei newydd wedd wedi creu cryn dipyn o frwdfrydedd, wedi ymgeisio yn llwyddiannus am gcontract y Fargen Newydd, ac yn awr mae'n hollol hunan-gynhaliol.

4.5.4. Mae rhai Byrddau Partneriaeth wedi asesu o'r newydd amrediad a lefel eu penodiadau i'r Bwrdd. Mae byrddau Pobl mewn Cymunedau, wrth ddelio gyda phynciau lleol trwy'r cyd-gysylltydd, wedi dod yn ymwybodol o bwysigrwydd y profiad lleol ac maent wedi denu pobl sydd yn gweithio gyda'r gymuned leol. Hefyd, mae rhai yn cydnabod bod grwpiau bychan yn ffordd fwy priodol o ddatblygu mathau arbennig o weithredu. Yn y meysydd hynny mae gweithredoedd yn cael eu targedu yn well ar anghenion yr ardal leol. Y cam cyntaf gyda phobl leol yw dangos bod y bwrdd yn cymryd diddordeb yn eu hanghenion. Mae cyflwyno bidiau llwyddiannus am gyllid, er enghraifft oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn dangos bod Pobl mewn Cymunedau yn gallu gwneud gwahaniaeth. Ond ochr arall y geiniog yw bod gallu'r bwrdd i ddatblygu eu cynlluniau mwy uchelgeisiol wedi cael ei wanhau oherwydd nad yw cynrychiolwyr uchaf rhai asiantaethau yn dal i fynychu ei gyfarfodydd.

4.5.5. Mae angen gweithio'n agos gyda phartneriaid er mwyn iddynt gael gwybod beth, yn realistig, y gellir ei gyflawni mewn ardal. Er enghraifft, roedd y Gwasanaeth Cyflogaeth mewn un achos yn hapus i gefnogi ffair gyflogaeth ond roedd yn anhapus ynglŷn â'r nifer ddaeth yno – ar y llaw arall roedd y gymuned yn ystyried y digwyddiad yn llwyddiant mawr.

4.5.6. Mae newidiadau hefyd ym mherthynas ysgolion gyda'r gymuned. Mae rhai o bennaethiaid ysgolion cynradd yn gweld eu hysgolion fel adnodd i'r holl gymuned. Maent yn deall gwerth gweithgareddau tu allan i oriau ysgol ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddatblygu'r gweithgareddau hynny ar y cyd. Mewn llawer o'r ysgolion mae nifer uchel o blant anghenion arbennig sy'n gallu cael budd o'r gweithgareddau hyn. Mae'r ysgolion yn sylweddoli bod ganddynt wybodaeth am amgylchiadau rhai o'r plant hyn ac na ellir gwneud dim ond lles trwy rannu'r wybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn y rheng flaen, megis gweithwyr iechyd a swyddogion heddlu cymunedol.

4.5.7. Mae ysgolion uwchradd yn canolbwyntio mwy ar ddatblygu'r cwricwlwm a pherfformiad disgyblion. Ond maent yn gweld bod cysylltiad rhwng presenoldeb, lefelau sylw, a disgyblaeth ag amgylchiadau'r plant o ardaloedd tlawd a phwysau eu cymheiriaid arnynt. Mewn o leiaf un achos mae Pobl mewn Cymunedau wedi annog ffordd newydd o feddwl yn strategol.

4.5.8. Oherwydd Pobl mewn Cymunedau mae rhai ymwelwyr iechyd yn gweld y gallant ymgymryd a rôl fwy eang na dim ond cysylltu gyda merched beichiog a rhieni gyda phlant. Mae ganddynt wybodaeth am hanes a theuluoedd y cysylltiadau hyn a gellir gwneud defnydd buddiol o hynny mewn trafodaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn yr ardal. Yn aml iawn dyma'r bobl gyntaf y mae pobl gyda phroblemau yn dod i gysylltiad â nhw.

4.5.9. Mae ystyriaethau o breifatrwydd yn codi wrth sôn am rwydweithio gweithwyr

proffesiynol lleol. Maent yn dod o dan y Ddeddf Gwarchod Data felly mae rhai manylion na ddylid mo'u datgelu, er enghraifft ynglŷn ag amgylchiadau personol eu clientiaid. Mae'r bobl y maent yn eu helpu mewn trafodaethau gydag asiantaethau eraill hefyd, ac yn gwneud sylwadau na fyddent yn barod i'w mynegi pe byddent yn gwybod eu bod am gael eu rhannu gydag eraill. Mae gan bob adran ei chanllawiau mewnol ond does dim canllawiau ar gyfer gweithio yn draws adrannol. Felly rhaid datblygu ymddiriedaeth a pharch ar draws y rhwydwaith cyfan, yn ogystal â chreu ymwybyddiaeth y bydd unrhyw gyfrinachedd yn cael ei barchu..

### **Rhai gwersi**

4.5.10. Mae'r holl newidiadau sydd wedi cael eu hachosi gan Pobl mewn Cymunedau yn rhai digon bychan ynddynt eu hunain. Ond maent yn ganlyniadau syml sy'n costio nemor ddim ac maent yn hawdd iawn eu hailadrodd mewn ardaloedd eraill. Wrth gwrs, mae'n bosib na fydd hynny yn digwydd gan nad oes unrhyw reolau a chyfarwyddiadau wedi cael eu newid er mwyn rhyddhau potensial y gymuned. Yr unig beth sydd wedi newid yw agweddau, a'r ddealltwriaeth ei bod yn bosib gwneud pethau mewn ffordd wahanol ac er gwell.

4.5.11. Ond mae dealltwriaeth gynyddol ymhlith gweithwyr proffesiynol rheng flaen y dylent fod yn gwneud mwy o ymdrech, ac yn wir eu bod yn gwneud mwy o ymdrech, i newid er gwell y ffordd y mae pobl yn meddwl amdanynt eu hunain ac am y byd lle maent yn byw.

## 5. FAINT O ADEILADU GALLU SYDD WEDI CAEL EI GYFLAWNI?

### 5.1. Beth mae adeiladu gallu yn ei olygu mewn ardal Pobl mewn Cymunedau?

5.1.1. Adeiladu gallu yw datblygu cyfalaf cymdeithasol yn y cymunedau lleol. Yn arferol, ystyrir bod cyfalaf cymdeithasol yn cael ei gynnal gan dair colofn:

- Σ adeiladu ymddiriedaeth;
- Σ adeiladu rhwydweithiau;
- Σ adeiladu normau cadarnhaol.

5.1.2. Mae adeiladu ymddiriedaeth yn ymwneud â datblygu hyder bod cydberthynas gymdeithasol yn onest ac yn deg. Rhaid i hyn ddigwydd rhwng cydraddolion, trigolion eraill, a swyddogion a rhaid iddo ddigwydd yn y prosesau lle mae'r gydberthynas yn cael ei chreu.

5.1.3. Yn gyffredinol, mae dau fath o rwydwaith yn cael eu diffinio. Mae rhwydweithiau gwan yn datblygu rhwng pobl neu grwpiau sydd, efallai am ddim ond cyfnod byr, yn rhannu ddiddordeb neu amcan cyffredin sy'n ei gwneud yn fanteisiol iddynt rannu gwybodaeth a phrofiadau a sefyll gyda'i gilydd yn unedig. Mae rhwydweithiau cryf yn bodoli rhwng pobl y mae'r rhwymau hynny yn rhan hanfodol o'u bywydau, megis aelwydydd a theuluoedd.

5.1.4. Normau cadarnhaol yw'r normau sy'n tra-arglwyddiaethu yn y gymuned ac sy'n gweithio fel gwaharddiad ar ymddygiad anghymdeithasol ac yn helpu pobl i anelu yn uwch. Maent yn arbennig o bwerus pan maent yn gweithredu o fewn grwpiau cymheiriaid megis pobl ifanc.

5.1.5. Mae deilliannau adeiladu gallu yn ymwneud â chau bylchau o fewn y gymuned, a rhwng y gymuned â'r tu allan. Mae sefydlu cydberthynas mwy positif, sefydlu mwy o rwydweithiau a chael mwy o bobl i gydymffurfio â'r norm i gyd yn fesuriadau posib o ddeilliannau cadarnhaol.

### 5.2. Rhwydweithiau Newydd

5.2.1. Ac eithrio'r Byrddau Partneriaeth, oedd yn ofynnol dan Pobl mewn Cymunedau, ychydig dystiolaeth o rwydweithiau newydd sydd ar gael. Fel rhan o'r broses bartneriaeth mae is-grwpiau, yn grwpiau sefydlog ac yn grwpiau oes fer, wedi cael eu sefydlu yn y rhan fwyaf o gymunedau. Ac mae grwpiau eraill oedd yn bodoli yn barod, megis y grŵp swyddogion yn Rhiwgarn. Mae pob un o'r rhain yn rhoi cyfle i bobl gwrdd â'i gilydd. Er eu bod yn rhoi rhai o'r un buddiannau â rhwydwaith, nid rhwydweithiau go iawn mohonynt gan eu bod yn cyfarfod at bwrpas penodol yn hytrach nag er mwyn rhannu gwybodaeth a phrofiad.

5.2.2. Gwnaethpwyd rhai cysylltiadau newydd rhwng sefydliadau a rhwng pobl broffesiynol, gan greu sianeli cyfathrebu, ond does dim cysylltiadau ffurfiol. Mewn egwyddor dylai hyn arwain at rannu gwybodaeth a phrofiad ar sail ad hoc a gallai arwain at gydweithio newydd, ond nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod hynny wedi digwydd.

#### Rhai gwersi

5.2.3. Does dim sail resymegol i rwydweithiau newydd os yw ffocws y fenter ar ddatblygu prosiectau yn hytrach nag ar gydweithio. Dylai'r canllawiau gynnwys

rhyw anogaeth i ddatblygu rhwydweithiau o weithwyr proffesiynol rheng flaen.

### 5.3. Fforymau lleol newydd lle mae'r cymunedau lleol yn cymryd rhan

5.3.1. Mae yna enghreifftiau o gymdeithasau tenantiaid a chymdeithasau trigolion yn cael eu ffurfio o'r newydd ac o rai blaenorol yn cael eu hadfywio. Ond mewn rhai ardaloedd yr unig beth sydd wedi cael ei amlygu gan y prysurdeb a ddaeth gyda Pobl mewn Cymunedau yw bod rhai yn ofni tynnu gormod o sylw atynt eu hunain, a'r ffaith bod rhai o'r trigolion yn rhy brysur yn ceisio helpu eu hunain a datrys eu problemau eu hunain fel bod ganddynt ddim amser ar ôl i fynd i'r afael â materion sydd ddim o ddiddordeb iddynt nag yn ymwneud â nhw yn uniongyrchol.

5.3.2. Serch hynny, mae gan rai o'r gweithgareddau newydd, megis y Tŷ Cymunedol a'r timau pêl droed, eu pwyllgorau rheoli eu hunain sy'n rhoi cyfle i bobl gyfnewid barn.

#### Rhai gwersi

5.3.3. Mae gwahaniaeth rhwng cymryd rhan a chael eich cynrychioli. Mae trigolion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a theimlo'n rhan o'u cymunedau heb gymryd rhan, na bod eisiau cymryd rhan, fel cynrychiolydd. Ar y llaw arall, mae rhai trigolion eisiau bod yn gynrychiolwyr. Efallai y cawn alw y rheini yn 'ymgyrchwyr'. Y broblem i ymgyrchwyr yw eu cymwysterau democrataidd sy'n rhoi hawl iddynt siarad ar ran pobl eraill. Heb y cymwysterau democrataidd hynny maent yn

agored i'r cyhuddiad o fod yn gweithredu er eu mantais eu hunain, boed hynny yn wir ai peidio.

5.3.4. Mae Pobl mewn Cymunedau yn annog cael cynrychiolwyr cymunedol ar y bwrdd partneriaeth. Yn wir mae'r Canllawiau yng Nghylchlythyr 24/98 yn awgrymu lleiafswm o 33%. Yn ymarferol, gweithwyr proffesiynol rheng flaen sydd wedi rhoi'r farn gymunedol gerbron, er nad ydynt bob amser yn byw yn yr ardal. Fel arall mae'n dibynnu ar wahodd cymdeithasau tenantiaid neu gymdeithasau trigolion i enwebu cynrychiolwyr, neu ar y cynrychiolwyr etholedig. I ryw raddau mae hynny yn anorfod a bydd yn cario gydag ef holl hanes y gorffennol o gynrychiolaeth ac ymgyrchu, y drwg a'r da.

5.3.5. Mewn gwirionedd mae'n anodd iawn creu fforwm a all honni bod yn gynrychioliadol ac yn alluog i ethol cynrychiolydd yn ddemocrataidd. Efallai y gellid defnyddio mwy ar weithwyr proffesiynol rheng flaen ac aelodau o bwyllgorau rheoli prosiectau allweddol fel bod llais y gymuned yn cael ei fynegi o leiaf.

5.3.6. Mae problem weithiau gyda 'gweledd' Pobl mewn Cymunedau. Pan gyfarfu un PmC gyda'r gymuned cyhuddiad y gymuned oedd nad oedd wedi cyflawni llawer o ddim. Ond pan eglurodd y bwrdd gymaint yr oeddynt wedi ei wneud gofynnodd y gymuned 'pam ydych chi'n cuddio'ch kannwyll o dan lestr?'. Yn awr mae'r PmC wedi paru aelodau'r bwrdd gyda phwyllgorau rheoli prosiectau. Maent hefyd yn cyhoeddi cylchlythrau rheolaidd (fel y mae PmC eraill hefyd yn ei wneud).

## 5.4. Rhai enghreifftiau newydd o gymunedau yn cymryd rhan ac yn cyflawni

5.4.1. Mae adeiladu gallu unigolion wedi bod yn rhan o amcanion Pobl mewn Cymunedau ym mhob ardal, yn bennaf trwy eu cael i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chysylltiadau 1 i 1. Mae'r tai cymunedol yn gweithio trwy roi cyfle i ymuno mewn gweithgareddau sy'n tynnu pobl i mewn ac sydd, trwy ddarparu amgylchfyd niwtral sydd â rhyw bwrpas penodol yn ei yrru, yn dileu un o'r pethau y mae pobl yn ei weld yn rhwystr i gysylltu'n gymdeithasol. Mae gwirfoddoli yn beth sydd wedi cael ei annog ac mewn rhai achosion mae hynny wedi arwain at dystysgrifau a chymwysterau ar gyfer sgiliau megis gweinyddu busnes, yn arbennig wrth helpu i redeg y Tŷ Cymunedol.

### Rhai gwersi

5.4.2. Mae adeiladu gallu unigolion yn bwnc allweddol i fentrau lleol. Mae angen i bobl ddod yn rhan o bethau, cymryd perchnogaeth a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn parhau i gynnal y gymuned. Mae Pobl mewn Cymunedau wedi gwneud hynny trwy ddarparu'r cyfleoedd i bobl gysylltu yn gymdeithasol â'i gilydd mewn amgylcheddau sydd ddim yn fygythiol a thrwy drefnu gweithgareddau sy'n hyrwyddo hunan-hyder a hunan-barch yr unigolyn.

## 5.5. Newid polisi awdurdodau lleol ac asiantaethau

5.5.1. Oherwydd bod y cydgysylltwyr yn yr awdurdodau lleol yn rhannu eu pryderon

gyda eu rheolwyr llinell ma'r rheolwyr hynny yn dechrau deall rhai o'r ystyriaethau sy'n codi mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn lleol ac ynglŷn â gweithio gyda sefydliadau eraill Mae hynny yn helpu rhai ohonynt i ddysgu o'r profiad negyddol a fu yn y gorffennol ac sy'n dal i ddigwydd. Mae hefyd yn helpu swyddogion eraill i ddeall beth yw realaeth gwaith datblygu cymunedol – er enghraifft allwch chi ddim gorfodi pethau ar y gymuned a disgwyl iddynt hwythau fod yn ddiolchgar.

5.5.2. Mewn awdurdodau lleol, asiantaethau a chymdeithasau tenantiaid/trigolion mae parodrwydd i hyrwyddo rhai gweithgareddau sy'n gweithio gyda'r gymuned, er enghraifft gofyn barn y gymuned ynglŷn â lefel ag ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, neu sefydlu trefn ar gyfer cwynion. Ond mae rhai gweithgareddau fydd ddim yn cael eu cefnogi os byddant yn fygythiad i awdurdod neu drefniadaeth yr awdurdod lleol neu'r asiantaeth. Er enghraifft, mae gadael i gwynion aros 'yn y rheng flaen' gyda gweithwyr proffesiynol lleol a swyddogion etholedig yn golygu y gall trefniadau mewnol, a'r rheolau a'r rheoliadau, fynd yn eu blaen heb gael eu herio. Felly mae rhai o'r rhwystrau y gallai Pobl mewn Cymunedau eu hwynebu yn rhai sydd wedi cael eu gosod yn fwriadol er mwyn amddiffyn y sefydliad. Fel hyn y dywedodd un swyddog llywodraeth leol pan oedd argymhelliad o'i flaen i ysgogi'r cymunedau i ddod fwy i gysylltiad:

**"ydau ni'n wir eisiau cymuned fywiog sy'n gwrthwynebu'r hyn rydan ni'n ei wneud ac yn herio ein holl benderfyniadau?"**

5.5.3. Mewn gwirionedd nid yw Pobl mewn Cymunedau wedi achosi unrhyw newidiadau mewn polisi. Mae cynhwysedd cymdeithasol wedi dod yn rhan o'r strategaethau y mae awdurdodau lleol wedi eu datblygu ond mae hynny o ganlyniad i bolisi cenedlaethol yn hytrach nag i Pobl mewn Cymunedau. Serch hynny, mae'n debygol bod dyfodiad Pobl mewn Cymunedau wedi bod yn sbardun i rai o'r awdurdodau lleol oedd yn cymryd rhan yn y fenter i ddod â chynhwysedd cymdeithasol ymlaen ar yr agenda. Efallai y bydd yn cael ei roi ar yr agenda mewn ffordd well hefyd, oherwydd y ddealltwriaeth a ddaeth yn sgil PmC trwy'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol a'r rheolwr llinell.

### **Rhai gwersi**

5.5.4. Mae gan adeiladu gallu nifer o wahanol ddimensiynau. Mae'n cynnwys unigolion, cymunedau, sefydliadau a chyfathrebu. Rhaid i unigolion deimlo eu bod yn rhan o'u cymunedau, rhaid i gymunedau deimlo eu bod yn cael gwrandawriad, rhaid i sefydliadau deimlo bod eu clientiaid yn gweld gwerth yn eu gwasanaethau. Mae'n rhaid cyfathrebu er mwyn datblygu dealltwriaeth rhwng y gwahanol grwpiau.

5.5.5. Y lle y mae Pobl mewn Cymunedau yn gallu bod fwyaf effeithiol yw wrth weithio gydag unigolion er mwyn eu cael i

gymryd rhan mewn gweithgareddau. Ond mae'n rhaid iddo hefyd ddatblygu rhwydweithiau ar gyfer cyfathrebu gyda a chyd-rhwng gweithwyr proffesiynol rheng flaen a phartneriaid er mwyn creu'r cyd-ddealltwriaeth a fydd yn achosi newid yn agweddau pobl. Mae hyn wedi bod yn fwy anodd i Pobl mewn Cymunedau ei gyflawni.

5.5.6. Mae mater diddorol yn codi ynglŷn â chefnogaeth y naill ochr i'r llall. Rhaid cael cefnogaeth y gymuned er mwyn adeiladu gallu Pobl mewn Cymunedau, ond rhaid i'r gymuned gael Pobl mewn Cymunedau i weithio fel catalydd. Rhaid i Pobl mewn Cymunedau gael partneriaid sefydliadol sydd â'r gallu i roi cefnogaeth iddynt ond rhaid i'r sefydliadau gael Pobl mewn Cymunedau i fod yn rhan o'u strwythur sefydliadol. O fewn y partneriaethau rhaid i reolwyr uwch a staff gweithredol lleol gefnogi ei gilydd, fel bod modd cael ystwythder ac fel bod gwersi yn cael eu dysgu a'u trosglwyddo.

5.5.7. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eistedd ar frig hyn i gyd ac mae'n rhaid iddo yntau gael y gallu i ddeall ac i gefnogi'r broses ar bob lefel – ar lefel Pobl mewn Cymunedau ac ar lefel y partneriaid. Y gefnogaeth sydd ei hangen yw ymateb cyson a phrydlon ac adnoddau digonol sydd yn cael eu targedu, trwy gyfrwng y canllawiau, ar amcanion y broses Pobl mewn Cymunedau.

## 6. SUT MAE'R GWASANAETHAU WEDI CAEL EU NEWID?

### 6.1. Cyflwyniad

6.1.1. Gan nad oedd Pobl mewn Cymunedau wedi cael ei anelu yn benodol at newid gwasanaethau, mae unrhyw enghreifftiau lle mae hynny wedi digwydd yn sgil-ffeithiau i'r gwaith mae Pobl mewn Cymunedau wedi ei wneud o ddatblygu prosiectau neu o weithio gydag unigolion a phartneriaid. Yn niffyg unrhyw wybodaeth fonitro, ychydig enghreifftiau sydd wedi dod i'r amlwg. Ond yr ydym yn credu bod hynny yn adlewyrchu yn rhesymol gywir wir ddeilliannau'r broses Pobl mewn Cymunedau hyd yma.

6.1.2. Yr ydym wedi cyfeirio at y newid mewn agweddau mewn awdurdodau lleol ar sail gwell dealltwriaeth o'r ystyriaethau sy'n codi mewn perthynas â darparu gwasanaethau lleol. Yr ydym hefyd wedi cyfeirio at achosion lle mae gwasanaethau wedi cael eu saernio yn well yn ôl anghenion y gymuned neu'r grŵp targed. Ond nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod Pobl mewn Cymunedau wedi achosi unrhyw newid pendant yn y polisi o ddarparu gwasanaethau lleol na thystiolaeth o symud at wneud mwy o benderfyniadau yn lleol. Mae unrhyw symudiad tuag at fframwaith ar sail ardal yn cael ei yrru gan y rhaglenni cenedlaethol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban sy'n troi at bartneriaethau strategol lleol, cyllidebu ar sail ardal ac adnewyddu cymdogaethol.

6.1.3. Bu rhai mân- newidiadau mewn dulliau gwaith ond mae'r budd mwyaf wedi dod o well cyfathrebu a chyfathrebu mwy eang rhwng pobl sy'n weithgar yn yr ardaloedd lleol trwy rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol.

6.1.4. Ond mae pobl, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol yn gweld pethau da yn digwydd:

**"Rwy'n credu bod Pobl mewn Cymunedau yn gwneud gwahaniaeth mawr. Mae'n gwneud defnydd o bobl leol ac mae'n rhoi sgiliau i bobl. Mae pobl yn dechrau plannu blodau. Mae Pobl mewn Cymunedau yn cael pobl i wneud meinciau yn y gweithdy. Mae hynny yn rhan hanfodol o ail-ddatblygu y gymuned. Mae'n rhoi ymdeimlad o berchnogaeth i bobl. Maen nhw [y bobl ifanc yn y gweithdy].yn dweud 'peidiwch â fandaleiddio hwnna – ni wnaeth hwnna!'"**

### 6.2. Enghreifftiau mewn Awdurdodau Lleol

6.2.1. Bu rhai llwyddiannau pwysig ac er nad ydynt yn rhai dramatig ynddynt eu hunain, maent yn bwysig iawn o safbwynt dangos beth yw'r anghenion yn yr ardaloedd PmC. Bu darpariaeth newydd a darpariaeth estynedig mewn gwasanaethau iechyd, gwaith ieuencid a gwasanaethau cymunedol eraill yn llawer o'r ardaloedd, er mai darpariaeth rhan amser oedd rhai ohonynt. A chafwyd gwell diffiniad o'r berthynas rhwng trigolion â gwahanol adrannau'r awdurdod lleol, megis y gwasanaethau tai a gwasanaethau amgylcheddol. Mae partneriaid eraill wedi cyfrannu hefyd, gyda'r Gwasanaeth Cyflogaeth mewn rhai ardaloedd yn fwy parod i gefnogi rhai o'r gweithgareddau gyda chontractau y Fargen Newydd.

6.2.2. Mae rhai pethau yn gweithio'n dda pan geir ymateb cadarnhaol gan bobl sydd â'r gallu i wneud rhywbeth:

**"Effeithiodd llifogydd diweddar yn ddrwg ar y stad (cafodd ei adeiladu ar graig ar fryn a doedd y draeniau ddim yn gallu dygymod). Roedd ymateb gofalwr y stad, a gafodd ei benodi gan Pobl mewn Cymunedau, yn wych a defnyddiwyd y tŷ cymunedol a'r ysgol gynradd fel llety dros dro. O ganlyniad mae toeau oedd yn gollwng yn cael eu hadnewyddu i gyd (a manteisiodd y Cyngor ar y cyfle i ddiddosi'r toeau yr un pryd)."**

6.2.3. Mae rhai swyddogion awdurdod lleol yn gallu bod yn rhwystr. Roedd un PmC wedi cyflwyno prosiect i'r Cynulliad Cenedlaethol a chafodd ei gymeradwyo. Ond doedd y PmC ddim yn gallu cychwyn ar y prosiect am na wnâi Trysorydd y Cyngor ddim cymeradwyo'r gwariant am nad oedd ef ei hun yn hoffi'r prosiect. Aeth y prosiect yn ei flaen o'r diwedd ar ôl i'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol ymyrryd, ond dim ond ar ôl i'r mater gael ei gyfeirio at y Prif Weithredwr.

6.2.4. Mae meini prawf yr awdurdod lleol ar gyfer dewis prosiectau yn gallu bod yn wahanol i feini prawf y gymuned. Methodd un PmC a chael cymeradwyaeth i Dŷ Cymunedol, sef cais oedd yn cael ei arwain gan y gymuned am dŷ ac adeiladau am rent rhad, am bod gan yr awdurdod lleol brosiect arall yr oedd eisiau ei symud ymlaen. Cododd sefyllfa tebyg mewn ardal arall hefyd. Roedd y problemau'n codi oherwydd y cymhelliad tu ôl i'r gwahanol brosiectau – gall yr awdurdod lleol fod eisiau gweld defnydd yn cael ei wneud o adeiladau gweigion tra bod cais y gymuned

yn anelu at sefydlu lle niwtral a di-fygythiad yng nghanol yr ardal.

6.2.5. Mae dwy enghraifft syml o ddiffyg cydgysylltu rhwng adrannau'r cyngor yn codi rhwng y gwasanaethau amgylcheddol â'r adran dai. Mewn un achos roedd cyfle gan riant sengl ifanc i gael newid ei ffenestri. Dywedodd wrth y cyngor bod ei phlant yn chwarae yn yr ardd felly a allent drefnu i'r hen fframiau gael eu cludo i ffwrdd. Fe ddaeth y contractwyr a gosodwyd y ffenestri newydd. Nid eu cyfrifoldeb nhw, meddai'r gweithwyr, oedd mynd â'r hen ffenestri oddi yno. Gadawyd nhw yn yr ardd ac yn ystod y nos cawsant eu malu'n deilchion. Mae teilchion o wydr a fflawiau ar hyd yr ardd yn golygu bod rhaid iddi gadw'r plant dan do yn awr.

6.2.6. Ceir enghraifft arall pan gyflogodd yr adran dai ofalwr lleol i gasglu eitemau mawr oedd wedi cael eu taflu mewn mannau cyhoeddus ar hyd a lled y stad, hen fframiau gwely, cyfarpar tŷ ac yn y blaen. Cafodd ei weld gan yr adran gwasanaethau amgylcheddol yn mynd â'r casgliad i domen sbwriel y cyngor. Dywedwyd wrth yr adran dai na allai wneud hynny am mai unigolyn preifat oedd y gŵr, a byddai'n rhaid i'r adran dai dalu am gael gwared ar y sbwriel.

6.2.7. Weithiau mae awdurdod lleol yn cicio'i hun yn ei ddannedd:

**"Gwariwyd £17,000 ar osod cladin a thwymo heb yn gyntaf fynd i'r afael â phroblem y drysau a'r ffenestri."**

6.2.8. Mae rhai adrannau yn fodlon ystwytho eu canllawiau eu hunain. Mae sawl enghraifft o adran tai yn cytuno i adael tŷ yn wag er mwyn darparu adeilad ar gyfer

tŷ cymunedol. Mewn o leiaf un achos roedd hynny ar yr amod nad oedd unrhyw waith addasu sylweddol yn cael ei wneud, fel y byddai'r bosib ei ddefnyddio fel tŷ eto pe bai angen.

6.2.9. Mae rhai pethau sydd ddim ond yn cael eu dysgu wrth edrych yn ôl. Mewn un ardal Pobl mewn Cymunedau roedd pump awdurdod lleol yn weithgar yn yr ardal yn ogystal â gweithwyr allymestyn o asiantaethau cymunedol eraill. Wedyn aeth Pobl mewn Cymunedau ati i gyflogi rhagor o weithwyr ei hunan. Erbyn hyn maent wedi cytuno i siarad gyda'i gilydd ynglŷn â sut i weithio gyda'i gilydd. Ond mae Pobl mewn Cymunedau yn cydnabod erbyn hyn y dylent fod wedi gwneud hynny cyn mynd ati i benodi.

6.2.10. Ond mae gwrthdaro rhwng gwahanol rolau yn gallu creu rhwystrau. Er enghraifft, dywedodd un swyddog tai:

**"Weithiau mae'n anodd gosod y rôl datblygu cymunedol ochr yn ochr â'r rôl orfodaeth. Mae gennym swyddogion rheolaeth ddwys sydd yno i ddelio gyda phroblemau. Mae datblygu cymunedol yn rhan o'u rôl. Y broblem yma yw'r drwg a'r da. Mae'n anodd cael rôl y landlord ochr yn ochr."**

Ond mae problemau hefyd oherwydd cyfyngu ar ddisgresiwn. Dywedodd gweithiwr proffesiynol lleol:

**"[Rydym ni} wedi cael ein rhwymo'n dynn gan bolisi cyffredinol. Mae peth o'r ymreolaeth leol yn edrych yn ymylol iawn. Mae hyn yn bwysig yng nghydestun menter sy'n cael ei chanfod fel menter yr awdurdod lleol. Mae**

**cyfarfodydd fforwm yn gallu codi pynciau ac yn cael cynnig cynlluniau y gellir eu hariannu o gyllideb fechan."**

### 6.3. Enghreifftiau mewn asiantaethau eraill

6.3.1. Cafwyd cryn dipyn o lwyddiant wrth weithio gydag ysgolion. Un enghraifft a roddwyd gan gydgyssylltydd oedd:

**"Y mwyaf o'n llwyddiannau oedd newid yr hyn mae ysgolion yn ei wneud. Yn awr mae gennym y model o ysgolion cymuned wedi eu hintegreiddio. Rydym ni wedi creu ffordd newydd o allu darparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau. Rydym wedi creu tîm aml ddisgyblaethol yn yr ysgol. Mae'r cyllid i gyd yn dod o un pot, ac un person sy'n cydgysylltu'r tîm er bob pawb yn dal i weithio o'u hasiantaethau proffesiynol eu hunain. Gallai hyn symbylu newid. Mae'r gwasanaethau wedi cael eu hintegreiddio ar sail prosiectau ac mae hyn yn integreiddio prif ffrwd. Mae'r cyllid wedi dod oddi wrth Pobl mewn Cymunedau, Barnados, a'r Awdurdod Addysg Lleol. Mewn gwrthgyferbyniad roedd y ganolfan deuluol yn gynllun hen deip pur o'r sector gwirfoddol oedd yn cael ei ddarparu ar ran o'r stad – yn hunan gynhwysol iawn ac yn cael ei staffio gan staff yr elusen yn unig. Doedd o ddim wedi cael ei integreiddio i'r brif ffrwd."**

6.3.2. Mae canfyddiad ar draws Pobl mewn Cymunedau bod y byrddau iechyd wedi bod yn weithgar iawn a bod y Gwasanaeth Cyflogaeth hefyd wedi bod yn weithgar. Ond mae llawer un yn sgeptig ynglŷn â pam y maent yn cymryd rhan.

Dyma oedd gan un o'r trigolion i'w ddweud:

**"Mae'r asiantaethau yn clywed arogl arian ac mae'n nhw i gyd yn dod allan o'u tyllau. Maen nhw'n poeni mwy am yr arian sy'n dod i'w sefydliad nhw yn nag am yr hyn sydd orau i'r gymuned"**

6.3.3. Mae gan rai sefydliadau flaenoriaethau gwahanol. Er enghraifft, roedd un gymuned eisiau mesurau i leddfu traffig yn yr ardal am bod pobl yn gyrru'r gyflym iawn o amgylch y stad, ac yn arbennig ar strydoedd lle roedd plant yn gorfod croesi. Cytunodd y cyngor i roi ponciau arafu yno. Wedyn dywedodd y cwmni bysiau na fyddent yn dod ar y stad o hyn ymlaen am y byddai'r ponciau yn gwneud niwed i'w bysiau.

6.3.4. Mae gan wahanol sefydliadau ddehongliad gwahanol o lwyddiant. Helpodd y Gwasanaeth Cyflogaeth i drefnu ffair gyflogaeth mewn un ardal PmC. Roeddynt o'r farn mai aflwyddiannus fu hynny am mai 100 yn unig o bobl ddaeth yno. Ar y llaw arall roedd y gymuned yn ei hystyried yn llwyddiannus am bod cynifer wedi troi i fyny. Mae hyn yn awgrymu bod angen cydberthynas barhaus er mwyn newid canfyddiadau a dyheadau.

6.3.5. Mae un achos yn tanlinellu'r canlyniadau anffodus a all godi o ddiffyg hyblygrwydd a methu ymaddasu:

**"Roedden ni'n rhedeg prosiect hyfforddi ieuenctid/'gateway' llwyddiannus iawn ar gyfer pobl ifanc 16 – 18 oed. Roedden ni wedi gwneud rhestr o'r holl blant oedd yn rhoi'r gorau i'r ysgol heb unlle i fynd am na allent gael budd-daliadau.**

**Aethom o gwmpas yn gorfforol i guro drysau. Byddai'r bobl oedd yn cymryd rhan yn cael £45 yr wythnos. Roedd y TEC yn cyllido'r rhaglen, roedd 20 o bobl ifanc ar y rhaglen ac roedden nhw gyda ni am 4,5 neu 6 mis. Pan ddaeth y TECiau i ben a'r cyllid yn mynd i'r Cwmni Gyrfaoedd cawsom y neges bod rhaid i ni gael gwared â nhw. Am ei fod yn gynllun 'gateway' cawsant aros am 8 wythnos. Tynnwyd yr arian yn ôl. Fis Gorffennaf diwethaf roedd rhaid i ni daflu'r holl bobl ifanc hyn yn ôl i'r môr ar ôl gweithio gyda nhw am flwyddyn"**

6.3.6. Weithiau mae'n anodd cychwyn gwasanaeth newydd mewn ardal. Mewn un PmC cafodd gweithwyr ieuenctid amser caled yn cysylltu gyda pobl ifanc ac yn cael unrhyw beth ar droed.

## 6.4. Enghreifftiau o weithio ar y cyd

6.4.1. Mae dadl a gyflwynwyd gan y sector gwirfoddol ynglŷn â gweithio ar y cyd yn dangos y fath sinigiaeth sydd allan yno:

**"Mae'r nam strwythurol o roi'r cyllid yn nwylo'r awdurdod lleol yn llurgunio cytbwysedd grym yn llwyr. Mae'n benderfyniad gwleidyddol i gadw'r awdurdodau lleol yn hapus. Nhw wedyn yw'r chwaraewr pwysicaf. Nhw yw'r unig chwaraewr sy'n gallu cynnig adnoddau gweinyddol ar gyfer manion ac yn y blaen. Nid oes hanes da rhwng yr awdurdod lleol â'r gymuned. Nid yw hynny'n helpu. Pan mae ystyriaethau mwy lleol yn cael eu codi maent yn tueddu i gael eu 'sgubo o dan y carped'. Mae'r darlun mawr yn mynd braidd yn wag-obeithiol. Mae'r client druan yn**

**colli calon, yn colli grym ac yn cael ei siomi. Mae angen comisiynu aml-asiantaethol"**

**"Nid yw'r gynhaliaeth ar gael i ddod â phobl leol i mewn i'r broses. I ryw raddau mae'n ffug. Mae arweinwyr cymunedol yn lled broffesiynol. Doedd y bobl o'r cymdeithasau trigolion ddim yn meddwl bod y drafodaeth yn driw iddyn nhw. Nid yw pobl yn dueddol o herio, maen nhw'n tueddu i gerdded allan oddi yno. Angen meddwl am ofal plant, gofal, trafndiaeth, amser i ffwrdd o'r gwaith"**

6.4.2. Mae'r prif enghreifftiau o weithio ar y cyd yn digwydd lle mae gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn cael eu lleoli gyda'i gilydd yn yr un lle, yn y Tŷ Cymunedol dyweder, neu'r ysgol leol neu'r ganolfan gymunedol. Yn ogystal â chael y fantais o fod yn 'siop bob dim' maent hefyd yn datblygu'r arfer o gyfeirio achosion ymlaen ac o rannu gwybodaeth, ac felly maent yn datblygu golwg mwy cynhwysfawr ar broblemau unigol a theuluol.

6.4.3. Mae dau o'r PmC wedi gwneud cais llwyddiannus gyda phartneriaid eraill am Arian Ewropeaidd.

6.4.4. Efallai bod mwy o sylwadau negyddol ynglŷn â gweithio ar y cyd nag

am y newidiadau o fewn sefydliadau ond mae sylwadau cadarnhaol hefyd. Er enghraifft dywedodd un cydgysylltydd am ei brofiad blaenorol o adfywiad:

**"Roedd hi'n edrych fel ein bod ni wedi taro nenfwd gwydr. Dim gwahaniaeth pa waith gwyd oedden ni'n ei wneud wrth edrych o'r gwaelod i fyny, allen ni ddim mynd ddim pellach heb i'r prif asiantaethau newid y ffordd yr oedden ni'n gweithio"**

Yn awr maent yn dweud:

**"Mae Pobl mewn Cymunedau wedi annog mwy o waith rhyng-asiantaethol mewn ardal lle mae pobl, os caf ei ddweud mewn ffordd ofalus, yn daer iawn dros eu sefydliadau eu hun, weithiau ar draul rhai eraill. Mae PmC wedi helpu i chwalu tipyn ar hynny. Mae grwpiau tenantiaid yn awr yn fwy parod i dderbyn y syniad o weithio rhwng asiantaethau.**

**[Enghraifft fechan] Adeg y Nadolig roedd gennym ni arian dros ben o grantiau bach y mileniwm a gafwyd i gynnal diwrnod o ddrama. Roedd tipyn o arian ar ôl felly fe wnaethom ni weithio gyda'r gymdeithas tenantiaid i drefnu gorymdaith Nadolig i'r gymuned. Fyddai'r math yma o beth ddim wedi digwydd heb Pobl mewn Cymunedau."**





## 7. TREFNIADAU DILYNIANT

### 7.1. Cyflwyniad

7.1.1. Y trefniadau dilyniant yw'r trefniadau y bydd rhaid i'r fenter eu gwneud cyn iddi ddod i ben, er mwyn sicrhau parhad beth bynnag sydd wedi cael ei roi ar waith ag sydd angen ei barhau at y dyfodol. Gyda phrosiectau cyfalaf mae hynny yn golygu gwneud yn siŵr bod darpariaeth wedi ei wneud ar gyfer trwsio a chynnal a chadw, yn ogystal â threuliau gweithredu os yw hynny'n briodol. Gyda phrosiectau refeniw mae'n golygu gwneud yn siŵr ei bod yn bosib cael arian ar gyfer y fenter o ffynonellau eraill. Gyda phartneriaeth mae'n golygu meddwl beth fydd seiliau rhesymegol a phwrrpas y bartneriaeth pan fydd y fenter ei hun yn peidio â bod yn rheswm am ei bodolaeth.

### 7.2. Oedd yna drefniadau dilyniant yn y bidiau?

7.2.1. Nid oedd y Canllawiau (Cylchlythyr 24/98) yn cyfeirio yn benodol at drefniadau dilyniant. Ond y syniad tu ôl i Pobl mewn Cymunedau oedd y byddid yn sefydlu byrddau partneriaeth a fyddai dros gyfnod yn datblygu Cynllun Gweithredu 3 – 5 mlynedd a fyddai'n cael ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol. Byddai'r cynllun gweithredu yn sail i symud ymlaen. Gorau oll pe bai'r cynllun yn cael ei weithredu gan y bwrdd partneriaeth ond os nad ganddo ef yna gan yr awdurdod lleol.

### 7.3. Beth fydd yn digwydd?

7.3.1. Roedd PmC yn disgwyl cael rhyw gyfran gyfyngedig o arian Pobl mewn Cymunedau hyd at Ionawr 2001. Yr oedd

hefyd yn disgwyl cadw rhyw flaenoriaeth i gael cyllid arall gan Cynulliad Cenedlaethol, yn gyson â'r Cynlluniau Gweithredu. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cadarnhau estyniad i gontract y cydgysylltydd er bod un cydgysylltydd wedi holi a oedd angen gwneud hynny gan bod y Cynllun Gweithredu wedi cael ei gytuno.

7.3.2. Yn dilyn y cyhoeddiad bod Pobl mewn Cymunedau i gael ei barhau o dan Cymunedau'n Gyntaf, mae holl swyddi'r cydgysylltwyr wedi cael eu cadw ac mae'r partneriaethau yn disgwyl y bydd unrhyw Gynllun Gweithredu sydd ganddynt yn cael ei roi ar waith.

7.3.3. Pe digwyddai Cymunedau'n Gyntaf newid pwyslais y fenter oddi wrth ddeilliannau tuag at newid proses, byddai peth pryder ynglŷn â sut y byddid yn bwrw ymlaen gyda'r Cynlluniau Gweithredu. Ynteu a ddylid newid gogwydd y Cynlluniau Gweithredu a gweithio o fewn fframwaith Cymunedau'n Gyntaf. Bydd rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ateb hynny wrth gyhoeddi Cymunedau'n Gyntaf.

7.3.4. Yn y cyfnod yma, gyda Pobl mewn Cymunedau ddim ond yn ddiweddar wedi sefydlu bwrdd partneriaeth ffurfiol, bregus yw'r cynlluniau ar gyfer dilyniant. Mae pobl yn aros i weld beth fydd yn digwydd gyda Cymunedau'n Gyntaf ac nid ydynt yn meddwl yn llawer pellach na'r cyhoeddiad am ymestyniad. Ond mae dau o'r PmC wrthi yn sefydlu ymddiriedolaeth datblygu cymunedol fel cyfrwng i ddatblygu ymateb cydgysylltiedig ac i wneud bid am gymorth ariannol i gefnogi eu hamcanion eu hunain.



## 8. CRYFDERAU A GWENDIDAU Y FFRAMWAITH GWERTHUSO

### 8.1. Ymgorffori dysgu yn y ffordd y mae'r rhaglen yn cael ei rheoli

8.1.1. Dyma'r elfen allweddol sydd ar goll o'r fframwaith. Mae diffyg cofnodi gwybodaeth am yr hyn y mae cydgysylltwyr yn ei wneud ac am yr ymateb y maent yn ei gael gan eu Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol, gan awdurdodau lleol, gan bartneriaid a gan y gymuned yn golygu bod yr holl wybodaeth am y rhaglen yn cael ei chadw gan un person, sef y cydgysylltydd ei hun. Gan bod y cydgysylltwyr yn ymwneud yn uniongyrchol â'r mater nid oes disgwyl iddo fedru sefyll yn ddigon pell oddi wrth y mater fel ei fod yn gallu barnu'r broses. Mae yn rhy ymroddedig ac yn ormod rhan o'r broses i allu gwneud hynny.

8.1.2. Nid yw'r diffyg hwn yn codi o ddiffyg ymdrech. Roedd y Canllawiau yn mynnu trefniadau monitro lleol fel rhan o'r bid. Roeddynt yn dweud sut y byddai awdurdodau lleol yn adrodd a sut y byddai cydgysylltwyr yn adrodd. Roedd proses ymgynghorol yn bodoli ac roedd teimlad yn y Cynulliad Cenedlaethol bod yna ymdeimlad cryf o berchnogaeth. Fel y digwyddodd pethau, ychydig iawn o'r argymhellion hyn gafodd eu gweithredu. Cyn belled ag y gwyddom, yr unig gofnodion sydd ar gael yw cofnodion cyllidol prosiectau a gweithgareddau.

8.1.3. Cafodd y fframwaith werthuso ei dylunio er mwyn rhoi ciplun o'r sefyllfa ar eiliad benodol. Nid oedd yn gyfrwng i gloriannu'r fenter yn barhaus. Nid yw adroddiadau'r cydgysylltwyr na'r Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol chwaith yn gallu gwneud yn lle monitro parhaus. Adrodd ynglŷn â sefyllfa sydd wedi mynd heibio y maent ac maent felly yn rhy hwyr i gael eu defnyddio er mwyn gweithredu i reoli'r rhaglen, i ailgyfeirio blaenoriaethau neu i fynd i'r afael ag unrhyw ffactorau sy'n rhwystro gweithredu yn llwyddiannus. Y

gred oedd y byddai'r adroddiadau sy'n rhoi ciplun o'r sefyllfa yn ddigonol ar gyfer cynllunio at y dyfodol. Ond mae bron yn amhosib dysgu o'r fframwaith yma, y gwersi proses ynglŷn â'r rhwystrau i newid a'r ffordd y cafodd y rhwystrau hynny eu chwalu a'u goresgyn.

8.1.4. Rhaglen beilot oedd hon, a'i bwriad oedd rhoi prawf ar ddulliau newydd o ddarparu gwasanaethau mewn cymunedau, gyda'r cymunedau eu hunain yn cymryd rhan. Er mwyn dysgu oddi wrth y rhaglen, mae'n rhaid cofnodi y dulliau a ddefnyddiwyd a pha newid a ddisgwyldid, pa rwystrau a wynebwyd a sut y cawsant eu datrys, ac a oedd y ffordd y cawsant eu datrys yn ffordd y gellid ei defnyddio mewn llefydd eraill.

8.1.5. Ond mae'n gwbl hanfodol bod y syniad o fonitro a gwerthuso yn cael ei derbyn gan bob plaid, awdurdod lleol, asiantaeth a phartner, gan y gymuned a'r Cynulliad Cenedlaethol. Yr oedd proses o ymgynghori pan ddechreuodd y fenter ond ni chafodd dim ei wneud am 14 mis i fynd ar drywydd y mater nac i gynllunio sut i wneud hynny. Rhaid i'r arweiniad ddangos pwrpas y monitorio a'r gwerthusiad, a pham mae'n werthfawr i bob grŵp. Dylai gael ei ddatblygu ar y cyd gyda'r rhai sydd yn rhan o'r broses er mwyn iddynt deimlo perchnogaeth ohono. Bydd angen arweiniad ysgrifenedig a chysylltiad rheolaidd o'r dechrau rhwng 'PiC's' a'r Cynulliad Cenedlaethol.

8.1.6. Rhaid i bobl gael eu hargyhoeddi bod hynny o werth i'r Cynulliad Cenedlaethol. Fel y dywedodd un o'r trigolion mewn grŵp ffocws:

**"Fe allwn ni ddweud wrthyn nhw – ond a wnân nhw wrando"**

8.1.7. Yr oedd y fframwaith werthuso gafodd ei sefydlu yn dilyn y patrwm

traddodiadol o archwilio cyfraniad Pobl mewn Cymunedau ar ôl iddo ddigwydd, ac nid ydym yn anghytuno â'r drefn honno. Ond yr ydym wedi dysgu o fentrau eraill bod rhaid, mewn mentrau sy'n anelu at newid proses, gwneud yn siŵr mai ymchwil gweithredol fydd sail y gwerthuso. Mae'n rhaid deall pa wersi sydd tu ôl i'r newidiadau, ac mae hynny'n beth anodd iawn ei wneud wrth edrych yn ôl. Felly ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng monitro a gwerthuso'r mentrau hyn, ac eithrio bod gwerthuso ar ôl y ffaith (ex-post) yn dal i fod yn angenrheidiol er mwyn asesu sut y mae'r mentrau wedi effeithio ar y deilliannau yn yr ardal.

8.1.8. Ni sefydlwyd gwaelodlin (baseline) ar gyfer ardaloedd Pobl mewn Cymunedau. Y consensws ar ddechrau'r fenter oedd bod hynny ddim yn bosib oherwydd bod yr wyth PmC wedi cychwyn o le gwahanol ac wedi cyrraedd gwahanol lefelau o ddatblygiad. Efallai bod hynny yn rheswm dros beidio â chael gwaelodlin ar gyfer y fenter yn ei chyfanrwydd, lle roedd modd cymharu dangosyddion ar draws yr holl ardaloedd, ond nid yw hynny yn golygu nad oes angen gwaelodlin ym mhob ardal unigol, yn arbennig os yw'r pwyslais ar brosesau ac ar achosi newid.

8.1.9. Gyda hynny mewn golwg, y prif wersi y mae'r astudiaeth wedi eu dangos inni am y fframwaith werthuso yw:

- Σ bod y fframwaith wedi ei gosod er mwyn rhoi ciplun inni ac nid er mwyn dysgu estynedig – digwyddiad unwaith ac am byth yn hytrach na phroses barhaus;
- Σ does dim gwaelodlin ar gyfer pob ardal er mwyn cael rhywbeth i fesur unrhyw newid yn ei erbyn; yn arbennig o safbwynt y strwythurau sy'n bodoli yno a'r prosesau o ddarparu gwasanaethau,
- Σ rhaid dibynnu ar ystadegau er mwyn mesur newid ac ni wnaed ymdrech i

gofnodi newid proses ac eithrio wrth edrych yn ôl;

- Σ does dim monitro parhaus i gofnodi'r hyn sydd wedi cael ei wneud, ac eithrio adroddiadau'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol a'r cydgysylltydd;
- Σ pa bynnag ddyluniad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y fframwaith, rhaid iddo fod wedi cael ei drafod gyda'r ardaloedd PmC er mwyn canfod unrhyw broblemau a allai ddigwydd wrth ei weithredu ac ymgorffori'r wersi hynny yn y dyluniad ac yn y dull o ddarparu;
- Σ mae angen cynllunio amseriad a chyfnod gweithredu y gwahanol elfennau sydd yn y fframwaith oherwydd bod rhai o'r elfennau yn effeithio ar rai eraill, hefyd mae'n cymryd amser i sefydlu rhai elfennau yn effeithiol.

## 8.2. Y cysyniad

8.2.1. Lluniwyd y fframwaith werthuso gan y Cynulliad Cenedlaethol yn gynnar yn y flwyddyn 2000 fel strategaeth gyffredinol o werthuso y fenter Pobl mewn Cymunedau. Cafodd ei dylunio gyda chymorth Prifysgol Morgannwg a chylchlythyryd y strategaeth ym Mehefin 2000 – yn fewnol yn y Cynulliad Cenedlaethol – er mwyn derbyn cymeradwyaeth erbyn haf 200. Y Cynulliad Cenedlaethol oedd i gymryd y cyfrifoldeb am weithredu'r strategaeth ac yr oedd i gomisiynu rhannau o'r fframwaith werthuso er mwyn helpu i gwblhau y gwerthusiad cyffredinol.

8.2.2. Roedd y gwerthuso fel sy'n dilyn - mae'r cromfachau yn dangos pwy oedd i fod yn gyfrifol am bob cydran:

- Σ Grwpiau ffocws (y cydgysylltydd i drefnu a'r contractwr i fod yn bresennol ac i ddadansoddi'r deilliannau);

- Σ Panel Cymunedol (y contractwr i ddylunio'r holiadur ac i ddadansoddi'r holiaduron a'r cydgysylltydd i ddewis aelodau'r panel, dosbarthu'r holiaduron a'u casglu wedyn);
- Σ Panel Proffesiynol (y contractwr i gynnull panel o bump gweithiwr proffesiynol allweddol yn gweithio yn y gymuned, ac i gynnal y cyfweiliadau)
- Σ Stori'r Gymuned (y Bwrdd Partneriaeth i ddatblygu Stori'r Gymuned a'r contractwr i'w gwerthuso)
- Σ Dangosyddion Eithrio Cymdeithasol (yr awdurdod lleol i gasglu a choladu y dangosyddion sy'n cael eu nodi yn y fframwaith werthuso a'r contractwr i ategu hynny gyda dangosyddion eraill ac i amlinellu natur a maint yr anfantais y mae unigolion ac aelwydydd yn ei ddioddef ym mhob cymuned)
- Σ Gwerthuso newid sefydliadol a newid polisi (y contractwr i adrodd sut mae'r dull strategol yma o weithredu – modelau newydd o ddarparu, mwy o gyfraniad gan y cyhoedd yn y dyluniad a'r darparu, yr awdurdodau lleol a'u cymunedau yn cymryd rhan o ddifrif- yn cael ei roi ar waith ym mhob ardal leol ac o fewn y Cynulliad yn ganolog)
- Σ Adroddiad y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol (Y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol i'w ysgrifennu – y contractwr ddim i gymryd rhan)
- Σ Adroddiad y cydgysylltydd (Y cydgysylltydd i'w ysgrifennu – y contractwr ddim i gymryd rhan)

8.2.3. Effaith ffragmenteiddio'r gwaith gwerthuso yn y ffordd yma, a dibynnu ar gyfraniadau o'r tu allan, oedd llacio'r angen i'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun fod yn gweithio'n agos yn y broses. I raddau helaeth roedd hynny oherwydd bod

adnoddau tîm cefnogol y Cynulliad Cenedlaethol yn annigonol. Ond problem arall oedd bod hynny yn ymddangos i bobl eraill, gan gynnwys cydgysylltwyr a phartneriaid, fel diffyg diddordeb ar ran y Cynulliad.

8.2.4. Er bod Cylchlythyr 24/98 wedi dweud y dylai awdurdodau lleol osod trefniadau monitro yn eu lle ar gyfer y fenter, doedd dim fframwaith gyffredinol i fonitro ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac eithrio adroddiadau blynyddol ac adroddiadau llafar am gynydd yng nghyfarfodydd y cydgysylltwyr bob dau fis. Does neb wedi edrych pa drefniadau monitro lleol sydd wedi cael eu sefydlu na pa waith gwerthuso sydd wedi cael ei wneud yn lleol. Yr argraff sy'n cael ei roi, mewn rhai ardaloedd o leiaf, yw bod y gweithgarwch lleol yn dystiolaeth ddigonol bod y fframwaith cenedlaethol yn cael ei weithredu.

### 8.3. Ystyriaethau i'r contractwr ynglŷn â gweithredu

8.3.1. Roedd y fanyleb ynglŷn â mewnbwn y contractwr yn cael ei diffinio yn gaeth. Mae'r cyfrifoldebau wedi cael eu nodi uchod. Teitl y briff oedd 'Gwerthusiad Interim o'r Rhaglen Pobl mewn Cymunedau'. Roedd hynny yn ei gwneud yn glir nad oedd hyn ddim ond rhan o fframwaith ehangach. Ar wahân i'r cyfweiliadau gyda'r Panel Proffesiynol, ac i raddau llai y casgliad o ddangosyddion cymdeithasol, doedd gan y contractwr ddim rheolaeth dros yr hyn oedd i fod i gael ei gynnwys yn y gwahanol gydrannau na dros yr amser pan oedd y rhain i ddigwydd.

8.3.2. Doedd gan y Cynulliad Cenedlaethol ddim o'r adnoddau i reoli'r strategaeth werthuso. Felly doedd gan neb gyfrifoldeb cyffredinol am reoli ansawdd y fenter yn ei chyfanrwydd. Gyda'r cydrannau lle roedd

gan y contractwr ryw gyfrifoldeb am werthuso fe wnaethom ni geisio rheoli'r broses, ond roeddem yn dibynnu ar ewyllys da y cydgysylltwyr a'r rhai oedd yn darparu data. Cafwyd cyfarfod lle trafodwyd y fframwaith ac nid oedd nemor ddim pryder yn amlwg nac yn cael ei leisio bryd hynny.

8.3.3. Datblygwyd y strategaeth werthuso, a gytunwyd yn derfynol ym Mehefin 2000, ar y cyd gyda'r Cynulliad Cenedlaethol gan ddilyn y broses ganlynol:

- Σ Cyfarfod cyntaf gyda'r holl gydgysylltwyr. Trafodaethau yn troi o amgylch nifer o wahanol strategaethau posib;
- Σ Cyfarfodydd gyda staff perthnasol yr awdurdodau lleol, lle trafodwyd gallu mewn nifer o wahanol feysydd gan gynnwys rheolaeth a darparu data;
- Σ Cyfarfod ailadroddol gyda chydgyssylltwyr ac aelodau o'r gymuned er mwyn datblygu a mireinio argymhellion;
- Σ Cyhoeddi dogfen drafod yn amlinellu amrediad o argymhellion ynghyd â'r opsiwn oedd yn cael ei ffafrio. Dosbarthwyd i'r holl gydgysylltwyr, Cefnogwyr, staff awdurdodau lleol perthnasol ac aelodau'r Panel Ymgynghorol, gyda chwech wythnos i ymateb. Allan o'r ymateb fe ddatblygwyd y strategaeth derfynol.

8.3.4. Serch hynny, bu oedi o 14 mis cyn gweithredu'r strategaeth, ac erbyn ein hymweliad cyntaf roedd y cydgysylltwyr wedi anghofio pob dim am y peth. Erbyn hynny roedd rhai yn meddwl na fyddai'r gwerthuso byth yn digwydd a doedd dim byd wedi cael ei baratoi yn barod i ni gael dechrau ar ein gwaith. Doedd neb yn cofio chwaith bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi addo talu'r costau oedd yn gysylltiedig â

sefydlu grwpiau ffocws, megis costau adeilad, lluniaeth a rhywfaint o gostau teithio. Hefyd byddai costau yn codi o Stori'r Gymuned os oedd y bwrdd yn teimlo mai deunyddiau graffig a fideos fyddai'r fformat mwyaf priodol.

8.3.5. Yn gyffredinol, doedd dim llawer o neb wedi deall y gwahanol gyfrifoldebau yr oedd y fframwaith yn eu hamlygu. Roedd hynny yn tanseilio'r prosiect pan ddaeth. o'r diwedd, yn weithredol. Yr oedd hefyd yn wir mai annigonol oedd y gefnogaeth a gafwyd mewn materion oedd ddim yn ariannol - hyfforddiant, canllawiau manwl ac yn y blaen. Neilltuwyd diwrnod o hyfforddiant grŵp ffocws ond byddai hyfforddiant ar faterion megis samplo ar gyfer yr Arolwg o'r Gymuned ac ar gyfer Datblygu Storiâu'r Gymuned wedi bod yn help i gael y broses ar waith ynghynt nag y gwnaethpwyd.

8.3.6. Wedyn roedd rhaid i gydgysylltwyr wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am gymeradwyaeth i gostau gweithredu eu rhan nhw o'r gwerthusiad yn yr ardal. Mewn un ardal gwrthodwyd yr hawl iddynt fynd i gostau cyn i'r Cynulliad Cenedlaethol eu cymeradwyo, Achosodd hynny oedi sylweddol, yn arbennig o safbwynt amseriad y grwpiau ffocws, a gwnaeth bethau yn fwy anodd eu gosod o fewn yr amserlen interim ar gyfer gwerthuso.

8.3.7. Yn y diwrnod briffio ar gyfer grwpiau ffocws cytunwyd ar rai o baramedrau y ffocws. Roedd y fframwaith yn mynnu 5 grŵp ac yn awgrymu y dylent fod yn 5 – 10 o ran nifer, gyda grwpiau ar gyfer genethod ifanc, bechgyn ifanc, yr henoed, rhieni, a grŵp cymunedol (er enghraifft y di-waith). Lluniwyd rhestr o benawdau gennym ni ar gyfer pob grŵp a daeth y cydgysylltydd o hyd i gadeirydd yr oedd y grŵp yn ei adnabod a pherson i ysgrifennu beth yr oedd y grŵp yn ei drafod. Cytunwyd y byddem ninnau i helpu

i hwyluso'r grwpiau. Cafodd y grwpiau yng Ngwynedd eu hwyluso yn Gymraeg gan ein cydweithiwr Arwel Jones.

8.3.8. Mae'r grwpiau ffocws wedi bod yn ffynhonnell ardderchog o sylwadau ynglŷn â'r ardal, y pynciau allweddol sy'n effeithio ar wahanol unigolion a grwpiau, canfyddiadau ynglŷn â sut brofiad yw byw yn yr ardal a'r hyn yr oeddynt yn ei gredu y gellid ei wneud.

8.3.9. Roedd yr Holiadur Cymunedol yn un arall o gydrannau'r fframwaith i ddioddef oherwydd oedi. Drafftiwyd holiadur cyn y Nadolig ac roedd angen mewnbwn lleol oddi wrth y cydgysylltwyr yn nodi enwau y byddai pobl yn eu hadnabod yn lleol, y prosiectau allweddol yn yr ardal a'r prif ysgolion. Y bwriad oedd y byddai pob panel yn cynnwys rhwng 30 a 50 o aelodau wedi eu dewis yn y ffordd fwyaf priodol ym marn y cydgysylltydd. Mae rhai wedi canolbwyntio ar aelodau eu bwrdd, eraill wedi mynd am sampl ar hap o'r rhestr etholiadol. Felly mae cymysgedd o wahanol ymatebwyr o un ardal i'r llall. Mae'r oedi gyda'r broses yma wedi golygu mai ychydig iawn o holiaduron ddaeth yn ôl mewn pryd i gael eu dadansoddi a'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Gwelwyd na fyddai'r amseru yn caniatáu i hyn gael ei ddefnyddio fel gwaelodlin ar gyfer Pobl mewn Cymunedau. Ond fe all fod yn waelodlin i'r Cynllun Gweithredu ac, yn wir, dyna'r bwriad.

8.3.10. Y Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi darparu rhai o'r dangosyddion cynhwysedd cymdeithasol sydd yn y fframwaith. Mae rhai eraill wedi cael eu casglu oddi wrth awdurdodau lleol phartneriaid eraill – cafodd y contractwr y gwaith o gysylltu gyda phob adran yn yr wyth awdurdod lleol er mwyn eu cael i ddarparu data. Mae bylchau yn dal i fod yn y data, sy'n cael ei gynnwys yn yr atodiad.

8.3.11. Efallai mai'r diffyg pennaf yn y fframwaith yr oeddem yn gweithio o'i fewn oedd diffyg fframwaith ar gyfer monitro rheolaidd. Ar ben hynny mae rhannau o'r fframwaith sydd tu allan i'n cylch gorchwyl. Nodir isod pa mor bell y mae'r rhannau hynny wedi cael eu datblygu hyd yma:

- Σ Does yna yr un Stori'r Gymuned wedi dod i law hyd yma, ond mae sawl un ar y gweill;
- Σ Mae dwy ardal lle nad ydym wedi derbyn adroddiadau'r cydgysylltwyr ac mae adroddiadau'r Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol ar goll mewn tair ardal. Mae'r tri wrthi'n cael eu paratoi;

8.3.12. Yr ydym wedi canfod bod adroddiadau'r cydgysylltwyr a'r Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol yn adlewyrchu'r pynciau a drafodwyd yn ein cyfarfodydd ddiwedd y flwyddyn diwethaf ac maent yn diweddarau'r sefyllfa. Mae hyn yn awgrymu mai ychydig iawn o resymegu ar ôl y ffaith (ex post) sydd yn digwydd. Yn yr adroddiadau mae'r Cefnogwyr yn gallu bod yn fwy adfyfyriol ynglŷn â'r holl broses nag oedd yn bosib yn ein cyfarfodydd. Mae'r adroddiadau yn ychwanegu rhywbeth at y broses ond ni allant wneud yn lle'r cyfarfodydd. Mae'n drueni nad yw Storiâu'r Gymuned ar gael gan bod sôn y byddant yn amrywio cryn dipyn ac y byddant yn dweud cymaint am y bartneriaeth leol ag am y fenter ei hun.

8.3.13. Ar nodyn cadarnhaol, roedd y Panel Proffesiynol yn llwyddiant mawr. Roedd yr aelodau yn weithwyr proffesiynol rheng flaen yn yr ardal – er enghraifft ymwelwyr iechyd, rheolwyr tai cymunedol, swyddogion tai lleol, prifathrawon, swyddogion heddlu cymunedol, gweithwyr ieuencid, swyddogion lles addysg, rheolwyr yn y sector gwirfoddol ac yn y blaen. Rhoddodd hyn drosolwg ar faint o

gydlynïad a chydweithio sy'n digwydd rhwng asiantaethau ar lawr daear, a gwybodaeth ardderchog am broblemau sydd yn yr ardal o'u perspectif nhw ac ar sail eu profiad o'r pethau oedd wedi gweithio a'r pethau oedd ddim. Ond yr oedd yn siomedig canfod bod lleiafrif arwyddocaol o'r aelodau heb gael llawer o gysylltiad gyda'r cydgysylltydd. Roedd hynny yn golygu mai cyfyng oedd eu gwybodaeth am Pobl mewn Cymunedau. Roedd hynny yn adlewyrchiad o lefelau isel y rhwydweithio a'r cydgysylltiad rhwng gwahanol weithwyr proffesiynol oedd yn gweithio yn yr un ardal.

#### **8.4. Gwaith y cydgysylltwyr**

8.4.1. Oherwydd y ffordd y cafodd y fframwaith werthuso ei gosod, gan y Cynulliad Cenedlaethol, fel haen arall ar ben y broses PmC, nid oedd gan y cydgysylltwr wrthwynebiad i ddechrau. Nid oeddynt chwaith yn cymryd y peth llawer o ddifrif fel rhan o'u swydd. Roedd llawer ohonynt o'r farn na fyddai llawer o ddim yn dod o'r mater gan bod eisoes ofyn arnynt i gynhyrchu adroddiad blynyddol. Y tro cyntaf iddynt ddechrau gwrthwynebu'r fframwaith a'r ffordd o weithredu, oherwydd anawsterau ymarferol yn ogystal â phethau a ystyrient yn wendidau, oedd yn ein cyfarfodydd cyntaf gyda nhw yn eu hardaloedd pan aethom yno i ddechrau gweithredu'r fframwaith werthuso. Gan nad oedd canllawiau cyffredinol i ddwyn y cydgysylltwyr i mewn i'r broses prin oedd

eu hamgyffrediad nhw o bwrpas y fframwaith arbennig honno. Roedd rhai ohonynt wedi cyfrannu at werthuso cynlluniau adfywio eraill ond roedd y cynlluniau hynny fel arfer yn tueddu i ganolbwyntio'n drwm ar brosiectau.

8.4.2. Yn y diwedd bu pob un ohonynt yn help mawr ac mae'n hawdd deall yr oedi a fu, gan nad oedd y cydgysylltwr yn gweld unrhyw reswm dros roi blaenoriaeth i hyn ar draul eu gweithgareddau eraill, megis y Cynllun Gweithredu.

#### **8.5. Canfyddiadau yn yr ardaloedd lleol**

8.5.1. Prin bod unrhyw ymwybyddiaeth yn yr ardaloedd lleol bod y gwerthuso yn digwydd. Y cyntaf yr oedd y rhai a dynnwyd i mewn i'r broses yn ei wybod oedd pan ofynnodd y cydgysylltydd i gynullwyr a darpar aelodau y grwpiau cyswllt gymryd rhan. Neu pan ddaeth y cydgysylltydd i gysylltiad â'r gweithwyr proffesiynol rheng flaen i hwyluso'r ffordd i ni siarad gyda nhw.

8.5.2. Roedd pawb yn ddigon balch o gael y cyfle i siarad gyda ni am eu hardal a'r pynciau trafod yno. Aeth rhai cyn belled â dweud eu bod wedi mwynhau'r grwpiau ffocws. Roedd y gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn agored iawn ac roedd ein cyfarfod gyda phob un ohonynt yn awgrymu iddyn nhw y byddai gwerth rhwydweithio llawer mwy.

## 9. DYFODOL Y RHAGLEN BOLISI SY’N BERTHNASOL I POBL MEWN CYMUNEDAU

### 9.1. Crynodeb o asesiad Pobl mewn Cymunedau hyd yma

9.1.1. Mae perfformiad Pobl mewn Cymunedau wedi cael ei gyflyru gan y canllawiau gwreiddiol, y broses o wneud bidiau a'r ffordd y cafodd y fenter ei gweithredu gan y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd negeseuon dryslyd ynglŷn â'r hyn yr oedd y fenter i fod i'w gyflawni. Ar y naill law roedd y farn mai menter arbrofol oedd hon, a fyddai'n beilot i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau ac o wneud y gymuned leol yn gyfrannog yn y ddarpariaeth. Ar y llaw arall yr oedd am fod yn gyfnod rhagarweiniol er mwyn paratoi cynllun gweithredu tair i bum mlynedd er mwyn adfywio'r gymuned leol. Wedyn cafodd y fenter ei gweithredu trwy gytundebau contract blwyddyn oedd yn rhoi'r pwyslais ar brosiectau traddodiadol.

9.1.2. Roedd y contractau yn ddull anhyblyg o gyllido, oedd yn canolbwyntio yn rhy benodol ar brosiectau. Mae prosiectau yn dal i gael eu hystyried yn rhai sydd â therfyn amser ac ystyrir na fyddant yn gynaliadwy wedi i'r cyfnod hwnnw ddod i ben. Y farn gyffredinol yw ei bod yn cymryd tair blynedd i adeiladu ymddiriedaeth yn y gymuned. Erbyn i hynny gael ei sefydlu mae'r fenter ar fin dod i ben. Gyda phrosiectau sy'n anelu at weithio'n agos gyda'r gymuned mae angen arian craidd tymor hir. Pe byddai Pobl mewn Cymunedau wedi cael ei sefydlu gyda thair blynedd i weithio ar y gymuned a thair i bum mlynedd arall o Gynllun Gweithredu gallai fod wedi cyflawni'r angen. Ond byddai wedi bod yn fwy anodd gweithio'n agos gyda phobl yn y cyfnod cyntaf am mai prin fyddai deilliannau amlwg y prosiect. Felly mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod rhywbeth yn digwydd yn fuan er mwyn ennyn diddordeb. Yn ymarferol mae modd gwneud hynny, ac

mae hyn wedi cael ei wneud mewn prosiectau Pobl mewn Cymunedau sydd wedi taro cytbwysedd rhwng gweithredu a newid proses, a hynny mewn ffordd sydd wedi cael ei weld yn gwneud gwahaniaeth.

9.1.3. Yn ymarferol, gyda phwyslais y contract ar brosiectau, yr hyn a gollwyd yng nghyfnod Pobl mewn Cymunedau oedd y pwyslais ar newid proses. Roedd mynnu mai awdurdodau lleol fyddai'r partneriaid arweiniol a sianelu pob cyfathrebiad trwyddynt yn cyfyngu ar y potensial i arloesi ac arbrofi. Ni phwysleisiwyd y ffaith nad oes rhaid i arbrofion fod yn llwyddiannus yn eu hamcanion i fod yn llwyddiannus fel arbrofion. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod wedi dweud nad yw'n broblem os yw arbrofion yn methu cyn belled â bod y gwersi yn cael eu dysgu ynglŷn â pham y gwnaethant fethu a beth fyddai'n rhaid ei wneud er mwyn iddynt lwyddo y tro nesaf. Yr hyn oedd ei eisiau oedd trefniadau a phrosesau wedi cael eu sefydlu gan y Swyddfa Gymreig/Cynulliad Cenedlaethol er mwyn mewnnoli gwersi – nid yn unig er mwyn gweithredu'r rhaglen yn llwyddiannus ond hefyd er mwyn datblygu polisi. Mae hyn yn golygu penderfynu sut i gasglu'r gwersi at ei gilydd a phenderfynu pwy fydd yn cael gwybod amdanynt.

9.1.4. Roedd strwythur Pobl mewn Cymunedau yn newydd, gyda Chefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol (Cefnogwr) yn cael ei ddynodi gan y Cyngor a swyddog polisi yn cael ei benodi yn rheolwr llinell i gydgyssylltydd oedd yn cael ei gefnogi gan fwrdd partneriaeth. Ar hyd a lled yr awdurdodau roedd gwahaniaeth yn y pennaeth adrannol a benodwyd yn Gefnogwr. Mae'r strwythurau corfforaethol a ddaeth i fodolaeth yn sgil yr ad-drefnu wedi gadael Datblygiad Gymunedol (yr adran yr oedd y Cefnogwr yn gysylltiedig â hi yn y rhan fwyaf o gynghorau) yn aml yn chwilio am gartref. Mae hynny wedi arwain

at newid y person oedd yn gyfrifol fel Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol.

9.1.5. Rôl y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol yw gwneud i bethau ddigwydd – symud rhwystrau a gwneud yn siŵr bod gwaith y cydgysylltwyr yn effeithiol. Nid oedd hynny yn cael ei ddweud yn blaen ac roedd rhaid i bob PmC benderfynu sut i ddelio gyda'r cwestiwn o reolaeth linell. Mewn rhai amgylchiadau mae'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol yn gallu dylanwadu ar y ffordd y mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau'n lleol. Dylid trafod unrhyw faterion sy'n codi gyda'r person hwnnw felly mae angen sianel uniongyrchol i gyfathrebu rhwng y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol â'r cydgysylltydd. Doedd hynny ddim yn bodoli bob tro. Weithiau roedd y rheolwr llinell yn gweithredu fel cyfryngwr ac nid yw hynny'n briodol. Dylai'r rheolwr llinell fod yn gosod y cerrig milltir, yn cytuno ar dasgau byrion, bychan o ran maint, ac yn monitro cynnydd.

9.1.6. Mae proffesiynoldeb y rhan fwyaf o'r cydgysylltwyr wedi gwneud argraff arnom, ond rydym yn teimlo bod rhai ohonynt wedi cael eu tanseilio gan ddiffyg rheolaeth, diffyg cyfeiriad a diffyg cefnogaeth. Mae hynny wedi eu gadael nhw'n agored i gael eu chwythu gyda pa bynnag agenda oedd gan y cymunedau lleol. Mae gan y cydgysylltwyr wahanol gryfderau ond mae arnynt angen amrywiaeth o sgiliau nad ydynt fel arfer yn cael eu hymgorffori mewn un person. Mae rhai cydgysylltwyr wedi defnyddio arian Pobl mewn Cymunedau er mwyn recriwtio staff cefnogi fel gweithwyr datblygu er mwyn cynyddu yr ystod sgiliau a chau bylchau yn eu harbenigedd eu hunain. Mae hyn hefyd yn datrys un o broblemau y strwythur gwreiddiol, sef bod holl wybodaeth a phrofiad Pobl mewn Cymunedau, mewn egwyddor, yn cael ei ddal gan un person yn unig.

9.1.7. Y ffaith bod y cydgysylltydd yn gyflogedig gan yr awdurdod lleol a'i fod yn gweithio o dan reolwr llinell sy'n rhoi enw i Pobl mewn Cymunedau fel prosiect awdurdod lleol. Mae hyn yn tueddu i greu drwgdybiaeth yn y cymunedau lleol. Mae'r rhwyd wedi cael ei hymestyn yn rownd dau er mwyn cynnwys sefydliadau eraill, megis cymdeithasau tai, partneriaethau strategol lleol ac yn y blaen. Byddem ni'n dadlau y dylai'r rhain fod mor agos ag sy'n bosib at yr ardal leol ac y dylai'r trigolion fod â pherchnogaeth arnynt.

9.1.8. Mae'r Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol wedi bod yn effeithiol pan oedd sianel gyfathrebu uniongyrchol rhyngddo â'r cydgysylltydd fel bod materion yn gallu cael eu codi yn uniongyrchol. Dylai'r sianel yma o gyfathrebu barhau waeth pa strwythur arall o bartneriaeth fydd yn cymryd y rôl arweiniol. Gyda'r cydgysylltydd yn gyflogedig gan y bartneriaeth yn hytrach na gan y Cyngor, ni fyddai'r 'gwarthnod' o fod yn brosiect cyngor yn sefyll a gallai'r bartneriaeth yn darparu'r rheolaeth llinell. Ond rhaid cydnabod na fyddai popeth yn ddifai hyd yn oed wedyn, a byddai'n rhaid cael cefnogaeth wrth gefn o hyd.

9.1.9. Mae nifer o fyrddau partneriaeth Pobl mewn Cymunedau heb gael eu sefydlu yn ffurfiol tan yn ddiweddar, er y bu gan bob un ohonynt fwrdd dros dro. Mae'r byrddau yn cwrdd bob dau neu dri mis. Nid ydynt wedi bod yn arbennig o strategol, ac eithrio yn yr ystyr eu bod wedi datblygu Cynllun Strategol. Ond y mae'n ymddangos bod pobl cymharol uchel wedi bod yn mynychu cyfarfodydd fel bod pobl yn cael eu cadw yn hysbys a bod rhai cwynion yn cael eu datrys.

9.1.10. Yr hyn sydd i'w weld ar goll yw'r gallu neu'r awydd i ddatblygu a rheoli rhaglen o newid yn y ffordd o wneud pethau a pharodrwydd i fynd i'r afael â

phynciau ag â rhwystrau yn hytrach na dim ond ymateb yn syml i anghenion trwy sefydlu prosiectau. Mae llawer wedi mynd ar drywydd gwahanol bynciau trwy sefydlu gweithgorau sy'n dod ag arbenigedd gweithredol at ei gilydd. Yn gyffredinol, yr ydym yn cytuno mai dyma'r ffordd orau ymlaen ond y pwrpas y dylid ei sefydlu i'r gweithgorau hyn yw mynd at wraidd y pynciau ac awgrymu ffyrdd o ymateb yn fwy effeithiol. Un o'r peryglon y soniwyd amdano mewn un o'r Pobl mewn Cymunedau yw eu bod wedi mynd ar hyd llwybr y prosiectau mawreddog a bod muriau anweledig wedi cael eu codi rhwng gwahanol grwpiau.

9.1.11. Mae'n ymddangos mai'r glud sy'n dal y byrddau partneriaeth hyn at ei gilydd yw'r arian sydd ar gael a'r gobaith am arian perthnasol eto. Mae'n amheus a fyddent yn parhau mewn unrhyw ffurf ar ôl i'r cyllid cychwynnol ddod i ben. Yn benodol, nid ydynt yn canfod eu hunain fel cyrff rheoli lleol ac felly mae'n annhebygol y bydd yr awenau yn cael eu trosglwyddo, ar eu hôl hwy, i gorff fydd yn rheoli'r gymdogaeth. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd PmC mae trefniadau dilyniant ar y gweill er mwyn i'r partneriaid ddod â'u prosiectau i ben, ond nid oes gweledigaeth ynglŷn â chymryd rhan yn barhaus er mwyn rheoli'r ffordd mae gwasanaethau yn cael eu darparu.

9.1.12. Er mwyn i strwythur PmC fod yn effeithiol, boed yr awdurdod lleol ynteu rhyw fath o bartneriaeth yn bartner arweiniol, mae'n rhaid cael momentwm yn Adrannau'r Cyngor i fabwysiadu agwedd gorfforaethol, ac i fod yn barod i hyrwyddo gweithio ar y cyd ar draws adrannau. Mae hynny yn dal i fod yn amlwg yn ei absenoldeb o'r rhan fwyaf o awdurdodau. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau eisoes wedi mabwysiadu llywodraethu yn steil cabinet a bydd y cwestiwn o reoli disgwyliadau ar gyfer integreiddio gwasanaethau yn ystyriaeth bwysig dros y

tair i bum mlynedd nesaf.

9.1.13. Mae'r hyn y mae Pobl mewn Cymunedau wedi ei gyflawni yn troi yn bennaf o amgylch prosiectau a gwblhawyd, megis Tai Cymunedol, ardaloedd chwarae, hyfforddiant ac yn y blaen. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu ar y cyd gyda'r gymuned ac maent wedi gwneud argraff ar gynhwysedd cymdeithasol trwy weithio'n agos gyda'r trigolion ar y gweithgareddau. Ond ychydig iawn sydd wedi cael ei gyflawni o safbwynt darparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd sy'n mynd i'r afael â hanfodion y mater, a gyda'r holl ddarparwyr gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd ar y cyd.

9.1.14. Mae tri rheswm am hynny:

- Σ Nid yw Pobl mewn Cymunedau wedi bod yn canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion hynny;
- Σ Ni fu unrhyw fframwaith o fonitro gweithgareddau'r cydgysylltwyr a'r partneriaethau yn barhaus er mwyn darparu gwersi i'w dysgu;
- Σ Mae adnoddau'r Cynulliad Cenedlaethol wedi bod yn annigonol fel na allai reoli'r rhaglen yn effeithiol mewn ffordd a fyddai'n rhoi cyfeiriad i'r rhaglen ac a fyddai'n chwilio am ffyrdd o ddysgu gwersi perthnasol ynglŷn â pholisi.

## 9.2. Y flaenoriaeth ar gyfer newid proses

9.2.1. Mewn llawer o ardaloedd, mae lefelau amddifadedd yn waeth na'r hyn y gall y gwasanaethau prif ffrwd ddarparu ar ei gyfer ac mae angen cefnogaeth ychwanegol i'r ardal. Mae'r gefnogaeth ychwanegol honno, yn rhannol, yn golygu ychwanegu at y gwasanaethau prif ffrwd, megis hyfforddiant a chwaraeon a chyfleusterau hamdden a chwaraeon. Ond mae hefyd yn golygu helpu'r bobl sy'n byw

yn yr ardaloedd hynny i godi eu hunain i'r lefel lle gallant gymryd rhan yn y gwasanaethau prif ffrwd. Rhaglenni adfywio ardaloedd yw'r mecanwaith sy'n ei gwneud yn bosib cyflawni'r canlyniadau hynny ac maent o anghenraid yn canolbwyntio ar brosiectau. Yr her yw darparu atebion holistig i unigolion, aelwydydd a chymdogaethau. Gall y rhaglenni fod yn rhai cynhwysfawr yn cwmpasu pob agwedd ar adfywio, gan gynnwys tai, cyflogaeth, iechyd, addysg, cyfleusterau cymunedol, trafnidiaeth ac yn y blaen. Neu gallant fod yn canolbwyntio ar un agwedd benodol mewn Maes Gweithredu, megis Iechyd, Addysg, Cyflogaeth, Cychwyn Cadarn (Surestart) ac yn y blaen. Mae pob un o'r rhain yn ceisio cau'r bylchau.

9.2.2. Y brif broblem gyda chynlluniau adnewyddu graddfa fawr hyd yma (gyda'r rhai mwyaf yn costio rhai miliynau) yw na fu erioed ddigon o adnoddau i'w galluogi nhw i barhau hyd nes bo'r amddifadedd wedi cael ei ddileu. Dylid cofio nad yw'r arian sydd ar gyfer cynlluniau adnewyddu yn gyffredinol yn ddim ond cyfran fechan iawn o'r cyllid prif ffrwd sydd ar gyfer yr agwedd y maent yn ceisio ei adfywio. Mae ganddynt y potensial o arafu'r dirywiad a hyd yn oed sefydlogi y lefel o amddifadedd – mae rhai hyd yn oed yn gallu gwella'r lefel wreiddiol. Ond mewn byd cystadleuol iawn, rhyw bryd neu'i gilydd bydd yr arian yn dod i ben am bod yr angen yn fwy mewn ardaloedd eraill. Yn gyffredinol, mae'r momentwm yn cael ei golli ond mae rhai ardaloedd yn llwyddo o leiaf i beidio â llithro'n ôl i'r un gyfradd o ddirywiad ag oedd yn bodoli yno cynt.

9.2.3. Mae'r fenter Gwerth Gorau wedi dangos y gellir gwneud gwelliannau yn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyllid prif ffrwd, yn ganolog yn ogystal â mewn awdurdodau ac asiantaethau. Mae llawer o hynny yn bosib oherwydd bod rhai agweddau ar strwythur y ddarpariaeth

bresennol yn aneffeithiol a bod llawer o'r rheolau a'r rheoliadau yn amhriodol. Mae gwerthuso cynlluniau adfywio mawr wedi dangos bod rhaid cymryd agwedd holistig wrth fynd i'r afael â materion o amddifadedd a chynhwysedd cymdeithasol sy'n croesi ffiniau darparwyr gwahanol wasanaethau prif ffrwd.

9.2.4. Mae rhoi'r ddau beth yma gyda'i gilydd yn dangos bod yna botensial i ddod â gweithredu holistig ochr yn ochr â darparu gwasanaethau prif ffrwd. Ond ni all na Gwerth Gorau nac adfywio ardaloedd ddweud sut mae llwyddo i groesi ffiniau y gwasanaethau prif ffrwd sy'n cael eu darparu. Mae angen math arall o fenter – un sy'n archwilio ym mhle mae cyfleoedd posib i integreiddio darparu gwasanaethau prif ffrwd ac yn canfod beth sydd yn rhwystro hynny.

9.2.5. Y cam cyntaf allweddol yw cydnabod nad yw prosiectau sy'n ychwanegu at y ddarpariaeth yn amcan ynddynt eu hunain, er y gallant fod yn ddull o gyrraedd y nod. Y cam nesaf yw cydnabod bod llawer o ddrwgdybiaeth o fewn cymunedau eu hunain, rhwng cymunedau ag awdurdodau lleol, rhwng cymunedau ag asiantaethau, rhwng adrannau llywodraeth leol â'i gilydd a rhwng yr adrannau hynny ag asiantaethau. Felly mae'n rhaid i agweddau newid. Ar ben hynny mae angen gofyn a yw strwythurau sefydliadol, y sianeli cyfathrebu a'u rheolau a'u rheoliadau, yn gallu bod llawn gymaint o rwystr ag o help. Yn olaf, rhaid cydnabod mai pynciau neu achosion (issues) sydd angen eu taclo, ac nid deilliannau – deliwch chi gyda'r achos a bydd y canlyniadau yn gofalu amdanynt eu hunain. Er mwyn deall yr achos, mae angen crynhoi gyda'i gilydd y wybodaeth leol sydd ar gael yngl\_yn â'r grymoedd sydd ar waith yn yr ardal, a gwybodaeth ehangach y gweithwyr proffesiynol. Trwy hynny gellir gweithio allan pa rymoedd sy'n arwain at y

canlyniadau a phenderfynu beth sydd angen ei newid yn y prosesau sy'n creu'r grymoedd hynny.

9.2.6. Os gellir gwneud un newid bychan fydd yn gwella effeithlonrwydd unrhyw ran o'r ddarpariaeth prif ffrwd, byddai modd ailadrodd hynny trwy'r holl gyllideb. Gallai hynny fod o fudd enfawr. Mae'r potensial yn llawer gwaith mwy na dim ond yr hyn y gellir ei gyflawni yn yr ardal lle gwnaethpwyd yr arbrawf.

9.2.7. Mae'r newidiadau proses yr ydym yn sôn amdanynt yn golygu newidiadau yn agweddau unigolion a sefydliadau, newidiadau mewn trefniadau a rheolau sefydliadau, a datblygu sianeli cyfathrebu. Mae hyn yn adeiladu gallu unigolion a grwpiau ac mae'r adnoddau sydd eu hangen yn golygu mwy mewn amser ac ewyllys nag mewn arian mawr ar gyfer prosiectau cyfalaf a refeniw. Does dim un model a wnaiff y tro i bawb felly fydd ailadrodd unrhyw lwyddiant ddim yn hawdd. Bydd rhaid mynd trwy'r un broses bob tro. Does dim llwybr tarw efallai, ond mae modd osgoi ffyrdd sydd ddim yn arwain i 'nunlle.

9.2.8. Nid yw rhoi blaenoriaeth i newid proses yn golygu y dylid cefnogi hynny ar draul adfywiad ardal a chymunedol. Rhaid iddynt gydredeg law yn llaw. Byddai modd archwilio newid proses mewn gwahanol fathau o ardaloedd, ond bydd y gwersi oddi yno hefyd yn hyrwyddo effeithiolrwydd y cynlluniau adfywio am y bydd rhai o'r rhwystrau i weithio'n holistig wedi cael eu dileu.

### 9.3. Newid mewn agweddau

9.3.1. Mae agweddau yn fater pwysig mewn unrhyw newid proses. Mae drwgdybiaeth ac amheuan yn bodoli ynglŷn â'r prosesau cyfredol o ddarparu gwasanaethau ac ynglŷn ag unrhyw barodrwydd i gydweithredu. Nid yw hyn i

gyd ar un ochr: os yw'r gymuned yn amheus o'r cyngor mae'r cyngor yr un mor amheus o gymhellion cynrychiolwyr y gymuned. Mae unrhyw gyfaddawd yn cael ei weld yn arwydd o wendid ac mae pob gweithred yn cael ei barnu yn ôl y fantais a ddaw i chi eich hunan.

9.3.2. Gyda'r bobl yn y cymunedau, mae angen newid eu canfyddiad ohonynt eu hunain fel y gallant weld y gall y newid wneud gwahaniaeth iddynt hwy. Er enghraifft, dyma oedd sylw un cydgysylltydd:

**"Mae pobl sy'n ddi-waith neu sydd â salwch tymor hir yn gweld bod eu cinio ysgol yn cael ei dalu ar eu rhan... Mae eu bywydau yn hollol ddibynol ar asiantaethau statudol, sydd â dylanwad rheolaethol ar eu bywyd. Yr ydych yr hyn ydych am eich bod yn gorfod chwarae gyda'r gwahanol bwysau sydd arnoch er mwyn byw. Os ydych chi'n mynd i'r ysgol leol sy'n gwneud i chi deimlo fel baw ac i'r siopau lleol sy'n edrych fel Beirut yna mae'r cyfan yn mynd yn rhan o'ch tu mewn chi."**

a dyma oedd gan un prifathro lleol i'w ddweud:

**"Awdurdod dros eu bywydau eu hunain. Mae cymaint o bobl yn credu na allant newid pethau. Mae'r diwylliant dibynadwyaeth yn fyw. Mae'r amddifadedd yn seicolegol. Yr amddifadedd economaidd yw'r un lleiaf pwysig. Dyna mae tlodi yn ei wneud i chi fel bod dynol."**

9.3.3. Mae rhai o'r enghreifftiau gorau o lwyddiant Pobl mewn Cymunedau i'w gweld yn y gweithgareddau lle mae pobl yn cymryd rhan ac yn cael eu tynnu allan o rigol dyddiol eu ffordd bresennol o fyw. Maent yn gwneud cysylltiadau cymdeithasol ac yn ymuno â rhwydweithiau newydd ag a grŵp cymheiriaid sydd â normau mwy

cadarnhaol. Maent hefyd yn gweld fod yna fyd tu allan i'w byd presennol nhw, felly mae eu dyheadau yn cael eu codi.

9.3.4. Ond mae llawer o bobl yn dod o deuluoedd sydd â'r math o broblemau sy'n codi rhwystrau o safbwynt cymryd rhan, nid yn unig rhwystrau rhag gweithio ond hefyd, mater llawer pwysicach, rhwystrau rhag cysylltiadau cymdeithasol. Mae'r rhwystrau yn codi allan o amgylchiadau personol, incwm a chostau, problemau mynediad ac, yn arbennig, hunan barch a hyder. Dyna pam mae angen mynd ati mewn ffordd holistig wrth weithio'n agos gyda phobl. Gyda rhai pobl mae'r hanfodol cael gwasanaethau allymestyn er mwyn dod i gysylltiad â nhw, fel y gellir eu hannog i gymryd rhan mewn amgylchedd niwtral. Er enghraifft pobl ifanc mewn grwpiau ar gornel stryd yn datblygu perthynas gyda gweithiwr stryd ar sail ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd. Mae eraill eisiau help i godi eu hunan barch fel y gellir wedyn eu cyfeirio at gefnogaeth a chymorth priodol. Er enghraifft gallai'r henoed fod angen gwelliannau tai, gofal cartref, datrys problemau byw gyda ieuchyd gwael ac yn y blaen, gan dynnu o wasanaethau nifer o asiantaethau.

9.3.5. Ar hyn o bryd, y pwyntiau cyswllt allweddol yw'r gweithwyr proffesiynol rheng flaen. Mae eu hagweddau yn gallu bod yn rhwystr sylweddol ond maent hefyd yn gallu rhoi hwb sylweddol i hunan barch y client unigol. Mae'r cyfan yn dibynnu ar y ffordd y mae'r gweithiwr proffesiynol yn ymateb i broblemau'r client. Os yw'r client yn gorfod neidio trwy gylchoedd er mwyn dal ati yr argraff sy'n cael ei rhoi ar unwaith yw bod y broses yno i helpu'r sefydliad ac nid i helpu'r client. Ond mae unrhyw beth sy'n rhoi'r client yn gyntaf, megis 'siaradwch amdano chi eich hunan a chawn weld beth allwn ni ei wneud', yn ymateb mwy positif sy'n annog y person i siarad. Yn raddol mae'r problemau go iawn

yn dod i'r wyneb ond fe allai gymryd wythnosau i'w dwyn i'r wyneb.

9.3.6. Gallu'r gweithiwr proffesiynol rheng flaen i sefydlu cyswllt un i un rheolaidd gydag unigolion sy'n caniatáu i'r ymddiriedaeth yn y berthynas ddatblygu a datgelu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion y client. Mae ymwelwyr ieuchyd, gweithwyr gofal a gweithwyr ieuenctid i gyd yn staff proffesiynol a all fod yn bwynt cyswllt cyntaf i lawer o bobl. Ond mae rhai sydd ddim yn fodlon gwneud hynny oherwydd y broblem o fynd yn rhy agos at y client – mae'n gallu bod yn straen, yn ymyrraeth ac yn hawdd ei gamddehongli – neu mae'n bosib nad yw patrymau gwaith y sefydliad yn caniatáu i'r cysylltiad gyda'r client barhau'n hir. Sut bynnag, y drefn sydd ei hangen gyda'r bobl hyn yw gweithio ar faich achosion yn hytrach na phicio i mewn ac allan yn awr ac yn y man.

9.3.7. Ond mae problemau gyda datblygu gweithio ar y cyd. Dyma oedd cwyn un athro:

**"Does neb byth yn cydgysylltu gwaith yr heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, ymwelwyr ieuchyd ac yn y blaen. Mae pob un o'r rhain yn gweithio mewn meysydd gwahanol nad ydynt byth yn cael gorgyffwrdd. Mae'r ysgol yn disgyn i ddau faes. Y nef a \_yr beth sydd wnelo ni â ieuchyd. Mae pawb yn cael tomen o arian. Dydi o ddim yn cael ei ddefnyddio yn effeithlon. Mae'n rhedeg o amgylch y gymuned i gyd."**

9.3.8. Efallai bod gan rai gweithwyr proffesiynol rheng flaen agwedd negyddol am mai dyna yw eu ffordd nhw o weithio, ond mae'r rhan fwyaf yn gweithio yn ôl diwylliant y sefydliad sy'n eu cyflogi. Felly mae rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt fel y gallant ymateb yn gyflymach ac yn fwy at y pwynt yn golygu newid yn niwylliant y sefydliad. Y farn ar hyd a lled Pobl mewn

Cymunedau oedd nad yw gwaith cymdeithasol byth yn cymryd rhan yn y mentrau hyn – mae'n rhy gaeth i reolau, mesurau a threfniadau – er enghraifft mae'r fformat wedi ei osod i lawr ymlaen llaw ar gyfer pob un cysylltiad sy'n cael ei wneud. Nid yw'r ystwythder na'r diwylliant a fyddai'n ei gwneud yn bosib gweithio ar y cyd ar gael yno. Ond y broblem yw bod eu gwasanaeth nhw yn bwysig ac mae llawer o bobl sydd ddim yn hoffi'r ffordd y maent yn cael eu darparu, lle mae'r ddwy ochr yn gorfod mabwysiadu safiad gwrthwynebus. Mae hynny yn lliwio eu hagwedd ynghylch gwasanaethau eraill.

9.3.9. Mae agweddau yn bwysig i sefydliadau am eu bod yn tueddu i sefydlu diwylliant y sefydliad, sydd yn ei dro yn penderfynu sut mae'r sefydliad yn darparu ei wasanaethau. Mae hyn yn ymwneud â'r rheolau a'r trefniadau sydd wedi cael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod gweithredoedd yn cyflawni yr hyn y maent i fod i'w wneud. Mae hefyd yn ymwneud â'r y trefniadau adrodd yn ôl sy'n sicrhau atebolrwydd, ac â'r sianeli cyfathrebu sydd rhwng gwahanol lefelau yn y sefydliad. Y rhain sydd yn gosod y fframwaith lle mae gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn gweithio ac yn sefydlu agweddau rheolwyr uwch a rheolwyr canol a fydd yn eu tro yn sefydlu'r diwylliant. A yw rheolwyr canol yn cael yr hawl i fod yn ystwyth ac i ymateb i amgylchiadau ynteu a oes rhaid iddynt wneud popeth yn ôl y llyfr? A yw'r sianeli cyfathrebu a'r trefniadau adrodd yn bodoli i ddim ond gwneud yn siŵr bod pethau yn cael eu gwneud yn iawn ynteu a ydynt yn ffordd y gall y sefydliad ddysgu ac addasu ei ddull o ddarparu fel y mae'r anghenion yn newid?

9.3.10. Y rheolwyr uwch sy'n gosod y cywair. Mae gan yr adrannau neu'r sefydliadau y maent yn eu rhedeg eu strategaethau a'u hamcanion eu hunain a nhw sy'n gyfrifol am weithredu'r

strategaeth honno yn effeithiol ac yn effeithlon. Y broblem yw y gallent fod yn dda iawn gyda strategaeth ac yn dda iawn am addasu'r strategaeth yn ôl y newidiadau a ganfyddir yn y farchnad (anghenion y clientiaid) ond nad ydynt cystal am newid y dull o ddarparu er mwyn cymryd goblygiadau'r strategaeth newydd i ystyriaeth. Mae gallu'r rheolwyr uwch i wrando ar broblemau ac achosion y rheng flaen yn allweddol, fel bod gwersi yn cael eu dysgu a'r hyblygrwydd sydd ei angen yn cael ei roi i'r rheolwyr canol.

#### 9.4. Newid mewn strwythurau

9.4.1. Er mwyn newid agweddau a chanfyddiadau mae Pobl mewn Cymunedau yn gallu gweithio gydag unigolion, fel y mae pob un ohonynt wedi ei wneud, a gyda gweithwyr proffesiynol rheng flaen, fel y mae rhai wedi ei wneud a rhai heb ei wneud. Ond dim ond dwy ffordd sydd ganddynt o weithio gyda sefydliadau, sef trwy'r bwrdd partneriaeth a thrwy'r Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol.

9.4.2. Mae angen newid yn y strwythurau sefydliadol er mwyn sicrhau bod sianeli cyfathrebu yn bodoli rhwng rheolwyr uwch â staff rheng flaen. Dyma'r peirianwaith sy'n achosi gwersi i gael eu dysgu a newidiadau i gael eu gwneud mewn trefniadau, rheolau a rheoliadau. Yn eu tro mae'r rhain yn caniatáu hyblygrwydd er mwyn bod yn fwy effeithiol, ac er mwyn torri ar draws ffiniau adrannol a sefydliadol lle gellir dangos bod hynny yn achosi gwell effeithlonrwydd.

9.4.3. Mae newid sefydliadau yn llwyr yn beth cymhleth ac mae ganddo oblygiadau eang. Dywedodd un Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol fel hyn am y newid o'r Swyddfa Gymreig i'r Cynulliad Cenedlaethol:

**"wedi llwyddo i gael eu sefydliad i ailwampio ei hun, wnaethon nhw ddim newid y ffordd yr oedden nhw'n gweithio, yn cyllidebu, yn llunio polisi. O safbwynt ymateb yn holistig, wnaeth y peth ddim digwydd"**

Gellid dweud yr un peth fwy neu lai am lawer o'r ad-drefnu llywodraeth leol ac am wneud cynhwysedd cymdeithasol yn rhan o'r rhaglen bolisi.

9.4.4. Oherwydd atebolrwydd cyhoeddus awdurdodau lleol ac asiantaethau, ac i raddau llai atebolrwydd sefydliadau eraill, mae risg mewn newid strwythur o gwbl heb gael tystiolaeth am effeithiau'r newid. Felly y rôl y gall Pobl mewn Cymunedau ei chyflawni yw defnyddio ei gysylltiadau trwy'r byrddau partneriaeth a'r Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol (gyda'r cylch gorchwyl lletach a awgrymir yn 3.5.12.) er mwyn rhannu tystiolaeth am y gweithgareddau peilot ac arbrofol sydd wedi gwneud y ddarpariaeth yn fwy effeithiol.

## **9.5. Beth yw'r goblygiadau perthnasol i raglen bolisi Pobl mewn Cymunedau?**

9.5.1. Y goblygiad canolog i raglen bolisi Pobl mewn Cymunedau yw y dylai ganolbwyntio ar adeiladu gallu yn y gymuned leol. Mae hyn, fel y trafodir yn adran 4, yn golygu adeiladu ymddiriedaeth, adeiladu rhwydweithiau ac adeiladu normau cadarnhaol. Mae hyn yn rag-amod yn unrhyw ardal am ei fod yn helpu i greu'r amodau lleol a all gynnal unrhyw gynllun ar gyfer adfywiad cymunedol.

9.5.2. Lle bynnag y mae PmC wedi cael ei sefydlu, y trefniadau dilyniant priodol yw partneriaeth leol gynaliadwy sy'n cael ei pherchnogi gan y gymuned a gan y sefydliadau perthnasol eraill a all weithredu cynllun cutunedig o adfywio'r gymuned.

9.5.3. Ond nid dyna oedd unig bwrpas Pobl mewn Cymunedau. Sefydlwyd y fenter fel rhaglen arbrofol yn beilot ar gyfer ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a fyddai yn hyrwyddo effeithiolrwydd y prif ffrwd cyllid ar gyfer unigolion ac aelwydydd. Mae'r gwersi a godwyd o'r Pobl mewn Cymunedau presennol wedi dangos bod y ffyrdd newydd yma yn cynnwys newidiadau mewn agwedd, mewn strwythurau, mewn rheolau a rheoliadau, mewn trefniadau ac yn y sianeli cyfathrebu.

9.5.4. Rhaid rhoi blaenoriaeth i newid prosesau trwy newid y ffordd y mae'r prosesau hynny yn cael eu llunio a'u gweithredu. Nid yw prosiectau yn ddim mwy na ffordd o wneud hynny, trwy hyrwyddo yr adeiladu gallu sydd ei angen er mwyn caniatáu i'r newid i ddigwydd a bod yn effeithiol, ac i roi enghraifft ymarferol o'r hyn sy'n bosib.

9.5.5. Mae monitro parhaus yn hanfodol er mwyn casglu'r dystiolaeth bod y newidiadau yn gwneud gwahaniaeth ac hefyd er mwyn deall pam eu bod yn gwneud gwahaniaeth. Felly gellir ymestyn y gwersi ymarferol i feysydd eraill a gall llunwyr polisi y Cynulliad Cenedlaethol, yr awdurdodau lleol a sefydliadau eraill gymhwyso y gwersi generig sy'n codi.

9.5.6. Un arall o'r goblygiadau yw nad yw deilliannau'r fenter yr un rhai â'r deilliannau i'r gymuned, sy'n cael eu mesur gan y dangosyddion amddifadedd. Mae'r rheini yn briodol ar gyfer cynlluniau adfywiad, ond gyda menter fel PmC mae angen mesur y gallu sydd wedi ei adeiladu yn y gymuned leol i weithio'n agos gyda'r gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n darparu'r gwasanaethau lleol. Cyn belled ag y bo gwersi yn cael eu dysgu ac yn cael eu hintegreiddio i strwythurau sefydliadol fe fydd y sefydliadau hefyd yn cyflawni deilliannau mewn adeiladu gallu yn ogystal.

9.5.7. Mae mesuryddion yn bodoli ar gyfer adeiladu gallu. Maent yn disgrifio sut mae hunan barch a symbyliad wedi gwella mewn unigolion, sut mae hyder ac ymddiriedaeth mewn cyd-berthynas wedi gwella, sut mae rhwydweithiau wedi cael eu datblygu ac wedi dod yn fwy effeithlon a sut mae'r normau mewn cymunedau wedi dod yn fwy cadarnhaol ac wedi dod yn fwy cyffredin ymysg y bobl. Maent yn fesuryddion mwy meddal na deilliannau ac nid ydynt fel arfer yn cael eu cyfrif os nad oes modd dangos eu bod yn arwain at well deilliannau. Ond y realaeth yw nad yw'r buddiannau, yn nhermau deilliannau mentrau fel Pobl mewn Cymunedau yn cael eu hamlygu am rai blynyddoedd wedi'r ymyrraeth.

9.5.8. Mae dau oblygid arall yn codi o natur y fenter. Y cyntaf yw bod rhaid annog y mentrau unigol i gymryd risg. Dylid profi syniadau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau. a dylai'r syniadau hynny fod wedi datblygu allan o ddealltwriaeth ddofn o'r rhwystrau sy'n bodoli. Ac ni ddylid bod ofn y gallai'r mentrau hynny fethu. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gydnabod y byddai gosod system fonitro yn ei lle, i wneud yn siŵr bod gwersi yn cael eu dysgu, yn ddigon o yswiriant rhag y risg o fethu. Dylid rhoi blaenoriaeth i wahanol arbrofion yn ôl y brys sydd i ddatrys y broblem yn hytrach nag yn ôl pa mor debygol yw o lwyddo.

9.5.9. Yr ail oblygiad yw y gellid lleoli'r fenter yn unrhyw le lle mae problemau i fynd i'r afael â nhw, ond yn arbennig mewn llefydd lle mae'n bosib i wersi gael eu dysgu. Mae pa ardaloedd i'w dewis yn ymwneud yn fwy â gallu'r bidiwr i gyflawni, gydag ansawdd cyflawni'r cynllun a gyda'r tebygolrwydd bod gwersi'n cael eu dysgu, nag y mae'n ymwneud â dangosyddion amddifadedd.

## 9.6. Argymhellion ar gyfer prosiectau cyfredol Pobl mewn Cymunedau

9.6.1. Mae Pobl mewn Cymunedau wedi bod yn gweithredu ers dwy flynedd ac yn gweithio yn ôl amcanion y fenter fel y gosodwyd nhw allan gan y Cynulliad Cenedlaethol. Erbyn hyn mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cytuno gyda'u hawdurdodau lleol ar Gynllun Gweithredu ar ôl cynnal gwahanol fathau o ymgynghoriad gyda'u cymunedau. Maent wedi ymgymryd â nifer o brosiectau 'ateb parod' yn bennaf ond hefyd â rhai ymdrechion i weithio'n agos gyda grwpiau client yn eu hardaloedd gyda chyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Maent hefyd wedi cael arian i gyllido rhai prosiectau mwy tymor hir.

9.6.2. Yr hyn sydd wedi bod ar goll yw'r anogaeth i ddatblygu gweithgareddau peilot i archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau. Yn hyn o beth mae angen i'r Cynulliad Cenedlaethol osod fframwaith monitro parhaus yn ei le fel y gall PmC ddefnyddio'r fframwaith hwnnw i archwilio'r gwahanol ystyriaethau a thynnu gwersi ohonynt. Pe byddai hynny yn rhan creiddiol o Cymunedau'n Gyntaf, a bod disgwyl i'r fframwaith monitro fod yn cyfrannu rhan o'r cyllid i barhau, yna fyddai dim problem gosod y fframwaith yma yn ei lle i fonitro'r ffordd y mae'r Cynlluniau Gweithredu yn cael eu cyflawni. Ond dylid cydnabod y gallai'r gwersi fyddai'n codi o hynny awgrymu bod angen newidiadau yn y Cynlluniau Gweithredu. Os na fydd hynny'n digwydd, yna bydd y Pobl mewn Cymunedau presennol yn gweithredu eu cynlluniau gweithredu gan ddefnyddio cyllid oddi wrth Cymunedau'n Gyntaf fel y bo'n briodol.



## 10. GWERSI I CYMUNEDAU'N GYNTAF

### 10.1. Cyflwyniad

10.1.1. Mae proses ymgynghorol Cymunedau'n Gyntaf yn dal i fod ar y gweill. Anfonwyd y ddogfen ymgynghorol gyntaf allan yn Ebrill 2000 a'r ail yn Rhagfyr 2000. Mae'r adran hon o'n hadroddiad yn cynnig rhai awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid datblygu menter Cymunedau'n Gyntaf yng ngoleuni'r gwerthusiad interim yma o fenter Pobl mewn Cymunedau.

### 10.2. Canllawiau ar gyfer gwneud bidiau

10.2.1. Yr ydym yn argymhell y dylai ffocws y fenter gael ei gwneud yn glir, er mwyn pwysleisio natur arbrofol (peilot) y fenter. Er cydnabod y bydd yr angen am brosiectau yn parhau, dylai pwyslais y fenter fod ar geisio dysgu gwersi – gwersi fydd yn gwneud y ffyrdd o ddarparu gwasanaethau lleol yn fwy effeithlon trwy wella prosesau neu wella'r ffordd y maent yn cael eu darparu trwy sicrhau gwell cydgysylltiad a thrwy adeiladu gallu yn yr ardal leol.

10.2.2. Wrth ofyn am enwebiadau dylid gofyn i'r enwebwyr ymateb i'r elfennau canlynol:

- Σ Y bwriad o weithio'n agos gyda phartneriaid;
- Σ Y beirianwaith y bwriedir ei sefydlu er mwyn galluogi partneriaid i weithio gyda'i gilydd, gan gynnwys galluogi'r gymuned i gyfrannu;
- Σ Beth yw'r berthynas rhwng y trefniadau hynny â strwythurau cyfredol, er enghraifft pwyllgorau trigolion ac yn y blaen;
- Σ Syniadau ynglŷn â sut y bydd achosion yn cael eu canfod a'u blaenoriaethu, sut y gellid datblygu ffyrdd arloesol o

weithredu a sut y gellid cynnal cynlluniau peilot mewn partneriaeth;

- Σ Gwybodaeth leol a chynlluniau ar gyfer ymgynghori parhaus;
- Σ Yr amser fydd ei angen ar gyfer y broses o ddysgu ac o adeiladu ymddiriedaeth ymhlith y partneriaid, gan gynnwys y gymuned.

10.2.3. Bydd hynny yn helpu'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeall pa botensial sydd yn yr ardal i ddefnyddio cyllid Cymunedau'n Gyntaf yn effeithiol.

10.2.4. Rhaid manylu yn gwbl ddiamwys ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys yn y bidiau. Dylid gwahaniaethu yn glir rhwng yr agwedd arbrofol â'r ffaith y byddai cynllun lleol sy'n cael ei gyflawni'n dda yn llwyfan ardderchog i gychwyn neu i ail-gychwyn y broses o adfywiad cymunedol yn yr ardal. Rywbryd neu'i gilydd gellid sefydlu Bwrdd Partneriaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer yr ardal ond ni ddylai hynny fod yn brif amcan y cynllun. Dylai'r cynllun Cymunedau'n Gyntaf fynd i'r afael â'r cwestiwn o adeiladu gallu yn yr ardal, o safbwynt unigolion a sefydliadau. I'r pwrpas hwnnw mae arian Cymunedau'n Gyntaf i fod i gael ei ddefnyddio. Mater i'r bartneriaeth ei hun fydd penderfynu, pan fydd y cynllun ar y gweill, ai Cynllun Gweithredu yw'r dull mwyaf priodol o sicrhau dilyniant.

10.2.5. Dylai fod dwy elfen yn amcanion y fenter a'r rheini wedi eu cydgysylltu â'i gilydd:

- Σ Gweithio'n agos gyda'r gymuned a datblygu cyfraniad y trigolion at benderfynu ynglŷn â gwasanaethau lleol;
- Σ Gweithio'n agos gyda darparwyr y gwasanaethau, ar lefel uchel, ar lefel rheolwyr canol, ac yn bwysicaf oll yn y rheng flaen.

10.2.6. Credwn yn wir bod gor-ymgyngori, gan ddefnyddio'r dulliau traddodiadol, yn digwydd mewn rhai ardaloedd. Efallai nad yw hynny'n wir ym mhob ardal a gallai rhai o'r dulliau traddodiadol ddal i fod yn addas mewn rhai ardaloedd. Er enghraifft mae grwpiau ffocws yn dwyn ffrwyth bron bob amser gan rannu dealltwriaeth am y consyrn sydd gan bobl ac am y grymoedd sy'n achosi'r problemau tu ôl i'r pynciau trafod.

10.2.7. Llwyddodd un preswlydd mewn grŵp ffocws i grynhoi gwell ffordd, yn ein barn ni o gael at y trigolion:

**"os cewch chi gastell gwynt, clowniau a pheintio wynebau bydd y mamau ifanc yno efo'u plant bach. Yn fannu yn eistedd ar y glaswellt trwy'r dydd a chan o lager yn eu llaw, mae ganddyn nhw amser i siarad gyda chi. Rydw i'n credu mai dyna'r ffordd ymlaen."**

Y peth sydd wedi gweithio'n dda gyda Pobl mewn Cymunedau yw'r math yma o gysylltiad rhwng gweithwyr proffesiynol rheng flaen a thrigolion, ac yn wir dod â thrigolion i gymdeithasu gyda'i gilydd trwy weithgareddau a ysgogwyd gan Pobl mewn Cymunedau, megis timau pêl droed, grwpiau mam a phlentyn, clybiau cinio, ac yn y blaen – a hynny yn digwydd mewn amgylchfyd difygythiad. Ar y cychwyn, i rai unigolion mae pob amgylchfyd yn fygythiol ac mae'n rhaid i'r broses ddechrau gyda sesiynau un i un er mwyn adeiladu ymddiriedaeth, hyder a hunan barch. Wedyn gellir tynnu'r unigolion hynny i fod yn rhan o'r gweithgareddau gymaint ag y bo modd ac, yn y diwedd, eu tynnu i lefydd lle mae gweithgareddau eraill yn digwydd, fel bod mwy byth o gyswllt cymdeithasol rhwng pobl. Nid oes modd helpu pawb yn y ffordd yma a bydd yr angen yn parhau, i ymestyn allan i gartrefi ac i ardaloedd lle mae pobl, a phobl ifanc yn arbennig, yn ymgasglu at ei gilydd.

10.2.8. Ond wrth galon y fenter mae'r angen i wybod pa faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl, a dadelfennu'r grymoedd a'r ffactorau sy'n creu'r problemau. Dyma broses sydd dim ond megis dechrau yn ardaloedd Pobl mewn Cymunedau, cael gweithwyr proffesiynol rheng flaen i ddod at ei gilydd i feddwl am atebion holistig y gallant fynd â nhw wedyn at eu mam-sefydliadau fel y gallant hwythau gytuno i gymryd rhan. A dyna lle gall y Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol wneud gwahaniaeth go iawn.

10.2.9. Felly dylai'r canllawiau cyntaf am y fenter fod yn pwysleisio'r nodweddion canlynol:

- Σ Menter arbrofol yw hon felly dylid rhoi prawf ar syniadau heb boeni am y risg o fethu, cyn belled â bod gwersi yn cael eu dysgu –sut a pham na wnaeth y ffordd arbennig honno weithio. Bydd methiant yn cael ei drin gydag union yr un parch â llwyddiant os yw'r wers yn cael ei dysgu – yn wir, gall methiant fod yn fwy gwerthfawr am y gall arbed arian wrth arbed eraill rhag gorfod cerdded yr un llwybr;
- Σ Dylai fod gobaith am arian tymor hir (3 – 5 mlynedd o leiaf) ar gyfer y cydgysylltydd i gydnabod yr amser y mae'n ei gymryd i adeiladu ymddiriedaeth, rhwydweithiau a normau cadarnhaol (fel na fydd y cydgysylltydd yn ymadael ar ganol y rhaglen);
- Σ Fe fydd contractau blynyddol ar gael, yn disgrifio'r gweithgareddau, eu seiliau rhesymegol a'r gwersi a ddisgwyllir – ond byddant yn cael eu rhai allan un ar y tro yn hytrach na'u bod yn cael eu penderfynu ar y dechrau. Fel hynny bydd pob contract yn adeiladu ar yr un oedd o'r blaen;

- Σ Mae yna ardaloedd lle mae rhywbeth yn cael ei wneud yn barod – felly rhaid pwysleisio'r angen i egluro sut y byddai'r fenter yn ffitio gyda hynny.
- Σ Mae yna ardaloedd lle nad oes unrhyw gefndir na phrofiad o adfywiad – mae angen dod o hyd i ffyrdd o adeiladu hyder yr ardaloedd hyn fel y byddant yn fodlon ymateb;
- Σ Dylai bidiau nodi a mynd i'r afael ag un neu fwy o bynciau thematig er mwyn asesu beth y gall darparwyr gwasanaethau presennol ei wneud trwy weithio ar y cyd, os mai dyna'r ffordd briodol o ymdrin â'r problemau sylfaenol;
- Σ Ffocws ar herio diwylliannau sydd mewn rhigol yn y gymuned â'r sefydliadau;
- Σ Cydnabyddiaeth glir y bydd rhaid goresgyn amheuon a drwgdybiaeth yn gyntaf;
- Σ Argymhellion ar gyfer monitro parhaus a fydd yn gwneud yn siŵr y bydd partneriaid a'r Cynulliad Cenedlaethol yn dysgu'r gwersi.

### 10.3. Y broses o wneud bidiau – gwahodd bidiau

10.3.1. Aeth ail rownd Pobl mewn Cymunedau at y sefydliadau yn hytrach nag at yr awdurdodau lleol. Hoffem edrych sut y gweithiodd hynny cyn cadarnhau ein syniadau ynglŷn â phwy i'w gwahodd ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf. Ond credwn y dylai Cymunedau'n Gyntaf fod yn barod i gymryd risg a cheisio cynnwys, ac yn y man dynodi, y partneriaethau (gweithredol neu arfaethedig) sydd fwyaf priodol i'r ardal.

10.3.2. Mater o ddatganoliaeth (subsidiarity) yw'r cwestiwn o pwy i'w gwahodd i wneud bid, a dylai fod yn ddewis yr ardal ei hun trwy gonsensws. Hynny yw, dylai'r awdurdod lleol, yr asiantaethau, y sector

gwirfoddol a sefydliadau perthnasol eraill gytuno ar y sawl a ddewisir. Mae hyn yn awgrymu rhag-ddewis o fewn ardal yr awdurdod lleol, gyda'r cyngor yn derbyn hysbysiad am y fenter ac yn gyfrifol am ddosbarthu'r hysbysiad yn eang o fewn yr etholaeth ac am drefnu'r 'gystadleuaeth'. Ond mae'r awdurdod lleol yn annhebygol o wneud hynny gyda cyn lleied o arian yn cael ei gynnig, heb iddo fod yn ymwybodol o'r buddiannau ehangach a allai ddod o gymryd rhan.

10.3.3. Byddai'r awdurdod lleol wedyn yn enwebu un neu ddau o fidiau cytunedig i'w hanfon at y Cynulliad Cenedlaethol i'w cymeradwyo.

### 10.4. Cyfaint a detholiad

10.4.1. Dylai dewis yr ardaloedd fod wedi ei seilio ar dri maen prawf, ymysg eraill

- Σ A yw'r bidiau yn cydymffurfio â'r amcan a'r meini prawf a osodwyd ar gyfer enwebu?
- Σ A ydynt yn ddichonadwy, yn realistig ac yn gallu gwneud gwahaniaeth go iawn i ddarparu gwasanaethau;
- Σ A ydynt yn debygol o godi gwersi y gellir eu hymestyn i ardaloedd eraill.

10.4.2. Byddem yn awgrymu mai hidlydd cyntaf yn unig fyddai'r sgôr ar y mynegai amddifadedd. Nid yw'r fenter ym mowld traddodiadol mentrau adfywio ac efallai na allai lwyddo yn rhai o'r ardaloedd mwyaf amddifadus.

10.4.3. Mwy o gonsyrn efallai yw nifer y cynlluniau â ragwelir (yn codi at 100, gyda 30 ym mlwyddyn 1). Ar hyn o bryd nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol yw'r strwythur rheolaethol mewnol a fyddai'n ei alluogi i gyfarwyddo a chefnogi Pobl mewn Cymunedau, heb sôn am fenter o'r faint, ac ar y raddfa, hon. Ar ben hynny, y

dystiolaeth o Pobl mewn Cymunedau yw bod swydd y cydgysylltydd yn un anodd iawn a chymhleth, sy'n gofyn ystod mwy eang o sgiliau nag sydd gan y rhan fwyaf o weithwyr datblygu.

10.4.4. Byddem yn argymhell cychwyn yn llawer mwy araf er mwyn rhoi cyfle i strwythur rheolaethol gael ei osod yn ei le ac er mwyn cael amser hefyd i sefydlu proses o ddysgu gwersi, peth arall nad yw'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd angen cefnogaeth ddigonol, gyda staff craidd llawn amser a pharodrwydd i weithio'n agos ac yn uniongyrchol gyda pob un o'r cynlluniau. Yr ydym yn cydnabod y gallai fod yn amhosib dynodi y fath adnoddau ond y prif bwynt yw na ddylai adnoddau fod mor brin fel ag i achosi yr un camgymeriadau ag a wnaethpwyd gyda Pobl mewn Cymunedau – bod heb ddigon o amser i gyfarwyddo'r fenter, peidio â dysgu unrhyw wersi a methu ag ymateb yn ddigonol i ymholiadau a phroblemau PmC, sydd i gyd yn bethau a erydodd ryw gymaint ar y gefnogaeth i'r fenter yn yr ardaloedd PmC.

10.4.5. Mae'r broblem personél yn un fwy anodd byth. Yr hyn a wnaeth 'Working for Communities', a gafodd ei sefydlu gan Adran Weithredol yr Alban, oedd sefydlu prosiect cyfochrog er mwyn datblygu deunyddiau hyfforddi ar gyfer gweithwyr datblygu cymunedol. Comisiynwyd Sefydliad Datblygu Cymunedol yr Alban (S.C.D.F.) i ddarparu cyrsiau. Mae dau offeryn : ABCD sydd yn gwella darpariaeth datblygu cymunedau a LEAP sydd yn gynlluniau i ddatblygu dysgu cymunedol. Gofynnwyd i'r prif bartneriaethau adfywiad, sef y Parneriaethau Cynhwysedd Cymdeithasol (SIP) a Thywyswyr Working for Communities enwebu pobl ar gyfer cwrs 8 diwrnod – 3 ar gyfer y fframwaith polisi, 2 ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a 3 ar gyfer technegau a dulliau cyfranogi. Yr

ydym yn awgrymu bod angen rhywbeth yn debyg yng Nghymru, er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n gallu cyflawni rôl y cydgysylltydd.

## 10.5. Canllawiau ar gyfer gweithredu

10.5.1. Mae swydd y Cefnogwyr Cynhwysedd Cymdeithasol yn syniad rhagorol ond mae'n rhaid manylu yn fwy gofalus ynglŷn â'u rôl. Pwrpas y rôl yw datblygu rhwydweithiau anffurfiol o fewn awdurdodau lleol ac, os yn briodol, gydag asiantaethau eraill, cael y rheolwyr canol i weithio gyda'r broses Cymunedau'n Gyntaf a chyfathrebu'n rheolaidd gyda'r cydgysylltydd a bod â'r gallu i ymateb yn gymharol gyflym i faterion sy'n cael eu codi.

10.5.2. Mae gan y Cefnogwr Cynhwysedd Cymdeithasol ddisgresiwn ynglŷn â'r math o reolaeth linell fydd yn cael ei sefydlu, ond fe ddylai fod yn rywun sy'n dealdatblygu cymunedol, a sydd â phrofiad o'r math yna o waith. Y pwrpas yw gwneud yn siŵr bod cynlluniau darparu blynyddol yn cael eu paratoi a'u gweithredu a bod gan y cydgysylltydd ei gerrig milltir i'w cyrraedd, hefyd monitro cynnydd o ddydd i ddydd a helpu i ddatrys problemau gweinyddol ac achosion.

10.5.3. Yr ydym yn argymhell contract gyda'r cydgysylltydd am leiafswm o dair blynedd, ond bod cynllun darparu blynyddol i gael ei gytuno bob blwyddyn. Byddai cynllun darparu yn cael ei gytuno ar gyfer y flwyddyn gyntaf, ac yn cael ei gymeradwyo adeg y bid. Yn wir, dylai hynny fod yn rhan o'r bid am ei fod yn rhoi'r disgrifiad gorau o'r ffordd y bydd y cynllun yn cychwyn. Byddai cynllun darparu newydd yn cael ei gymeradwyo bob blwyddyn ar gyfer gweithgareddau sy'n adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd y flwyddyn cynt.

10.5.4. Dylai'r cydgysylltydd gael ei benodi gan y bartneriaeth os yw'r bartneriaeth wedi cael ei chyfansoddi'n briodol, neu gan bartner arweiniol gyda chytundeb y bartneriaeth. Y dewis gorau fyddai dod o hyd i gartref sy'n galluogi'r cydgysylltydd i gael ei hunaniaeth ei hun tra ar yr un pryd yn gallu cynnig cefnogaeth rheolwr llinell sy'n meddu ar sgiliau datblygu cymunedol ac a allai, os bo angen, argymell a chanfod cyfleoedd hyfforddi.

10.5.5. Dylai'r cynllun darparu gynnwys eglurhad o'r ffordd y bydd ymgynghori gyda'r gymuned yn cael ei ddatblygu fel gweithgaredd barhaus. Dylai cydgysylltwyr gael eu hannog hefyd i ddatblygu rhwydweithiau anffurfiol ac i ymgynghori yn barhaol gyda gweithwyr proffesiynol rheng flaen.

## **10.6. Canllawiau ar gyfer monitro a gwerthuso**

10.6.1. Mae'n hanfodol sefydlu fframwaith monitro parhaus sy'n gallu rhoi gwybodaeth am y trefniadau gweithredol o ddarparu'r cynllun lleol ac a fydd yn darparu gwersi mewn ffurf y gall partneriaid yn lleol ac

mewn ardaloedd eraill, yn ogystal â'r Cynulliad Cenedlaethol, eu defnyddio.

10.6.2. Byddai'r fframwaith barhaus yn holl-gynhwysol, yn berthnasol ym mhob ardal a byddai'n cynnwys gwaelodlin ar gyfer prosesau, dull o gadw trac ar y gweithgareddau a dull o gofnodi'r achosion a'r atebion sy'n codi. Hefyd ffordd o fynegi y gwersi generig sydd wedi cael eu dysgu ac sydd o ddefnydd i bobl eraill.

10.6.3. Mae angen ysgrifennu canllawiau fydd yn dwyn staff cefnogol y cynllun a'r partneriaid i mewn i'r broses fonitro fel bod ganddynt berchnogaeth ar y broses ac fel eu bod yn cyfrannu ati ac yn ei rheoli. Mae hyn yn golygu y dylai'r fframwaith gael ei datblygu yn gynnar yn y flwyddyn gyntaf gyda chyfraniaid y partneriaid a'r ardaloedd lleol.

10.6.4. Mae'n allweddol bod y Cynulliad Cenedlaethol o'r cychwyn cyntaf yn arwain y broses hon o wreiddio'r drefn o fonitro a gwerthuso. A bod y cynulliad hefyd yn sefydlu sianel addas, ynghyd â gweithgareddau cysylltiedig, fydd yn caniatáu dysgu a mewnnoli'r gwersi.